John Owen
John Owens
John Owens
1810

FROM THE LIBRARY OF

REV. LOUIS FITZGERALD BENSON, D. D.

BEQUEATHED BY HIM TO

THE LIBRARY OF

PRINCETON THEOLOGICAL SEMINARY

SCB
2166

Job William

John

Owens

1811

12 3 4 5 6 7 8 1

8 9

Molwch
yr Arglwydd

gennys

Duw or Angland

S. S. Euen owenes

John Owens

Johwes

Jowaws

Johnowen

Johnwones

Jones gowe aw

John owens

yn llwaddyn

1880 1810

yn llw

John owen

yn

John Owens

John
Owens
Mi ganef am Dygw
ad mi ganef am dy g
ras Dynarwn
o dir y cwm
onaeth
John Owen

John Owens

# PIGION

O

# HYMNAU, &c.

O WAITH AMRIW AWDWYR; PERTHYNOL I ADDOLIAD EGLWYSIG Ä THEULUAEDD.

CLODFORAF YR ARGLWYDD Ä 'M HOLL GALON, YNG-HYMANFA Y RHAI UNIAWN AC YN Y GYNILLEIDFA.
*Psal. cxi:* 1.

SION MOLIANNA DY DDUW. *Psal. cxlvii.* 12.

*UTICA:*

ARGRAPHWYD GAN IRA MERRELL.

1808.

John H Owens

# At y Darllenydd.

FEL y mae Duw yn ei ddoeth ragluniaeth wedi trefnu preswylfod amriw Deuluoedd o hiliogaeth yr hên gymru yn Utica ä Steuben, yn Nhalaeth Caerefrog Newydd, (neu New-York) gogledd America, a rhan fwyaf o honom yn fur or iaeth saesneg. Darfu Duw oi râs dueddu amriw o honom i osod i fynu grefyddol addoliad yn yr Iaith Gymraeg; yn ol trefn yr Independiaid; a Duw a lwyddodd ein hymdrechiadau tuhwynt in disgwiliadau yn y dechreu; er dan lawer o anfanteision mewn cydmarieth in Brodur yn yr hën wlad, un anfantes neulltuol yw diffig o lyfrau defnyddiol a duwiol, yn ein hiaeth ein hunain; ar anhawstra yw cael o Gymru hefyd sydd fawr.— Ac fel y mae amryw yn ein plith heb un llyfr Hymnäu, ac yn fawr am ei cael; ac hefyd y byddau 'r un llyfr hymn yn llaw pob un yn gynhorthwy mawr ir côf; ac yn help i ganu ar deall yn gystal ac ar yspryd, yn yr addoliad cyhoeddys. Ar y golygiadau uchod ar cyffelub yr oedd pawb yn ein plith dros argraphu hun o lyfr. Ac ni gawsom anogaeth gan amriw on Brodur y Bedyddwyr i fyned ar gwaith ymlaen. Canus yr oedd yn eglur i bawb o bob plaid nad oedd un elw bydol i neb mwy nai gilidd i ddisgwil oddiwyrtho.

Ac yn awr nid oes genym ond ei gyflwyno i ofal yr Arglwydd; gan obeithio y bydd iddo ei wneud yn llawer o fendith i bob Enaid ai darlleno neu ai cano, er ei ogoniant ei hun, trwy Iesu Grist—AMEN.

*UTICA,* MAY 3, 1808. J. O.

John Owen

# HYMNAU.

## HYMN 1.

*Ffordd newydd a bywiol.*

1 DYMA babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed;
Dyma noddfa i lofruddion,
Dyma i gleifion Feddyg rhad:
Dyma fan yn ymyl DUWDOD,
I bechadur wnëyd ei nyth;
A chyfiawnder pur y nefoedd,
Yn siriol wenu arno byth.

2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser,
I gael dïangfa o ddrygau 'r ddraig;
Mewn addewid gynt yn Eden,
Fe gyhoeddwyd HAD Y WRAIG:
Ffordd i gyfiawnäu 'r annuwiol,
Ffordd i godi 'r marw yn fyw,
Ffordd gyfreithlon i droseddwr,
I hêdd a ffafr gydä Duw.

3 Wele, Sinai a Chalfaria,
Heddyw wedi do'd ynghyd;
Sylwedd mawr yr holl gysgodau,
Yn wynebu'r dwyfol lîd.
Dacw'r cleddyf wedi deffro,
*Biliau* 'r ddeddf yn do'd ymlaen;
Dacw aur y gwaredigion,
Wedi ei buro yn y tân.

4 O ddyfnderoedd iachawdwriaeth,
Dirgelwch mawr duwioldeb yw;
Duw y duwiau wedi ymddangos,
Yngnawd a natur dynolryw:

Dyma 'r Person a ddyoddefodd,
Yn ein lle ddigofaint llawn,
Nes i gyfiawnder weiddi, Gollwng
Ef yn rhydd, mi gefais iawn.

5 Dyma Frawd a anwyd i ni,
Erbyn c'ledi a phob clwy ;
Ffyddlon ydyw, llawn tosturi,
Fe haeddai gael ei foli 'n fwy :
Rhyddâwr caethion, Meddyg cle fion,
Ffordd i Sïon union yw ;
Ffynnon loyw. bywyd meirw,
Arch i gadw dyn yw Duw.

## HYMN 2.

*Dyfnderoedd iachawdwriaeth.*

1 BYDD melys gofio y cyfammod,
Draw a wnaed gan DRI yn UN :
Trag'wyddol syllu ar y Person,
A gym'rodd arno natur dyn :
Wrth gyflawni yr ammodau,
Trist iawn hyd angeu ei enaid oedd ;
Dyma gân y saith ugein-mîl,
Tu draw i'r llen, mewn llawen floedd.

2 Fy enaid trist wrth gofio 'r frwydr,
Yn llamu o lawenydd sydd ;
Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
A'r pechadur brwnt yn rhydd :
Rhoi Awdwr bywyd i farwolaeth,
A chladdu 'r Adgyfodiad mawr ;
A dwyn i mewn drag'wyddol heddwch,
Rhwng nef y nef a daear lawr.

3 Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
Dyoddefodd yno angeu loes ;
'Fe nerthodd freichiau ei ddihenyddwyr
I'w hoelio yn greulon ar y groes :
Wrth dalu dyled pechaduriaid,
Ac anrhydeddu deddf ei Dad ;
Cyfiawnder oedd yn hardd ddysgleirio,
A ninnau yn rhydd trwy 'r cymmod rhad.

4 O f' enaid gwel y fàn gorweddodd,
Pen breninoedd, Awdwr hêdd:
Y grëedigaeth ynddo yn symud,
Yntau 'n farw yn y bêdd:
Rhan, a bywyd colledigion,
Rhyfeddod holl angylion nef;
Gwel'd Duw mewn cnawd, a'i gyd addoli,
Mae 'r côr gan weiddi, IDDO EF.

5 O ddedwydd ddydd trag'wyddol orphwys,
Oddiwrth fy llafur yn fy rhan,
Ynghanol môr o ryfeddodau,
Heb waelod, terfyn byth, na glàn:
Mynediad helaeth mwy i barâ,
O fewn trigfanau TRI yn UN;
Dwfr i nofio, heb fyn'd trwyddo,
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

## HYMN 3.

*Haeddiant Crist yn ddigon i bechadur.*

1 PECHADUR aflan yw fy enw
O ba rai y pena 'n fyw;
Rhyfeddaf byth fe drefnwyd pabell,
I'm gael yn dawel gwrdd ã Duw:
Yno y mae yn llon'd ei gyfraith,
I'r troseddwr i gael gwledd;
Duw a dyn yn gweiddi digon,
Yn yr Iesu 'r aberth hêdd.

2 Anturiaf ato yn hyderus,
Teyrnwïalen aur sydd yn ei law,
Estyniad hon sydd at bechadur,
Ni wrthodir neb a ddaw:
Af ymlaen dan weiddi, pechais,
Af a chwympaf wrth ei draed,
Am faddeuant, am fy ngolchi,
Am fy nghànu yn y gwaed.

3 Nid eill y moroedd mawrion llydain;
Guddio pechod o unrhyw;
Ac ni allodd dylif cadarn,
Ei foddi 'n wir, mae 'n awr yn fyw:

Ond gwaed yr Oen fu ar Galfaria,
  Haeddiant Iesu a'i farwol glwy,
Ydyw 'r môr lle caiff ei guddio,
  Byth ni welir mo'no mwy.

4 Ffrydiau tawel byw rhedegog;
  O tan riniog tŷ fy Nuw,
Sydd yn llanw ac yn llifo,
  O fendithion o bob rhyw:
Dyfroedd gloyw fel y grisial,
  I olchi 'r euog, nerthu 'r gwan
Ac a gàna 'r *Ethiop* dua',
  Fel yr eira yn y man:

5 Byw heb wres na haul yn taro,
  Byw heb ofni marw mwy;
Pob rhyw alar wedi darfod,
  Dim ond canu am farwol glwy:
Nofio yn afon bur y bywyd,
  Bythol heddwch sanctaidd Dri;
Tan d'wniadau digymylau
  Gwerthfawr angeu Calfari.

## HYMN 4.

*Ffyddlondeb Duw yn rym i ddysgwyl ymwared.*

1 COFIA, Arglwydd, dy ddyweddi,
  Llama ati fel yr hŷdd;
Ac na âd i'w holl elynion,
  Arni yn hollol gaël y dydd:
O datguddia y colofnau,
  Wnaed i'w chynnal yn y nos,
Addewidion diammodol,
  Duw, ar gyfrif gwaed y groes.

2 Mae bod yn fyw yn fawr ryfeddod,
  Mewn ffwrneisiau sydd mor boeth;
Ond mwy rhyfeddod, wedi 'mhrofi,
  Y do'f o'r cystudd fel aur coeth:
Amser cànu, diwrnod nithio,
  Etto yn dawel heb ddim braw;
Y gwr sydd i mi yn ymguddfa,
  Sydd â'r wyntyll yn ei law.

3 O am dynu o'r anialwch,
I fynu fel colofnau mŵg,
Yn union-gyrchiol at ei orsedd,
Nid oes yn ei wedd ef ŵg:
Alpha, Omega, tŷst ffyddlonaf,
Yw ein IOR a'i air yn un;
Dysgleirio y mae gogoniant TRINDOD,
Yn achubiaeth marwol ddyn.

4 Mae 'r dydd yn d'od i'r had breninol,
I gael mordwyo tu a'u gwlad;
O gaethiwed y priddfeini,
I deyrnasu gyd â'u Tad:
Eu ffydd yno a dry 'n olwg,
A'u gobaith eiddil yn fwynhâd;
Annherfynol fydd yr anthem,
Derchafu 'r Oen a'i werthfawr waed.

5 Berein llesg gan rym 'stormydd,
Cyfod d' olwg gwel y wawr;
Yr Oen yn gweini 'r swydd gyfryngol,
Mewn gwisgoedd lleision hyd y llawr:
Gwregys auraidd o ffyddlondeb,
Wrth ei odre, clychau 'n llawn;
Llwyr faddeuant i bechadur,
Ar gyfrif ei an feidrol iawn.

## HYMN 5.

*Eilynod yn ddim: Crist yn bob peth.*

1 NID oes gwrthddrych ar y ddaear,
A leinw 'm henaid gwerthfawr drud;
Fy unig bleser a'm dyddanwch,
Yw hyfryd wedd dy wyneb-pryd:
Gwedd dy wyneb dyr y c'lymau,
A phob creadur ar y llawr,
Ac a wna enw câr a chyfaill
Yn ddim, er mwyn ei enw mawr.

2 Tywyned haulwen ar fy enaid,
Blinais ganwaith ar y nos;
Nid yw 'm hawddfyd, na'm pleserau,
Na'm heilynod ond fy nghroes;

Mynwes Iesu yw 'm dedwyddwch,
Yno 'rwy 'n dymuno bod;
Fe roe cariad dwyfol perffaith;
Fy holl eilynod dan fy nhroed.

3 Arogli 'n beraidd mae fy *Nardus*,
Wrth wledda ar y cariad rad;
Sêl yn tanio yn erbyn pechod,
Caru delw sancteiddhäd:
Tynu ymaith law a llygad,
Ynghyd äg uchel drem i lawr;
Neb yn deilwng o'i dderchafu,
Ond fy Iesu, Frenin mawr.

4 O am yfed yma beunydd,
O ffrydiau 'r iechydwriaeth fawr;
Nes fy nghwbl ddisychedu,
Am ddarfodedig bethau 'r llawr:
Byw dan ddysgwyl am fy Arglwydd,
A bod pan ddelo yn effro iawn,
I agorud iddo 'n ebrwydd,
A mwynhäu ei ddelw yn llawn.

5 Rhyfeddu a wnaf, a mawr ryfeddod,
Pan ddel i ben y ddedwydd awr;
Cäf wel'd fy meddwl sy yma 'n gwibio,
Ar ol teganau gwael y llawr;
Wedi ei sefydlu yn gyfan,
Ar wrthddrych mawr ei Berson ef,
A diysgog gydymffurfio,
A phur a sanctaidd ddeddfau 'r nef.

## HYMN 6.

*Dymuniad y Cristion am ei wisgo â delw Duw.*

1 LLWYBR cwbl groes i natur,
Yw fy llafur yn y byd;
Ei deithio a wnaf er hyny yn dawel,
Ond i mi gael dy wyneb-pryd:
Codi 'r groes, a'i chyfri 'n goron,
Mewn gorthrymderau, llawen fyw;
Ffordd unionaf er mor arw,
I ddinas gyfanneddol yw.

2 Addurna 'm henaid ä dy ddelw,
Gwna fi 'n ddychryn yn dy law,
I uffern, llygredd, a chnawdolrwydd,
Wrth edrych arnaf yma a thraw:
O am gymdeithasu ä'r enw,
Enaint tywalltedig yw,
Yn halltu 'r byd, gan ber-arogli,
O hawddgar ddoniau Crist fy Nuw.

3 O rhwyga 'r tew gymylau duon,
Sy 'n cuddio gwedd dy wyneb gwiw;
Nid oes bleser a'm dyddana,
Ond yn unig ti fy Nuw:
Can's mör didrai o bob trugaredd,
Yw 'th iachawdwriaeth fawr ei dawn,
A lanwodd, ac a lifodd allan,
Ar Galfaria un prydnawn.

4 Mae fy nghalon am ymadael,
A phob eilynod, fach a mawr;
Am fod arni 'n yn argraffedig,
Ddelw gwrthddrych uwch y llawr:
Anfeidrol deilwng i'w addoli,
Ei garu, a'i barchu yn y byd:
Bywyd myrdd o safn marwolaeth,
A gafwyd yn ei angeu drud.

## HYMN 7.

*Mae efe oll yn hawddgar.*

1 WELE 'n sefyll rhwng y myrtwydd,
Wrthddrych teilwng o fy mryd,
Er o'r braidd yr wy'n adnabod,
Ei fod uwch law gwrthddrychau 'r byd?
Henffych fore, &c. Caf ei weled heb un llen.

2 Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog hardd ei bryd;
Ar ddeng mil y mae 'n rhagori,
O wrthddrychau pena 'r byd:
Ffrind pechadur, &c. Dyma ein llywydd ar y mor.

3 Beth sydd imi mwy a wnelwyf,
Ag eilynod gwael y llawr?
Tystio 'r wyf nad yw eu cwm'ni,

Yw cymharu â'm Iesu mawr :
O am aros, &c. Yn ei gariad ddyddiau f' oes.

4 Gwelaf graig a'm deil mewn 'stormydd,
O gawodydd dwfr a thân ;
Yn wyneb uffern a'i rhuthriadau,
Holl breswylwyr hon a gân :
Cadarn sylfaen, &c. A osodwyd gan y Tad.

## HYMN 8.

*Aberth y groes, a'i ragorol ffrwythau.*

1 O FY enaid nac anghofia,
Ymdreech Iesu yn yr ardd :
Ei riddfanau ef a'i boenau :
Wrth glirio 'n llwyr ei gyfraith hardd ;
Iesu yw 'r Iawn, daliad llawn,
A dyoddefodd un prydnawn,

2 Wele 'r grônyn gwenith nefol,
Wedi syrthio i'r ddaear lawr ;
Gan iddo farw ni bydd unig,
Ei ffrwyth a fydd fel gwlith y wawr :
Cair gweled fry, aneirif lu,
O ffrwyth marwolaeth Iesu cu.

3 Wele 'n chwysu 'r dafnau gwaedlyd,
Ar noswaith rewlyd yn yr ardd ;
Iesu siriol Rhosyn Saron,
O hwn bendithion pawb a dardd :
Ein haberth yw, a'n bara byw,
Dyoddefodd dân digofaint Duw.

4 Dod gyfiawnder y Messïah,
I dd'ôd am danaf i'th wydd di ;
A chyfiawnder egwyddorol,
Anian fywiol ynof fi ;
O na bawn, yn llestr llawn,
O bob rhyw nefol ddwyfol ddawn.

5 Dy air sy ddigon i fy arwain,
Trwy 'r anialwch maith ymlaen,
Mae fe 'n golofn oleu eglur,
Weithiau o niwl ac weithiau o dân :
Llusern yw, oleu wiw,
I oleuo yn deg holl deulu Duw.

## HYMN 9.

*Ganwyd i chwi heddyw geidwad, &c.*

1 O'R nefoedd clywch ar fore clir,
Newyddion daeth i Fethle'm dir;
Fod i ni wedi ei eni un,
Yn gadarn dwr i gadw dyn.

2 Fe ganodd yr angylion fry,
Wir fawrhäd i'n Ceidwad cu:
A pha'm na chanwn ninnau 'n awr,
Wir glöd am eni 'n Ceidwad mawr.

3 Da Feddyg cleifion union yw,
A ffynnon län i'r aflan ryw:
A bara'r bywyd hyfryd hëdd,
I'r rhai tlodion waelion wëdd.

4 Rhyfeddod pob rhyfeddod yw,
Fod Iesu yn ddyn, ac yn wir Dduw;
Ar liniau Mair yn faban gwan,
Yn Dduw presennol yn mhob man.

5 Mae 'n wisg i'r noethion lymion lun,
Mae 'n nerth i'r gweiniaid enwog un:
Mae 'n Fugail da i'w ddefaid oll,
Fe fedr gael y rhai sy ar goll.

6 Mae pob peth ynddo of i'w gael,
Sy 'n eisieu ar bechadur gwael;
Yn ïe mae ac yn Amen,
I'w blant dilyth, mae byth yn ben.

7 Boed gogoniant iddo ar gän,
Trwy 'r ddaear lawr, rhoed mawr a män;
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glän,
'N un Duw o hyd, a diwahän.

## HYMN 10.

*Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd.*

1 CRAIG safadwy dan fy nhraed, wyf yn ei 'mofyn,
O drag'wyddol faith barhäd, rhag y gelyn;
Noddfa gadarn f'enaid yw, minnau gana',
Cododd Iesu o'i fedd yn fyw, Halaluia.

2 Dyma fy mywoliaeth lawn, hêdd fy Iesu,
Mae 'r olwg arno-yn hawddgar iawn, haeddai ei garu ;
Unig gysur f' enaid i, mewn cyfyngdra,
Yw gwerthfawr angeu Calfari, Halaluia.

3 Iesu ein Harch-offeiriad mawr, yn drag'wyddol,
Ei werthfawr waed a roes i lawr, dros ei bobl:
Eiriol y mae ger bron y Tad, yn ddiflino,
Ac yn dadleu gwerth ei waed, Moliant iddo.

4 Aed efengyl gras ar lêd, trwy 'r holl wledydd,
Plygu a wnelo y rhai digred, i Fab Dafydd;
Doed trigolion dae'r a nef, o un galon,
I wel'd mai teilwng ydyw ef, i gael y goron.

## HYMN 11.

*Cwyno gan ormes gelynion.*

1 GELYNION creulon sydd yn llu, i'm gwrth'nebu,
Am hyny attolwg saf o'm tu, Arglwydd Iesu:
Dal fi i'r lân er gwaetha 'r ddraig, a'i holl luoedd,
Rhof finnau 'r clôd i had y wraig, yn oes oesoedd.

2 Os rhaid i'm ddyoddef ar fy nhaith, dywydd garw,
Cadw f' ysbryd yn dy waith, hyd fy marw:
Yn y babell gydā 'r arch, boed fy nghartre',
A chadw yn fy enaid barch, i dy ddeddfau.

3 Er gorfod goddef llawer loes, ar eu teithiau,
Fe ddaw holl bwrcas gwaed y groes, yn iach adre' ;
Er eu gweled yma yn drist, ynglyn wylofain,
Pan d'oent i orphwys gydā Christ, derfydd cwynfan.

4 Maddeu fy mhechodau i gyd, er mwyn Iesu,
Na cherydda fi yn dy lîd, fel 'rwy 'n haeddu :
Grym fy llygredd fo 'n gwanāu, yn feunyddiol,
A'r anian newydd yn cryfāu, yn dra nerthol.

5 'Rwy wedi blino ar y wlad, lle mae pechu,
Am dd'od adre' i dŷ fy Nhad, 'rwy 'n hiraethu ;
Bydd dy hunan Iesu mawr, yn fy nerthu,
Na ād i'm roddi f' arfau i lawr, nes gorchfygu.

## HYMN 12.

*Clodforedd y saint am angeu y groes.*

1 GOLCH, ni, oddiwrth ein beiau aml ri',
Yn afon werthfawr Calfari,
Sydd heddyw yn llif o haeddiant llawn:
Er cymmaint ein hafiendid ni,
Yn dorf ddi-ri' ein golchi a gawn.

2 Rhad, ras, yw 'r newydd gân, bereiddia ei blâs,
Fu erioed ar wyneb, daear läs;
Hi ddeil ei blas, pan losgo 'r byd,
A berwi 'r môr a'i dònau yn dān,
Y nefol gän, fydd gras i gyd.

3 Mae 'r awr, i'm gael yn llwyr fy meiau i'r llawr,
Yn mwriad fy Eiriolwr mawr:
Bu farw ef, cāf finnau fyw,
Er amled yw 'ngelynion cās,
Mae newydd flas, ar air fy Nuw.

## HYMN 13.

*Etholedigaeth gras yn ddiammodol.*

1 RHYFEDDOL byth rhyfeddol, yw cariad rhad fy Nuw,
A redodd yn yr arfaeth, at ddynion gwael eu rhyw;
A'u dewis mewn Cyfryngwr, a'u rhoddi iddo 'n had,
Ac yntau yn ymrwymo eu hadgymmodi a'i Dad.

2 Etholiad heb un ammod, yn sefyll ar y dyn,
Yn tarddu o foddlonrwydd, ewyllys Duw ei hun;
Trag'wyddol heb un dechre, anghyfnewidiol yw,
Mae 'r sylfaen a'r adeilad, i gyd o gynghor Duw.

3 Etholwyd i feddiannu, 'r holl ragorfreintiau drud,
Y moroedd o fendithion sy 'ngwaed Iachawdwr byd:
Cyfiawnder a sancteiddrwydd, a gogoneddiad llawn;
Rhad, rhad fydd anthem Sïon, am fath annrhaethol ddawn.

4 Mae 'r moddion a'r dybenion, mewn cwlwm sicr iawn,
'Does fodd fod gwell sefydliad, mae'n ddoeth, o ras yn [llawn;
Prif ddyben ethol ydoedd, derchafu gras fy Nuw,
Ac wrth wnëyd hyny achub, myrddiynau o ddynolryw.

5 Anfeidrol faith ryfeddol, yw 'r ffordd a drefnodd ef,
I dd'od a'i eiddil bobl, yn iach i ganol nef,
Darparodd ar eu medr, ryw ffynnon bur ddidrai,
Er cysur i'r anghenog, mae 'n golchi 'r euog rai.

6 Mae yma bob cysuron, clôd am y ffynnon lawn,
Myrddiynau yn cael eu golchi heb ddim i dalu iawn;
Rhinweddau 'r ffynnon yma, sy'n parä byth heb drai,
Anturia' finnau iddi, er cymmaint yw fy mai.

7 O f' enaid gwel addasrwydd, y person dwyfol hwn,
Anturia' iddo 'th fywyd, a bwrw arno 'th bwn:
Mae 'n ddyn i gydymdeimlo, ä 'th holl wendidau i gyd,
Mae 'n Dduw i fynu 'r orsedd, ar ddiafol, cnawd, a byd.

## HYMN 14.

*Rhinwedd gwaed y cymmod, yn ddigonol i dawelu euogrwydd.*

1 DAETH i mi iechydwriaeth, trwy eitha' chwys a gwaed,
Mae 'n codi pechaduriaid, o'r dyfnder ar eu traed:
'Dai byth i ymofyn haeddiant, trwy 'r nef na'r ddaear lawr,
Ond haeddiant pen Calfaria, rhinweddau 'r aberth mawr.

2 Pan oedd euogrwydd creulon, yn llosgi fel y tân,
A Satan yntau 'n rhifo fy meiau fawr a män:
Anfeidrol haeddiant Iesu, a wnaeth i'r glorian droi,
A'i nefol ymddangosiad, wnaeth i'm gelynion ffoi.

3 Fe'm siomwyd gan y ddaear, fe'm siomwyd gan y byd,
Fe'm siomwyd gan fy nghalon, yn fwy na'r rhai'n i gyd:
Mewn myrdd o demtasiynau, a mîl o groesau 'r llawr,
Ni safodd neb yn ffyddlon, ond fy Eiriolwr mawr.

4 O Arglwydd dyro olwg, ar dy anfeidrol rym,
Yn wyneb holl ddichellion, a llid gelynion llym:
Un olwg ar dy haeddiant, yr iawn anfeidrol fawr,
A wna i bob gelyn gilio, a chwympo oll i lawr.

5 O Arglwydd Dduw rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth dyn,
Tydi sy'n llywodraethu, y byd, a'r nef dy hun:
Yn wyneb pob rhyw g'ledi, y sydd neu etto a ddaw,
Dod gadarn gymhorth imi, i lechu yn dy law.

6 Er cryfed ydyw 'r gwyntoedd, a chedeirn dònau 'r môr,
Doethineb ydyw 'r Llywydd, a'i enw yn gadarn IOR ;
Er gwaetha dylif pechod, a llygredd o bob rhyw,
Diangol byth heb soddi, am fod yr Arch yn Dduw.

7 O am gael ffydd i edrych, gydā 'r angylion fry,
I fôr yr iachawdwriaeth, dirgelwch ynddi sy';
Dwy natur mewn un Person, yn gyson yno a gaed,
Anfeidrol a thrag'wyddol, yw rhinwedd dwyfol waed.

## HYMN 15.

*Dymuniad enaid llwythog am sylfaen safadwy.*

1 DYMA odfa newydd, O Arglwydd dyro rym,
I ymladd ä phla calon, a llid gelynion llym :
Mae llawer mîl o bethau, am gael fy mhen i lawr,
Nid oes a'm ceidw 'n unig, ond galu 'r Meddyg mawr.

2 A gaiff y fath bechadur, sydd ffiaidd aflan noeth,
O flaen dy orsedd sefyll, pan elo 'r byd yn boeth ?
Pryd hyn caf eglur wybod, beth yw cyfammod rhad,
A chanu i'm Hanwylyd, yn hyfryd dŷ fy Nhad.

3. Wrth geisio gwneuthur pob peth, rwy 'n methu gwneuthu dim,
Wrth geisio concro 'mhechod, 'does ynof ronyn rym :
Wrth fyn'd at bob meddygon, gwaethygu wnaeth fy [nghlwyf,
Anturiaf at yr Iesu, yn aflan fel yr wyf.

4. Am graig i adeiladu, fy enaid chwilia 'n ddwys,
Y sylfaen fawr safadwy, i roddi arno 'th bwys :
Bydd melys yn yr afon, gael craig am deil i 'r làn,
Pan byddo pob ystormydd, yn curo f' enaid gwan.

5. O Arglwydd dysg i'm chwilio, i wirioneddau 'r gair,
Nes d'od o hyd i'r ceidwad, fu gynt ar liniau Mair :
Mae ef yn Dduw galluog, yn gadarn i iachău,
Er cymmaint yw fy llygredd, mae 'n ffynnon i'm glanău.

6. Pa Dduw ymblith y duwiau, sydd debyg i'n Duw ni ?
Mae 'n hoffi maddeu 'n beiau, mae'n hoffi gwrando ein cri :
Nid byth y deil eiddigedd, gwell ganddo drugarău.
Er maint ein hanneilyngdod, mae 'i gariad yn par[hau].

7 Tangnefedd Duw yn ddiball, sydd uwch law deall dyn,
A gadwo ein calonau, a ninnau ynddo 'n un :
A gras ein Harglwydd Iesu, a chariad Un yn Dri,
Cymdeithas dy Län Ysbryd, fo'n hyfryd gydâ ni.

## HYMN 16.

*Am berson ac aberth Crist.*

1 RHYFEDD, rhyfedd gan angylion,
Rhyfeddod fawr yngolwg ffydd ;
Gwel'd rhoddwr bod, cynnaliwr helaeth,
A rheolwr pob peth sydd ;
Yn y preseb mewn cadachau,
Ac heb le roi'i ben i lawr,
Etto dysglaer lu 'r gogoniant,
Yn ei addoli ef yn awr.

2 Diolch byth a chan mil diolch,
Diolch tra bo ynof chwyth ;
Am fod gwrthddrych i'w addoli,
A thestun cān i barā byth ;
Yn fy natur wedi ei demtio,
Fel y gwaelaf o ddynolryw ;
Yn ddyn wedi amgylchu ā gwendid,
Ac yn anfeidrol bywiol Dduw.

3 Pan bo Sinai i gyd yn mygu,
A sain yr udcorn uchaf radd ;
Cāf fyn'd i wledda dros y terfyn,
Yngrym 'r aberth heb fy lladd ;
Mae ynddo yn trigo bob cyflawnder,
Llon'd gwag-le, colledigaeth dyn ;
Yn yr adwy rhwng y ddwyblaid,
Gwnaeth gymmod trwy offrym u ei hun.

## HYMN 17.

*Dedwyddwch yr ochr draw.*

1 OS rhaid wynebu 'r afon donog,
Mae un i dori grym y lli' ;
Iesu f' Arch-offeiriad ffyddlon,
Dyna ddigon byth i mi ;

Yn ie waed caf waeddi concwest,
Ar angeu, uffern, byd, a'r bedd;
Trag'wyddoldeb byth heb bechu,
Yn ogoneddus ar ei wedd.

2 Yn lle cario corph o lygredd,
Cyd dreidio â'r côr yn danbaid fry;
I ddiderfyn ryfeddodau,
Iechydwriaeth Calfari;
Byw i wel'd yr anweledig,
Fu farw, ac sydd etto 'n fyw;
Trag'wyddol anwahanol undeb,
A chymdeithas â fy Nuw.

3 Yno caf dderchafu 'r person,
A osododd Duw yn Iawn;
Heb ddychymyg, llen, na gorchgudd,
A'm henaid ar ei ddelw 'n llawn;
Ynghymdeithas y dirgelwch,
Dadguddiedig yn ei glwy';
Addoli 'r mab i drag'wyddoldeb,
Heb golli 'ngolwg arno mwy.

4 O am barâ i uchel yfed,
O ffrydiau 'r iechydwriaeth fawr;
Nes fy hollol ddisychedu,
Am ddarfodedig bethau 'r llawr;
Byw tan ddysgwyl, am fy Arglwydd,
Bod pan ddel yn effro iawn:
I agoryd iddo yn ebrwydd,
A mwynâu ei ddelw 'n llawn.

5 Nis dichon byd a'i holl deganau,
Foddloni fy serchiadau 'n awr;
A ennillwyd, ëhangwyd,
Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr;
Efe, nid llai, a âll eu llenwi,
Er mai di amgyffred yw;
O am syllu ar ei berson,
Rhyfeddod pob rhyfeddod yw.

6 O na chawn ni dreulio 'n nyddiau,
Yn fywyd o dderchafu ei waed;

Llechu 'n dawel dan ei gysgod,
Byw a marw wrth ei draed ;
Cario 'r groes a phara i chodi,
Am mai croes fy mhrïod yw,
Ymddifyru yn ei berson,
A'i addoli ef fy NUW.

## HYMN 18.

*Hiraethu am adnabod Duw.*

1 O AM dreiddio i'r adnabyddiaeth,
O'r unig wir a bywiol Dduw ;
'r fath raddau a fyddo 'n lladdfa,
I ddychymygion o bob rhyw ;
Credu 'r gair sy'n d'we'yd am dano,
Am ei natur sanctaidd wiw ;
Yn farwolaeth i bechadur,
Heb gael iawn i'w gadw 'n fyw.

2 Mae Duw anfeidrol mewn gogoniant,
Er mai Duw y carriad yw ;
Wrth ei gofio i mi 'n ddychryn,
I mi ddolur, ac yn friw ;
Ond yn mhabell y cyfarfod,
Mae 'fe yno yn llawn o hêdd ;
Yn Dduw cymmodlon wedi eistedd,
Heb ddim ond heddwch yn ei wêdd.

3 Yno mae fy mwyd a'm diod,
Fy noddfa a'm gorphwysfa wiw ;
Fy meddyginiaeth a fy nhrysor,
Twr cadarn anfethedig yw ;
Yno mae fy holl arfogaeth,
Yngwyneb fy ngelynion cas,
Mae 'mywyd yno yn guddiedig,
Pan b'wi' ymladd ar y maes.

4 Cael Duw yn dad, a thad yn noddfa,
Noddfa yn graig, a'r graig yn dŵr,
Mwy nis gallaf ei ddymuno,
Yn dd'ogelwch im' mewn tān a dw'r ;
O hono ef mae fy nigonedd,
Ac ynddo trwy fyddinoedd af,
Hebddo eiddil gwan a dinerth,
Colli 'r dydd yn wir a wnaf.

## HYMN 19.

*Duw yu ddigon yn wyneb pob gelyn.*

1 YMAE torf o 'lynion creulon,
Am fy nghael yn lān i lawr ;
Ac yn gwaeddi am fy mywyd,
Gwynfyd, meddant, welai 'r awr :
Dwyfol allu, dal fi 'fynu, rhag fy maeddu,
Y'ngwyneb torf o elynion cas.

2 Addewaist ti na'm rhoit i fynu,
Ac na'm llwyr adewit chwaith ;
Ond y rhoit i'm' y dyddanydd,
Pur i'm harwain ar fy nhaith :
Rho i mi brofiad, trwy dy gariad, o gyflawniad,
Pur addewid fawr y nef.

3 Y mae yn yr addewidion,
Foroedd mawrion heb ddim trai ;
O gysuron i drueiniaid,
Pechaduriaid mawr eu bai :
Fel y cefnfor, ac yn rhagor, y mae trysor,
Addewidion mawr fy Nuw.

## HYMN 20.

*Can newydd i'r Oen a laddwyd.*

1 WELE'r Gogoniant mawr a fedd
Yr Oen ar Orsedd Nefo'dd :
Par'towch i'w Enw newydd Gān,
Na cha'dd o'r bla'n ei hadrodd.

2 Boed i Henuriaid blygu o'i fla'n,
A'r Eglwys lan addoli ;
A Phiolau llawn o 'roglau per,
A Th'lynau'u mwyn ber foli.

3 Y rhei'ny yw Gweddiau'r Saint,
A'r Hymnau maent yn ganu :
Hoff yw ein Mawl gān *Iesu* mwyn,
A gwrando'n Cwyn mae'n garu.

4 Trag'wyddol Dad pwy gaiff heb gel
Edrych i'th ddirgel 'Wyllys ?
Y Mab a gymmer y Llyfr cae
I ddadgloi 'i Seiliau dyrus.

5 Dy Arfaeth fawr fe a'i cwblhä,
Y Mab yn dda a'i haeddai ;
Wele'n ei Law Allweddi'r Nef,
Ac Uffern gref ac Angau !

6 I'r Oen a laddwyd gynt, y b'o
Byth Deyrnged o Fendithion ;
Gogoniant, Parch, a Mawl, *Amen*,
F'o ar dy Ben fel Coron.

7 Ti brynaist ein Henidiau â Gwa'd,
Gan ddwyn rhyddhäd in' felly,
Brenhinoedd, 'Ffeiriaid gwnaethost ni,
Cawn gyd à thi deyrnasu.

8 Y grasol a'r naturiol Fyd
I'th Law i gyd meddiennaist ;
Nac oeda'n hir ond tyr'd i lawr,
A dwg yr awr addewaist.

## HYMN 21.

*Gwahoddiad yr Efengyl,* nue *Fwyd a Gwisgad Ysprydol.*

1 GWrandawed Clustiau pob Dyn byw,
Llawened pob rhyw Galon,
Mae Udgorn yr Efengyl fwyn
Yn galw'n addfwyn arnom.

2 Pob Enaid yn newynog sy'
Ar Wynt a fu'n ymborthi,
Na ddichon holl Deganau'r Byd
Mo'ch Enaid drud ddigoni.

3 Doethineb Duw darparodd hi
Wledd i gael llonni Eneidiau ;
A geilw bawb sy'n blysio'r ffâr
I brofi ei Harlwyadau.

4 Dewch chwi sy'n blysio'r Ffrydiau byw,
A'ch henaid gwiw ar drengu ;
Cewch dorri'ch syched yma'n siwr
A'r bywiol Ddw'r a bery.

5 Afonydd Gras a Chariad sydd
Fel Môr di-ddyspydd yma,
Llawn Iechydwriaeth i'r rhai blin,
Fel Llaeth a Gwin ddylifa.

6 Chwy-chwi sy'n dlawd a noethion iawn
Yn gweithio'n llawn Gofidiau,
I wneuthur Gwisg o'ch eiddo 'ch hun
Na chuddia 'r un o'ch Beiau.

7 Dewch, gwisgwch eich Heneidiau byw,
A'r Wisg gan Dduw ddarparwyd,
A wnaed trwy Lafur ei Fab rhad,
Ac yn ei Wa'd y lliwwyd.

8 Duw mawr, Trysorau'th Râs a geir
Fel bythol Aur-fwyn gloddiau,
Fel ein Trueni, dyfnion yn',
Di-derfyn fel ein Beiau.

9 Pyrth hyfryd Gras y 'Fengyl sydd
Y Nos a'r Dydd yn agor;
Duw, i ddiwallu'n Heisiau gwael
Ni ddewn i gael o'th Drysor.

## HYMN 22.

*Addewidion y Cyfammod Gras.*

1 DIFYRRU'N Hoes mewn ofer hynt
'R y'm ni ' gasglu Gwegi a Gwynt;
Y Byd a'r goreu o'i Bethau da
Newynu Enaid Dyn a wna.

2 Dewch i gael Bwyd i'ch Henaid byw,
Sydd fwy sylweddol gan eich Duw,
O'r fath a fwytty Angylion fry
A'r seintiau mewn Gogoniant sy'.

3 Duw a'n diwalla ni'r un wedd,
A lleinw ein Calonnau â Hedd;
Trwy Lw ac Ammod cadarn iawn
Mae'n rhoi o'i Ras Helaethrwydd llawn.

4 Dewch, fe wna'n Henaid brwnt yn lân,
Fe ylch ein Brychau fawr a mân,
Mewn ffynnon werthfawr, sef yr hon
A ddaeth o ystlys *Crist* a'i fron.

5 Ein holl Euogrwydd ffwrdd a ffy,
Er bod ei Liw fel Uffern ddu;
I'r Mor ein Beiau teflir hwy,
Na's gellir cael mo honynt mwy.

## HYMN 23.

*Gwynfydedigrwydd Amser yr Efengyl, neu Ddatguddiad o Grist i'r* Iuddewon *a'r* Cenhedloedd.

1 MOR hardd yw Traed y rhei'ny sy'
Yn sefyll ar fryn *Seion* fry,
Yn dwyn i'n Iechydwriaeth wiw,
A Geiriau Heddwch oddi wrth Dduw.

2 O pa mor felus ac mor fwyn
Yw y Newyddion maent yn ddwyn!
Gwel, *Seion*, dy Waredwr mawr,
A'th Frenin yn teyrnasu 'n awr.

3 Ein Clustiau dedwydd yw y rhai'n
Sy'n gwrando'r hyfryd siriol sain,
Brenhinoedd a Phrophwydi fu
Am glywed hon, ni chlywsant hi.

4 A'u llygaid dedwydd y'nt yn wir,
Sy'n gwel'd Goleuni 'r 'Fengyl bur;
Hir ddisgwyl hwn y bu'r hen Saint,
A marw heb ei wel'd a wnaent.

5 Y Gwiliedyddion o un fryd
Dyrchafant Lef i ganu 'nghyd;
*Caersalem* dyrr i maes mewn Cân,
A'r lleoedd anial, llawenhân'.

6 Dinoethi ei Fraich mae'n Harglwydd mawr,
Ar led dros Wyneb daear lawr;
Caffed Cenhedloedd o bob rhyw
Wel'd eu Hiachawdwr mwyn a'u Duw.

## HYMN 24.

*Gorfoledd Ffydd,* neu *Gariad anghyfnewidiol Crist.*

1 PWY ddamnia'r Etholedig rai?
Can's Duw sydd yn eu cyfiawnhau;
A Gwaed yr Oen fel Ffrwd neu Nant
Yn tynnu eu Pechodau i bant.

2 Pwy farna'r Saint i Uffern mwy?
*Crist* a fu farw drostynt hwy;
I gwpla'r Iechydwriaeth wiw,
Cyfododd ef o farw i fyw.

3 A byw yw ef, mae'n eistedd fry,
Dros byth i eiriol drosom ni;
Oddi wrth ei Gariad pwy'n gwahân?
Neu'n temtia i anobeithio'n lan?

4 Nid erlid mawr, na thrallod maith,
Newyn na Chledd na noethni 'chwaith,
Yr hwn a'n carodd a'n cryf ha,
Mwy na Chongcwerwyr fe a'n gwna.

5 Ffydd sy'n gorchfygu a'i Nerth mawr,
Mae'n gorfoleddu yn Angau awr;
Crist yw ein Bywyd ni a'n Grym,
Tro'r Atteg hon ni chwympwn ddim.

6 Nid dim ag allo dynion wneud,
Na Diafol y Cyhyddwr ddweud,
All droi'i Drugaredd ef er hyn,
Neu'n Calon oddiwrth Crist a dynn.

## HYMN 25.

*Ein Gwendid ein hunain a Christ ein Nerth.*

1 PAN glywy'r *Iesu*'n dweud, "Y bydd
"I mi gael nerth yn ol fy Nydd;"
'Rwy'n llawenhau mewn trallod trist,
A'm Pwys ar Ras digonol *Crist.*

2 Ymffrostio'r wyf mewn gwendid gwael,
Nerth Crist fel hyn bydd im' ei gael;
Pan ydwyf wan, 'rwy'n gadarn Glan,
Gras yw fy Nharian, *Crist* yw'm Cân.

3 Mi allaf wneud, neu ddiodde'n rhydd
Bob peth o's f' Arglwydd yno fydd;
O's Poen, bydd Pleser am ei ben,
Tra b'o'i Law asswy dan fy Mhen.

4 Ond o's ymedy Duw unwaith,
A'n gado'n hunain wrth y Gwaith,
O's Profedigaeth newydd ddaw,
Cawn wel'd ein Gwendid maes o law.

5 Fel *Samson* gollei'i Wallt un pryd,
Cwrdd ä'r *Philistiaid* fu iddo'n ddrud;
Ymdrechu ä hwy yn llesg yr aeth,
A cholli'i Lygaid wedi'n wnaeth.

## HYMN 26.

*Buddugoliaeth ar Angau.*

1 O Am gael Ffydd fuddugol fawr
I'm llonni yn fy marwol awr;
I allu gorfoleddu'n hy
Ar Angau a'i holl erchyll Lu.

2 Yn llawen â'm holl Nerth i gyd,
Cawn ganu'n braf ar hyn o bryd;
Y Bedd, p'le mae dy Fost a'th Rym?
Ac Angeu, p'le mae'th Golyn llym?

3 O's tynnwyd Pechod, sicr wy',
Nad oes gad Angau Golyn mwy;
Y Ddêddf am Bechod damnio mae,
Ond Crist fu farw i'm rhyddhau.

4 O diolch fyth i Frenin Nef,
Duw'r fuddugoliaeth ydyw ef;
Congcwerwyr gwnaeth ni'n Angau trist
Trwy'n bywiol Ben a'n Harglwydd Crist.

## HYMN 27.

*Gwyn en byd y Meirw sy'n marw yn yr Arglwydd.*

1 CLywch Lais o'r Nef, cyhoeddi mae,
Gwyn fyd y Meirw, dduwiol rai;
Eu Henwau'n perarogli sydd,
A'u cwsg yn esmwyth yn y Pridd.

2 Yn Iesu marw'n ddedwydd maent,
Mor felus ydyw Hûn y Saint!
Rhydd oddiwrth Bechod gwnaethpwyd hwy,
A Dioddefiadau a Maglau mwy.

3 Ymhell o'r Byd a'i Drafferth trist
Maent yn bresennol gyd â Christ;
Llafurus Waith ei Bywyd brau
Mewn Gwobr mawr diweddu mae.

## HYMN 28.

*Nerth o'r Nefoedd i'r Saint.*

1 O B'le daw'n gwan Feddyliau prudd?
B'le ffodd ein Cryfder ni a'n Ffydd?
A ddarfu i'r Fall a Phechod ladd?
Ein holl gyssuron o bob gradd

2 A 'nghof'som ni'r galluog Iôr
A wnaeth y Ddaear oll a'r Môr?
A all y Fraich a wnaeth bob Peth
Ddiffygio dim neu fyn'd ar feth?

3 Trysorau o Nerth trag'wyddol sy'
Yn ein Jehofa nefol fry;
Rhydd Oruchafiaeth i'r di-rym,
A sathra'i holl Elynion llym.

4 Nerth Dyn yn unig a wanhâ,
A chryfdwr Ie'ngctyd blino wna;
Ond ni fy'n disgwyl wrth ein Duw,
Cawn Nerth fwy-fwy tra f'om yn byw.

5 Saint fel Eryrod hedeg wnant,
A Phrawf o'r gwynfyd nefol cânt
Ne's delont i'r dedwyddol Dir;
Lle mae Digryfwch perffaith pur.

## HYMN 29.

*Yr Yrfa Grist'nogol.*

1 DEffrowch Eneidiau llesg, deffrowch,
Pob Meddwl ofnus ymaith rhowch;
Rhedwch yr Yrfa tua'r Nef,
Trwy gym'ryd Ffydd a Chalon gref.

2 Ffordd gul a dreiniog yw'n ddiau,
Ac yspryd Dynion sy'n llesgau;
Ond y Duw mawr, ei anghofio maent,
Sydd yn 'chwanegu Nerth y Saint.

3 Nerth mawr yr Hollalluog Dduw
Newydd o hyd ac ieuangc yw,
Lleihau na darfod byth ni wna,
I drag'wyddoldeb y parha.

4 Efe yw'r Ffynnon loyw ffrwd-lawn,
Ac yfed byth o honi cawn;
Pan drengo rhei'ny bob yr un
Sy'n pwyso ar eu Nerth eu hun.

5 Chwyrn fel Eryrod ieuaingc hy,
Ni hedwn tua'th Drigfan fry,
Ar Aden Cariad gadarn gref,
Heb flino yn y Fford i'r Nef.

## HYMN 30.

*Gweithredoedd Moses a'r Oen.*

1 MOR gref yw'th Fraich alluog Dduw!
O pwy nid ofnei'th Enw gwiw?
Iesu, mor felus yw dy Ras!
O pwy na charei'r Oen a'i * Dras? *Perthynas.

2 Gwnaeth mwy na Moses, hen Was Duw,
Ein Prophwyd mawr a'n Brenin yw;
Gwaredodd ni o Uffern gaeth,
A dysgu'n Genau i ganu wnaeth.

3 Yn y *Môr Coch* trwy Foses bu
I'r Aiphtiaid foddi a'u holl Lu;
Ond Gwaed yr Oen sy'n cuddio'n Bai,
A boddi'n holl Euogrwydd mae.

4 A Manna porthwyd Israel gynt,
Pan trwy'r Anialwch 'r oedd eu hynt;
Ond Iesu bortha'n Henaid byw,
A'i Gnawd ef, Bara bywiol yw.

5 Moses o bell y gwelodd e'
Wlad Canaan, heb fyn'd byth i'r lle;
Ond Crist a ddwg i'r Nef bob un
O'i Bobl gyd äg ef ei hun.

6 Yna'n Llawenydd fydd yn llawn,
A theimlo Fflam wresoccach cawn;
A chanu'n beraidd iawn heb boen
Gân Moses byth a Chän yr Oen.

## HYMN 31.

*Mawl am Barhad mewn Gras.*

1 I'R unig ddoeth anfeidrol Dduw
Ein Prynwr byw a'n Llywydd,
Rhoed pawb o'r Seintiau sydd yn bod
Dan Wybren Glod yn ufudd.

2 A'i Gariad Hollalluog Ior;
A'i Gyngor ac ä'i Ofal,
Rhag Angau ein gwaredu wna,
A Phechod a phob Magal.

3 Fe a gyflwyna'n Henaid ni
Yn berffaith di-frycheulyd,
Ger bron ei Ogoneddus wedd,
Gyd ä Gorfoledd hyfryd.

4 Yna'r holl Had dewisol fry
Cänt gwrdd o ddeutu 'i Orsedd,
I foli ei Ras ef a'i fawrhau,
A thraethu 'i Wyrthiau rhyfedd.

5 I Dduw ein Prynwr goruwch neb,
Nerth a Doethineb perthyn,
Coronau o Ogoniant byth
A Mawl di-lyth heb derfyn.

## HYMN 32.

*Pechod gwreiddiol;* neu, *Adda y Cyntaf a'r Ail.*

1 O TROWN yn ol i wel'd lle cad
Ein gwael Ddechreuad cyntaf;
Mae'n Nattur wedi 'i dryllio'n drwm,
A'u llygru 'Nghwdwm Addaf!

2 I'r hyn sy' dda gwrthwyneb y'm,
I'r drwg yn hylym hwylus;
Ein Meddwl T'w'llwch yw yn llawn,
A chyndyn iawn yw'n H'w'llys.

3 Ein llunio wnaed mewn Pechod gwael,
Cyn i ni gael Bywioliaeth;
A phan anadlom, gweithio wna
Anwiredd a Marwolaeth.

4 Mor nerthol yn ein Gwaed bob Gwedd
Y gweithia'r Llygredd anfad;
Rhedeg a chyd-gymmysgu mae
Trwy'n holl Wythennau'n wastad.

5 Gwyllt, afiach, fel y Gwreiddyn hen,
A fydd pob Cangen hefyd;
P'odd y disgwyliwn Ffrwythau byw
O'r cyfryw Bren di-fywyd?

6 Pa Ddyn a ddichon ddwyn Peth glân
O fydyr aflan Foddion?
Neu pwy all dynnu Dyfroedd iach
O ffiaidd afiach Ffynnon?

7 Ond ti'r galluog Dduw'n ddiau
A all lanhau'n Naturiaeth,
A Christ a'i Ras gorchfygu wna
Bob Pechod a Marwolaeth.

8 Addaf yr Ail, adferu wna
Adfeiliad Adda'r cynta';
I'r Gallu sy'n ail greu ein Llwch
O seiniwch bawb Hosanna.

## HYMN 33.

*Crist Iesu Oen Duw yn cael ei addoli gan yr holl Greadigaeth.*

1 DEWCH a chydseiniwch hyfryd Gaingc,
A'r holl Angylion cylch y Faingc,
Tafodau deng Mil sydd i'r rhai'n,
Ond un Llawenydd oll a Sain.

2 "Teilwng yw'r Oen ga's farwol Glwy',
"Gael ei ddyrchafu," meddant hwy:
"Teilwng," attebwn ninnau, "yw e',
"Yr Oen fu farw yn ein lle."

3 Ein Harglwydd Iesu teilwng yw
O Barch a Gallu oddi wrth Dduw;
Bendithion mwy nag allom ni
Byth, Arglwydd, roi, a f'o i ti.

4 Boed i Drigolion Nef a Llawr
Ac Awyr, Dw'r a Moroedd mawr,
Ddyrchafu 'i Ogoniant ef a'i Ras,
A rhoi 'i drag'wyddol Glod i ma's.

5 Yr holl Gre'digaeth, āg un Llef,
Fendithio 'i Enw sanctaidd ef,
Sy'n eistedd ar yr Orsedd-faingc,
A byth i'r Oen boed peraidd Gaingc.

## HYMN 34.

*Mabwysiad.*

1 WELE'r fath Gariad rhy fedd rhād,
A roddwyd arnom gan y Tād;
Ni Bechaduriaid farwol ryw,
Ein galw wnaed yn Blant i Dduw!

2 Nid yw beth synn ar hyn o Bryd,
O'a na'n hadweinir gan y Byd;
Ni 'nabu'r Byd 'mo wir Fab Duw,
Sef Crist ei hun, peth athrist yw.

3 Ac nid amlygwyd etto erio'd,
Mor fäwr ryw Ddydd y cawn ni fod;
Ond pan ddisgynno Crist o'r Nef,
Cawn fod yn debyg iddo ef.

4 Ac yn ddiammeu mae pob un
S' a'r Gobaith hwn yn puro 'i hun
Oddiwrth bob Cnawd a Phechod cas,
Yn bur fel Crist, trwy Nerth ei Ras.

5 Am hyn, o's caf, O nefol Dad
Ran fabaidd yn dy Gariad rhad;
I orphwys doed dy Ysprryd di
Fel C'lommen ar fy Nghalon i.

6 Nad i mi mwyach fel caeth-was
Nesau'n ddi-gred at Orsedd Gras
Rho Ffydd i lefain *Abba Dad*,
Ac arddel fi yn un o'th Had.

## HYMN 35.

*Ymofyn am Borfeydd Crist y Bugail.*

1 TYDI'r hwn mae fy Enaid drud
Yn hoffi 'chlaw Cariadau'r Byd;
Mynega i mi, fy Mugail mwyn,
Pa le'r wyt ti'n bugeilio 'th Wyn?

2 Pa le mae'r Graig, pan fyddo gwres,
Sy'n cadw'r Defaid rhag y Tês?
Ynghyd â'th Braidd mae f' Enaid prudd
Yn chwennych gorphwys ganol Dydd.

3 Pa ham, fy Arglwydd, y caf fi
Droi heibio oddi wrth dy Ddiadell di?
'Dyw f' Enaïd bach yn chwennych bod
Yn eiddo neb ond Crist a'i Nod.

4 Dilynaf fi ôl traed y Praidd,
I 'mofyn am dy ber Borfeydd;
Caf yno ryfedd Wledd yn rhad,
Gwerth dy Riddfannau'th Glwyfau a'th Wa'd.

5 Dy anwyl Gnawd sydd Fwyd yn wir,
A'th werthfawr Waed sydd Ddiod bur;
A'r rhai'n y porthir f' Enaid byw,
Ne's dyger adre' i Dŷ fy Nuw.

## HYMN 36.

*Gwledd Cariad,*

1 WELE yma Rosyn Saron mwyn,
Y Lili mae'r Dyffrynnau'n ddwyn;
A Phren y Bywyd heb ei ail,
Ac Iechydwriaeth yn ei Ddail.

2 Fel Lili yn tyfu 'mhlith y Drain,
Neu Bren Afalau 'mysg y rhai'n,
Un wedd 'rwy'n gwel'd fy Mhrynwr drud
'Mhlith Miloedd o Gariadau'r Byd.

3 Tan Gysgod hwn i eiste' des,
I 'mgadw rhag y Poethni a'r Gwres;
A'i Ffrwyth oedd felus iawn ei Flas,
I borthi a llonni f' Enaid lla's.

4 Oddi yno darfu iddo'm dwyn
I Win-dŷ ei nefol Ras yn fwyn;
Fe'm canfu'n llesg fe dannodd Len,
Neu Faner Cariad dros fy Mhen.

5 A bywiol Fara a nefol Win
Fe lawenha'dd fy Nghalon flin;
Agorodd ei Feddyliau 'i hun,
Dangosodd im' mor fwyned yn'.

6 Na 'mad ä mi fy Arglwydd byth,
Ond yn fy Nghalon gwna dy Nyth;
Tyngheda Mhechod ymaith fyn'd,
Heb ddigio mwy na blino'm Ffrynd.

## HYMN 37.

*Cael Crist yn yr Heol a'i ddwyn ef i'r Eglwys.*

1 LLIW Nos, pan oedd hi'n dywyll du
Yn fynych ceisiais f' Arglwydd cu;
A Chalon drist y chwiliwn dro,
Mi ceisiais ef, ni's cefais 'fo.

2 Cyfodais aethum dros y Dref,
Gan holi'n fawr am dano ef,
" Y Gwilwyr glân a welsoch chwi
Yr hwn sydd hoff gan f' Enaid i."

3 Weithiau'n fy Ffordd y cawn i ef
Wrth Gyfarwyddyd llewyrch Nef;
Mi lammwn o Lawenydd llawn,
Ei ddal ef a'i gofleidio wnawn.

4 Mi dygwn ef i Dŷ fy Mam,
Dai f' Arglwydd gydä mi bob Cam;
I 'stefyll Seion, lle mae'r Saint
Yn cael eu geni i'r nefol Fraint.

5 Rhoes yno im' ei Galon fwyn,
Yr hon a wanwyd er fy mwyn;
Rho'is innau f' Enaid iddo 'fe,
Rhwng un a'r llall ca'i Cariad le.

6 Tynghedaf holl Deganau'r Byd
Na ddont i ddwyn fy Heddwch drud;
Na Phechod ynof i'w gyffroi,
A pheri'm Ceidwad ffyddlon ffoi.

## HYMN 38.

*Nerth Cariad Crist, ac Eiddigedd yr Enaid o'i Chariad ei hun.*

1 PWY ydyw hon sy'n deg ei Phryd
Yn teithio fynu o'r anial Fyd?
Gan faint y Blinder mae'n ei ddwyn
Ei phwys sydd ar ei Harglwydd mwyn.

2 Hon yw Dyweddi Crist ein Duw,
A Phwrcas ei Waed gwerthfawr yw:
Ei Chwyn a'u Dymuniadau maent
'R un a Lleferydd pawb o'r Saint.

3 "O gad mewn Argraph f' Enw gwael
"Fod ar dy Law a'th Galon hael;
"Selia fi ar dy Fraich fel Nod,
"Mae eiddo fyth i ti caf fod.

4 "Cryfach nag Angau yw'th Gariad gwn,
"Llifogydd Llid ni's boddent hwn;
"I'r Byd ac Uffern ofer yw
"Byth geisio diffodd Cariad Duw.

5 "Ond ofni Nghalon ddrwg yr wy'i,
"Rhag iddi 'mado oddi wrthyt mwy;
"Am hynny dod dy Enw'n llon
"Fel disglair Sel ar fy nwy Fron.

6 "Ne's dygech i'r Lle, ni ddaw
"Amheuon byth nac Ofn na Braw;
"Rho'n fynych wel'd dy Wyneb di
"A mynych glywi 'ddi wrthyf fi.

7 "Tyred f' Anwylyd, brysia o hyd,
"Cwttoga'r Oriau heb aros cyd:
"Fel Iwrch neu Hydd ehed fy Ner
"Dros ben Mynyddau'r Llysiau per."

## HYMN 39.

*Duw yn preswylio gyd â'r Gostyngedig a'r Edifeiriol.*

1 FEL hyn, medd y goruchel Un,
'Rwy'n llanw Ngorseddfaingc fy hun;
Fy Enw yw Duw, 'rwy'n trigo fry,
Fy Nhrag'wyddoldeb yw fy Nhŷ.

2 Ond disgyn 'rwyf i Fydoedd is,
Mae gennyf ar y Ddaear Lys;
Yr Yspryd gostyngedig briw
Yw'r Drigfan bur wy'n hoffi byw.

3 Yr Enaid isel wrth fy Ngair,
A'r Cystuddiedig a fywhair;
Calonnau drylliog oll iachaf,
A Blinder Meddwl esmwythaf.

4 Am Bechod pan ymdrechw'i ä Dyn,
Gwnaf iddo wel'd ei ffiaidd Lun;
Ond pe bai'm Llid yn mygu byth,
Fe soddei dan fy Nyrnod syth.

5 Dy nawddol Ras a f'o gerllaw,
Rhag in' lewygu dan dy Law;
Fel hyn bydd hyfryd gennym ni
Am Ffordd dy dadol Gerydd di.

## HYMN 40.

*Dydd Gras a Gobaith.*

1 MEWN Bywyd mae gwas'naethu Duw,
Dydd Gras ac Iechydwriaeth yw;
Tra dalo'r Lamp i losgi ma's,
Yr Adyn gwaethaf all gael Gras.

2 Bywyd yw'r Awr a roddes ef
I ochel Uffern, ffoi i'r Nef;
Dydd yw gall Pechaduriaid gwael
Fendithion i'w Heneidiau gael.

3 Y Byw fydd marw, hyn a wyr,
Y Meirw aeth i Angof llwyr;
Fe ddarfu eu Cof a'u Synwyr hwy,
Ni adwaenant ac ni 'dwaenir mwy.

4 Eu Cas a'i Cariad ddarfu 'nawr,
A'u Malais gladdwyd yn y Llawr;
Ni feddant Ran o'r Gwaith na'r Draul,
Nac o'r Trafferthon sy dan Haul.

5 Am hynny'r hyn sydd yn fy Mryd,
Bid i mi wneud â'm Hegni gyd;
Gan nad oes Dyfais Gwaith na'i Wedd,
Na Ffydd na Gobaith yn y Bedd.

6 Nid oes Pardynau i ryddhau
Mewn Bedd, lle'r ydym ni'n nesau;
Ond Angau a Thywyllwch du
Byth yno yn teyrnasu sy'.

## HYMN 41.

*Cyfiawnhad trwy Ffydd, nid trwy Weithredoedd;* neu 'r *Gyfraith yn condemnio, Gras yn cyfiawnhau.*

1 OFER yw Gobaith pob rhyw Ddyn,
Adeiliodd ar ei Waith ei hun;
Wrth Natur Calon pawb sy' ddrwg,
Ffrwyth pur, na Gweithred dda ni ddwg.

2 Yr Iuddew a'r Cenhedlig Ddyn.
A orfydd tewi yn gyttun,
Ac Eppil Adda oll bob Rhyw
Safant yn euog ger bron Duw.

3 Yn ofer ymgais Dynol-ryw
Eu cyfiawnhau gan Gyfraith Duw,
Arg'oeddi a chondemnio o hyd
Yw'r hyn ag all y Ddeddf i gyd.

4 Iesu, dy Ras mor werthfawr yw,
Pan gredom yn dy Enw gwiw;
Derbyn Cyfiawnder mae ein Ffydd
Sy'n cyfiawnhau'r Pechadur prudd.

## HYMN 42.

*Adgenhedliad.*

1 NID Ffurfiau allanol o un Rhyw,
Na dim Defodau a roes Duw,
Nac 'Wyllys Dyn na Gwaed, medd ef,
All godi Enaid fynu i'r Nef.

2 Ewyllys Duw, nid Dysg na Thräs,
A'n crea yn Etifeddion Gras;
Ein geni ar Ddelw Crist Mab Duw
Yn Ddynion newydd rasol Ryw.

3 Yr Ysbryd Glän, fel Gwynt o'r Nef,
Ar Feibion Cnawd anadla ef,
A newid yr holl gnawdol Fryd,
A'r Dyn mewn dull o newydd dyd.

4 Ein Henaid pan fywhair yn wir,
A gwyd o Gwsg Marwolaeth hir;
Ac edrych wnawn ar Bethau'r Nef,
A moli Duw yn llon ein Llef.

## HYMN 43.

*Crist ein Doethineb, Cyfiawnder, &c.*

1 MEWN T'w'llwch 'ry'm, a Chyflwr trist,
Hyd oni oleuer ni gan Grist;
Doethineb ddaw i wella'r Dall,
A'r T'w'llwch ymlid ffwrdd heb Ball.

2 Ein Henaid euog wylo mae,
Ne's gwel'd y Gwaed sy'n cyfiawnhau;
Yna fe ddeffry ac a gân,
*Yr Arglwydd fy Nghyfiawnder glän.*

3 Ein Natur wedi ei llygru mae,
Ei Yspryd ef sy'n ei glanhau;

Mae yn ei Waed fath Rinwedd faith
I olchi a maddeu ar un Waith.

4 Mae Iesu 'n gwel'd y Caethion prudd
Gan Satan mewn Cadwynau sydd;
Y Carcharorion mae'n ryddhau,
A dryllio eu haiarnaidd Iau.

5 Ni, Bryfed diborth, ynnot cawn
Gyfiawnder, Nerth a Doethder Dawn;
Ti, Iesu, yw'n holl Gadernid ni,
Rho'wn ninnau'n hunain oll i ti.

## HYMN 44.

*Llawenydd yn y Nef am Bechadur a edifarhao.*

1 PWY draetha'r fath Lawenydd sy',
Trwy'r holl Gynteddau'r Nefoedd fry,
Pan ddel Afradlon tu a Thref,
Pan aner un Etifedd Nef?

2 Boddloni'n llawen y mae'r Tad,
Wel'd Ffrwyth ei fythol Gariad rhad;
Y Mab yn llon a edrych' lawr
Ar Bwrcas ei Ddioddefaint mawr.

3 A hoffi gwel'd mae Yspryd Duw,
Yr Enaid marw wnaeth e'n fyw;
A Seinctiau ac Angylion glân,
Am Gynnydd Teyrnas Dduw a gân.

## HYMN 45.

*Y Gwynfydau.*

1 GWYNFYD Eneidiau difalch sy'n
Gwel'd pa mor wag a thlotted yn',
Trysorau o Ras cânt yma'n wir,
A fry Goronau o Ogoniant pur.

2 Gwynfyd y C'lonnau drylliog sydd
Am Bechod yn galaru'n brudd;
Gwaed Crist ddylifa drostynt hwy,
Balm yw iacha y dyfna'i Glwy'.

3 Gwynfyd rhai addfwyn sy'n casau
Cynddaredd, Llid ac Ymladdfäu;
Duw a'u diogela, bydd o'u Plaid,
Yn erbyn Gwyr trahaus wrth Raid.

4 Gwynfyd y rhai'n sychedig yw
Am Ras ac am Gyfiawnder Duw;
Cänt eu diwallu a'u porthi'n siwr,
A bywiol Fara a bywiol Ddw'r.

5 Gwynfyd y Trugarogion mwyn,
Sydd yn tosturio a chyd-ddwyn;
Cänt hwythau 'mhob Cyfyngder trist
'R un Cariad gan eu Harglwydd Crist.

6 Gwynfyd y C'lonnau pur trwy Ras,
Sydd yn gwrth'nebu Pechod cas;
Cänt weled gydä Hoffder gwiw,
Y pur a'r difrycheulyd Dduw.

7 Gwynfyd y Tangnefeddwyr glän
Sy'n diffodd Cynnydd Cynnen Dän;
'Tifeddion gwynfyd gelwir hwy,
A Phlant i Dduw, yr hyn sy' fwy.

8 Gwynfyd y rhai sy'n goddef Poen,
A gw'radwydd er mwyn Crist yr Oen;
Cänt orfoleddu'n Nuw trwy Ffydd,
Gogoniant Nef eu Gwobrwy fydd.

## HYMN 46.

*Marw i Bechod trwy Groes Crist.*

1 AAWN ni 'mlaen mewn Pechod cas
Am fod dy Ras yn maddeu?
Neu ail groeshoelio Crist ein Ior,
Ac agor ei holl Glwyfau?

2 Na atto Duw, tra byddo Chwyth,
Na chlywer byth i'r rhei'ny,
Groeshoeliodd eu Pechodau un waith,
Fyn'd eilwaith i'w cyfodi.

3 Na fyddwn mwy i'n Chwantau'n gaeth,
Can's Crist a'n gwnaeth yn rhyddion;
A'n Treiswyr hoeliodd wrth ei Groes,
A rhydddid rhoes i'r Caethion.

## HYMN 47.

*Crist yn anweledig, ac yn cael ei garu.*

1 NID ä'r Golygon marwol hyn
Y darfu'n wel'd yr Iesu;
Ond credu i'w Air ein Henaid mae,
A llawenhau a'i garu.

2 Ni's gwelwn ar y Ddaear hon
'Mo Wyneb llon ein Ceidwad;
Etto'n Hyfrydwch ni bob Cam
Yw meddwl am ei Gariad.

3 A phan y b'o'm yn profi'n wir
Ei Gariad pur oddi uchod,
Ein Henaid sydd yn llawenhau,
A'r Nef sy'n dechreu isod.

## HYMN 48.

*Iechydwriaeth trwy Ras.*

1 EIN Beiau, Arglwydd, llawer y'nt,
A mawr oedd ein Drygioni gynt;
Ynfyd ac ofer fu'n holl Fryd,
A'n Bywyd, Pechod oedd i gyd.

2 Ond f' Enaid mola'r Arglwydd byth,
A char ei Enw tra b'o Chwyth,
Am droi dy Draed o'r Llwybrau gau,
Sy'n dwyn i G'wilydd, Poen a Gwae.

3 Nid trwy Weithredoedd da 'mo'r un,
A wnaeth ein Dwylaw ni ein hun,
Ond trwy Ras Duw'n gwaredu wna'd,
Amlhaodd i ni trwy Grist yn rhad.

4 Oddi wrth Drugaredd hael ein Duw,
Dechreuad ein holl Obaith yw;

A'n Henaid trwy y Dwfr a'r Gwa'd
Oddi wrth ei Bechod ga's Lanhad.

5 Trwy Bwrcas Angeu Crist ein Pen,
Yr hwn fu'n dioddef ar y Pren,
I 'nadlu daeth dy Yspryd di
Ar Esgyrn sychion megis ni.

6 Byw 'ry'm i Dduw pan ein bywhaer;
A thrwy Ras wedi'n cyfiawnhaer,
Ymddangos mewn Gogoniant cawn,
A gwel'd y Tad mewn Heddwch llawn.

## HYMN 49.

*Etholedigaeth o Ben-arglwyddiaeth ac yn rhydd.*

1 WELE'R Crochenydd, wele'r Clai,
Gwneud Llestri fel y mynno mae;
Y fath yw Pen-arglwyddiaeth Duw,
A'i Arfaeth dros holl Ddynol-ryw.

2 On'd all y Gweithydd Celfydd call,
Wneud o'r un Telpyn Pridd heb Ball;
Ei Lestri fel mae am eu cael,
Rhai i Ddefnydd gwych, rhai i Ddefnydd gwael?

3 On'd all ein Harglwydd mawr heb Dra,
Roi'i Ras lle mynno, a'i 'W'llys da;
Sef dewis rhai i fyw o blith
Eraill a fyddo 'n marw byth?

4 Beth o's i ddangos 'i Ofnau mae
Yn gado'i Amynedd hir barhau,
I oddef Dynion cyndyn syth,
Trwy bechu, selio'u Distryw byth?

5 Beth o's yw'n Meddwl trugarhau,
O'i Gariad rhad, ac ethol rhai
O'r un colledig Ddynol-ryw,
A'u pur addasu i Deyrnas Dduw?

6 A ddadlei Dyn yn erbyn Duw?
A d'wedyd, mai anghyfiawn yw;

'R hwn all ä'i Air mewn Munud Awr
Droi'n Llwch gan mil o Fydoedd mawr?

7 Ond o's bydd i'r Gwir disglair hyn,
O f' Enaid, ddallu'th Olwg syn;
Cais ufuddhau i'w Air trwy Ffydd,
A disgwyl hyd y barnol Ddydd.

8 Yna 'i Gyfiawnder f' eglurha,
A'r Byd ger bron, y Drwg a'r Da,
Cānt adde'n llon, neu'n brudd eu Llef,
Ogoniant ei Gyfiawnder ef.

### HYMN 50.

*Ffydd o Bethau anweledig.*

1 FFYDD ydyw yr egluraf Brawf
O Bethau uwchlaw fy Ngolwg,
Trwy Gnawd a Rheswm treiddio mae
I'r nefol Olau amlwg.

2 Amseroedd pell a Phethau draw
Mae'n ddwyn gerllaw i'w canfod;
Fil o Flynyddoedd cyn ein Co',
Neu Filoedd etto i ddyfod.

3 Trwy Ffydd y gwyddom wneud o Dduw
A'i Air yr amryw Fydoedd;
*Abra'm* yn ufudd aeth trwy Ffydd
I'r Gwleddydd nid adwaenodd.

4 Ymgais am Ddinas dêg 'roedd ef,
Gwaith Dwy law gref drag'wyddol;
Ffydd er in' farw, rhydd sicrad,
Y sai'r Adeiliad nefol.

### HYMN 51.

*Tosturi Crist i'r Gwan a'r Profedig.*

1 COFFAWN yn llawen gydā Pharch
Am Ras ein Harchoffeiriad;
Un yw o Galon dyner iawn,
A llawn 'Mysgaroedd Cariad.

2 Cyd-deimlo mae ā'n Natur wan,
Fe wyr mor egwan ydyw;
Gwyr beth yw Profedigaeth gref,
Can's teimlodd ef y cyfryw.

3 Ond diddrwg a difai o hyd
Ein Prynwyr hyfryd safodd,
Wrth oddef tanllyd Saethau'r Fall,
Hyd Waed heb Ball gwrth'nebodd.

4 Yn Nyddiau'i egwan Gnawd 'r oedd ef
Yn tywallt Llef a Dagrau,
Cyd-deimlo etto mae, pan f'o
Un Aelod iddo'n diodde'.

5 Ni ddiffydd Lyn fo'n mygu byth,
Yn Fflam fe'i chwyth yn hytrach;
Y Gorsen ysig byth ni thyr,
Y gwan fe'u gyr yn gryfach.

6 Am hynny, yn ei Nerth a'i Nawdd,
Rhown ninnau'n hawdd ein Hyder;
Cawn Waredigaeth gantho fo,
Mewn Amser o Gyfyngder.

## HYMN 52.

*Gwahoddiad* CRIST *i Bechaduriaid, neu Ostyngeiddrwydd a Balchder.*

1 "DEWCH attaf bawb, medd Iesu Grist,
"Sy'n llwythog a Blinderog trist;
"Oddi wrth eich Poen i'ch hesmwythaf,
"A'ch dwyn i'm nefol Artre' wnaf.

2 "Addfwyn ac isel ydwyf, dewch
"Dysgwch genn'i, Gorphwysdra cewch;
"Ond Dig fel Mor a rua ar hynt,
"A Balchder gwammal yw fel Gwynt.

3 "Gwynfyd y Dyn a gym'ro'n fwyn
"Fy Iau i arno, a hoffi ei dwyn,
"Fy Iau sydd esmwyth iawn i hwn,
"A'm Gras a ysgafnha ei Bwn."

4 Dymmunem, Iesu, dd'od wrth d'Arch,
Mewn Ffydd a Gobaith, Zel a Pharch,
Rhoi fynu i'th Law'n Hysprydoedd byw;
I'w ffurfio a'u 'fforddi wrth Air Duw.

### HYMN 53.

*Sancteiddrwydd a Gras.*

1 BOED i ni â'n Gwefusau
A'n Bywyd draethu i'r Byd
Efengyl sanctaidd Iesu
Y'm ni'n broffesu o hyd;
Disgleiried ein Gweithredoedd,
A'n Rhinwedd o bob Rhyw,
I brofi yr Athrawiaeth,
Ei bod hi oll o Dduw.

2 Fel hyn y cawn ni oreu
Gyhoeddi maes ar lled
Anrhydedd ein Iachawdwr,
Ger bron y rhai digred;
Pan fyddo'r Iachawdwriaeth
O'n mewn, a Theyrnas Gras,
Yn maeddu a darostwng
Holl Rym ein Pechod cas.

3 Mae'n rhaid i ni ymwadu
A Chnawd a Rheswm dall,
Cynfigen, Gwŷn a Thrachwant,
A Balchder yn ddiball;
Fel y b'o Gwir a Chariad,
Uniondeb, Sobrwydd llawn,
Yn profi ein Duwioldeb,
A'n Purdeb oddi fewn.

4 Gwir Gwefydd ddeil i fynu
Ein Hyspryd, tra b'om ni
Yn disgwyl am y Gobaith
Tra gwynfydedig fry;
Sef, disglair Ymddangosiad
Ein Harglwydd mawr o'r Nef,
A Ffydd a saif, gan bwyso
Ar ei Addewid ef.

## HYMN 54.

*Ffydd fywiol a marwol wedi ei chasglu o amryw Ysgrythyrau.*

1 ENEIDIAU ffol camsyniol sy'
'N breuddwydio am y Nefoedd fry,
A bostio'r Cyssur maent yn gael,
Tra b'ont yn gaeth i'w Chwantau gwael.

2 Ein Bost a'n Tybiau'n ofer fydd,
O's oer a marw yw ein Ffydd;
'Does dim ond bywiol Ffydd o'r Nen
A'n huna â Christ ein bywiol Ben.

3 Ffydd a dry'r Galon fod yn dda,
A Ffydd trwy Gariad gweithio wna;
Ffydd ymlid pob gysuron gau,
A chodi'n Serch i'r Nef y mae.

4 Ffydd sy'n gorchfygu'r Fall a'r Byd,
Trwy nefol Allu ar bob Pryd;
Hon ydyw'r Gras Gwrol gamp mawr,
A lwydda yn yr olaf Awr.

5 Ffydd i Air Duw sy'n ufuddhau,
Fel yn ei Ras ymddiried mae;
Wrth faddeu o hyd, ein grasol Dduw
Eiddigus o'i Sancteiderwydd yw.

6 Oddiwrth y Felldith o's rhyddha,
Ein Natur affan fe'i glanha;
Mab Duw ni ddaeth i'r Ddaear las
Fod yn Weinidog Pechod cas.

7 Ei Yspryd ef sy'n ein glanhau,
A selio'n Hedd a Duw y mae;
Daeth Iesu â'i Iechydwriaeth rad
I ni fel hyn trwy Ddw'r a Gwa'd.

## HYMN 55.

*Nodau Plant DUW o amryw Ysgrythuran.*

1 FEL Chwant Babanod am y Fron,
I 'mborthi a chynhyddu ar hon;
Am brofi'r 'Fengyl y mae'r Saint,
Ac wrth y 'Fengyl byw y maent.

2 Eu Calon gyd â Blys a geir
Yn hoffi'r hyn a draetho'r Gair;
Rhai garo'r Tad, eu caru wnant,
A'r Gwaith mae e'n gasau, casant.

3 Nid holl Bleserau'r Byd na'i Fael
A'u gwna hwy'n gaeth i drachwant gwael,
Ni anghofiant ddim eu geni o Dduw,
Mewn Pechod mwy ni feiddiant fyw.

4 Nid Gweniaeth Gwyr trahaus na'u Gwg,
A'u dena'n draws i wneuthur Drwg;
Ffydd fel Congcwerwr mawr y sydd
O Ochor Duw yn cario'r Dydd.

5 Gras Duw fel Had dilwgr coeth
Sydd ynthynt yn teyrnasu'n ddoeth;
'Gwyddorion nefol sydd yn gwa'rdd
Plant Duw rhag pechu yn anhardd.

6 Nid trwy ddim Ofnau caeth neu Gur,
Maent yn cyflawni'i 'Wyllys pur;
Ond mewn Ffyddlondeb mawr a Pharch,
A Chariad gwnant ei felus Arch.

7 Bob Awr y cânt Ddyfodfa rwydd
At Dduw o fewn i'r Llen i'r Llwydd;
Cânt Nerth oddi yno i'w bywhau,
A gwir Lawenydd i barhau.

8 O ddedwydd 'Stad, a rhyfedd Fraint,
Gras Duw'n llifeirio at y Saint!
Cael myn'd wrth Faingc eu Tad o'r Nef,
A gwel'd ei Wyneb hawddgar ef.

9 Dof finneu at dy Faingc, O Dad,
Gwna fi yn Blentyn it' trwy Rad;
Disgynned Yspryd dy Fab di
I dduwiol ffurfio Nghalon i.

10 Tywallt dy Gariad yno ar lled,
Cryf ha Nghysuron i a'm Cred;
Yna caf ddweud, Fy Nhad a'm Duw,
Heb ddim Amheuaeth yn fy Myw.

## HYMN 56.

*Yr Yspryd yn tystio ac yn selio.*

1 PA'M bydd i Blant y Brenin mawr
Fyn'd yn alarus Ddyddiau'u Hoes?
Ddiddanydd nefol tyr'd i lawr,
Arwyddion mwy o'th Gariad moes.

2 Ond trigo yn dy Saint 'rwyt ti,
A'u selio'n Blant i Dduw y wnai;
Gyrr ymaith fy Amheuaeth i,
A dangos faddeu fy holl Fai.

3 Rho i'm Cydwybod eglurhad
O'i Rhan yng Ngwa'd fy Mhrynwr byw,
A thystia gyd ä Nghalon i,
Fy mod i wedi ngeni o Dduw.

4 Yr Ernes wyt o'i Gariad 'fo
A'r Gwystl o Lawenydd Nef;
Colommen Duw, a'th Aden fwyn,
A gaiff fy nwyn yn iach i Dref.

## HYMN 57.

*Caracters, neu Enwau* CRIST *wedi eu benthyccio oddi wrth Bethau di-fywyd yn yr Ysgrythyr.*

1 WRTH Draed y Iesu i addoli dewch,
Gwel'd Pethau rhyfedd yntho cewch;
Rhy gul yw'r Byd i ddodi ma's
Ei Werth, ei Rinwedd ef, neu'i Ras.

2 Y Greadigaeth oll ni ry'
Ond llesg Gysgodau o'm Harglwydd cu:
Nid Natur all ä'i Lliwiau'i hun
Byth roi ar led ei brydferth Lun.

3 I Fara a Gwin, ai tebyg yw?
A hwn y porthir f' Enaid byw;
Dy Gnawd a'th Wa'd, trwy ryfedd Rin,
Sy' fywiol Fara a nefol Win.

4 Ai Pren yw ef? Mae'r Byd yn rhad
Yn cael o'i Ddail ef lawn Iachad:
Y gwir Flaguryn goreu'i Ryw,
Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd yw.

5 Ai Rhosyn yw? Nid Saron fwyn
Fath Ber-aroglau ddichon ddwyn;
Neu i'r Lili os cyff 'lyba'i'm Ner,
Pob Glyn a fawl ei 'Roglau per.

6 Ai per Winwydden nefol yw?
O'i Nodd y ffrwytha'r Cangh'au byw:
Boed Undeb bŷth rhwng f' Enaid trist,
Fel Cangen a'r Winwydden Crist.

7 Ai Pen yw ef? Pob Aelod sydd
Yn cael oddi wrtho fywiol Fudd;
Y Saint uwchben, ac yn y Byd,
Trwy'i Yspryd unwyd oll i gyd.

8 Ai Ffynnon yw? I hon mi a'
I olchi Mhechod blin a'i Bla:
A'i Dyfroedd f' Enaid a fywhair,
A'm Dillad brychion a lanhair.

9 Ai Tân yw ef? Fe bura'm Drwg,
Ond Colled i'r gwir Aur ni ddwg;
Fe eiste'i lawr fel Purwr glân,
A'i Draed y mathra'r Sorod mân.

10 Ai Craig yw ef? Fe saif yn syth,
Ni syfla Craig yr Oesoedd byth;
Daw melus Ddw'r o honi ma's,
I'n cynnal trwy'r Anialwch cras.

11 Ai Ffordd yw ef? Mae'n dwyn at Dduw,
Mewn Leiniau Gwaed mae'r Llwybyr gwiw;
Mewn Ffydd a Zel mi a'i rhodia'n syn,
Ne's elwyf fry i Seion Fryn.

12 Ai Drws yw ef? I mewn mi af;
Wele'r Porfeydd yn Wyrddon braf;
Paradwys yw, nefolaid lân,
Neb ond y Defaid yno an'.

13 Ai Congl-faen amcanwyd ef,
I ddynion weithio arno'u Nef?
Ar hwn sylfaenaf finneu'n hy,
Nid ofnaf Lid Uffernol Lu.

14 Ai Teml yw? Addola'n brudd
Y Gallu a'r Mawredd ynthi sydd;
A thu a'i sanctaidd Le, dan Gof,
Fy Wyneb pan weddiwyf trof.

15 Ai Seren yw? Mae'n torri'r Wawr
Trwy'r T'wyllwch ä'i Oleuni mawr;
Ei 'Goniant ef yn amlwg sydd,
Adwaena'i'r ddisglair Seren Ddydd.

16 Ai Haul yw ef? Gras yw ei Byst;
Cyfiawnder pur yw Gyrfa Crist:
Pan ymddangoso, ymlid mae
Gymhylau'r Saint, a'u llawenhau.

17 Am ddringo 'rwyf uwch Wybren fry,
Lle ni ddaw 'Stor'm na Th'w'llwch du;
Yno mae fe'n datguddio'i hun,
Ac yn teyrnasu'n Dduw a Dyn.

18 Nid Dae'r, na Môr, na Haul, na Ser,
All ddwyn Cyff'lybiaeth llawn o'm Ner:
Ni's gallwn draethu'i Degwch ef,
Ne's gwel'd ei Wyneb yn y Nef.

## HYMN 58.

*Hiraethu am foli* CRIST *yn well.*

1 ARGLWYDD, pan fwy'n myfyrio'n syn
Ar dy Ddioddefaint tost cyn hyn,
A darllen, it' trwy'th Groes gwplau
Gyfreithiau'm Lluniwr a'u mawrhau.

2 Pan welwy'th Waed orchfygu Grym
Uffern, Angeu a Phechd llym;
A'r Dyn fu farw droso'i yn fyw,
Mewn mawredd ar orseddfaingc Duw.

3 Fy Ysypryd gwyd, a hedeg bydd,
Yn llawn o Dân ar Aden Ffydd;
Dymunwn gyrraedd Nodau hy
Trag'wyddol Gerddi *Gabriel* fry.

4 Ond methu'n lân a chwyno 'rwy',
O eisiau'u Moes a'u Mesur hwy;
A gorfod cwympo a'm Cân i lawr,
Ymhell islaw dy Gongcwest mawr.

5 Ond fe ddaw'r Amser, mae'n nesau,
Cawn ado'n ol y Pwysau Clai;
Ein Cyrph difraw, a hedeg fry,
I ganu 'nghyd â'r nefol Lu.

## HYMN 59.

*Duwiol Dristwch yn codi oddiwrth Ddioddefiadau* CRIST.

1 OCH fi! a waedodd f' Arglwydd cu?
Ai marw fu fy Mrenin?
A roes e'i sanctaidd Ben heb fri
Lawr drosof fi'r fath Bryfyn?

2 Dy Gorph a laddwyd, Iesu mad,
Ac yn ei Wa'd fe'i troched,
Wrth sefyll, Ddioddefwr gwiw,
I Ddigter Duw'n agored!

3 Ai am Bechodau mawr fy Oes
Bu ar y Groes yn diodde'?
O rhyfedd Ras i Adyn brwnt,
A Chariad tu hwnt i Raddau!

4 Iawn gallsei'r Haul gan D'w'llwch du
G'wilyddio fry'n y Nefo'dd,
Pan fu'r Creawdwr farw'i hun
Am Bechod Dyn a greodd.

5 C'wilyddied f' Wyneb i 'r un modd,
Wrth wel'd ei Ddioddefiadau;
A'm Calon, Mawl tywallted hon,
A'm Llygaid chwerwon Ddagrau.

6 Ond Dafnau o Dristwch byth ni thâl
O'r Dyled amal s' arnaf;
Fy hunan ymaith, rhof, O Dduw,
Y cwbl yw ag allaf.

## HYMN 60.

*Dydd yr* ARGLWYDD, *neu Hyfrydwch mewn Ordinhadau.*

1 O GROESAW Ddydd o Orphwysdra a Hedd,
'R aeth Crist o'r Bedd i fynu;
Fy Nghalon sydd, a'm Llygaid hyn,
O'i weled yn llawenu.

2 Y Brenin mawr sydd yn nesau
I wledda'i Seintiau heddy';
Cawn eistedd yma a gwel'd ei Bryd,
Ei foli o hyd a'i garu.

3 Un Dydd, yn wir, melusach yw,
Lle byddo Duw yn dyfod,
Na myrdd o Ddyddiau i'w mwynhau
Mewn gwael Bleserau Pechod.

4 Fy Enaid mewn fath Hwyl a hon
Arhosai'n foddlon hollol,
I ganu ac ymdreulio o hyd,
Ne's myn'd i'r Gwynfyd bythol.

## HYMN 61.

*Mwynhad o* GRIST, *neu Hyfrydwch mewn Addoliad.*

1 O'M Meddwl dos Fyd gwag er dim,
Ar Waith fy Nuw gad lonydd im';
O Arglwydd, disgwyl wrthyt ti,
Ac am dy wel'd mae f' Enaid i.

2 O'm mewn yn dwym mae nefol Dân
Yn ennyn mewn Dymuniad glân;
Tyr'd, f' anwyl Iesu, oddi fry,
A'm Henaid portha â'th Gariad cu.

3 Blodeuog Breniau'r Bywyd sy'
Ar dy Ddeheulaw'n Rhesau fry;
Afonydd dy Hyfrydwch maen'
Yn llifo'n wastad heibio i'r rhai'n.

4 Am hyn gwna Frys, dan wenu'n llon,
A hilia Fwrdd dy Ras ger bron:
Rho Brawf o'th sanctaidd Air a'i Rin,
A'm Calon llonna â nefol Win.

5 Bendigaid Iesu, melus yw
Dy Wleddau per i'n Henaid byw!
Erioed ni cha'dd Angylion flas
O'th Gariad trwy achubol Ras.

6 Henffych, Immanuel, ynot cawn
Ogoniant Duw'n llewyrchu'n llawn:
Ti yw'r disgleiriaf, teccaf Un,
A welodd Angel nac un Dyn.

## HYMN. 62.

*Gwrthgiliad a Dychweliad, neu Anwadalwch ein Cariad.*

1 PAHAM mae Nghalon i mor bell
Oddiwrth fy Nuw, pa Gyfaill gwell?
Mwy o'm Meddyliau pa'm na bydd,
Duw, gydä thi y Nos a'r Dydd?

2 Pa ham y gwibia'm Nwydau gwael?
Pa le mae'r fath Felusdra i gael,
Ag y ge's i yn y Mwynhad
O honot ti a'th Gariad rhad?

3 Pan fyddo f' Enaid gwan yn cael
Rhyw newyd Brawf o'th Gariad hael;
Rhyfygu mae fy Nghalon gas,
Na chollaf fyth o'r cyfryw flas.

4 Ond cyn el heibio awr i gyd,
Daw rhyw Abwydon gan y Byd,
I dynu'r Blas a'r Dymmer hon,
A llygru fy Niddanwch llon.

5 Teganau Natur têg eu Pryd,
A'u Swynion hudol sydd o hyd
Yn gwthio mewn i'm Calon ffol,
A thaflu'm Ceidwad mwyn o'm Col.

6 Yna'r wy'n blino f' Enaid trist,
Edifarhau im' adael Crist;
O na chadwaswn gyd â'm Ffrynd,
A'i nadael o'm Serchiadau fyn'd.

7 Llawenydd Pechod droes yn Boen,
Mewn Gofid soddais yn ddi-hoen;
Ond, f' anwyl Arglwydd, eilwaith ddaw
A Chysur i mi maes o law.

8 At f' Enaid daw'n ddisymmwth syn,
A Rhwymau Cariad têg fe'u tyn;
Tosturi yn ei Wyneb fydd,
Ac yn ei Law im' Bardwn rhydd.

9 Ys truan wyf, mawr oedd fy Mai,
Grwydro ar ol Pleserau gau;
Byth wrth dy Groes yn rhwym y bwy',
Cyn colli'r Olwg arnat mwy.

10 Gwnewch Frys fy Nyddiau i gyrchu'r Nod,
I mi gael gorphwys byth a bod
Ar ganol Bwynt fy Enaid byw,
Dwy-fron fy Mhrynwr mwyn a'm Duw.

## HYMN 63.

*Yr Olwg o* DDUW *a* CHRIST *yn y Nefoedd.*

1 TYR'D nefol G'lommen oddi fry,
A ch'od ni ar d' Adenydd cu;
Esgyn a dwg ni fynu'n grwn,
Uchlaw holl Bethau'r Bywyd hwn.

2 Tu hwnt i'r Wybren isaf hon,
Lle try trag'wyddol Oesau llon;
Lle mae Pleserau pur di-lyth,
A Frwythau i wledda'r Enaid byth.

3 O am gael Golwg hoff o'r Wlad,
A Gorsedd ein trag'wyddol Dad,
Lle'r eiste'n Prynwr mawr ei Fri,
Mewn Corph cyffelyb i'n Cyrph ni.

4 Y Saint o'i gylch addoli maen',
A holl Lu'r Nef a blyg o'i flaen;
Y Duw'n llewyrchu i maes trwy'r Dyn,
Ei bur Ogoniant ar bob un.

5 O'r mawr Ddigrifwch yno gair,
Pan ganant eu Telynau Aur,
Ac eistedd ar bob nefol Fryn,
A datgan Gwaith eu Duw cyn hyn!

6 Pa bryd daw'r Dydd, fy anwyl Dduw,
Caf finneu esgyn yno i fyw;
Sefyll a phlygu yn eu plith,
Gwel'd, moli a charu f' Arglwydd byth.

## HYMN 64.

*Achwyniad o Farweidd dra neu Ddiogi ysprydol.*

1 PA'M f' Enaid wyt yn diofalhau?
Dihun o'th Gwsg a'th Syrthni'n glau;
'D oes neb a chanddo gymmaint Gwaith,
Na dim mor hurt na hwyr-drwm chwaith.

2 Y Morgrug bach am 'chydig Beth,
Llafuriant, poenant yn ddi-feth;
A ni s'am ennill Teyrnas Dduw,
O mor esgeulus 'ry'm yn byw!

3 Ond er ein mwyn y saif y Byd,
A'r Ser a dry o ddeutu o hyd;
I'n cadw daw'r angylaidd Lu,
Yn llon dan hedeg oddi fry.

4 Ni, dros ba rai daeth Crist o'r Nef,
Ac am ein Lles llafuriodd ef,
Mor ddiofal y'm am gael Sicrad
O'r Goron brynodd ef â'i Wa'd.

5 A gawn ni fod mor swrth a gwan,
O Arglwydd, byth heb weithio'n Rhan?
Tyr'd G'lommen Duw o'th nefol Fryn,
Gwresoga di'r Callonnau hyn.

6 A'n Hysprryd swrth a fywiocca,
A'n Henaid codi fynu a wna;
Ag Edyn serch, a Dwylaw Ffydd,
Hedwn a chawn y Gamp a'r Dydd.

## HYMN 65.

*Anadlu ar ol yr Yspryd Glăn, neu Ddeifyfiad am Wresogrwydd mewn Crefydd.*

1. TYR'D Yspryd Glăn, Colommen Ne',
A holl Bwerau'r Bywyd;
Ac ennyn Fflam o'th Gariad clau
Yn ein Calonnau oerllyd.

2 Gwel yma'n Serch a'n Hymgais, mae
Ar ol Teganau bydol;
Methu mae'n Henaid dyfu o hyd,
I gyrraedd Gwynfyd nefol.

3 Ein Căn sy'n ffurfiol ac yn wan,
Ymgodi i'r lan ni's gallwn;
Oer yn ein Genau yw Mawl ein Duw,
A marwaidd yw'n Defosiwn.

4 O Arglwydd cu, a gawn ni fod
Byth mewn fath Nychdod Ene'd?
Mor brin ein cariad attat ti,
A'th Eiddo i ni helaethed.

5 Tyr'd Yspryd Glăn, Colommen Ne',
A'th holl Bwerau bywiog;
Tann Gariad Crist ar lled o'n mewn,
Ni 'ddolw'n Dduw'n fwy gwresog.

## HYMN 66.

*Cariad i DDUW.*

1 GWYNFYD y Galon bur lle mae
Grasusau yn teyrnasu;
Cariad yw'r pennaf o'r rhai hyn.
A Chariad sy'n eu nerthu.

2 Gwybodaeth, och! ni thâl hi ddim,
Nac Ofan llym na Doniau;
Er ymladd, Pechod bia'r Dydd,
O's Cariad fydd yn eisiau.

3 Cariad a wna i'n Traed ni wau,
Ac ufuddhau heb ballu;
Y Diaflaid credu a chrynu wnan'
Ond ni all Satan garu.

4 Hwn ydyw'r Gras, yn fyw a fydd
Pan ddarffo Ffydd a Gobaith;
A hwn a dery'r peraidd Dant
Yng Ngwlad Gogoniant eilwaith.

5 Cyn i ni ado'r priddlyd Dŷ
(Y Babell sy' ar Ogwydd)
Adenydd Cariad sy'n ein dwyn
I wel'd Gwen fwyn ein Harglwydd.

## HYMN 67.

*Byrdra a Thrueni'r Bywyd hwn.*

1 EIN Dyddiau, och, sy'n fyrrion iawn,
O Flinder a Thrueni'n llawn;
'Chydig a drwg,* medd Abra'm gynt, *Gen.
A'r Patriarch wydde'n dda eu Hynt. [47.9.

2 Rhyw Derfyn cul o Amser yw,
A ro'w'd i Ddynion yma i fyw;
A Phoen a Phechod red o hyd,
Trwy'r trugain Mlwydd a deg i gyd,

3 O's drwg a 'chydig rhaid ich' fod,
Fy Nyddiau rhedwch ar y Rhod;
Munudau o Bechod, Dyddiau o Wae,
Ni's gellwch hedeg yn rhy glau.

4 Par'toed Duw'r Cariad f' Enaid cu,
A galwed hwn i'r Nefoedd fry;
Mae Iechydwriaeth yno heb Drai,
A phur Ogoniant i barhau.

## HYMN 68.

*Golwg ar DDUW yn ein mawrhau i'r Byd.*

1 I'R Meusydd nefol fry lle rhed
Y Dyfroedd bywiol pur ar led,
Dymunei f' Enaid hedeg 'nawr,
Ond Pechod sy'n ei wasgu i lawr.

2 Dy werthfawr Waed, anwylaf Grist,
All dynnu'm holl Euogrwydd trist ;
A thithau G'lommen nefol fwyn,
All ar d'Adenydd yno'm dwyn.

3 Pe gallwn esgyn fynu i'r Ne',
A gwel'd Gogoniant llawn y Lle ;
Mor fach mor wael y fyddei'r Byd
A'i Bethau yn fy nghyfri' gyd.

4 Un Olwg ar fy Nuw a wnai
Deyrnasoedd Byd ddiflannu'n glau ;
A Dynion hwythau'n darfod fydd,
Fel Canwyll drenga ganol Dydd.

5 Ymladd ac ymlid allent hwy,
Eu Swn ni styriwn i ddim mwy
Na Dalen wan yn siglo ar Bren,
Pan f'ai Taranau yn rhuo uchben.

6 Y Brenin mawr, Duw oll yn oll,
Gad wel'd dy Wyneb têg heb Goll ;
A'm holl Bwerau seinia' i ma's
D'anfeidrol Fawredd di a'th Ras.

## HYMN 69.

*Gogoniant a Gras ym Mherson* CRIST.

1 FY Enaid deffro, a'm Tafod cän,
Arddechog Glod i'r Arglwydd glän :
Hosanna i'r trag'wyddol Dduw,
Ei Gariad ef diderfyn yw.

2 Yng Ngwyneb Crist llewyrcha i ma's
Y Ddelw deccaf oll o'i Ras ;

Gwnaeth Duw ym Mherson Iesu glân
Waith mawr, tu hwnt i ddim o'r bla'n.

3 Y Ddaear faith, a'r ehang Fôr,
Sy'n datgan Gwaith ein cadarn Ior;
A'th fawr Ogoniant welir fry,
Yn ddisglair ym mhob Scren sy'.

4 Ond yn Edrychiad Iesu cawn
Wel'd holl Ogoniant Duw yn llawn;
Disgleirdeb hoff ei Wyneb ef
Llewyrcha'n fwy nâ holl Lu'r Nef.

5 Gras, mae fe'n Destun peraidd braf;
Wrth Enw'r Iesu llawenhaf:
Angylion sefwch ar y Swn;
O'r Nef i'r Ddae'r datseiniwch hwn.

6 O na allwn fyw i fyn'd i'r Lle,
Cawn wel'd ei Wyneb hawddgar e';
Yno'i holl Degwch eglorhair,
A'i foli wnant â'r Delyn aur.

## HYMN 70.

*Cariad i'r Creaduriaid yn beryglus.*

1 MOR wag yw pob Peth sy'n y Byd!
Twyllodrus yw'r Peth tecca'i Bryd:
Ym mhob rhyw Bleser Gwenwyn sydd,
Ac ym mhob melus Faglau cudd.

2 Y Peth disgleiriaf dan y Nef,
Rhyw Lewyrch gau a ddyry ef;
Ofnwn fod Perygl yn nesau,
O's Pleser fyddwn yn fwynhau.

3 Y Pethau anwylaf o'n Mwynhad,
Ein Fryns agosaf a'n Cyd-wa'd,
Sy'n rhannu ein Cariad, Camwedd yw,
A gado ond hanner hwn i Dduw.

4 Anwyldra Serch Creadur sy'
Yn gweithio yn ein Cnawd mor gry';

Ar hwn y rhed ein Calon ffol,
Ni's gallwn chwaith ei galw'n ol.

5 Dy Degwch, f'anwyl Brynwr wyd,
I'm Henaid f'o'n drag'wyddol Fwyd ;
A Gras a dynno'm Serch i gyd,
O bob Creadur sy'n y Byd.

## HYMN 71.

*Presennoldeb DUW sydd Oleuni mewn Tywyllwch.*

1 FFYNNON fy holl Lawenydd yw
Fy Arglwydd Dduw yn ddiau ;
Gogoniant fy holl Ddyddiau clir,
A Chysur fy Nosweithiau.

2 Mewn T'wyllwch, o's ymddengys e',
Mae Ngwawr yn dechreu torri ;
Efe yw'm siriol Seren Ddydd,
A'm Haul os bydd yn codi.

3 Y Nef o'm cylch disgleirio bydd,
A Llewyrch dedwydd goleu ;
Pan dd'wetto Crist mai'm Heiddow fo,
A minneu'n Eiddo ynte.

4 Fy Enaid am ymadael mae,
Wrth glywed Geiriau'i Gariad ;
A hedeg fynu i'r Nef mewn Hwyl,
I 'mwasgu ä'm hanwyl Geidwad.

5 Heb ofni'r Fall nac Angeu mwy,
Mi dorrwn trwy bob Gelyn ;
Adenydd Cariad, Breichiau Ffydd,
A'm dygei'n benrhydd trwyddyn'.

## HYMN 72.

*DUW, Gogoniant a Dyffynfa Seion.*

1 O HAPPUS Eglwys, sanctaidd Le,
Maingc Gras dy Brynwr, Brenin Ne' ;
Dy län gynteddau ei Drigfan yw,
Ti wyt ddaearol Lys ein Duw.

2 Cedyrn yw'th Furiau, 'run ni syrth,
Rhyfelwyr nefol geidw'th Byrth ;
Ni syfla'th Sail, sefydlog yw,
A'r Gyngor doeth a Chariad Duw.

3 D' Elyniod, ofer yw eu Bryd,
Yn erbyn d'Orsedd tery eu Llid,
Fel tonnau'r Môr cynddeiriog caeth,
Sy'n curo a Marw ar y Traeth.

4 Ein Henaid mwy yn Seion trig,
Heb ofni'r Fall na Rhufain ddig ;
Mae'i Freichiau cylch ei dedwydd Dir,
Fel Amddiffynfa o Bres yn wir.

5 Duw yw ein Haul a'n Tarian gref,
Mewn Munud tywallt y mae ef
O newydd arnom Belydr Gras :
A'i Fawl ddatseiniwn ninnau 'ma's.

## HYMN 73.

*Golygiad ar y Nef yn gwneuthur Angeu yn esmwyth.*

1 MAE Gwlad o Wynfyd pur heb Haint
Byth, yno y teyrnasa'r Saint ;
Lle nid oes tywyll Nos, ond Dydd,
A Phleser heb ddim Blinder sydd.

2 Mae'i yno yn dragwyddol Haf,
Ni wiwa byth o'i Blodeu braf :
Ond Angeu fel Môr cul y sy'
Rhyngom a'r Wlad nefolaidd fry.

3 Yr Ochr hwnt i Angeu a'r Bedd,
Mae Meusydd gwyrddon hardd eu Gwedd ;
I Israel felly Canaan fu,
I'w gwel'd tu draw'r Iorddonen ddu.

4 Ond Dynion sy'n ddigalon, gwn,
I groesi'r Cul-fôr cyfyng hwn ;
Ar Geulan Angeu maent mewn Braw,
Yn ofni morio drwyddo draw.

5 O am gael Ffydd i ymlid ffwrdd
Y cul Amheuon sy'n ein cwrdd;
A gallu gwel'd â Golwg glir
Drigfannau dedwydd Canaan Dir.

6 Fel Moses gynt pe dringem ni,
A gwel'd y Wlad a'i hansawdd hi;
Nid oer Lifeiriaint Angeu caeth
A'n tarfei'n ol oddiwrth y Traeth.

## HYMN 74.

*Amheuon yn cael eu gwasgaru, neu Lawenydd ysprydol yn cael ei ddychwelyd.*

1 MEDDYLIAU pruddion ymaith ewch,
Bryd hyn gadewch fi'n llonydd;
Fy Nhafod orfoledda yn Nuw,
A hyfryd yw'm Llawenydd.

2 Daeth Ofn a Th'w'llwch droso'i'n llen,
Soddwyd fy Mhen â Dagrau,
Ne's dyfod Pelydr Gras i'm cwrdd,
I yrru ffwrdd fy Ofnau.

3 O pa Lawenydd nefol syn
A brofais yn fy Ysypryd,
Pan dd'wedodd Crist mai' Eiddo o'wn i,
Ac Eiddo fi'm Hanwylyd.

4 Nid gwiw i'r Temtiwr dorri'm Hedd,
Dwyn fy Ngorfoledd ymaith;
Un Wen o'th Wyneb, Iesu cu,
Ddwg gysur i mi eilwaith.

## HYMN 75.

*Llawenydd trag'wyddol ac ysprydol, neu Olwg wynfydedig o* CRIST.

1 ODDIWRTHYT ti fy Nuw, a'm Rhan,
Y cwyd Llawenydd f' Enaid gwan;
A rhed tu hwnt i'r Wybren fry,
A'r holl greuedig Fydoedd sy'.

2 Gorfoledd duwiol f' Enaid fydd
Yn drech nä Braw yr Angeu prudd ;
Caf ado'n ol Farwoldeb gwan,
A ffoi o Lwch y Bedd i'r lan.

3 I'r lle teyrnasa'r Iesu cu,
Ym maith Eithafoedd Nefoedd fry,
Caf dreulio trag'wyddoldeb hir
Mewn Pleser a Chlodforedd pur.

4 Mil miloedd o Flynyddau caf
Wel'd a rhyfedd u'th Degwch braf;
Ac Oesoedd didrangc eu parhad
Y caf glodfori'th Gariad rhad.

5 Pob Gwen o'th eiddo, Iesu mwyn,
Anwyldeb newydd fydd yn ddwyn ;
A miloedd o Bleserau a dardd
O'r Prawf o'th holl Rasusau hardd.

6 Tyr'd, fy anwylyd, hed ar Frys,
Dwg f' Enaid 'fynu i'th ddedwydd Lys ;
Can's blysio mae fy Enaid byw
Am wel'd fy Mhrynwr mwyn a'm Duw.

## HYMN 76.

*Y Rhyfel crist' nogol.*

1 NAC ofna, f'Enaid, fynu co'd,
Am danat Arfau'r 'Fengyl dod
Dos tu a'r nefol Byrth ymla'n,
Lle'r aeth dy Gapten Iesu glän.

2 Uffern a Phechod a'th wrthsai',
Ond maeddodd Crist y cyfryw rai ;
Ac wrth y Groes fe'u hoeliodd hwy,
Gorchfygu'r Saint ni's gallant mwy.

3 Beth er bod T'wysog Uffern ddu
Yn rhuo a llidio 'nawr mor gry' ?
Trag'wyddol Rwymau a'u ceidw 'lawr,
I danllyd Bydew'r Fagddu fawr.

4 Er bod dy chwantau o'th fewn mor fyw,
Eu Hymdrech ola' am Fywyd yw;
Caiff Arfau hollalluog Ras
Ddinystrio'th holl Bechodau cas.

5 Am hynny, f' Enaid, pwysa'n hy,
Ymlaen tua Phorth y Nefoedd fry:
Mae yno Hedd a Gwynfyd hael,
A Gwisgoedd hardd i orchfygwyr gael.

6 Caf yno wisgo Coron wiw,
A gorfoleddu yng Ngras fy Nuw;
A moli wna'r holl nefol Lu
F'Arweinydd gogoneddus fry.

## HYMN 77.

*Gwaredigaeth a Chadwriaeth oddiwrth Elynion ysprydol.*

1 O CYFOD 'fynu, f' Enaid byw,
A gorfoledda yn dy Dduw;
Fy Nhafod deffro, a seinia 'ma's
Ar led ei ogoneddus Ras.

2 Fy nghodi o Bydew Pechod wnaeth,
A Phyrth agored Uffern gaeth;
Sicraodd fy sefyllfa'n well
Nag oedd cyn i mi gwympo 'mhell.

3 Rhoes Freichiau 'i fythol Gariad dan
Fy Enaid llesg blinedig gwan;
Ac fry ar Graig yr Oesoedd gref
Fy Nhraed rhag llithro osododd ef.

4 Dinas fy Nedwydd Drigfan i,
A Muriau Gras amgylchwyd hi;
Ac Iechydwriaeth cadarn gre'
Fel Caer i gadw'r sancaidd Le.

5 Gall Satan chwythu'i Falais llym,
A'i Luoedd ruo â'u holl Rym:
Trugaredd Duw a'm ceidw o'r Nef,
Ac ettyl ei Gynddaredd ef.

6 O cyfod fynu, f' Enaid byw,
A'm Tafod cān Fawl hoff i'th Dduw,
A seinia Haleluia 'nawr,
I'm Prynwr mwyn a'm Brenin mawr.

## HYMN 78.

*Digonedd Pardwn.*

1 PAHAM mae'ch Gwedd, Plant gweinion Duw,
Yn gwisgo'r fath alarus Liw?
Pa Amheuon sy'n gwanhau eich Ffydd,
A meithrin eich Anobaith prudd?

2 Pa beth er bod eich Beiau'n Llu,
Amlach nā Ser y Nefoedd fry,
Ac yn dyrchafu fynu o'r Llawr
I'r Nefoedd fel Myhyddoedd mawr?

3 Beth 'tai'ch Euogrwydd, yr un Pryd,
Yn chwyddo, o ran ei Led a'i Hyd,
Tu hwnt i'r Greadigaeth fawr,
A'i Sail mor bell ág Uffern Lawr?

4 Wele yma Fôr yn llifo 'ma's
O fythol anffaeledig Ras,
A Ffrydiau Gwaed ein Prynwr Crist
I foddi'n holl Euogrwydd trist.

5 Cyfodi a soddi'r Bryniau wnaeth,
'Does Terfyn iddo ef na Thraeth;
Pe chwiliem ein Pechodau mwy,
Ni's gellir cael 'mo honynt hwy.

6 Bendithiwn Dduw a'i ryfedd Ras,
Sy'n claddu'n holl Bechodau cas;
A Gwaed yr Oen sy'n chwyddo'n Lli',
Goruwch ein Beiau a'n Tybiau ni.

## HYMN 79.

*Iechydwriaeth.*

1 O'R Iechydwriaeth fawr yng Nghrist,
Swn melus hyfryd yw i'm Clust;
Balm cryf i'm Clwyfau o bob Rhyw,
A chordial im' rhag Ofnau yw.

2 Mewn Bedd o Bechod gorwedd bu
Ein Henaid wrth Ddrws Uffern ddu,
Ond codi'r y'm trwy Ras ein Duw
I weled nefol Ddydd a byw.

3 Aed Swn yr Iechydwriaeth fawr
O ddeutu'r Ddaear faith yn awr;
A boed i'r Nef a'i Lluoedd llon
Gyfodi eu Llef i seinio hon.

## HYMN 80.

*Gogoniant* CRIST *yn y Nefoedd.*

1 O'R fath Lawenydd sy'n y Ne'!
Gogoniant Lle Jehofa!
Pan fyddo'r Iesu'n tannu 'ma's
Ei ddisglair Ras i'r eitha'.

2 Mawrhydi, Cariad, Parch a Hedd
Fydd yn ei Wedd yn gwenu;
A'r holl Lu disglair ar bob Llaw
Yn isel draw'n ymgrymmu.

3 A'u haur Deyrnwialen plyg i lawr
I'w Enw mawr D'wysogion;
A llawenha'r holl nefol Fro
Ei wel'd e'n gwisgo'r Goron.

4 Ei foli Archangylion fydd
Trwy'r holl Heolydd nefol,
A rhoi Anrhydedd a Mawrhad
Lawr wrth ei Dra'd brenhinol.

5 Y tirion Draed, bendiged y'nt,
Fu'r Hoelion gynt yn dorri;
Ar Orsedd ddisglair sefyll maent,
A'r holl Saint yn addoli.

6 Ei anwyl Ben, ardderchog Ddull,
Fu'r Drain yn erchyll glwyfo,
Wele'r Gogoniant mawr y sy'
O'i amgylch fry'n disgleirio.

7 Hwn ydyw'r dyrchafedig Ddyn,
Heb wel'd, y'm ni'n addoli;
Pan gaffom arno Olwg lawn,
Rhagorach cawn ei garu.

8 Arglwydd, mae'n Henaid oll ar Dän
Wrth wel'd dy Drigfan ddedwydd,
A'n Genau a'th fawl mewn hyfryd Gän,
Ein Duw ni a'n Gwaredydd.

9 Wrth wel'd trwy Ffydd yr Olwg hon,
Mae yn ein Calon Hiraeth
Ymado o'r Corph, a myn'd o hyd,
Mewn Cerbyd tanllyd ymaith.

## HYMN 81.

*DUW Oll ac yn Oll.*

1 FY Nuw, fy Nerth, a'm Bywyd i,
Rhoes arnat ti fy Ngoglud;
Can's oll yn oll wyt im', O Dduw,
Ni's gallaf fyw pe'm gedyd.

2 Dy ddisglair Wedd all lawenhau
Fy Mhabell Glai mewn Trallod;
Mae'i'n Nefoedd lle bech di, fy Nuw,
Ac Uffern yw hi hebod.

3 Cariadus Wenau'th Wyneb gwiw,
Mor hawddgar yw y rhei'ny!
Nefoedd yw gorphwys yn dy Gol,
'Does Fan dedwyddol hebddi.

4 Dedwyddwch yr Angylion fry
O honot sy' yn tarddu,
Wrth eiste' cylch gorseddfa'th Ras,
A chael Cymdeithas Iesu.

5 Ni allei holl Delynau'r Ne'
Byth wneud y Lle yn nefol,
Pe Duw 'madawai'n anad neb,
Neu guddio'i Wyneb firiol.

6 Ni rydd y Nef na'r Ddaear im',
'Rwy'n sicir, ddim Boddlonrwydd;
Na dafn o wir Lawenydd heb
Dy Bresennoldeb Arglwydd.

7 Tydi yw'r Môr o Gariad rhwydd,
Lle mae Boddlonrwydd dibaid;
Tro-gylch fy holl Serchiadau wyt,
A Chanol-bwynt fy Enaid.

8 Awyddus yw fy Yspryd i,
Duw, attat ti am ddwad;
Ond O mor belled wyf er hyn;
O Iesu tynn fi attad.

## HYMN 82.

*Dyfodiad at Orseddfaingc Gras trwy Gyfryngwr.*

1 DEWCH, codwn fynu i'r Nef uwchben
Yn llawen ein Hedrychiad;
Gan wenu gwel'd ein Tad mewn Hedd,
Yn eiste' ar Orsedd Cariad.

2 Hon unwaith fu'n Eisteddfa Llid,
A Fflammiau aethlyd dyfal;
Ein Duw bryd hyn Tân yssol oedd,
A'i Enw ydoedd Dial.

3 Ond gwaed y Iesu, gwerthfawr yw,
Dros Orsedd Duw taenellwyd;
Tawelodd hyn ei ddigllon Wedd,
A'r Llid yn Hedd dychwelwyd.

4 'Nawr gallwn blygu wrth Draed yr Ion,
Anturio 'n eon atto;
'Does un Cerubiad yn y Lle
A thanllyd Gledde'n rhwystro.

5 Heddychol Byrth dedwyddwch Nef,
Gan ei Fab ef agorwyd;
Dyrchafwn Fawl â'n llafar Don,
Hyd Orsedd Ion heb Arswyd.

6 Diolch ddengmil o Weithiau 'nawr,
Ddadleuwr mawr it' fyddo;
A Chlod i'r bythol Dad unwedd,
Am droi'i Ddigllonedd heibio.

## HYMN 83.

*Byw a Marw gyd â* Duw *yn bresennol.*

1 NI'S gallaf, Arglwydd, oddef
Dy Absennoldeb di;
Pe byddei i ti ymado
Darfyddei Mywyd i;
Fy Nghalon boed yn wastad
Yn agos at fy Nuw,
A thithau'm Duw bydd agos
I'm Calon tra fwy'i byw.

2 Ni aned 'mo'no i'r Ddaear,
Na Phechod Sorod sal,
Ni's gallaf fyw ar Foddion
Mor ddi-bris ac mor wa'l;
Er hyn dymunwn aros
Fy Nhad a'i Amser ef,
A disgwyl mewn Amynedd
Rywennyd am y Nef.

3 Yna, fy anwyl Arglwydd,
Pan fyddwy'n gado'r Byd,
Gad i'm' roi f' Enaid fynu
I'th Freichiau ar hyn o bryd;
A Gwenau ar fy Wyneb
A Heddwch dan fy Mron,
Yn myn'd heb Fraw nac Ofnau
Trwy Ddyffryn Angeu'n llon.

## HYMN 84.

*Yr Ysgrythurau sanctaidd.*

1 YM mhob rhyw Drallod blin y bwyf,
Ehedeg at fy Nuw yr wyf;
Dim Gobaith mewn un Lle ni Chair,
Ond yn ei 'sgrifenedig Air.

2 Yn Llyfyr Gras fy nefol Dad,
'Rwy'n cael i'm Blinder esmwythâd;
Gwel'd 'rw'i mhob Dalen iddo mron
Wyneb a Llais fy Mhrynwr llon.

3 Hwn ydyw'r Maes, ond chwilio'n iawn
Y Gwerthfawr Berl cuddiedig cawn;
Mae fe'n Farsiandwr duwiol ddoeth
A bryno'r cyfryw Berlyn coeth.

4 O hwn daw sanctaidd Ddw'r i ma's,
I ddiffodd Syched Pechod cas;
Yma tyf Pren Gwybodaeth llawn,
Heb Berygl yntho o's bwytawn.

5 Hwn yw Datguddiad Duw ei hun,
Uwch Rheswm dall a Synwyr Dyn;
F' Arweinydd i'r Wlad nefol fry,
Trwy'r Byd y Glyn wylofus du.

6 O! boed i'th Air, alluog Dduw,
Gyfeirio 'Nhraed i tra fwy'i byw,
Rhag troi o'r Brif-ffordd ddedwydd fwyn
Ar dy Ddeheulaw sydd i'm dwyn.

## HYMN 85.

*Y Gyfraith a'r Efengyl yn cael eu gwahaniaethu.*

1 YDDEDDF sy'n erchi, a dweud beth yw
Ein Dyledswyddau ni i'n Duw;
Ond 'Fengyl ddengys in' pa le
Cawn Nerth i wneud ei 'Wyllys e'.

2 Y Ddeddf Datguddiad i ni ddwg
O'n Llygredd a'n Calonnau drwg;
'Does ond y 'Fengyl ddweud lle mae
Gras i'n pardyno a'n glanhau.

3 Cyhoedda'r Ddeddf Felldithion maith
Yn erbyn Dyn o's cwymp unwaith;
Ond yn y 'Fengyl Crist y sy'
Yn maddeu'n holl Euogrwydd du.

4 Na chais, fy Enaid, dynnu'n hwy
Fywyd o'r Ddeddf, na Chysur mwy;
I'r 'Fengyl rhed am Obaith gwiw;
Y Dyn a gredo hwn fydd byw.

## HYMN 86.

*Gallu'r Efengyl.*

1 HWN ydyw'r Gair o Gariad mawr,
O'r Nef anfonwyd i ni lawr;
Jehofa ddengys yma i ma's
Beth all ei hollalluog Ras.

2 Ffordd ga's Doethineb Duw ei hun,
I wella anhwyl Enaid Dyn;
Yr unig Falm rhinweddol yw,
I lwyr iachau Cwymp Dynolryw.

3 Yr 'Fengyl eirch i'r Meirw fyw,
A hwytheu glywant Lais Mab Duw:
Yr Esgyrn sychion a fywhair,
A thoddi'r Galon Garreg wnair.

4 Lle'r oedd y Fall a Th'w'llwch mawr,
Rhy'r 'Fengyl Olau nefol 'nawr;
Rheoli'n Chwantau ma'i ā'i Grym,
A dofi Llid Erlidwyr llym.

5 Bwystfilod, Llewod (wedi troen')
A wisgant Natur fwyn yr Oen;
A Phlant y Byd rhyfeddu wnant,
A'r Cyfnewidiad a gasant.

6 Fy Enaid inneu troer trwy Ras,
A chroesaw Wawd y Byd a'i Gas;
Mae'r Gair yn addaw Noddfa im',
Oddi wrth eu Llid cynddeiriog llym.

## HYMN 87.

*Esamplau* CRIST *a'i Saint.*

1 ADENYDD Ffydd yn awr pe cawn,
Tufewn i'r Llen ehedeg wnawn,
I wel'd y Saint mor llawen sy'
Mewn Gwynfyd a Gogoniant fry.

2 Fel ninneu buont yn y Byd,
Yn wylo'n bruddion lawer pryd;
Ymdrechu'n galed iawn â Grym
Amheuon, Ofnau, a Phechod llym.

3 Gofynwn iddynt hwy yn brudd,
P'odd darfu iddynt gario'r Dydd;
Hwy oll attebent, mai trwy Boen,
A Gwaed y croeshoeliedig Oen.

4 Dilyn'sant Gamrau'u Harglwydd Crist
Trwy Glod ac Anghlod Trallod trist;
Profedigaethau o bob Rhyw,
Ne's myn'd i'r Wlad addawodd Duw.

5 Trag'wyddol Glod i'r Iesu glan,
Rhoi lun yn Batrwn wnath o'n bla'n;
A'r Cwmmwl mawr o Dystion maith,
Fel Ser i'n tywys ar ein Taith.

## HYMN 88.

*Ffydd yng* NGHRIST *ein Haberth.*

1 NID Gwaed yr holl 'Nifeiliaid gwâr
A laddwyd ar Allorau,
A ro'i i Gydwybod euog Hedd,
Neu 'i Llygredd a olchasai.

2 Ond Crist, Oen Duw, dileu mae'n lân
Ein Pechod a'n Hanwiredd;
Rhagorach Aberth nâ hwynt-hwy,
A Gwaed sy' fwy ei Rinwedd.

3 Fy Ffydd fyn ddodi'i Llaw yn hy,
Ar Ben y Iesu grasol,
Tra b'wy'n cyfadde' mai ar led
O'i flaen yn edifeiriol.

4 Fy Enaid edrych 'nol y mae
Ar Groes a Beichiau'm Harglwydd,
Mewn Gobaith cadarn iddo fo
Ddwyn yno fy Euogrwydd.

5 Gan gredu'r y'm yn llawenhau,
I Dduw bellhau y Felldith;
A moli'r Oen am golli 'i Wa'd,
I ddwyn Rhyddhad a Bendith.

## HYMN 89.

*Cnawd ac Yspryd.*

1 RHWNG Cnawd ac Yspryd Rhyfel fydd,
Tra b'om mewn 'Stad o Brofiad prudd;
Cas genn'i'r Pechod ynof mae
Ond gwneud yr wy'i'r hyn wy'i'n gasau,

2 'Nawr griddfan 'rwyf a chwyno'n brudd,
O's Pechod yn gorchfygu fydd;
A chanu 'rwyf a llawenhau,
Can's Gras drachefn gorchfygu mae.

3 Y T'w'llwch a'r Goleuni sydd
Mewn Ymdrech hyd y perffaith Ddydd;
Ac ymladd bydd y Dw'r a'r Tân,
Hyd oni threngo'r gwanna'n lân.

4 Mae'r Cnawd a'r Yspryd yr unwedd,
Yn blino ac yn torri'm Hedd;
Ond caf roi fynu'm marwol Chwyth,
Ac yna derfydd Pechod byth.

## HYMN 90.

*Golwg trwy Ddrych ac Wyneb yn Wyneb.*

1 FFENESTRI 'th Ras eu caru wnaf,
Trwy'r rhai y gwela'i f' Arglwydd;
A Hiraeth cwrdd â'th Wyneb gwych,
Heb rhyngom Ddrych yn ebrwydd.

2 Ac O na ddenai'r happus Ddydd,
I droi fy Ffydd yn Olwg!
Cawn wel'd fy Mhrynwr fry yn Nhre',
Yng Ngolau'r Ne'n fwy amlwg.

3 F' Anwylyd brysia, ymaith tyn
Y Dyddiau hyn o Attaliad;
Yna fy Enaid i gaiff fod
I gyd yn Glod a Chariad.

## HYMN 91.

*Hunan-gyfiawnder yn annigonol.*

1 "* GALARWYR, p'le, medd f' Arglwydd'cair,
" Sy'n gwrando a chrynu wrth fy Nghair?
" Mewn T'w'llwch du sy'n rhodio'r Dydd?
" Rhowch yn fy Enw eich Cred a'ch Ffydd.

2 " Ni all eich Dyledswyddau llawn
" Roi am y Pechod lleiaf iawn;
" ‡Y Wisg all Nattur barottoi
" Ni chuddia'ch Gwarth er ynddi 'mdroi.

3 " Rhy fyrr yw'r Gwely all Nattur drin
" I esmwythau Cydwybod flin;
" At fy Nghyfiawnder trowch gael byw;
" Cysur a Hedd yw rhodd Mab Duw.

4 " Chwy-chwi sy'n cynnu Tân heb les
" I dwymo'ch Enaid oer di-wres:
" Rhodiwch wrth Olau'ch Tān eich hun,
" A'ch dewis Wrychion tywyll y'n'.

## HYMN 92.

*Achwyniad o Anffrwythlondeb, Anwybodaeth, a Serchiadau heb eu sancteiddio.*

1 HIR ddisgwyl, Arglwydd, y bum i
Dan beraidd Sain d'Efengyl di!
Ond etto'm Ffydd mor wan y cair,
A'm gwir Wybodaeth yn dy Air.

2 I'th Dŷ 'rwy'n tramwy ys lawer Dydd,
A gwrando'n fynych yn ddi-fudd:
Mor lleied Rhan o'th Air bob tro,
Wy'n allu gadw yn fy Ngho'.

3 Fy Nuw, a'm Hollalluog cu,
Mor lleied y'th adwaenir di
Wrth Farnau'th Wialen (gyfiawn Waith)
Nac wrth Fendithion d'Orsedd chwaith.

*Esay l. 10, 11. ‡Esay xxviii. 20.

4 Oer iawn yw'm Cariad i, a gwan ;
Esgeulus wyf yn hyn o Ran ;
Fy Ngobaith a'm Serchiadau sy'
'N anaml am y Nefoedd fry.

5 Duw mawr! cyfranna'th Nerth a'th Ddawn,
I beri i'th Air gael Llwyddiant llawn ;
Datguddia'th Iechydwriaeth Ion,
I'm Henaid i yng Ngwaed yr O'n.

6 Cyf'rwydda Nhraed i'r Ffordd y sy'
Yn arwain i'r Llawenydd fry ;
Gwybodaeth yno o hyd amlha,
A Chariad oeri byth ni wna.

## HYMN 93.

*Ein Harglwydd Iesu wrth ei Fwrdd ei hun.*

1 COF o Farwolaeth Crist ein Duw
A ddeffry Fawl pob Enaid byw ;
Arlwyo 'i Fwrdd wnaeth Brenin Nef,
Bendithio'r Bwyd, a chanodd ef.

2 Gwynfyd 'fwytao'r Bara hwn,
Ond llawer mwy dedwyddach, gwn,
Oedd ef, O Dduw, a blygei 'i Ben,
Gan bwyso ar dy Fynwes wen.

3 'R un Pleser hoff a brofwn ni
Trwy Ffydd a'th Ddisgybl anwyl di,
Wrth eiste' a phwyso ar dy Fron,
A gwledda gyd ä thi yn llon.

4 Yma mae Brenin Nef yn awr,
O'i ddisglair Lys yn disgyn 'lawr ;
"Dewch Ffryns, medd ef, bwytewch yn iawn,
"Ac yfwch Iechydwriaeth lawn.

5 "Fy Nghnawd sydd Fwyd ac Eli pur,
"Balm i'ch Doluriau oll a'ch Cur ;
"A'r Ffrydiau rhwydd o Bardwn rhad
"Ddylifodd o Wythennau 'Ngwa'd."

6 Hosanna i Grist a'i Gariad hael,
Am y fath Wledd y'm yma'n gael;
Etto mae'n porthi 'i Seintiau fry,
A gwell Bendithion nâ nyni.

7 Tyr'd anwyl ogoneddus Ddydd,
I ddwyn i'r Nef ein Henaid prudd,
Lle ni raid wrth Gysgodau mwy,
Ond cawn y Sylwedd hebddynt hwy.

HYMN 94.

1 FE fydd rhyw ganu peraidd,
Ryw foreu ddŷdd a ddaw,
Os gwelir rhai mor llesgaidd,
Yn jäch yr ochr draw,
Ein tannau fydd yn dynion,
Ai sŵn am *Galfari*,
Oh! rhyfedd fäth ryfeddod;
Ai dymma 'r lle rwyfi.

2 Ryfeddu 'r un fu 'n dioddef,
Gynt ar *Galfaria* frynn;
Rhyfeddu iddo wisgo,
Am dano 'r natur hyn;
Rhyfeddu iddo ein hethol,
O blith miloedd yn y bŷd;
I gael mwynhau 'n dragwyddol,
Ei heddwch gwerthfawr drûd.

3 Rhyfeddu 'r un am cadwodd,
Pan oedd *Gelynion* gâd;
Rhyfeddu 'r llaw am daliodd,
Pan oe'nt bron gwneud fy mräd;
Rhyfeddu grym y cariad,
At rai mor gyndyn gäs,
Rhyfeddu ar ryfeddu;
O anchwiliadwy Räs.

HYMN 95.

1 CRY, Crŷ, yw llygredd llawn.
O'm mewn fel llu,
Yn llenwi 'm Calon aflan ddu;

Gwyn fŷd a welai 'r ddedwydd awr,
I mi gael goruchafiaeth glân,
Ar fawr a mân drwy 'r Brenhin mawr.

2 Crŷ, crŷ, yw'r Brenhin sy'n rhyfela on tu,
O i flaen ni saif un arfog lu ;
Mi bwysaf ar ei alluog fraich ;
Mae 'n abl cynnal eiddil gwan,
I dd'ôd ir lan, o dan ei faich.

3 Clau, clau, ei gariad heb gyfnewid mae,
'Run ddoe a heddyw yn parhau,
O dragwyddoldeb daeth ê'n llî ;
Mae 'n gadarn iawn fe bara bŷth,
Ir Nefol nŷth eiff ef a nï.

## HYMN 96.

1 DAETH, daeth, Ceidwad i waredu 'r caeth,
Plant Angau 'n gwbl rŷdd a wnaeth ;
Darfu i Breswylydd mawr y *Berth*,
Gofio trueinied ïs y nenn ;
A sigo pen y ddraig ai nerth.

2 Gwîr gwîr fe ddarfu 'n gwympo'n *Adda*'n glir,
Yn gaeth i dragwyddoldeb hïr ;
Ond diolch byth fe gafwyd brawd,
'Rhwn a gymmerodd ein *Deddf* le ;
Fe unodd ê an natur dlawd.

3 Caed caed craig grëf im rhoddi ar fy nhraed,
Y ffordd yn rhŷdd i mi fe wnaed ;
P'am suddai i anobaith mwy,
Mae Noddfa yn barod oes yn wïr,
A *Chordial* clir i fendio 'm clwy.

4 'Nawr 'nawr mae croesaw i bechaduriaid mawr.
Gael tynnu beichiau trwm i lawr ;
Agorwyd ffynnon werthfawr ddrud,
I olchi 'r *Ethiop* du yn wyn ;
Bydd canu am hyn pan losgo'r Bŷd.

## HYMN 97.

1 GWYNFYD na welwn bechod,
Bob munud yn fwy gwan;
A gras yn ei orchfygu,
Na chodo bŷth ir lann;
Doed saethau 'r nefoedd arno,
I'w glwyfo yn fwy bob dŷdd;
Nes imi gael or diwedd;
Ou rwymau fyn'd yn rhŷdd;

2 O, Dal fi dal fi, ronyn;
Mewn Bŷd sy 'n llawn o ddrŵg,
Dod nerth i'th gywir ddilyn;
Er gwaetha 'r *Ddraig* ai gŵg;
Mae miloedd yn sychedu,
Am gael fy Enaid gwan;
Ar bwys fy anwyl Geidwad,
'Rwy 'n meddwl dôd ir lan.

3 Im henaid bydd yn noddfa,
A Chraig gadarna ei sail,
Y coll yn Adda 'r cynta,
Gwna i fynu yn Adda 'r ail,
Tynn ymaith ddelw pechod,
Ai wreiddiau o bob rhyw;
Ag adnewydda f' Enaid,
Ith ffafr werthfawr wiw.

4 Gwir yw fe ddarfu 'n gwympo,
'Ddiwrth Dduw yn Eden bell;
Ond diolch yn dragywydd,
Am y Cyfamod gwell;
Mae y tilerau yn sowndiach,
Ai sylfaen ar y Graig.
Ni chollir deiliaid IESU,
Er gwaetha llîd y *Ddraig*,

5 Rym ni yma 'n canu gronyn,
Rai troiau an Telyn fâch;
Yn uwch fe swnie ein tanneu,
Os down ni adreu 'n jâch,
Os gwelir ni ryw foreu,

Yn lan heb bechod cäs,
Yn beraidd ni ddiolchwn,
Am y Cyfammod Gräs.

## HYMN 98.

1 WRTH dy borth rwy fi yn *waitio*,
Gan bledio dy addewid wiw,
Tyred Arglwydd im bendithio,
Myfi yr anheilynga yn fyw;
Y 'th air y sy yn galw yn gu;
Y llwythog ar blinderog lu.

2 Ar dy addewid gwna i mi bwyso.
Ffŷdd i gredu heb ballu bŷth;
Dymma 'r fann 'r gwan fynd atto;
Cadarn noddfa cadarn nŷth,
Plediai 'n grŷ haeddiant cu
Yr un fu ar Galfaria frŷ.

## HYMN 99.

*Gras wedi amlhau.*

1 NID oes munud bach o'm bywyd,
Ná fuost, Arglwydd, i mi'n dda,
Ti'm gwaredaist fil o weithiau,
Yma ac accw, rhag rhyw bla;
Fe'm hachubwyd, &c.
Am it' sefyll o fy mhlaid.

2 Deng mil lawn o gyfyngderau,
Ac o rwydau cyfrwys fwy,
Fu gan satan i fy maglu,
Cwymp'swn inneu iddynt hwy;
Ti dy hunan, &c.
Oedd a'm daliodd i i'r lan.

3 Mi dueddais gant o weithiau
O ochr fy ngelynion cas,
Gwell oedd gennyf golli'r frwydr,
Nag oedd gennyf gario'r maes;
Ti'm hachubaist, &c.
Pan o'wn inneu'n myn'd i'r tân.

4 'Rwyt ti'n drech nä'm calon galed,
'Rwyt ti'n drech nä'm pechod cas;
Ti wnai 'm hanwyl chwant a minneu,
Pryd y mynnost, gwympo i maes;
Croesa mhechod, &c.
Croesa'r peth wyf am fwynhau.

5 Dy ddoethineb, a dy allu,
Sydd yn abl torri lawr,
D'rysu, mwrddro, a newynu
'R pennaf un o'm meiau mawr;
Gwna i mi ganu, &c.
Congc'rwyd gelyn fwy nâ'r byd.

## HYMN 100.

*Yr Arglwydd yw fy Nerth.*

1 CYMMER, Iesu, fi fel ydwyf,
Fyth ni alla'i fod yn well;
Dy allu di a'm gwna i 'n agos,
Fy ewyllys i yw myn'd ymhell;
Yn dy glwyfau, &c.
Bydda'i'n unig fyth yn iach.

2 Mi ddiffygiais deithio crasdir,
Dyrus anial, wrthyf fy hun,
Ac mi fethais a chongcwero
O'm gelynion lleiaf un;
Mae dy enw, &c.
Yn abl rhoddi'r cryfa i ffoi.

3 Gwaed dy groes sy'n codi i fynu
'R eiddil yn gongcwerwr mawr,
Gwaed dy groes sydd yn darostwng
Cewri cedyrn fyrdd i lawr;
Gad im' deimlo, &c.
Awel o Galfaria fryn.

4 Mwy yw dy eiriau ar y groesbren,
Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,
Mwy yw'r fillaf leia' o honynt,
Na'm holl ddyledswyddau i gyd;

Edrychaf yno, &c.
Yno mae fy nerth a ngrym.

5 Clywed dy riddfannau chwerwon,
Wnaiff i'm henaid lawenhau,
Teimlo'th gariad wna'm gelynion
Cynddeirioccaf lwfrhau;
Boed fy nhrigfan, &c.
Hyfryd ar Galfaria fryn.

## HYMN 101.

1 FE'M llyngcwyd i fynu mewn syndod i gyd,
Wrth feddwl am angeu Iachawdwr y byd;
Trysorau o gariad, trysorau o ras,
Na fedr angylion eu mesur hwy maes.

2 O henffych ddirgelion! anfeidrol eu rhyw!
A ddaeth i'r goleuni trwy glwyfau fy Nuw;
Ni fydd trag'wyddoldeb ddim gormod ei hun,
I chwilio dyfnderoedd fy Arglwydd yn ddyn.

3 Ysprydoedd rai cyfiawn ddihangodd o'r byd,
A hyn sy'n difyrru eu hunain o hyd,
Gan edrych i'r orsedd ddisgleirwen o'u blaen,
A diblu fyth eilwaith ac eilwaith eu cān.

4 Eu cān sydd am gariad yn gwared y byd,
Am undeb angylion a seintiau ynghyd;
Am ddoniau'r Messia, am faithder ei loes,
Ac am anfeidroldeb holl bwrcas y groes.

5 "Y nerth, a'r gogoniant, a'r gallu, a'r clod,
"Fo'r hwn sydd yr awrhon a'r hwn sydd erioed;
"I'r Alpha, Omega, i'r Drindod yn un,
"I'r Oen a fu farw tros bechod y dyn.

6 "'Does neb ar y ddaear, ni ddaw, ac ni fu
"Yn deilwng i dderbyn yr enw ond ti;
"Ti brynaist y cwbl, ti a'u rhoddaist yn rhad,
"Ti a'u prynaist ā'th fywyd, ti a'u prynaist ā'th
"waed."

## HYMN 102.

*Gweddi.*

1 DYCHWEL, Arglwydd, i'th orphwysfa,
Pa'm y cuddi dy wynebpryd?
Pwy hyfrydwch gaiff y rhei'ny
Sy'n dy garu yn y byd?
Poen a gofid o'r boreu-ddydd,
Dû, cymhylog, hyd yr hwyr,
Rhyw gystuddiau yn cyttuno
'N llyn i'm digaloni'n llwyr.

2 Colli'th gariad yw pob colled,
Colli'th heddwch yw pob gwae,
Fyth ni alla'i heb di gwmp'ni
Ond och'neidio a llwfrhau:
Tyr'd gan hynny tros fynyddau,
Tyr'd trwy 'fonydd, tyr'd trwy dân,
Dere, Arglwydd, etto atta'i
Fel y Daethost ti o'r blaen.

3 Do, mi haeddais fil o weithiau
I ti ddelio ä mi'n llyn,
Darfu'm calon dy ddiystyru
Eilwaith, 'nol it' faddeu hyn;
Na roed d'Yspryd fi i fynu,
Er mai fy haeddiant cyfiawn yw;
Delia â mi fel pechadur,
Dangos dy hunan megis Duw.

4 Ti'm cofleidiaist yn dy freichiau,
Minneu es at eilunod cas,
Yno curodd fy ngelynion,
Heb fy arbed, ar fy ngras;
Yn y llwch 'rwy'n awr yn dyfod,
Ac yn gorwedd wrth y bedd,
Maddeu, maddeu, yw fy ngweddi,
Gad im' etto wel'd dy wedd.

## HYMN 103.

*Gweddi.*

1 ARGLWYDD, danfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwysg a'i rym,
Dangos fod dy lais yn gryfach

Nag all dyn wrthsefyll ddim;
Cerdd ymlaen, nefol dân,
Cymmer yma feddiant glân.

2 Tyred allan yn dy arfau,
O balasau teg y ne',
Achub bwrcas dy ddioddefaint,
Mi ddistrywir onide;
Mawr yw'r llid sy'n y byd,
I gongcwero'm henaid drud.

3 'Rwyf yn credu na's dioddefaist,
Ar y groesbren, farwol glwy',
Tros ryw rai nad o'et yn garu,
Nac yn 'nabod o honynt hwy;
Y mae brad dinaccad,
Yma 'nawr i werth dy waed.

4 Dere bellach, dere'n ebrwydd,
Ac anadla'r gwyntoedd cry',
Sydd yn nerthu'r pererinion
I wynebu g'lynion hy;
Yn gwneud grym satan lym,
Mewn munudyn fyn'd yn ddim.

## HYMN 104.

*Llwyddiant yr Efengyl.*

1 DERE, Iesu, i'r ardaloedd,
Lle teyrnasa tywyll nos,
Na'd fod rhan o'r byd heb wybod
Am dy chwerw angeu loes;
Pa'm bydd poen addfwyn Oen,
Am dano yn eitha'r byd heb son.

2 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,
Aed i eitha'r India draw,
I fod hoelion dur cadarnaf
Yn ei draed ac yn ei law;
Doed ynghyd eitha'r byd,
I wel'd tegwch d'wynebpryd.

3 Doed paganiaid yn eu t'wyllwch,
Doed y negroes dua'u lliw;
Doed addolwyr yr eilunod,
Weled tegwch Iesu'n Duw;
Doed pob un, yn gyttun,
Mewn i wleddoedd wedi eu trin.

4 O darfydded Canaaneaid,
Mwy i drigo yn y wlad,
Na ddoed syllaf bach o enau
Neb ond am rinweddau'th waed;
Deued llu, heb ddim rhi',
Fyth i ganu am Galfari.

HYMN 105.

*Gwaed y Groes yn erbyn Ofn.*

1 WEL, ymgysura 'nawr,
Fy enaid eiddil gwan,
Sy'n cwrddid bob yr awr
A rhwystrau ymhob man;
Mae Duw o'm tŷ, caf cyn bo hir
Wel'd fy meiau yn colli tir, &c.

2 Ni chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr,
Ddioddefwyd angeu loes,
Heb ryw ddibenion mawr;
A thyma oedd ei amcan ef,
I'm dwyn o'r byd i deyrnas nef, &c.

3 Ffoed euogrwydd bellach ffwrdd,
Doed heddwch yn ei le,
Ac na ddoed ofnau i'm cwrdd,
Dim ond awelon ne';
Pwrcas y gwaed anfeidrol ddrud,
Rho hyn yn fuan i mi gyd, &c.

4 Na'd i mi garu mwy
O'r pechod drwg ei ryw,
Y pechod roddodd glwy'
I Mhrynwr a fy Nuw!
Na'd i mi garu dim ond ti,
O'r ddae'r i eitha'r nefoedd fry, &c.

## HYMN 106.

1 WEL, f'enaid, gorfoledda mwy,
Tr'o f' Arglwydd mawr yn Dduw,
Mae'r gair a dd'wedo yn llawer mwy
Nā phechod o unrhyw.

2 Tan bob cystuddiau fwy a mwy,
Rhuadau cnawd a byd,
Mae digon nerth mewn marwol glwy',
I'w briwo oll ynghyd.

3 Awdwr y cariad sy'n parhau,
Na welir fyth o'i fath,
Sydd ddigon abl fy rhyddhau,
O bob rhyw garchar caeth.

4 'Does gennyf mwy ond Duw yn Dad,
Yn erbyn pob rhyw wae;
'Does gennyf ond ei gariad rhad,
Yn sylfaen i barhau.

## HYMN 107.

1 SAITH o weithiau, ol a gwrthol,
Torrais dy orch'mynion glăn,
Saith adduned fawr a wnaethum
I ymgadw rhag y tăn;
Yn y dyfnder ce's i gyntaf
Wel'd dy wridog wyneb gwyn,
Oni busai fflam euogrwydd
Ddaethwn fyth i Sion fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,
Fe wnaeth tywyllwch dudew'r nos,
Im' roi naid trwy ddyledswyddau
Meirwon, llesg, at waed dy groes;
Ar fin uffern ce's i 'r nefoedd,
Ac yn angeu ce's i fyw,
Yn nharanau mynydd Sinai
Gyntaf de's i gwrdd ä'm Duw,

3 Mellt a tharan, mwg a chenllysg,
Oedd euogrwydd i mi'r pryd,
De's i wel'd maddeuant pechod,
Fil o weithiau yn fwy nä'r byd;
Gwnaf, mi gofia'r oriau hynny,
Oriau fy mhriodas y'n',
Pan ddaeth Creuwr nef a daear
At bechadur gwaelaf un.

## HYMN 108.

*Gweddi.*

1 TYRED, Arglwydd, i'r anialwch
Yma buost ti o'r blaen,
Arwain bererin llesg difedr
A dy golofn niwl a thān;
Dal fy yspryd sy'n llewygu
Gan ryw ofnau o bob man,
Yn dy allu'r wyf yn gadarn,
Hebost ti nid wyf ond gwan.

2 Wrth dy orsedd bydd fy nhrigfan,
A dy orsedd unig yw,
Od oes dim tu yma i angeu,
Wna fy enaid marw'n fyw;
Pechod, gofid, ac euogrwydd,
O bob nattur, o bob gradd,
Syched am gael teimlo'th heddwch,
Sydd yr awr hon bron fy lladd.

3 O drugaredd pen Calfaria!
Sydd yn llawer lled nâ'r byd!
Yma'n unig mae fy ngobaith,
Sefyll mewn anfeidrol lid;
'Rwy'n ymwadu oll a fedda'i,
Ac yn addef fedda'i ddim;
Iesu ei hunan yw fy haeddiant,
Iesu ei hunan yw fy ngrym.

## HYMN 109.

1 FE gân 'tifeddion gras
Yn beraidd maes o law,
Wrth wel'd yn boddi'r Aipht,

A hwytheu'r ochr draw;
Fy enaid 'hed i ben y bryn,
I wel'd y congcwest rhyfedd hyn.

2 Yn uchel fry ar fryn,
Rhwng daear gron a nef,
Holl rwysg Gehenna fawr
A'i grym orchfygodd ef;
Tan hoelion dur, goddefodd glwy',
Pa fodd ymffrostia uffern mwy.

3 Wel, daccw'r ffordd yn rhydd,
Agorwyd hi o bob tu,
O ddyfnder daear las,
I uchder nefoedd fry!
O dring, O dring, fy enaid mwy!
Mae nerth i'w gael mewn dwyfol glwy'.

4 Wel, deuwn yn y blaen,
Fe gwympodd ofnau mawr
Ar y gelynion hy,
Oedd am ein cael ni lawr:
Fe gawd y dydd, mi glywa'r nen
Yn canu'r congcwest ar y pren.

## HYMN 110.

*Crist yn dwyn ein Beichiau.*

1 FE rowd arno bwys euogrwydd,
Pwys na's gall ei ddal 'mo ddyn,
Cosp pechodau myrdd o ddynion,
Heb un pechod ynddo ei hun;
Do, fe'i gwisgwyd â chystuddiau,
Ffrwyth fy meiau fawr a mân,
Fel cawn inneu, wael bechadur,
Aflan, euog, fod yn lân.

2 Ac yn nyfnder grym ei boenau,
Tan ergydion angeu loes,
Fe weddiodd am faddeuant,
Maddeu i mi, ar y groes;
Fe gofleidiodd f' enaid aflan
Rhwng y ddaear fawr a'r nen,

Do, fe ngharodd, ac fe nghofiodd,
Tan yr hoelion ar y pren.

3 O anfeidrol berffaith gariad!
Cariad na's gall dawn na gras,
Dynion, na'r angylion pennaf,
Fyth yn hollol ddodi maes;
Cariad fydd yn sylfaen gadarn,
O bob anthem yn y nef,
Seintiau ac angylion dra-phlith
Ganant am ei gariad ef.

4 Ac ni fydd 'mo drag'wyddoldeb
Ddim yn ormod, er ei hyd,
I ddatguddio hen ddyfnderoedd
Cariad Iesu maes i gyd;
Holl rinwiddau maith ei glwyfau,
Poenau'r hoelion meinion llym,
A wna oesoedd i fyn'd heibio,
Etto heb eu gwel'd ond dim.

## HYMN 111.

1 O NA ba'i cystuddiau f' Arglwydd,
Yn fy nghalon i gael lle,
Pob rhyw loes a phob rhyw ddolur,
Pob rhyw fflangell gafodd e',
Fel b'ai mhechod, &c.
Ildio'r dydd a myn'd i maes.

2 Ti dy hunan yno'n Frenin,
Ti dy hunan yno'n Dduw,
Dy eiriau dy hunan yno'n uchaf,
Dy eiriau gwerthfawrocaf ryw
Ti wnai felly, &c.
Bydew dû yn deml lân.

3 Yno gwna dy drigfan hyfryd,
Trigfan croeshoeliedig Oen,
Ac na chilia maes oddi yno,
Tra f'o ana'l yn y ffroen,
Rhag i'm pechod, &c.
Ffaidd geisio d'od yn ol.

## HYMN 112.

1 MAE dydd at ddydd yn d'od i ben
A'm taith drafferthus i's y nen,
Fe ddirwyn amser at y nod,
Ac yno mhechod fe gaiff friw,
A thyna'r pryd congcwera'm Duw
Bob rhyw ffeidd-dra ynwy' erioed.

2 O ddedwydd, nefol, hyfryd awr,
Ca'i roddi meichiau trwm i lawr,
Ag sy'n fy mlino i foreu a nawn,
A myn'd i wlad lle nad oes bai,
Ond cariad perffaith i barhau,
Llawenydd pur a heddwch llawn.

3 'Rwyf bron a gorfoleddu 'nawr,
Wrth feddwl daw fy meiau lawr,
A bod y dydd yn agosau;
Dydd o orphwysfa berffaith yw,
I'r neb sy'n blino ei guro'n friw,
Gan nerth trachwantau a phob gwae.

4 Wel, dere ddedwydd, hyfryd ddydd!
Rho fy ngadwynau tyn yn rhydd,
Gad i mi brofi'r hyfryd wledd;
Lladd anghrediniaeth sydd yn awr
Yn curo f' enaid bach i lawr,
Ac ymaith tyn holl ofnau'r bedd.

## HYMN 113.

1 NI'S gall angylion nef y nef,
Fynegi faint ei gariad ef,
Mae angeu'r groes yn drech nā'u dawn;
Bydd canu uwch am Galfari,
Nag glywodd yr angylion fry,
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

2 Ni's teimlodd neb ond ef ei hun,
Anfeidrol werth fy enaid cun;
Uwch da, uwch aur, uwch perlau drud,
Ni thalai dim ond gwaed fy Nuw,
Angeuol farwol loes a byw,
A'm prynai i o drag'wyddol lid.

3 Y pennaf drysor heddyw yw,
O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw,
Holl sylwedd y canaiadau gyd;
A thyna'r gwaed a roddodd iawn,
I ddwyfol digter perffaith lawn,
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

4 Am iddo farw ar y bryn,
Ca's f' enaid bach ei brynu'n llyn,
A'i dynnu o'i gadwynau'n rhydd;
Wel bellach tan ei haeddiant ef,
Fel cysgod cederwydden gref,
Gorphwysa'i mwy yng wres y dydd.

## HYMN 114.

*Iechydwriaeth trwy GRIST.*

1 O CENWN fawl i'r Ceidwad fyth,
A ddaeth o blith angylion,
I'r byd i fyw a marw o'i fodd,
Dros luoedd o'i elynion.

2 Pan welodd ddyn yn wael ei ddull,
Mewn pydew erchyll bydr;
Ar aden cariad 'hedodd Crist
I gadw'r trist greadur.

3 Ei eni a ga's o forwyn gu,
I'r ddeddf y bu yn ufudd:
I fynu i blith anialwch blin,
Fe dyfodd gwreiddyn Dafydd.

4 Do, anrhydeddodd gwir Fab Duw,
Yn fwy nâ'r gwiw gerubiaid,
Y gyfraith ddwyfol gyfiawn dda,
A dorrodd pechaduriaid.

5 Tywalltodd ef ei werthfawr waed,
Yn aberth rhad dros bechod,
Gan gael i ni drag'wyddol hedd,
Trwy rinwedd ei gyfryngdod.

6 Ei fywyd a'i farwolaeth ef
Yw'r ffordd i'r nef ddymunol;
A'i bresennoldeb gwiw a'n gwna
Yn ddedwydd yn drag'wyddol.

7 Anfeidrol werthfawr yw ei waed,
A'i felus gariad ffyddlon!
Dyrchefwn fyth, ar barchus fin,
Hosanna i Frenhin Sion.

## HYMN 115.

*Nerth a chyssur yng Nghrist.*

1 PA ham nad yw fy enaid i
Yn fwy am brofi beunydd,
Y gwir lawenydd goreu 'i flas.
A dardd o ras yr Arglwydd.

2 Pan ydwyf tan orthrymder trist,
(Heb neb ond Crist i'm cynnal,)
Trwy glefyd ffyrnig, gwawd y ffol,
Neu afael bydol ofal;

3 Ond i mi gael addewid gu
Oddiwrth fy Iesu gwerthfawr,
Y caf fi nerth yn ol fy nydd,
Nid ofnaf gystudd dirfawr.

4 Cyflawnaf bob dyledswydd bur,
Dioddefaf gur o'm gwir-fodd;
A cholli 'ngwaed dros Grist a wnaf,
O's nerth a gaf o'r nefoedd.

5 Fy Iesu glän oleua'n glau
Fy ngorthrymderau duon;
A'i rasol wên melusu a wna
Ddoluriau mwya' chwerwon.

6 Anhwylach gennyf Grist a'i gro's,
A'i sanctaidd achos union,
Na'r holl deyrnasoedd dan y nef;
Rho'is iddo ef fy nghalon.

## HYMN 116.

*Hosanna, neu Ddydd yr ARGLWYDD.*

1 HWN ydyw'r dydd a wnaeth ein Duw,
A gwerthfawr yw yr oriau;
De'wn ger ei fron o gywir fryd,
Gan barchu'r hyfryd foreu.

2 Do, anrhydeddodd Iesu'r dydd,
Ca's heddyw'r fuddugoliaeth
Ar uffern boeth, ar angeu a'r bedd;
Maluriodd gledd marwolaeth.

3 Gorchfygodd Crist bob gelyn cryf,
Yn awr fe dyf ei deyrnas;
Cawn byth gyfiawnder hoff a hedd,
A mawr orfoledd addas.

4 Hosanna trwy y nefoedd fry,
A'r ddaear obry'n ebrwydd,
I Brynwr dyn, ein Brenin da,
A'n gwir annwyla' Arglwydd.

5 Y brynniau mawr a'r moroedd maith,
Hosanna ar unwaith seinient;
A'r holl greaduriaid ym mhob byd,
Gogoniant Duw cyd-ganent.

## HYMN 117.

1 O IESU, attat 'rwyf yn d'od,
Y truenusaf ddyn erioed;
I ymguddio tan dy adain glyd,
Tan demtasiynau maith y byd.

2 'Does unrhyw gyflwr, unrhyw fan,
Heb dorf yn curo ar f' enaid gwan;
Ond er d'ogoniant, Arglwydd cun,
Lladd dy elynion cas dy hun.

3 Gwisg fi â 'r fantell ddisglair, lawn,
A wnaed ar Galfari brydnhawn;
A throcha aneirif feiau f'oes,
Yn nwfr pur a gwaed y groes.

4 Mae'm dyddiau'n treulio o awr i awr,
Nesau mae trag'wyddoldeb mawr;
Gad i mi wel'd yn oleu clir,
Wrth fyn'd o'r byd, dy wyneb pur.

5 Gwasgara y cymhylau sydd
Yn cadw'th nefol wedd ynghudd;
A dyfrha fi ă'th hyfryd hedd,
Yn erbyn ofnau angeu a'r bedd.

## HYMN 118.

1 O ARGLWYDD grasol, bydd o'm plaid,
Ymhob gwasgfeuon fel bo rhaid;
Rho'th Yspryd sanctaidd i mi'n sel,
Ymhob troiadau, doed a ddel.

2 'Rwy'n hollol dlawd, heb feddu dim,
Dy nerth anfeidrol yw fy ngrym;
A'th bur ffyddlondeb sydd heb drai,
Wna hyd y diwedd im' parhau.

3 Dy bresennoldeb gwerthfawr, drud,
Yw fy niddanwch yn y byd;
Ac heb dy bresennoldeb wiw,
Fel un ymddifad 'rwyf yn byw.

4 Mae'm holl gariadau yn y byd,
Ddieithrach, ddieithrach im' o hyd;
Ac nid wy'n ceisio yn eu lle,
Ond cwmp'ni Brenin mawr y ne'.

5 Ac yna aed y nef ar dân,
A'r ddaear fawr yn ulw mân;
Nid ofnai'r drygau mwya' sy,
Tro'm haddfwyn Iesu gyd â mi.

## HYMN 119.

1 Y CWBL fedda'i oll yn un,
O entrych nen i'r llawr,
A rowd ynghadw 'nghyd tan sel,
Yn haeddiant Iesu mawr;
Dewch ac yfwch o'r bendithion,

Sydd yn llifo fel yr afon,
O Galfaria maes yn gyson,
Maith gyflawnder, maith gyflawnder,
Heb na therfyn fyth na thrai.

2 Mae yma ffynnon sy'n glanhau
Budreddi brwnt yn lân,
A hyfryd olchi'r ffiaidd cas,
Yn loyw fel y gwlän ;
Dewch ac yfwch o'r bendithion, &c.

3 'Does unrhyw gyflwr îs y ne',
A glywyd am dano son,
Ag pwysa ei anwireddau fwy
Nā gwerthfawr waed yr Oen ;
Dewch ac yfwch o'r bendithion, &c.

4 Maddeuant sy yma, perffaith, lawn,
I'r cystuddiedig rai,
Mae'r haeddiant fry yn clirio'n lân
Bob rhyw aneirif fai ;
Dewch ac yfwch o'r bendithion, &c.

HYMN 120.

1 WEL, dyma gyfoeth gwerthfawr, llawn,
Uwch holl drysorau'r llawr,
Wedi ei roi gadw oll ynghyd,
Yn haeddiant Iesu mawr ;

Boed trag'wyddol barch a moliant
Fyth i Frenin y gogoniant,
Ar ei 'fengyl wen bo'r llwyddiant,
I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,
I derfynau eitha'r byd.

2 Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel moroedd mawr didrai,
Ac fe bwrcasodd yno hedd,
Trag'wyddol i barhau ;
Boed trag'wyddol barch a moliant, &c.

3 Ei gariad bery pan bo'r byd
A'r haulwen fawr yn ddim,
Ac nid oes gariad yn y byd
Gyffelyb idd i'w rym ;
Boed trag'wyddol barch a moliant, &c.

## HYMN 121.

1 O TYRED, Arglwydd, saif wrth raid
Yn awr o blaid y gwan,
Mi soddaf mewn dyfnderoedd dû,
Oni ddeli di fi i'r lan.

2 Mae nerth dy ras yn llawer mwy
Nä'm beiau i oll o'r bron,
Dy hyfryd wën sy'n abl lladd
'R euogrwydd tan fy mron.

3 Ni all fy meiau, er eu rhif,
A'u cynddeiriogrwydd cas,
Eu 'sgil, eu dyfais faith, a'u grym,
I faeddu dim o'th ras.

4 Mae ynot foroedd pur, dilyth,
Heb ddiffyg fyth, na thrai,
O gariad anghydmarol cu,
Fyth fythoedd i barhau.

5 O tywallt hwn i'm henaid gwan,
Sy'n fynych tan ei boen,
Yn methu credu i'w faddeu'n rhad
Yng werthfawr waed yr Oen!

## HYMN 122.

*Ymdrech Ffydd ac Anghrediniaeth, a Ffydd yn Gorchfygu.*

1 ANGHREDINIAETH gad fi'n llonydd,
Onid ê mi godaf lef,
O dyffryn adfyd, lle'r wy'n gorwedd,
Oddi yma i'r lan i ganol nef:
Mae yno Frawd yn eiriol drosof,
Ni's gad fi'n angof nos na dydd,
Brawd a dyrr fy holl gadwynau,
Brawd a ddaw ä'r caeth yn rhydd.

2 Ychydig ffydd, b'le'r wyt ti'n llechu?
Cymmer galon, gwna dy ran;
Hedyn gras, pa le 'rwyt tithau?
Tyn dy gleddau o blaid y gwan:

Anghrediniaeth cil o'r llwybr,
Ni pheru'r frwydr ddim yn hir,
Er mai eiddil yw fy enw,
Er hynny gyd 'rwy'n ennill tir.

3 Anghrediniaeth er dy waetha,
Mae tŷ Ddafydd yn cryfhau,
A thŷ Saul, er maint ei werin,
Bob munudyn yn gwanhau:
Mi wela' ronyn trwy'r cymhylau,
Fy Iesu a'i gerbydau gwych,
Cadarn, ffyddlon Archoffeiriad,
Fy ofnau ffy wrth swn ei glych.

4 Derfydd cario arfau rhyfel,
Derfydd griddfan dan y gro's;
Cyfyd haulwen na fachluda,
Na chwmmwl du na hwyrol nos:
Er bod llydan draeth a che'nfor
Angau, dyffryn tywyll, gwn,
Clod am Iesu'n Arch i'm cadw,
I groesi'r ce'nfor garw hwn.

## HYMN 123.

*Llef y Credadyn am hyfryd awelon yr Yspryd Glan.*

1 CHWYTHED y deheu-wynt hyfryd
Ar fy yspryd llesg dirym,
Fel gwasgaro'r tew gymhylau,
Sydd rhyngof a'r nefolaidd fryn:
Gwasgara'th ennaint peraroglus,
I gonglau pella nghalon oer,
Na'd un gongl heb ei llanw,
A'th ras sydd anherfynol fôr.

2 Arglwydd agor dy ffynhonnau,
A dyfyrha fy enaid sych;
Rho i mi deimlo nefol awel,
Rho i mi glywed swn dy glych:
Awel rymmus wna 'mi ganu,
A dyfal gyrchu at y nôd,
Awel wna i'm hyspryd lammu,
A'th enw dithau gaiff y clod.

3 Awel gref o fynydd Sion,
Anwyl Iesu, sy arna'i chwant,
Awel gref wna i mi ganu
Ar nefol dannau gyd â'r plant;
Awel hyfryd ddaw ä'm henaid
O'm caethiwed oll yn rhydd,
Awel hyfryd wna dawelwch,
A'r tywyll nos yn hyfryd ddydd.

4 Awel gref o dir y bywyd
Y sydd eisiau arnaf fi,
Golau'r haulwen ar fy mhabell,
Awel hyfryd gyd â hi:
Awel hyfryd ac addewid,
Awel fawr o Ganaan wlad,
Awel hyfryd ar ol awel,
A'r awel ola' i dŷ fy Nhad.

## HYMN 124.

*Griddfannau'r Credadyn dan Gystudd Yspryd.*

1 ARGLWYDD gwrando'r gwan yn griddfan,
Sy'n methu credu dof i'r lan,
Gan mor dywyll yw'r cymhylau,
Cloffi rhwng dau feddwl gwan:
Credu'n wan ac ofni llawer
Y metha'i dd'od i Sion fryn,
Ofni twyll fy nghalon gyfan,
Ofni'm hunan fwy nä dim.

2 Weithiau yn y tywyll gwmmydd,
Weithiau ar ben y mynydd glä s,
Weithiau yfed dyfroedd Mara,
Weithiau gwin pereiddia'i flas;
Weithiau griddfan ac och'neidio,
Weithiau canu'r delyn bër,
Weithiau'n isel dan y tonnau,
Weithiau cuwch a'r haul a'r ser.

3 Amal rhyfedd, heb rifedi,
Ydyw'r tonnau o bob lliw,
A lifodd drosof o gystuddiau,
A thrwy drugaredd etto'n fyw.

O ragorfraint! fod fy mywyd
Yn guddedig draw i'r llen,
Gan Iesu f' Archoffeiriad ffyddlon,
Yn ddirgel yn ei fynwes wen.

4 Doed hi arnaf fel y delo,
Trwy nerth mi gredaf air fy Nuw,
Mai yn nhyllau Craig yr oesoedd
Y caiff y truan egwan fyw:
Yn nhyllau'r Graig y mae dihangfa,
Tyllau'r Graig yw noddfa'r gwan,
Yn nhyllau'r Graig mae hedd a bywyd,
Clwyfau'r Iesu, 'r Oen dinam.

## HYMN 125.

*Golwg y Credadyn trwy Ffydd ar Iesu Grist yn Gorphen Gwaith ei Iechydwriaeth.*

1 O FY enaid, tro dy olwg,
Gwel yn amlwg ben y bryn,
Lle bu Iesu, y Cyfaill ffyddlon,
Dan yr hoelion dur cyn hyn:
Talodd yno swm dy ddyled,
A gwerthfawr waed ei galon friw,
Yr Oen dieuog yno'n marw,
A finnau'r euog yn cael byw.

2 Daccw angau wedi ei faeddu,
Daccw'r ddraig â'i phen yn friw,
Daccw'r gelyn wedi ei ddala,
Daccw'r faner hardd ei lliw;
Daccw'r frwydr wedi ei hennill,
Er cadernid grym y tân,
Gan y Iesu'r Brawd anwyla',
Haleluia f' enaid cân.

3 Dyma gariad heb ddim gwaelod,
Dyma gariad heb ddim trai,
Dyma gariad di-gyffelyb,
Dyma gariad sy'n parhau;
Dyma gariad a fy nghynnal,
Tra fo ynof ana'l chwyth,

Dyma gariad wnaeth i'm henaid
  Ddechrau'r gàn na dderfydd fyth.

4 Seraphiaid ac angylion cenwch,
  Dadseiniwch fawl f'Anwylyd cu,
Pan ddelwyf finnau trwy'r Iorddonen,
  Mi ganaf cuwch a neb o'r llu:
Os y pechaduriaid penna'
  A rŷdd Hosanna uwcha'u cân,
Myfi yw'r pennaf un o'r rhei'ny
  Waith hyn rhaid i mi gael y blaen.

## HYMN 126.

1 WELE'r Brawd fu dan yr hoelion,
  Wele'r ffynnon goch o waed,
Wele'r cwmmwl golau hyfryd,
  Wele'r Graig sydd dan dy draed;
Wele'r Allor, Wele'r Aberth,
  Wele'r Iachawdwriaeth ddrud,
Arfaethwyd i ti ar Galfaria,
  Ymhell er cyn sylfaenu'r byd.

2 Wele rwyd yr hen adarwr
  Wedi ei thorri'n chwilfriw mân,
Fy enaid llamma, gorfoledda,
  Haleluia boed dy gân:
Myfi'r yw' 'deryn a ddihangodd
  I mewn i glwyfau'r anwyl Oen,
Am y clwyfau hyn mi ganaf,
  Byth ni allaf dewi son.

3 Wele'r Iesu, y Pen-rhyfelwr,
  Yn d'od i'r lan o Edom wlad,
A'i wisg yn goch, a'i fraich yn rymmus,
  A'r ddraig yn glwyfus dan ei draed:
Am yr hyfryd fuddugoliaeth
  Mi gana'm telyn fach yn awr,
Hyd nes delo'r hyfryd forau,
  Y caf finnau'r delyn fawr.

4 Wele'r dyled wedi ei dalu,
  Rhwymau'r caethion aeth yn rhydd,

Edrych f' enaid dros y bryniau,
Wele'r hyfryd Seren Ddydd;
Wele o'th flaen yr union lwybr,
A myrdd o frodyr draw i'r llen,
Wele'r Iesu'th Archoffeiriad,
A'th enw ar ei fynwes wen.

5 Haleluia, Haleluia,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefol wlad,
Haleluia, Haleluia,
I'r hwn a'm golchodd yn ei waed;
Haleluia, Haleluia,
Ces win ac olew yn fy mriw,
Haleluia, Haleluia,
Mae'r Iesu, er marw, etto'n fyw.

## HYMN 127.

FFYDD YN BWRW ALLAN OFN.

1 O FY enaid paid ac ofni
Wrth wel'd gelynion lu,
Duw cadarn sy o'th ochr,
Congcwerwr uffern ddû,
Rhŷdd nerth i'r gwan i sefyll
Yn gadarn pan bo raid,
Gogoniant iddo beunydd,
Fy mhriod yw a'm Plaid.

2 Fe'm cadwodd fil o weithiau
Rhag drygau rif y glwith,
O f'enaid bach, gan hynny,
Molianna ei enw byth;
Mae'n ffyddlon ei addewid,
Fe saif o'm plaid o hyd,
Er gwaetha'r holl elynion
Sydd mewn cynddaredd llid.

3 Bu gydâ'r holl dduwiolion
Trwy ddyfroedd a thrwy dan,
Mewn myrdd o gyfyngderau
Fe'u dygodd yn y blaen;
Bydd gyd â ninnau etto,
Ei addewid gadarn yw,

Un digyfnewid hollol
   Yw'n Iesu ni a'n Duw.

4 Fe ddygodd ef fy nghalon,
   Rhoes ernes oddi fry,
Anfeidrol yw ei gariad,
   Pa beth oedd ynof fi?
Ac etto maen fy nghynnal
   A'i ragluniaethau glân,
Mae'r cyfan yn cydweithio
   I'm tynnu yn y blaen.

## HYMN 128.

*Golwg y Credadyn Arwerthfawrogrwydd Aberth Crist a'i waed.*

1 ARGLWYDD, tyred, rhwyga'r cwmmwl;
   Gwlawia o'th fendithion rhad
Ffrwythau'r hen addewid rymmus,
   Pwrcas rhwymau'r Oen a'i waed:
Dyro i mi elf llygaid,
   Tyn y gorchudd, rhwyga'r llen,
Fel y gwelwy'r ystlys anwyl,
   A waedodd drosof ar y pren.

2 Dyma'r gwaed sy'n golchi'r aflan,
   Dyma'r gwaed sydd yn glanhau,
Dyma'r gwaed a bura'r euog,
   Dyma'r gwaed sy'n cyfiawnhau;
Dyma'r gwaed a ffrydiodd allan,
   Fel rhyw afon loyw lân,
O galon Iesu ar Galfaria,
   Fy enaid byth am dano gân.

3 Dyma'r gwaed a gaf fi ddadlau,
   Tra fyddwyf ar y ddaear las,
Am faddeuant o'm pechodau,
   Ar fy ngliniau wrth orsedd gras;
Fe gân telynau nef a daear
   Byth am dano hyfryd sain;
O fy enaid, seinia dithau
   Dy delyn fechan gyd a'r rhai'n.

Dyma'r gwaed a dāl ei goffa,
  Dyma'r gwaed a dalodd iawn;
Gwaed y Cymmod yw ei enw,
  Gwaed a ddyry heddwch llawn:
Dyma'r gwaed bydd canu am dano,
  Gan y gwaredigion hil,
Ni ddifiygir canu'r Anthem
  Ddiderfyn oesoedd lawer mil.

## HYMN 129.

1 NID oes,
  Trwy gydol ddyddiau byr fy oes
Yn gyfan i mi ond y groes,
  Rhyw chwerw loes o foreu i nawn;
Ond os dy allu'm dal i'r lan,
  Fi yn y fan fydd gongc'rwr llawn.

2 O pwy
Ymguddiodd yn dy ddwyfol glwy',
Ac yno fethodd dorri trwy
  Gystuddiau mwy nā gwellt y maes?
Mae'r fuddugoliaeth fawr yn d'od,
  Hyd heddyw erioed, oddi wrth dy ras.

3 Dy ras
A ddeil fy enaid bach i maes,
I ymladd ā gelynion cas,
  Ne's cario'r maes yn lān ryw ddydd;
Ac yno caf orphwysfa bur,
  Mewn nefol dir, yn berffaith rydd.

4 Nid oes
A ddeil fy yspryd tan bob croes,
Ond dwyfol, nefol, farwol loes,
  Estyniad f' oes, yw ei fwynhau;
'Does arall gysur mewn un man,
  Fe yw fy rhan byth i barhau.

5 'Does drai,
Nac eisiau dim y man y mae,
Mae'n llenwi'r cyfan yn ddilai;
  Pawb, O na b'ai yn gwel'd ei wedd,
Sychedent am ei wir fwynhau,
  Mewn gwledd ddidrai, a thrachtio'i [illegible]

## HYMN 30.

*Crist Craig ein Iechydwriaeth.*

1 O Drag'wyddol Graig yr oesoedd,
Fy enaid càn am dani byth,
Hon yn unig yw fy Noddfa,
Dan ei chysgod gwnaf fy nyth;
Haleluia, Haleluia,
Craig fy iechydwriaeth yw.

2 Mae rhyw hedyn yn fy yspryd,
Sydd â'i wreiddyn yn y nef,
Fe geir gweled rwy ddiwrnod
Yn y 'stormydd mawr a sëf;
Haleluia, Haleluia,
Craig fy iechydwriaeth yw.

3 Craig a Noddfa ydyw'r Iesu,
Digyffelyb, heb ei ail,
Ni ddaw gelyn dros ei furiau,
Ni all dorri dan ei sail;
Haleluia, Haleluia,
Craig fy iechydwriaeth yw.

4 Dyma'r Graig y mae ffynhonnau
O fendithion parod im',
Dyma'r Graig a ddal fy yspryd
Yn y 'stormydd mwya'u grym;
Haleluia, Haleluia,
Craig fy iechydwriaeth yw.

5 Dyma'r Graig y cenir iddi,
Gàn delynau'r nefoedd wen,
Ac er canu fil o oesoedd,
Byth ni ddaw y gân i ben;
Haleluia, Haleluia,
Craig fy iechydwriaeth yw.

## HYMN 130.

*Achwyniad y Credadyn wrth deimlo Grym ei Lygredd.*

1 GWEL fi, Arglwydd, dan fy nghlwyfau,
Llawn trueni wyf erioed,
Claf o bechod, llawn archollion,
O goppa nghoryn hyd fy nhroed;

Gwenwyn marwol, baich anesmwyth,
  Colyn angau enbyd yw,
O'th drugaredd, Arglwydd, dyro
  Win ac olew yn fy mriw.

2 Mae fy egwan ffydd i'n ammau,
  Gan mor lleied yw ei grym,
Mae fy mhrofiad ryw amserau,
  Weithiau'n ofni 'ra hi'n ddim;
Er hynny gyd mae yn fy ngwaelod
  Yn parhau ryw ddirgel lef,
Er gwaetha ofn ac amheuon,
  Yn y 'storom fawr a sêf.

3 Mi debygwn gwela'i ffynnon,
  Sydd ä rhinwedd i'm glanhau,
Mi debygwn gwela'i Feddyg,
  Sydd yn abl fy iachau;
Mi debygwn fod rhyw hedyn
  Wedi ei blannu yn fy ngwraidd,
Ac a'm dwg i dir y bywyd,
  At y gwaredigion braidd.

4 Mi feddyliais fil o weithiau,
  Na ddeuwn byth i'r man lle 'rwyf,
Nad oedd meddyginiaeth i mi,
  Gan mor dwfn oedd fy nghlwyf:
Mewn cyfyngder eithaf caled,
  Fe ddaeth Meddyg uwch fy mhen,
Iesu f'Archoffeiriad ffyddlon,
  Fy enaid seinia ei glod, Amen.

## HYMN 131.

*I'w Chanu mewn Cwrdd Gweddi.*

1 ARGLWYDD grasol, dyma odfa
  Wedi ei rhoddi i nyni,
I gyfarfod a gweddio,
  Ac geisio'th wyneb cu:
Rho dy Yspryd, rho dy ysbryd,
  I dy geisio di trwy ffydd.

2 Ffydd i'th geisio mewn gwirionedd,
A'th addoli wrth dy fodd,
Ffydd i ganu a gweddio,
Hon yw'r werthfawroccaf rodd;
Dere'th hunan, dere'th hunan,
Rho dy yspryd i'n bywhau.

5 Tyred, Arglwydd, i'n cyfarfod,
Tyn y gorchudd, rhwygar'r llen,
Gwlawia yma dy fendithion
Yn gafodydd fry o'r nen;
Nefol awel, nefol awel,
Chwythed yma'r odfa hon.

4 Agor dy ffynhonnau nefol,
Yn ein canol, Arglwydd Naf,
Am wedd dy wyneb yn yr odfa,
Gwna'n calonnau oll yn glaf;
Cael dy brofi, cael dy brofi,
Ddaw â'n hyspryd llesg i'r lan.

4 Dyro i ni yn yr odfa
Olwg newydd ar dy wedd,
Tân dy gariad yn ein calon,
Hi fydd yma'n nefol wledd;
Nefoedd yma, nefoedd yma,
Yw siriol wedd dy wyneb cu.

## HYMN 132.

*Hiraeth y Ffyddloniaid am ffwynhad o Dduw dan foddion Gras.*

1 O DDUW, rho ffydd i ddringo i'r nen,
I olwg pren y bywyd;
Mae 'i ddail yn beraidd fel y gwin,
I wella ein blin afiechyd.

2 O Dduw, rho fendith, er dy glod,
Ffrwyth y cyfammod newydd;
Ffrydiau nefol yn ddigel,
Sy'n rhedeg fel afonydd.

3 Oddi yma'n union hyd y ne',
Ein gwan ridfannau dringwch;
O'r afon dan yr orsedd fry,
Eich gweigion lestri llenwch.

4 Duw, c'od ein hyspryd llesg i'r lan,
Rho awel dan ein haden;
Diferion o'th nefolaidd win
Wna'n henaid blin yn llawen.

5 Corona ein hodfa ar hyn o bryd,
A'th hyfryd bresennoldeb;
Rho brofi grym dy air a'th hedd,
A hyfryd wedd dy wyneb.

GORPHWYSIAD.

6 Os doi di'r golwg, Iesu cu,
Os torri di'n cadwynau,
Rai sy'n griddfan îs y nen
Cei ar dy ben goronau.

7 Rho awel gref i'n codi i'r lan,
A'n pennau o dan y tonnau,
A grymmus win o Sion fryn,
Ceir clywed ein telynau.

8 I'r lan, i'r lan, ein henaid 'hed;
Ar aden, cred yn ebrwydd;
I mewn i Graig yr oesoedd byth,
Y lle ni chwyth ystormydd.

9 Clod byth i enw'r Gŵr di-nam,
Fu'n dioddef dan yr hoelion;
Agorodd byrth y nefoedd wen,
Byth ar ei ben bo'r goron.

## HYMN 133.

*Arall.*

1 ARGLWYDD, agor dy ffynhonnau,
Dere â dyfroedd i dy braidd,
Dyfrha dy wan blanhigion,
Fel cynhyddont frig a gwraidd:

Tyred yma i'n cyfarfod,
A siriol wedd dy wyneb cu,
Gwna hi'n iraidd ar ein hyspryd,
A hyfryd wlith y nefoedd fry.

2 Tyred, Arglwydd, yma i'r odfa,
Gwna dy air fel nefol dän,
Dere ā gwlith o'rbryniau uchod,
Gwna ni'n iraidd o dy flaen;
Tän dy gariad dawdd ein hyspryd,
Gwlith nefolaidd fry o'r nen,
Dyna wasgar y cymhylau,
Dynna'r gorchudd, rwyga'r llen.

3 Gair oddi uchod gyd ā'th Yspryd,
Gair o'r nefoedd a wna les,
Gair ā bendith dyro i ni,
Gair ā nefol dän a gwres,
Gair a doddo ein hyspryd oerllyd,
Gair ä bywyd fry o'r nen,
Gair a dorro'n holl gadwynau,
Gair ä bendith fyrdd, Amen.

## HYMN 134.

*Y Ffyddloniaid yn canu dan deimlad o'u hawl yn eu Hiechydwriaeth trwy Iesu Grist a'i haeddiant.*

1 ANGYLION a serephiaid,
A'r llu nefolaidd, dewch
I foli'r Oen fu farw,
Eich auraidd dannau trewch,
Ni ganwn ninnau ronyn
A'n hen delynau gwan,
Ni ganwn cuwch ä chwithau
Pan delom ni i'r lan.

2 O Arglwydd deffro'n hyspryd
I 'hedeg tu a'r lan,
Rho deimlo grymmus awel
Yn ein hadenydd gwan;
Rho deimlo nerth o newydd,
Rho glust i'n hegwan lef,

Bydd i mi'n noddfa dawel
Yn nydd 'ystorom gref.

3 Ni awn tu a'r dawel Ganaan,
Y'mlaen o groes i groes,
Nes delo'r disglair forau
Ar ol y tywyll nos;
Ni awn tu a mynydd Sion,
Lle mae trag'wyddol wyl
Lle cawn ni well telynau,
Gwell tannau, a gwell hwyl.

## HYMN 135.

1 MAE fy Nuw yn fy ngheryddu,
Ond fy ngharu y mae ef,
Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw,
I fy nghofio i am y nef;
Nid oes awr o boen a dolur,
Nid oes munud fach nad yw
Fel ffynhonnau'n tarddu allan
O drag'wyddol hedd fy Nuw.

2 Ac nid yw ei holl ergydion,
Ond ergydion ysgafn iawn,
Ac awelon pur o gariad
Sydd yn gymmysg ä hwy'n llawn;
Cariad, heddwch pur, a cherydd,
A gydblethwyd mewn un we',
Rhaff dair caingc yw, sy'n fy nhynnu
Maes o'r ddaear tu a'r ne'.

3 Mae fy nghroesau a'm cystuddiau
Oll yn chwilio maes fy mai,
Ac mewn cydsain i ddiwreiddio
'R ddelw hynny sy'n parhau;
Ymladd 'rwyf ä'm gorthrymderau,
Ond mae'n debyg iawn mai gras,
A phob cystudd bach o'i ochr,
Yn y diwedd garia'r maes.

## HYMN 136.

1 DACCW'R ffynnon wedi ei hagor,
A ddisgwyliwyd amryw oes,
'Nawr yn llifo fel y grisial

Maes o'i ystlys ar y groes;
Dw'r a gwaed ry iachad
I'r pechadur mwya' ga'd.

2 Daccw'r hoelion geirwon, llymion,
Wedi eu curo 'nawr i dre',
Daccw'r biccell yn trywanu
I mewn o tan ei ystlys e';
Daccw boen addfwyn Oen
Yn rhoi'r nefoedd dewi son.

3 'Nawr mi glywa'r gair *Gorphenwyd*,
Gorphen iechydwriaeth wir!
Ac mi wela'r gwaed yn hidlo
Tros ei ruddiau sanctaidd, pur!
Wele'r nef gadarn, gref,
'Nawr yn tywyllu wrth ei lef.

4 Dyma'r creigydd serth yn rhwygo,
Dyma'r meirw'n codi'n fyw;
Pwy greadur ag all ddiodde'
Griddfan chwerw f' Arglwydd Dduw!
Ochain mae, fe ga'dd wae,
Fel cawn inneu fy rhyddhau.

5 Minneu bellach a obeithia',
Gobaith ag all estyn fy oes,
Gobaith wedi ei sylfaenu
Ar och'neidiau pur y groes;
Dyma wlad caf iachad,
Ac caf gyflawn wir ryddhad.

## HYMN 137.

1 NA'D fod genny' ond dy ogoniant
Pur, sancteiddiol, yma a thraw,
Union nod o flaen fy amrant,
Pa beth bynna' wnelo'm llaw;
Treulio mywyd, &c.
Unig fywyd i dy glod.

2 A phleserau o bob rhywiau,
Wedi darfod oll i gyd,

Cnawd a nattur wedi marw,
A holl fwyniant gwag y byd;
Iesu ei hunan, &c.
F'o fy enaid iddo'n fyw.

3 'Stwr a dwndwr y creadur,
Ag sy fel y moroedd mawr,
Terfysg parch a therfysg cyfoeth,
Sy yma ar y ddaear lawr,
Elo i gerdded, &c.
O fy nghlustiau'n lān i maes.

4 O distewch gynddeiriog donnau,
Tra f'wy'n gwrando llais y nef,
Swn mwy hoff, a swn mwy nefol,
Glywir yn ei eiriau ef;
F' enaid gwrando, &c.
Llais tangnefedd pur a hedd.

## HYMN 138.

1 WRTH dy orsedd 'rwyf fi'n gorwedd,
Disgwyl am y ddedwydd awr,
Pan ca'i glywed llais gorfoledd,
Pan ca'i wel'd fy meiau lawr;
Ti gai enw, &c.
'R fuddugoliaeth it' dy hun.

2 Doed dy heddwch bryd y delo,
Mi ddisgwyliaf ddydd a nos,
Anherfynol ydyw haeddiant,
Haeddiant pur dy angeu loes;
Dere yn fuan, &c.
Mae dy hedd yn fwy nā'r byd.

3 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,
Diliau mel yw'th heddwch drud,
Gwerthfawroccach yw dy gariad,
Nā holl berlau yr India gyd;
Gwlad o gyfoeth, &c.
Yw yn unig dy fwynhau.

HYMN 139.

1 WEL, ferched Sion dewch,
Yn fintoedd yn y blaen,
Efe ei hun yw'r blaenaf wr,
Ynghanol dw'r a thân;
Mae'n gyfaill ymhob man,
I'r llesg, a'r gwan, a'r gwiw,
Ni welwyd ar ein daear ni,
Neb tebyg i fy Nuw.

2 Yn nydd y dwyrain wynt,
A'r 'stormydd mwya' cry',
Fe dry'r cymhylau cyn prydnhawn,
Yn dawel iawn i ni;
Mewn ffwrnes fawr o dân,
Ei hunan sefyff ef,
Fe gaiff y poenwyr wel'd yn awr,
Alluoedd mawr y nef.

3 Y Brenin aeth ymlaen,
A'i allu ef sydd fawr,
Y garreg leia' ddel o'i law,
A dyr Golia lawr;
Gwersylloedd Duw ynghyd,
A gân yn hyfryd iawn,
I'r Creuwr mawr, nad oes o'i ail,
Cyn machlud haul brydnhawn.

HYMN 140.

1 'DOES dim ar wyneb daear lawr,
Ag eilw meibion Adda'n fawr,
A bwysa yn y clorian fry,
Drag'wyddol hedd fy Iesu cu.

2 A thyma'r cyfoeth rowd i mi,
Anfeidrol drysor Calfari;
A brynwyd yno ar y groes,
Trwy ddagrau cryf a chwerw loes.

3 O gariad, o anfeidrol ryw,
Rhaid marw'n lân o Iesu'm Duw!
'Doedd yn y nefoedd ronyn llai,
A roisai daliad am fy mai.

## HYMN 141.

1 ER maint fy llygredd o bob rhyw;
  Er cymmaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn chwith,
  Sy'n para fyth yn gryf;
Afon loyw redodd allan,
O tan drothwy'r nef ei hunan,
I olchi'r euog, i olchi'r aflan;
  Haleluia, haleluia,
Dw'r heb ddarfod, dw'r heb drai.

2 Af at yr orsedd fel yr wyf,
  Anfeidrol orsedd gras,
Datguddia'i yno nghlwyfau maith,
  A'm holl archollion cas;
Afon loyw, &c. &c.

3 Mi wela' lu anfeidrol wyn,
  Yn aml fel y ser,
Ag fu fel finneu oll yn frwnt,
  Yn bur yng nghwmp' ni'm Ner;
Afon loyw, &c. &c.

4 Wel, finneu'r eiddil gwanna'i lun,
  Heb ddim ond ffiaidd friw,
Anturiaf at drysorau'r nef,
  Cyfiawnder pur fy Nuw;
Afon loyw, &c. &c.

## HYMN 142.

*Gair am y Gwirionedd.*

1 GWIRIONEDD, dan ei enw,
  Sydd berl ac elw glân,
Ni threulir ac ni thoddir,
  Ni losgir yn y tân;
Gwirionedd saif yn gywir,
  A sicr iawn bob darn,
Mae'n gadarn ar y ddaear,
  Mae'n gadarn yn y farn.

## HYMN 143.

1 O IESU, fy Iachawdwr mawr,
Tyr'd, gwlawia fendith bur i lawr,
Fel bo ni nifyrrwch tra fwyf byw,
Yn dy gymdeithas felus, wiw.

2 Fel pan bo terfysg pan bo gwae,
Oll yn cynhyddu, yn parhau,
Fod f'enaid i, heb fraw na phoen,
Yn llechu ym mynwes addfwyn Oen.

## HYMN 144.

1 YMHLITH holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un,
I wel'd anfeidrol, ddwyfol Fod,
Yn gwisgo nattur dyn:
Mae ynddo drysor fel y ce'nfor,
Byth ni cheisiaf ddim yn rhagor,
Hedd a bywyd yw ei ffafor;
Nefoedd berffaith, nefoedd berffaith,
Yw cael trachtio ei ddwyfol hedd.

2 Ni chaiff bod eisiau byth na thrai,
Tr'o seren yn y ne',
Ar neb o rhei'ny roddo'u pwys
Ar ei gyfiawnder e';
Mae ynddo drysor, &c.

3 Doed y trueiniaid yma 'nghyd,
Yn fintoedd heb ddim rhi',
Cânt eu diwallu oll yn llawn,
O ras y nefoedd fry;
Mae ynddo drysor, &c.

4 Fe ylch ein beiau ffwrdd â'i waed,
Fe'n canna ni oll yn wyn,
Fe'n dwg ni o'r anial maith i maes,
I ganu ar Sion fryn;
Mae ynddo drysor, &c.

## HYMN 145.

1 NID oes aberth o unrhyw, ymhlith miloedd,
Dāl am drosedd lleia' o ryw yn oes oesoedd;
Dim ond aberth dwyfol ddyn foddia Dduwdod,
Angeu Tywysog nef ei hun bwysa mhechod.

2 Dyma'r angeu'n abl sy i drosglwyddo
Fy euogrwydd dwfn, dü, i dir ango';
Fe wnaeth pechod y fath glwy' ar fy enaid,
'Does ond gwaed anfeidrol mwy all fy ngwared.

3 Dyma'r aberth mae erioed son am dani,
Ar y ddaear 'does yn bod debyg iddi;
Mae seraphiaid penna'r nen yn rhyfeddu,
Wel'd eu Brenin ar y pren 'nawr yn trengu.

## HYMN 146.

1 DYMA gariad o'r fath rym, fyth na chlywir
Y cyffelyb iddo ddim gan greadur;
Tywysog mawr y nefoedd fry, ar Galfaria,
Yn rhoi ei fywyd trosof fi, y ffieiddia'.

2 Gwaedd fy Nuw ar Galfari, sy'n rhoi'n agored
Auraidd byrth y nefoedd fry, ag oedd gaued;
Y mae dwyfol, wirion waed o'r fath rinwedd.
Ag mae in' yn nhŷ ein Tad wledd ddiddiwedd.

3 Pan bo gelynion yn eu grym am fy nghuro,
Minneu fy hun yn gallu dim i'w gongcwero;
Lawr ar haeddiant gwaed ei groes mi orphwysa',
Beth na faedda dwyfol loes ar Galfaria?

4 Deued daear, deued nef, bro a bryniau,
I foliannu ei enw ef, fu'n diodde';
Prynu'r etholedig fyd wnaeth e'n ffyddlon,
Trwy farwolaeth eitha' drud, garcharorion.

## HYMN 147.

1 IESU, cymmer fi'n dy go'l, rhag diffygio,
Na'd fy enaid bach yn ol, sy'n cyrwydro;
Arwain fi trwy'r anial maith, aml rwydau
Fel na flinwy' ar fy nhaith, ne's myn'd adre.

2 Rho dy heddwch tan fy mron, ffynnon loyw,
Ffrydiau tawel nefol hon fyth a'm ceidw;
Os ca'i drachtio'r dwfr pur, mi drafaela
Frynniau ucha'r anial dir, ni ddiffygia.

3 Gwedd dy wyneb siriol fy yn gorchfygu
Y gelynion creulon, cry', oedd yn maeddu;
Gwedd dy wyneb serchog yw fy holl iechyd,
Dyna alwa'i tra fwy' byw im' yn wynfydd.

HYMN 148.

1 CRYFACH addewid Duw
Nă'r pechod gwaetha' ei ryw,
Ni saif e' ddim;
'Dyw nattur gadarn, gref,
Ond dim i dân y nef,
Mae gair o'i enau ef
Yn fwy ei rym.

2 'Rwy'n awr yn llawenhau,
Mewn gobaith ca'i fwynhau
Congcwest clir
Ar bechod o bob rhyw,
Elynol uffern gryw,
Sy'n rhwystro f' enaid gwiw
I'r sanctaidd dir.

3 Fy meiau, fân a mawr,
Sydd raid eu cael hwy lawr
Cyn b'o hir,
Fe fyn cyfreithiau'r ne'
I dynnu'r llygad de',
A thorri'r fraich o'i lle,
Ei air sydd wir.

4 Rhaid in' roi ffarwel lân
I'n chwantau, fawr a mân,
Pleser i gyd;
Caf bleser maes o law,
Yn nhrag'wyddoldeb draw,
Ei fath ni fu, ni ddaw,
Gan fawrion byd.

## HYMN 149.

1 O DEUWN at yr ordinhad,
Trwy ffydd yng ngwa'd yr Iesu,
Sydd wir Iachawdwr pur difai,
I bawb o'r rhai sy'n credu.

2 Mae'n porthi'n rhai'n â gwin a llaeth,
Rhydd iddynt faeth ysprydol;
Gwledd a apwyntiodd Duw ei hun,
Blaen-ffrwyth o'r un drag'wyddol.

3 O! am wir ffydd a chariad maith
I weled gwaith yr Iesu
Ar y pren, a'i freichiau ar led,
A'r dyled gwedi ei dalu.

4 Am gariad Duw yng Nghrist mor rhad,
Rho'wn glod difrad o'r galon;
I'r hwn a roes ei werthfawr wa'd,
Fe wnaeth y Tad yn foddlon.

## HYMN 150.

*Rhyfeddod y Pechadur.*

1 O'S gwelir fi bechadur,
Ryw ddydd ar ben fy nhaith,
Rhyfeddol fydd y canu,
A newydd fydd y iaith;
Yn seinio buddugoliaeth,
Am iechydwriaeth lawn,
Heb ofni colli'r frwydyr,
Na'r boreu na phrydnhawn.

2 O's caiff y fath bechadur,
Sydd ffiaidd, aflan, noeth,
O flaen dy orsedd sefyll,
Pan byddo'r byd yn boeth;
Pryd hynny dof i 'nabod,
Beth yw'r cyfammod rhad,
Pan welwy'r Iesu'n pledio
O'm plaid i, werth ei wa'd

3 A'r dyled wedi dalu,
A'r orsedd-faingc yn rhydd,
A'r Iesu arna' i 'n gwenu,
Gwynfyd a welai'r dydd;
A'r holl elynion obry,
Yn berwi yn y llyn,
A'm henaid bach yn nofio,
Yn hedd Calfaria fryn.

## HYMN 151.

*Addewid o Rydd-did i Garcharorion.*

1 FE dderfydd pob gofidiau maith,
Fe dderfydd gwaith rhyfela;
Daw dydd i'r saint i gwrdd ynghyd,
I ganu i gyd Hosanna.

2 Daw dydd gorchfygir pechod cas,
Ceir gweled gras yn frenin;
Daw dydd i rwymo'r ddraig heb fraw,
Daw'r llew yn llaw y plentyn.

3 Mae gennym addewidion braf,
Ceir etto haf nefolaidd;
Daw Gwraig yr Oen i gario'r ma's,
Ar bechod cas a llygraidd.

4 Daw haf i'r seintiau yn ddi-gel,
Ddisgleiria fel yr haul-wen;
Cânt yfed gwin yng Nghanaan dir,
O ffrwyth y wir Winwydden.

5 Ar ol tymhestloedd, gwynt, a gwlaw,
Yn fuan daw tawelwch;
Daw Seion wan ar fyrr o dro,
Yn gadarn o'r anialwch.

6 Ceir gweled hon a'i phwys i gyd,
Ar ei Hanwylyd hawddgar;
Yn canu clod ag uchel lef,
I Frenhin nef a daear.

## HYMN 152.

*Ymadawiad ä phob Peth er mwyn Crist.*

1 YN iach, i bawb o'r byd yn awr,
Mi af ar ol fy Mhrynwr mawr,
Mae'r Iesu'n galw arnaf fi,
Rhaid i mi fyn'd a'ch gadael chwi.

2 Yn iach, fy holl gyfeillion glân,
Bum er eich mwyn bron myn'd i'r tân;
Ond clod i Dduw, fe'm galwodd i,
I ganlyn Crist, a'ch gadael chwi.

3 Yn iach, rai llawen y byd hwn,
Gelynion y'ch i Dduw, mi wn:
Dewisodd ef fy enaid i,
Trwy gariad rhad, i'ch gadael chwi.

4 Yn iach, chwi holl bleserau'r cnawd,
Mi af ar ol fy anwyl Frawd;
Yn iach, ddigrifwch y byd ffol,
Af gyd ä Christ, cewch drigo'n ol.

5 Yn iach, chwi ieuengctyd glân o bryd,
Sy'n gwrthod Crist er mwyn y byd;
Truenus iawn i'm golwg i,
Wrth gyfraith Duw yw'ch cyflwr chwi.

5 Mi dybiais innau ar ryw bryd,
Mai gyd ä chwi cawn hela 'myd;
Ond clod i Dduw, nid felly bu,
Daeth Crist i'm hol o'ch cwmp'ni chwi.

## HYMN 153.

*Llef y Pechadur am Gymmorth.*

1 TYRED Iesu i'r anialwch,
At bechadur gwael ei hun;
Ganwaith drysodd mewn rhyw rwydau,
Rhwydau weithiodd ef ei hun:
Llesg fieri sydd o'm cwmpas,
Rho fi sefyll ar fy nhra'd;
Moes dy law, ac arwain trosodd
F' enaid gwan, i dir ei wlad.

2 Manna nefol sydd arnaf eisiau,
Dw'r rhedegog, gloyw byw;
Sydd yn tarddu o tan riniog
Teml sanctaidd tŷ fy Nuw:
Golchi 'r aflan, cannu 'r Ethiop,
Gwneud yr euog brwnt yn län;
Ti gai'r clod ryw fyrdd o oesoedd,
Yn ol i'r ddaear fyn'd yn däa.

3 Fyth ni all'sai'm dyledswyddau,
Fyth ni all'sai ffrwyth y bru;
Mil o nentydd maith o olew,
Foddio dim o honot ti:
Deng mil hyfryd o feheryn,
Neu ynteu'r peraroglau män;
Nac un dim o dan y nefoedd,
Allai olchi'r brwnt yn län.

4 Ar dy allu 'rw'i'n ymddiried,
Mi anturia, doed a ddel;
Dreiddio trwy 'r afonydd dyfnion,
Mae dy eiriau oll dan sel;
Fyth ni fetha gredo ynot,
Ni safodd un erioed yn ol;
Mi af ym mlaen, doed y ddelo,
Graig a thylau ar dy ol.

## HYMN 154.

*Golwg y Credadyn ar wagter ac Annigonolrwydd pob peth ond Iesu Grist.*

1 ANIAL dyrus wyf fi ynddo,
Yn ymdeithio wrthyf f' hun,
Chwilio 'mofyn am le tawel,
Etto methu cwrdd ag un;
Chwilio'n ddyfal am felusder,
Mewn pleserau gwag os cawn,
Mi gawn chwerwedd yn fy nghwppan,
Cyn y byddai'n hanner llawn.

2 O fy enaid chwilia'n fanol,
Am drysorau can-mil gwell,
Nag a fedda'r greadigaeth,

A'm canlyno i'r wlad bell;
Am wirionedd yn fy ngwaelod,
Ag a'm dalio'r dydd a ddaw,
Iesu'n Briod digyfnewid,
Iesu'n Noddfa gadarn draw.

3 Nid oes dim ond twyll a gwagter,
Yn y cyfan dan yr haul,
Nid oes dim a lanw f' enaid,
Ond trysorau Adda'r ail;
Cyfiawnder Iesu i guddio'm noethni,
Dyma yw fy nirgel lef,
O fy enaid càn am dani,
Dyma'r sylfaen fawr a sêf.

4 Wele'r llewod mewn cadwynau,
Ryw fyrddiynau gan Fab Mair,
Crynu ac ofni gorfod gwaeddi,
Dim yn unig ond ei air:
Ar y ffordd fe yfodd afon,
Llyngcodd angau mawr ei rym,
Dros ei eiddo ar Galfaria,
Tynnodd ef ei golyn llym.

## HYMN 155.

*Mawl y Credadyn am Fuddugoliaeth Crist ar Satan a Phecod.*

1 MI wela'r Pen-rhyfelwr
Yn d'od o Edom wlad,
A'i wisg e'n goch rhyfeddol
A satan dan ei draed,
Fe 'nillodd dros ei frodyr
Y frwydr fwya' erioed,
Fe wnaeth wrth fodd fy nghalon,
I'w enw byddo'r clod.

2 Pwy ddichon lai na chanu?
Pwy ddichon fod yn fud?
A brofodd ddim o gariad
Iachawdwr mawr y byd?
Tu yma i'r nefoedd uchod,
Hwn yw'r melusaf win,

A'r *cordial* gorau i gadw,
Ein hyspryd ar ddyhun.

3 Ni ganwn am y frwydr,
Ni ganwn am y gwaed,
Ni ganwn am y borau
Cawn bechod dan ein traed,
Ac am y fuddugoliaeth
A ga'd trwy Had y Wraig,
Clod iddo yn dragywydd,
Efe yw'n hoesol Graig.

4 Er canu, ac er canu,
Ni chenir ddigon byth,
Gan seintiau nac angylion,
Na dynion rif y gwlith;
Er cael ein cablu weithiau,
Wel, etto canu wnawn,
Pwy ddichon lai nà chanu
Tra fyddo'n llestri'n llawn.

HYMN 156.

*Clod parhaus i'r Creawdwr a'r Iachawdwr.*

1 CLODFORAF di, fy Nghre'wr doeth,
Tr'o'r haulwen boeth yn para;
Byth wedi myn'd ei thān i maes,
Gogoniant gras a gana'.

2 Dy law a'm lluniodd i o'r llwch,
A'm holl brydferthwch rhyfedd:
Dy gadarn fraich a'm cadw'n fyw;
Tragywyddol yw'th drugaredd.

3 Er cymmaint oedd fy'm camwedd cas,
Derbyniais ras iachusol:
Er pechu'n dost yn erbyn Duw,
Trwy Grist caf fyw'n dragywyddol.

4 Dy gariad maith, a'th heddwch mawr,
Yw nghyfran werthfawr hyfryd;
A'm nefoedd ogoneddus i
Yw'th ganfod di mewn gwynfyd.

5 'Rw'i fyth yn awr â thi yn un,
Mewn dwyfol rwymyn difeth:
Tydi, y Bod a farna'r byd,
Yw'm dirfawr iechydwriaeth.

## HYMN 157.

*Am Lwyddiant yr Efengyl, a Chwymp Babilon.*

1 O'S rhaid bod rhyfel cyn cael hedd,
Ac na chair congcwest heb y cledd,
Duw' llwydda'r neb anfonaist ti,
Fel *Gideon* gynt, neu *Jeptha* hy.

2 Disgwyliwn ninnau wrth Dduw ei hun,
Nac ymddiriedwn mewn un dyn;
Olwyn o fewn i olwyn try,
Ne's gorphen hyn ar faethwyd fry.

3 Ni welwn trwy'r Ysgrythur lân,
Mai'n raddol aeth dy waith ymla'n;
Gwnest yn yr Aipht arwyddion rai,
Cyn cael o Israel eu rhyddhau.

4 'Nol d'od o'r Aipht, 'doedd llwybr rhydd,
Ond trwy rym cledd, a gallu ffydd;
Er hynny 'mlaen y dont heb goll,
Trwy ganol eu gelynion oll.

5 Goresgynasant yr holl wlad,
Roes Duw i Abram a'i holl had;
Gan faeddu saith cenhedlaeth mwy,
Amlach, a chryfach, nâ hwynt-hwy.

6 Amgylchu Jerico a wnaint,
A'r muriau balch, anferthol faint;
Wrth swnio cyrn, offerynau gwan,
A ddad-ymchwelwyd yn y man.

7 Trwy ffydd amgylchent gaerau hon,
Heb wel'd ei chwymp dros wythnos gron;
A'r seithfed dydd, y seithfed tro,
A'r caerau'n chwil-friw, boed mewn co'.

8 Cwymp Babilon y ddinas fawr,
A'u galar ddaw mewn yspaid awr;
Brenhinoedd byd addefant mwy,
Mai'r Iesu yw eu Brenin hwy.

9 'R efengyl rad trwy'r dda'er a red,
Pob gwlad o'r bron yng Nghrist a gred;
Ac anghrist ffrom gaiff farwol glwy';
Ffarwel marsiandaeth Babel mwy.

10 Disgwyliwn dro, dros amser mae
Y brophwydoliaeth, yn ddilai;
Holl bwrpas Duw a ddaw i ben,
A d'weded meibion Duw, Amen.

## HYMN 158.

*Tyred a Groesaw at Iesu Grist.*

1 DEUWCH bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion, o bob rhyw,
Iesu parod yw'ch gwaredu,
Llawn tosturi yw Mab Duw;
Nag amheuwch, &c.
Abl ac ewyllysgar yw.

2 Rai anghennus dewch â'ch groesaw,
I gael rhoddion Duw yn rhad,
Cewch wir ffydd ac edifeirwch,
A phob gras yn ddi-naccad;
Dewch heb arian, &c.
Prynwch gan y Iesu 'n rhad.

3 Am gymhwysder na freuddwydiwch,
I beri i chwi oedi 'n hir,
Y cymhwysder oll mae 'n geisio,
Gwel'd eich eisiau hono 'n wir;
Rhodd yw hynny, &c.
Rhan o oleuni'r Yspryd pur.

4 Dewch flinderus a thrym-lwythog,
Trwy y cwymp ga's marwol friw,
O's arhoswch ne's i'ch wella,

Byth ni ddeuwch yn eich byw;
Pechaduriaid, &c.
Nid rhai cyfiawn eilw Duw.

5 Gwel ef yn yr ardd yn gorwedd,
A'i lân wyneb tu a'r llawr;
Gwel ef ar y pren yn marw,
Ac yn talu'th ddyled mawr;
'Dweud, Gorphenwyd, &c.
O bechadur! cred yn awr.

6 'Nawr esgynwch i'r gogoniant,
Lle mae'n pledio'i werthfawr wa'd,
Bechaduriaid, arno mentrwch,
A derbyniwch ef yn rhad;
Neb ond Iesu, &c.
Ddichon wneud i chwi leshad.

7 Seintiau ac angylion cenwch
Uchel glod i'r Oen o hyd,
Ne's b'o'i fawl a'i felus enw,
Yn dad-seinio'r nef i gyd;
Haleluia, Haleluia, Haleluia,
Cenwn ninnau bawb o'r byd.

## HYMN 159.

*Yr Happusrwyd o fod yn Ffafr Duw, neu Orfoledd Ffydd.*

1 O PA mor wynfydedig yw
Rhai ddarfu Duw eu dewis,
A'u dwyn at Grist y Bugail da,
I gael gorphwysfa felus.

2 Er tlotted ydynt, a di-blaid,
Hwy gant f'o raid y'nt wrtho;
Mae ganddynt nefol drysor drud,
Na wyr y byd am dano.

3 At hwn trwy ffydd eu golwg tron',
Ym mhob trallodion newydd;
Ac addi yno cyrchant hwy
Wrth raid gynhorthwy beunydd.

4 Ffydd gwyd i fynu 'u calon drist,
A ffy eu hathrist ofnau;
Bywyd, a nerth, a chyssur cänt,
A llawenhant mewn dagrau.

5 Fel dieithriaid yma maent yn byw,
Heb ofni unrhyw ddrygfyd;
Pob croes-wynt gaiff fod er eu lles,
I'w dwyn yn nes i'r bywyd.

6 Ffryns fel gelynion lawer pryd,
All fod yn ofid iddynt;
Ond ni thyrr neb eu heddwch eu,
Tra gweno 'r Iesu arnynt.

7 Tr'o tonnau, trallod, a phob tra',
Fel dyfroedd Noa 'n llifo;
Hwy wyddant na wnant ond eu dwyn
I'r lle maent hwy 'n dymuno.

## HYMN 160.

*Y Garreg-Wen, a'r Enw-Newydd.*

1 GWYN ei fyd y dyn sy'n gwybod,
Faddeu ei bechod a'i holl fai;
Duw trwy 'r gwaed, ac e'n heddychol,
Hwnnw ddichon lawenhau;
Pwy all ddamnio? pwy all ddamnio, &c.
Y dyn f' o'r Arglwydd yn ryddhau?

2 Beth yw golud, parch, a mawredd,
I gydmaru ä chariad Duw;
Ni all pethau 'r byd gyd-bwyso
A'r fath rodd, amhosib' yw;
Gwerthfawroccach, &c.
Ydyw hon nac aur Peru.

3 Hwn sydd Berl o uchel brisiad,
Gwystl cariad Duw a'i hedd;
Carreg-wen, a'r Enw arni,
Neb ni's darllain ond a'i medd:
Rhodd neillduol, &c.
Yw, o eiddo Brenin nef.

4 Y rhodd hon a fynch roddir
Yma, i'w anwyl bobol ef;
Ond ni wyddys etto frodyr,
Beth a fyddwn yn y nef;
Hyn a wyddom, &c.
Byddwn debyg iddo ef.

HYMN 161.

*Cred yng NGHRIST, a chadwedig fyddi.*

1 O ENAID athrist, cwyd dy ben!
A gwel dy Brynwr ar y pren;
Dy ddyled talodd mewn un dydd—
Do, do, bob hatling, 'rwyt ti'n rhydd.

2 'Does gan y gyfraith ddim i ddweud,
'Does gan gyfiawnder ddim i wneud;
Fe ro'es foddlonrwydd têg i'r Tad,
Gorphennodd ef dy gyfiawnhad.

3 Ac er dy fod di etto'n drist,
Yn ffaelu credu 'n gryf yng Nghrist;
O waith ei fod ef hyd yn hyn,
Yn cuddio gwedd ei wyneb gwyn.

4 Ond disgwyl di ef yn ffordd Duw,
Mae'n wir y daw, er hwyred yw;
Enfyn ar fyrr ei Yspryd Glân,
Ac a'th fedyddia di â thân.

5 Caiff anghrediniaeth cyn b'o hir,
A'th holl elynion golli tir;
Pan godo haul cyfiawnder glân,
Fe ffy 'r tywyllwch oll o'i fla'n.

HYMN 162.

*Effeithiau Pregethiad yr Efengyl.*

1 NEWYDDION da y'm yn glywed,
I'r Iesu rho'wn y clod,
Mae'r deillion 'nawr yn gweled,
Na welsant ddim erio'd;
Ac hefyd y buddariaid,
Agorwyd clustiau rhai'n,

Hwy glywsant lais y durtur,
A'i siriol eglur sain.

2 Mae'r meirw megis Laz'rus,
Yn codi o fawr i fyw,
A'r mudan yn llefaru
Rhyfeddol bethau Duw;
Mae'r cloff nad allai gerdded,
Yn neidio 'nawr fel hydd,
Ac yn moliannu 'r Iesu,
A roes ei draed yn rhydd.

3 O Arglwydd! galw etto
Fyrddiynau ar dy ol,
A dryllia 'r holl gadwynau,
Sy'n dal 'u heneidiau 'n ol,
O galw hwynt o'r Dwyrain,
Gorllewin, Gogledd, De',
I'th eglwys yn ddi-attal,
Mae digon etto o le.

4 Hiraethu 'ry'm ni beunydd,
Gael gwel'd y dedwydd bryd,
I 'fengyl Iesu gyrraedd
I gyrrau eitha 'r byd;
I'r rhai sydd mewn tywyllwch,
Am Grist heb glywed son,
Gael rhan o'r iechydwriaeth,
Bwrcasodd gwaed yr O'n.

5 Tosturia wrth broffeswyr
Sydd ag enw o fod yn fyw,
Ac etto meirwon ydynt,
A dieithr iawn i Dduw;
Mae ganddynt rith duwioldeb,
Ond etto 'n gwadu ei grym,
Duw, argyhoedda rhei 'ny
A gair dy enau llym.

## HYMN 163.

*Dilyn ol y PRAIDD.*

PERERIN w'i 'n y byd,
Ac alltud ar fy hynt,
Sy'n ceisio dilyn ol y Praidd,

Y tadau sanctaid gynt;
I 'mofyn gwlad sydd well,
Er mod i 'mhell yn ol,
Trwy gymmorth gras, ymlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

2 Hen Abram union gred,
Tad y ffyddloniaid gwiw,
Adawai 'i wlad ei hun yn rhwydd,
Wrth arch ei Arglwydd Duw;
Aeth tu a'r Ganaan wych,
Heb edrych yn ei ol,
Trwy gymmorth gras, ymlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

3 A'r Patriarchiaid hen,
Had Abraham ei hun,
A'u canlynasant ef trwy ffydd,
Yn ufudd cymmain un;
I 'mofyn dinas glyd,
Gan ado 'r byd ar ol,
Trwy gammorth gras, ymlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

4 A Moses yr un modd,
Wrthododd bri a braint,
Dewisai 'n hytrach ddirmyg Crist,
A bywyd trist y saint:
Can's gwel'd yr oedd trwy ddrych,
Y wobr wych sy 'n ol,
Trwy gymmorth gras, &c.

5 A'r hen Brophwydi o'r bron,
A'r Apostolion hy,
A holl ddisgyblion Iesu glân,
A aeth o'r bla'n yn llu;
Y rhai y darfu 'r byd
Eu cyfrif i gyd yn ffol,
Trwy gymmorth gras, &c.

6 O's rhaid ymdrechu dro,
Milwrio, a chario 'r groes,
A myn'd dan wawd a gwg y byd,

Dros ennyd ferr o f' oes;
Caf goron gyd ä 'r saint,
Trag'wyddol fraint sy'n ol,
Trwy gymmorth gras, ymlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

## HYMN 164.

*Mawrhydi Duw a Gwrthryfelgarwch dyn.*

1 ANFEIDROL ddyrchafedig yw
Yr Arglwydd Dduw y lluoedd;
A'i burdeb a'i sancteiddrwydd ef
A lanwa nef y nefoedd.

2 Y ser, yr haul, a'r ddaear hon,
Y tir a'r eigion helaeth,
A'r holl greaduriaid, fawr a mân,
Y'nt dan ei lân lywodraeth.

3 O, pwy na ddwys-addolai Dduw!
Ofnadwy yw ei enw!
Gall ef ein cadw oll i gyd,
Neu losgi'r byd yn lludw.

6 Er hyn, rhyfela dynolryw
Yn erbyn Duw'n wastadol;
Heb ofni 'i lid angerddol ef,
Heb brisio'r nef ddewisol.

5 I b'le y ffowch, genhedlaeth ffol,
Pan gynno'i ddwyfol ddigter,
Pan losgo'r byd yn danllyd boeth,
I ddifa'r annoeth ofer?

6 O rho'wch i lawr eich arfau'n lân,
Ar frys o flaen ei orsedd;
Ac mewn sach-liain yn y llwch,
O gwaeddwch am drugaredd.

7 O na ddibrisiwch werthfawr waed
Yr anwyl Geidwad dwyfol;
Ond ceisiwch dêg dangnefedd Duw,
A byddwch fyw'n dragywyddol.

## HYMN 165.

*Happusrwydd yn Nuw yn unig.*

1 HIRAETHU'r wyf am werthfawr hedd,
A melus wledd i m henaid,
Happusrwydd gwell nag sydd i'w gael
Ymhlith y gwael greaduriaid.

2 Pe bawn i 'n berchen ar y byd,
Gan feddu'r iechyd goreu,
Ac einioes hir, heb Dduw a'i ras,
Di-fudd a di-flas fyddai.

3 Pe bawn i 'n Arglwydd ar y ser,
Trwy'r holl uchelder llydan,
Ni's byddwn ond carcharwr trist,
Heb gariad Crist yn gyfran.

4 'Does dim trwy'r holl greadigaeth hon,
A lanwa nghalon helaeth:
Anfeidrol well i mi nā'r byd,
Yw dirfawr iechydwriaeth.

5 Fy Nuw, fy Nuw, yw'm cymmorth 'nawr,
A'm gwobr mawr, a'm gobaith;
Byth yn fy Nuw mi lawenha',
'Nol myn'd oddi yma ymaith.

6 Pa bryd y caf, fy Mhrynwr cu,
Dy garu fry'n rhagorach;
A'th foli gyd ā'th ddwyfol hil,
Ar leisiau fil felusach?

## HYMN 166.

*Gwagter y Creaduriaid a Chyflawnder Duw.*

1 DIFLASAF ar felusaf ffrwyth
Y byd anesmwyth yma;
A methaf gael i'm henaid wledd
O gyflawn hedd, a noddfa.

2 Ar deccaf hin a chanol haf,
O'm mewn ma'i'n auaf oerllyd;

A rhewi'r wyf yng ngwres yr haul,
Heb nefol goel f' Anwylyd.

3 Crwydro'n drist mae nghalon drom,
Fel gwannaidd golommen Noah,
Gan geisio'n daear sylweddol dir,
Ac esmwyth hir orphwysfa.

4 Er meddu doeth gyfeillion da,
Mynwesol, a pherthynasau,
Dieithr wyf, o gartre' 'mhell,
Yn chwennych gwell meddiannau.

5 Gwag yw'r greadigaeth hon i gyd,
Newyna'm hysbryd arni;
'Does dim mor dda, ond Duw a'i ddawn,
A all ei lawn ddigoni.

6 Dy fynwes di, fy nefol Dad,
A'th felus gariad dwyfol,
Yw noddfa gu fy enaid gwan,
A'm dedwydd ran dragywyddol.

## HYMN 167.

*Myfyrdod Duwiol.*

1 YMAITH o'm gwydd bob gwrthddrych gwa
A phob rhyw ofal diles;
A thyred di, fyfyrdod dwys,
I orphwys yn fy mynwes.

2 Mor ddoeth yw'r Bod a wnaeth y byd!
Mor gadarn hefyd ydyw!
O mor anfeidrol hanfod Duw!
Moliannus yw ei enw.

3 Mor rhyfedd yw'r greadigaeth faith!
Mor gysson gwaith ei fysedd!
Holl luoedd y ffurfafen las
Lefarent maes ei Fawredd.

4 Mor fawr yw cyrph yr wybren fry,
Sy'n cyd-fynegi'i foliant!

Yr haul a'r ser, a'r lloer y sy
'N cyd-ganu ei ogoniant.

5 Y sychdir maith, a'r dyfnder mawr,
Bob munud awr a'i molant!
A'r holl greaduriaid tan y nef,
Ei allu ef a draethant.

6 Mor llawn yw'n da'r o luniaeth da,
I ddynion a 'nifeiliaid!
Mor fawr yw lles y gwres a'r gwlaw,
A rydd ei law fendigaid!

7 Ond O, mor fwy rhyfeddol yw
Trugaredd Duw a'i gariad,
Yn llifo'n rhad yng ngwaed yr Oen,
Trwy glwyfau'r tirion Geidwad!

8 Myfyria'n graff ar wyrthiaur'r groes,
Tra para f' einioes freuol;
A chofiaf fry Galfaria fryn,
A'i ffrwythau yn dragywyddol.

## HYMN 168.

*Gorfoleddu yn yr Arglwydd.*

1 YR Arglwydd yw ngorfoledd i,
A'm pur ddaioni pennaf;
Ac yn ei dirion gariad e'
Yn uchel llawenychaf.

2 'Does dim mor dëg ar wyneb da'r,
A'm Iesu hawddgar grasol:
Tywyll yw 'r holl greadigaeth heb
Ei bresennoldeb nefol.

3 Clod, elw, a phleser, gwagedd y'nt,
Fel ysgafn wynt neu gysgod:
Tangnefedd Duw yw ngolud i,
A'm dirfawr fri di-ddarfod.

4 Mwynhau fy Nuw a'i garu wna',
Tros oesoedd tragywyddoldeb,

A gwledda yn y nefol wyl
Ar wën ei anwyl wyneb.

## HYMN 169.

*Gwerthfawrogrwydd gair Duw.*

1 O MOR werthfawr yw 'r gair perffaith,
Sydd yn d'od o enau Duw!
Gwych a dirfawr iechydwriaeth
Yntho a dardd: O hynod yw!
Ni all miloedd o aur melyn,
Na'r trysorau goreu sydd,
Foddio'r didwyll wir gredadyn,
Fel diffuant air y ffydd.

2 Mae 'fe'n para'n fara peraidd,
I ddigoni'r enaid gwan;
Gwin a llaeth yw'r gair i'r llariaidd,
Mae 'fe i'r rhai'n yn ddirfawr ran:
O mor felus yw i filoedd,
Tan flinderau trymion trist!
Dengys i ni gyrrau'r nefoedd,
Dengys groeshoeliedig Grist.

3 O mor gyfiawn yw dy gyfraith,
A'th orch'mynion di, ein Duw!
O mor hynod ac mor helaeth
Yw dy ras at ddynolryw!
Par i'th bur efengyl beraidd
Trwy'r byd maith i seinio maes;
O tywynned dy wirionedd
Oll ar led y ddaear las!

## HYMN 170.

*Yr Afradlon yn cael ei dderbyn a'i wisgo, &c.*

1 MI fum yn fab afradlon,
'Rwyf yn cyfadde ar g'odd,
Mi euthym i gyrwydro,
O dŷ fy nhad o'm bodd;
Mi dreulies do y cwbwl,
Wrth ddilyn chwantau ffol,
Rhyfeddod gan fy enaid,
I mi gael dod yn ol.

2 Pan euthym oddi cartre,
'Doedd arnaf eisiau dim,
Gwir falchder elyn anferth,
A rodd fath drafferth i'm;
Mi werthias bob rhagorfraint,
O'm rhan fy hun dros byth
Oni buase yr hen berthynas,
Yn uffern buase 'm nyth.

3 'Nol i mi dreulio 'r cwbwl,
Daeth newyn i fy ngwlad,
I'm mofyn tuag adre,
Yn ol i dŷ fy nhad;
O'r diwedd da'th marwolaeth,
Hi wna'th i'r cyndyn ddod
A gadael moch a chafnau,
I'r Iesu byth bo'r clod.

4 Pan oeddwn yn y pellder,
Fe ganfu 'm tad fi'n dod,
Fe redodd i'm cyfarfod,
Yr anheilynga erio'd;
Tosturiodd ac fe syrthiodd,
Ar wddf y gwael i lawr,
Bydd moliant iddo yn groyw,
I drag'wyddoldeb mawr.

5 Fe'm gwisgodd ar wisg oreu,
Sef haeddiant Adda'r ail,
Mae hon ryw fyrdd o weithiau,
Yn Maeddu goleu'r haul;
Fe guddiwyd gwarth fy noethni,
O'm coryn hyd fy nhro'd
A gwir gyfiawnder Iesu,
I'w enw byddo yr clod.

6 Ces fwytta o'r llo pasgedig,
Ar auredd fwrdd fy nhad,
Danteithion o'r pereiddia,
A nefol win yn rhad;
Mae'r aur delynau yn chwareu,
Mae'r tad yn llawenhau,
Mae groeso i blant afradlon,
I wledda yn ddirai.

## HYMN 171.

*Hiraeth am gynnydd mewn gras, ac am nerth i dinnu ymlaen.*

1 MAE f' enaid yn hiraethu,
Am brofi cynnydd gras,
A gwel'd y dyddiau yn dirwin
Y derfydd llygredd cas,
A theimlo ymadnewyddiad,
Ymestyniad at y nôd,
A llwyr ffieiddio'm hunan,
A'r Iesu i gael y clod.

2 'Rwi'n morio yn erbyn tonnau,
O llygredd creulon cry,
A minnau yn an ghyfarwydd,
Yn erbyn llanw a lli ;
Darostwng dwrf y dyfroedd
A'r moroedd garwa eu grän,
O Iesu dwg fi yn ddiogel,
I'r hafan dawel lan.

3 'Rho rym i fwrw'm hangor,
Yn siccr yn y graig,
Gwir haeddiant mawr anfeidrol,
Digonol Had y wraig ;
A morio ymlaen yn hwylys,
Heb ofni grym y donn,
Nes landio mewn i'r bywyd,
Gael gorphwys ger dy fron.

## HYMN 172.

1 DEFFRO, f' enaid pa'm y cysgu ?
Cofia 'r canu braf fu draw,
Gan ryw liaws o angylion,
A bugeiliaid ger eu llaw :
Yn y preseb gwel yr undeb,
Presennoldeb Duw a dyn,
Yr ail Adda gwedi'i eni
Gyd â Mari'n cael ei drin.

2 D'wedodd Moses eiriau hynod,
Yn yr oesoedd pell o'r blaen,
Deiai Had y Wraig i 'sigo,
Pen y Ddraig yn chwilfriw mân:
Gwelodd Abraham ei ddydd hefyd,
Llawenychodd ef yn fawr;
Gwelodd Esay, gwelodd Mica,
A Zecaria'r hyfryd awr.

3 O Bethle'm Juda i Galfaria,
Daeth a'i yrfa hardd i ben,
'Doedd e' ond tair-ar-ddeg-ar-hugain,
Yn dwend GORPHENWYD ar y pren.
Teulu Sion, cym'rwch galon,
O'ch dyledion 'ry'ch chwi'n rhydd,
Mae'r Ddraig yn crynu, Gwraig sy'n canu,
A'i Had hi gwedi cario'r dydd.

### HYMN 173.

*Deisyfiad am 'sigo Pen y Sarph.*

1 O IESU archaist in'
Weddio yn ddibaid,
Ynghyd â'th arch rho nerth a grym,
I geisio 'r hyn sydd raid;
Pwy all yn llonydd fod,
Tro pechod yn cael bri,
O 'siga ben y Sarph! a thynn
Ei hanferth golyn hi.

2 Llefain yr y'm o hyd,
A llefain hefyd wnawn
Yn erbyn pechod yn ein byw,
O's cymmorth Duw a gawn;
Ni thewn ni nos na dydd,
Ond dyma fydd ein cri,
O 'siga ben y Sarph! &c.

3 O Iesu! d'wed y gair,
A hwy ryddhair yn wir,
Y rhai fu'n rhwym gan gnawd a byd,
A satan ennyd hir;
Cyhoedda i'r caethion hyn,

Dd'od blwyddyn Jubili,
O 'siga ben y Sarph! &c.

4 Dinystria'r gelyn cas,
A'i deyrnas ym mhob dyn,
A chymmer di 'r frenhinol fraint,
A'r orsedd-faingc dy hun;
Bwr arfog wr i ma's,
A doed dy deyrnas di,
O 'siga ben y Sarph! &c.

4 Pa hyd y blina fe
Dy etholedig had,
O dryllia f' holl gadwynau mwy!
Rho iddynt hwy ryddhad;
Dwg bawb o'th anwyl saint,
I wel'd eu braint a'u bri,
O 'siga ben y Sarph! &c.

6 O Tyr'd Iesu yn dy rym,
A'th gleddyf llym dau-fin,
A gwna rymmusder had y wraig,
O ladd y ddraig a'i llin;
Cael pechod dan ein traed
Yw 'n holl ddymuniad ni,
O 'siga ben y Sarph! a thynn
Ei hanferth golyn hi.

## HYMN 174.

*Gwyn eu byd y rhai sy'n meirw yn yr Arglwydd.*

1 OH! melus yw 'r llawenydd sydd
Yn fynych yn fy enaid prudd,
Wrth feddwl am y brodyr cu,
A aeth i'r fro nefolaidd fry.

2 Gadawsant eu daearol dŷ,
Ac aethant trwy 'r Iorddonen ddu,
At Iesu fry, i Seion frynn,
Lle 'r oedd eu calon hwy cyn hyn.

3 Maent wedi cyrchu at y nod,
Lle 'r oedd eu hamcan hwy am fod,

Maent gwedi gorphen ar eu gwaith,
A myn'd yn dëg i ben eu taith.

4 Mewn rhyfel buont yma 'n hir,
Yn colli ac yn ennill tir;
Ond Crist yn wastad oedd o'u plaid,
A'i ras, i'w cynnorthwyo wrth raid.

5 Ymdrechu wnaethant ymdrech dëg;
A chael y frwydyr yn ddi-frêg;
'Nawr, palmwydd yn eu dwylo sydd
Arwyddion, iddynt gario 'r dydd.

6 'Does dim ymbleidio yn eu plith,
Na barnau cilion, chwerwon, chwith;
Byw maent mewn cariad pur heb ball,
A rhydd-did llawn, naill at y llall.

7 Pa Gristion na hiraethai mwy,
Ymddattod i fyn'd attynt hwy,
O swn y byd yn ddigon pell?
Bod gyd â Christ sy' lawer gwell.

## HYMN 175.

*Etholedigaeth, neu Hawl y Credadyn.*

1 CHWY-CHWI yr etholedig ryw,
Heb gymmell, dewch i ganmol Duw;
Am ei drag'wyddol gariad rhad,
Eich dewis iddo ei hun yn had.

2 Eich galw wnaeth o'ch cyflwr trist,
Er clod i'w ras, i gredu 'Nghrist;
Ac nid o waith eich bod yn well,
Na'r lleill o'r byd sydd etto 'mhell.

3 Addefwch frodyr, o'r unfryd,
Mai plant digofaint oe'ch i gyd;
Yn myn'd ar ffo, tu ag uffern ffwrdd,
Ne's daeth trugaredd Duw i'ch cwrdd.

4 Rhyfeddol byth neillduol ras,
Eich galw chwi o'r byd i ma's;

A gadael canoedd, miloedd, myrdd,
I ddilyn eu huffernol ffyrdd.

5 Pwrcasodd i chwi 'n ddrud â'i wa'd,
Drag'wyddol etifeddiaeth rad;
Chwi gewch ar fyrder ei mwynhau,
Mae' amser byfryd yn nesau.

6 Plant ydych etto dan eich oed,
Mae'r etifeddiaeth ich' erioed;
Trag'wyddol gariad Duw yw 'r sail,
Pwy ddichan dorri 'r fath *entail*?

## HYMN 176.

*Myfi yw 'r* WINWYDDEN, *a chwithau yw 'r Canghenau.*

1 MYFI yw 'r gangen, Crist yw 'r Prèn,
A'r ber Winwydden nefol;
Duw, tynnodd fi o'm gwraidd fy hun,
Gael nodded un ysprydol.

2 Fe ddarfu i'r waedlyd wayw-ffon,
Wneud yn ei fron ef rwygiad,
I allu o hono roi yn hael,
A minnau gael o'i gariad.

3 Ei Yspryd ef a ffydd ynghyd,
Sydd yn ein cyd-gyssylltu;
Fel hyn ymwasgu law-law 'r y'm,
Ac ni all dim ein gwa'nu.

4 Cyd y b'o 'r gwreiddyn fyw 'n y tir,
Y gangen îr ni chrina;
Tr'o gras a bywyd yn llaw Crist,
Fy enaid trist ni threnga.

5 Fy Mhrynwr cu, ni ddarfu erioed
I'r cang'au a'r coed ymgydio,
Mor agos ac y mynnwn i
Gael â thydi fy uno.

## HYMN 177.

*Pererindod y* CRISTION.

1 FY ngweddi dos i 'r nef,
  Yn union at fy Nuw,
A dywed wrtho ef yn daer,
  " Attolwg, Arglwydd, clyw;
" Cyflawna 'th 'ddewid wych,
  " I'm dwyn i'th nefoedd wen;
" Yn Salem fry par'to fy lle,
  " Mewn llys o fewn i'th len."

2 Pererin llesg a llaith,
  Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
  Gan geifio gwlad sydd well;
Am ffoi mae f' enaid tlawd,
  At f' anwyl Frawd a'm Pen;
Yn Salem fry, &c.

3 Yng nglyn wylofain drist,
  Lle bu fy Nghrist 'w'i 'n byw,
Ac wrth ryfela 'm gelyn cas,
  Fy nghalon aeth yn friw;
Iacha bob clwyf a brath,
  A dail y bywiol Bren;
Yn Salem fry, &c.

4 Mae 'm brodyr uwch y nen,
  Yn canu ar ben eu taith,
A minnau oedais lawer awr,
  Ar swrnai fawr a maith;
Ond bellach tynn fi 'n ddwys,
  Ar Grist dod bwys fy mhen;
  Yn Salem fry, &c.

5 Gwna im' fyn'd ymlaen yn ddewr,
  Trwy ddyfroedd mawr a thân,
Heb ofni satan lew na'i lu,
  Ne's elwy' i Seion lân;
Gan ddiangc ar y byd,
  I'm cartref clyd uwch ben;
Yn Salem fry, &c.

6 'Rw'i'n gwel'd yr oriau'n hir,
I fod o dir fy ngwlad;
'Bryd deuaf at fy mrodyr fry,
Sy'n canu yn nhŷ fy Nhad?
Gael gorphen ar fy nhaith,
A'm siwrnai faith îs nen;
"Yn Salem fry par'to fy lle,
"Mewn llys o fewn i'r llen."

## HYMN 178.

*Dymuno Llwyddiant i'r Efengyl.*

1 O ARGLWYDD Dduw, bywha dy waith,
Trwy holl derfynau'r ddaear faith;
Dros dir a môr disgleiria maes,
Yn nerth dy rad anfeidrol ras.

2 Eglwysi hardd, fel gwinwydd ir,
Flaguro'n dêg trwy'r Gogledd dir;
A theyrnas Crist trwy'r Dehau cras,
Flodeuo ar led fel Eden las.

3 Clodfored pob creadur byw
Yr unig ddoeth anfarwol Dduw;
Gwna'r dda'r i gyd yn ddelw gu
O'r nefoedd ogoneddus fry.

## HYMN 179.

*Pabell yr Arglwydd.*

1 MOR hardd, mor dëg, mor hyfryd yw
Dy babell sanctaidd di, O Dduw!
Mor loyw y disgleiria hi,
Gan lewyrch dy wynebpryd di!

2 Rhagori a wna ei chywrain waith,
Ar holl balasau'r ddaear faith:
A'r nef a edrych oddi draw,
Ar adail lān dy ddwyfol law.

3 Pan welom yno'th anwyl wedd,
Pan brofom yno'th hyfryd hedd,
Cyd-floeddio wnawn ar lawen lef,
"Ti 'n dygaist ni i borth y nef."

4 Gerllaw dy hoff adeilad hardd,
Y gorwedd tëg Baradwys ardd;
Arogla 'i blodau yn ein plith,
A syrth o'n hamgylch ran o'i gwlith.

5 Mae un diwrnod yn dy dŷ,
Dan wenau cain dy wyneb cu,
Yn well nä mil yng ngwledd y ffol,
Sy'n gadael chwer'der blin ar ol.

6 Rho i ni'r fraint o'th wel'd ar frys,
O fewn dy lân fendigaid lys;
Prydferthwch hardda'th babell yw
Dy bresennoldeb di, ein Duw.

## HYMN 180.

*Nefolder Ysbryd.*

1 ESGYN, f' enaid, tu ag i fynu,
'Heda'th ffordd ar aden ffydd,
Cyrraedd goel y grasol Iesu,
Gorphwys wedi'n nos a dydd;
Gorphwys yn ei fynwes anwyl,
Arno beunydd rho dy bwys;
'Madael ä'th ddaearol breswyl
Yn dy fyfyrdodau dwys.

2 Gwel y ddinas ogoneddus
Sy'n disgleirio'n hardd ei gwedd,
A'i thrigolion gorfoleddus,
Llon a hoff, a llawn o hedd:
Gwel y dedwydd waredigion,
Yn cyd-rodio gyd â'r Oen;
Clyw nhwy'n seinio ar fryn Sion,
Clod eu Duw ar nefol dôn.

3 Gwel y Brenin gwiw a'th brynodd,
Ar ei loyw orsedd lân;
Gwel aneirif lu y nefoedd,
Oll yn llawenhau o'i flaen;
Gwel e'n gwisgo'i goron ddisglair,
Yn ei fawr ogoniant fry,
Gwel e'n llonni'r holl uchelder
A'i wynebpryd hyfryd cu.

4 Edrych, f' enaid, tu ag i fynu,
Ne's diflanno'r dda'r o'th flaen;
Gwrando'r nefol dorf yn canu,
Hyd ne's dysgi ditheu'r gân;
Rho dy ddidwyll fyfyrdodau
Yn feunyddiol ar y nef,
Hyd ne's hedo'th holl serchiadau
Fynu at Grist ar aden gref.

## HYMN 181.

*Sancteiddrwydd a weddai i dy'r Arglwydd.*

1 SANCTEIDDRWYDD tëg yw harddwch tŷ
Ein Harglwydd gogoneddus cu:
Nid dull allanol, decca'i llun,
Rydd fawl i Dduw, neu fudd i ddyn.

2 Anfeidrol berffaith ydyw'r Bod
Sy'n derbyn glân dragywyddol glod:
Dadgana holl drigolion nef
Ogoniant ei sancteiddrwydd ef.

3 Sancteiddrwydd gwirioneddol yw,
Prydferthwch hardda eglwys Dduw,
Yw disglair wisg, a dirfawr fraint,
Y gogoneddus siriol saint.

4 Y galon lân nefolaidd yw
Anwylaf dëg breswylfod Duw:
Ni wena Duw ar enaid un
Na ddug ei ddelw hardd ei hun.

## HYMN 182.

*Crist yn Rhagori ar bob Peth.*

1 NID yw'r greadigaeth helaeth hon,
A'i chyfoeth llawn, a'i thegwch llon,
A'r holl bleserau ynthi sydd,
Ond gwael eu ffurf yng ngolwg ffydd.

2 'Dyw'r haulwen dwym, sy'n rhoddi'r dydd,
Ond t'wyllwch trist tr'o Crist tan gudd:
Fy enaid fyth ddymunai fyw
Tan lewyrch tëg wynebpryd Duw.

3 Mae mel, ac yd, ac olew, a gwin,
Yn felus iawn i'r iachus fin:
Ond mil felusach anwyl hedd
Fy Arglwydd byth tu draw i'r bedd.

4 Mor hardd yw'ch gwedd, seraphiaid cu,
Ar ddisglair fryn Caersalem fry!
Ond nid yw'ch llu mor wych eu lliw,
Mor hardd eu gwedd, a Mhrynwr gwiw.

5 Chwi, fy nghyfeillion doethion da,
Eich caru'n anwyl iawn a wna':
Ond Crist sydd Gyfaill llawer gwell;
Ar geraint mwyn rhagora 'mhell.

9 Ei rasol hoff gymdeithas ef
Sydd i mi 'nawr yn rhan o'r nef;
A'r nefoedd ogoneddus fry,
Tros fyth, yw coel fy Iesu cu.

## HYMN 183.

*Y Creadadyn yn Hyderu ac yn Gorfoleddu yng Nghrist.*

1 FY anwyl Grist yw'm Noddfa gref,
Byth ymddiriedaf yntho ef:
Ei ddwyfol law a ddwg i'r lan,
O ddyfnder gwae, fy enaid gwan.

2 Yr Iesu croeshoeliedig yw
Fy Iechydwriaeth wych a'm Duw:
Clodforaf di, fy Mhrynwr doeth,
Ti'm cedwi byth rhag uffern boeth.

3 Tydi a'm ceraist, elyn cas,
Derbyniais hedd a rhyfedd ras:
Tydi a'm prynaist ar y pren,
A gwerthfawr waed dy fynwes wen.

4 Cyhoeddaf dy drugaredd fawr,
A'm gwilied i bob munud awr:
Moliannaf dy ddaioni hael,
A brofir gan fath bryfyn gwael.

5 'Rwyf fi, fy Nuw, â thi yn un ;
Nid ofnaf ergyd angeu 'i hun :
Mwynhau dy bresennoldeb cu
Fydd hynod fraint fy enaid fry.

## HYMN 184.

*Swpper yr Arglwydd.*

1 CYD-foliannwn yr Oen anwyl,
Ar yr wyl odidog hon :
Tra b'o'n genau'n peraidd ganu,
Cariad brwd f'o'n cynnu'n bron.
O 'r fath wych ddanteithion iachus !
O mor felus ydyw'r wledd !
Iechydwriaeth trwy ras dirfawr,
A gwaed gwerthfawr Brenin hedd.

2 Ti dywalltaist, i'n diwallu,
D' anwyl waed, O 'r Iesu cu ?
Gan aberthu'th gnawd, i borthi
(Nefol wledd !) aneiri' lu.
O mor rhyfedd yw rhinweddau
Ac effeithiau'th werthfawr waed !
O 'r fath ABERTH fawr anfeidrol !
Mor haeddiannol ac mor rhad !

3 O mor helaeth ac mor freision
Yw danteithion bwrdd dy ras !
O mor ddirfawr yw eu rhinwedd !
O mor beraidd yw eu blas !
Hoff drugaredd faith drag'wyddol !
Cariad dwyfol ! hyfryd hedd !
Cymmorth grasol ! nefol gyssur !
Dyma'n wir ragorol wledd.

4 O am wledda'n orfoleddus
Ar dy felus gariad fry,
Gan ddadganu'th allu allan,
Gyd â'r glân gadwedig lu !
O am weled y groes waedlyd
Yn cyfnewid yn eu plith,
I ardderchog ddisglair orsedd,
A thi'n eistedd arni byth !

## HYMN 185.

*Y Gwrthgiliwr Edifeiriol.*

1 O ERGLYW'M cwyn, fy Arglwydd cu,
Yn griddfan dan euogrwydd dû;
Galaraf byth tr'o'i yma'n byw;
O! pechais, do, yn erbyn Duw.

2 Yn erbyn mawr oleuni maith,
A chyssur gwerthfawr lawer gwaith,
A phroffes gyhoedd iawn o Grist,
Oddi wrthyt trodd fy enaid trist.

3 Fy mhechod sydd o uchel radd,
Bu'r gelyn llygredd bron a'm lladd:
O gwella'm clwyf, esmwytha'm poen,
A gwerthfawr rinwedd gwaed yr Oen.

4 Ymbiliaf am faddeuant rhad,
Mewn lludw'n drwch o flaen dy draed:
O Arglwydd, gwel wrthgiliwr gwael,
Yn brefu am hedd dy ysbryd hael.

5 Ymgadwaf rhag halogrwydd cas,
Trwy'th gymmorth mwyn, o hyn i maes,
Gan rodio'n harddach nag erioed,
Dy lwybrau glân, i'th ddirfawr glod.

6 Moes i mi gael preswylfa gu,
'Mysg meibion Duw, o fewn dy dŷ;
Moes i mi wel'd dy serchog wedd,
A phrofi o hyd dy ras a'th hedd.

## HYMN 186.

*Y Cristion yn Ymbil ar yr Arglwydd ei Chwilio.*

1 O ARGLWYDD, chwilia nghalon wael,
Moes i mi hwyl dy ysbryd hael,
I'm harwain yn dy ffyrdd o hyd,
Tu a'r nefol annherfynol fyd.

2 Os wyf fi 'nawr yn twyllo f' hun,
Heb ddim ond lliw, a rhith, a llun

O grefydd gennyf, heb ei grym,
Fy rhagrith lladd ā'th gleddyf llym.

3 Os gau-ddibenion surion sydd
Yn lledu eu gwraidd o'm mewn tan gudd,
Neu drachwant cryf, neu lygredd cas,
Diwreiddia rhai'n ā'th ddwyfol ras.

4 O Arglwydd doeth, adnebydd di
Fy nghalon ddrwg dwyllodrus i;
Disgleiria o'm mewn, a gyrr i maes,
A'th ysbryd cu, fy mhechod cas.

5 Sancteiddia f' holl serchiadau 'gyd,
Gwna fi'n ysbrydol yn fy mryd;
O gwna fi byth, tr'o'i yma'n byw,
Yn deml hardd i ti, fy Nuw.

9 Y galon lariaidd, gywir, lān,
Sy'n gorwedd yn y llwch o'th flaen,
A gaiff ar fyrr breswylio fry,
O fewn dy deg frenhinol dŷ.

## HYMN 187.

*Gweddi 'r Duwiol.*

1 O ARGLWYDD Dduw, anfeidrol dda,
Tosturia wrthwy'n dirion;
Mae f' enaid gwan dan lawer gwae,
Ac amryw feichiau trymion.

2 Tydi, fy'm Duw, yw'm unig Dwr,
Ac Awdwr fy holl hyder:
Mi gysgaf dan dy gysgod di,
'Mysg bradwyr, yn ddi-bryder.

3 Diwalla di, ā'th lawnder hael,
Fy enaid gwael anghenus:
Gwell gennyf brawf o fara'r ne',
Na mil o foethau melus.

4 Addurna di, ag ysbryd doeth,
Fy enaid noeth yn hynod;

Moes i mi'n ddyddiol nefol ddawn,
A iechyd llawn oddi uchod.

5 Moes i mi'th fwyn gymdeithas fyth,
Dy hedd a'th fendith ddwyfol:
Bydd di f' Arweinydd drwy fy nhaith,
A'm Cyfran faith dragywyddol.

## HYMN 188.

*Y Pechadur Edifeiriol yn ymbil am Faddeuant.*

1 IACHAWDWR hoff! pechadur wyf,
Ar farw o glwyf anwiredd;
O Arglwydd f' einios, erglwy fi,
Yn gwaeddi am drugaredd.

2 Os ai i farn ā'th bryfyn brau,
Euogrwydd gau fy ngeneu;
A'th berffaith ddeddf a'm barna'n ddig,
I'r dychrynedig boenau.

3 O maddeu, er hyn, fy meiau'n rhad,
Ar gyfrif gwaed y cymmod:
Rho'ist di, Oen glân, dy fynwes glyd
Yn aberth drud dros bechod.

4 Disgleirio wnel cyfiawnder 'nawr,
Ynghyd a'th fawr drugaredd,
Yn eichydwriaeth dynolryw,
Er cymmaint yw eu camwedd.

5 Addefa'n groch wrth orsedd gras,
Fy mhechod cas a chwerw;
Ac os fy nghyfrgolli a gaf,
Dymunaf yno i farw.

## HYMN 189.

*Dymuno Llewyrch Gwyneb yr Arglwydd.*

1 O DISGLEIRIA, Arglwydd, arnaf,
Fel yr haul, trwy'th ddwyfol ras;
Gwasgar di f' euogrwydd duaf,
Ymaith gyrr fy mhechod cas:

Rho fi lewyrch dy wynebpryd
Trwy fy,m taith a'm t'wyllwch tew ;
Os caf weled gwëa f' Anwylyd,
Af ymlaen hyd angeu'n lew.

2 Ie, yn nyffryn cysgod angeu,
Lle mae hyll ellyllon lu,
Dreigiau, llewod, diriaid byllau,
A thywyllwch erchyll dû,
Os ca'i'th anwyl bresennoldeb,
O fy Nuw, hyd ben fy nhaith,
Af heb fraw i dragywyddoldeb,
Af i'r mawr oleuni maith.

## HYMN 190.

*Dedwyddwch y Duwiol.*

1 GWYNFYD y gŵr a ddidwyll gâr,
Dy gyfraith hawddgar, Arglwydd ;
Bydd megis gwych blanhigyn gwyrdd,
Yn tyfu'n ffyrdd sancteiddrwydd.

2 Wrth afon Duw ei wreiddyn da
A leda fel ffynnidwydd ;
A'i dêg gangehnnau gwlith a gânt,
Blagurant fel y gwinwydd.

3 Ei ddalen ber ni chrina byth,
Derbyniodd fendith ddwyfol ;
Ei frig a blyg i lawr dan lwyth
O flasus ffrwyth iachusol.

4 Angylion Duw a'i gwiliant e'
Rhag amryw ddrygau mawrion ;
Ni chaiff un baedd na bwystfil blin
Ddim turio 'i wreiddyn tirion.

5 Ei Arglwydd a'i trosglwydda'n glau,
I'r hafaidd barthau nefol ;
Yng ngwinllan hyfryd Sion fry,
Caiff dyfu yn dragywyddol.

6 Nid felly'r drwg sydd megis drain,
Cânt ochain yn dra uchel,
A'u taflu i'r dü uffern i dân,
Lle llosg yr aflan angel.

## HYMN 191.

*Perthynol i Gwrdd Gweinidogion.*

1 TRWY 'th gadarn allu di, ein Duw,
'Ry'm ni hyd heddyw'n aros,
Gan geifio cyd-ymdrechu'n llyn,
Yn awchus yn dy achos.

2 O gwisg dy weision yma i gyd,
Yn hardd á iechydwriaeth;
Par ddirfawr lwydd i'r 'fengyl lân,
Trwy'n hegwan weinidogaeth.

3 Ennynna'n dawn ä nefol dän,
A dwg ni 'mlaen hyd angeu,
Gan lwyddo'n ffordd ym mhlaid y ffydd,
Er hynod fudd eneidiau.

4 Dinoetha'th fraich, bywha dy waith,
Trwy'r ddaear faith yn ebrwydd;
Lluned dy ras holl ddynolryw
Yn eglwys wiw i'r Arglwydd.

## HYMN 192.

*Ar Ordeiniad Gweinidogion.*

1 GWRANDAWED gwilwyr Sion gu
Ar lais y Iesu grasol;
Derbynient oll eu sanctaidd swydd
O eneu 'i Harglwydd nefol.

2 Mor fawr yw gofal, gwaith, a phoen,
Y bugail ffyddlon diwyd,
Wrth wilio'n brudd yr anwyl braidd,
Rhag safn y blaidd newynllyd!

3 Y praidd, dan ofal mawr di-baid
Y dwys fugeiliaid doethion,

A brynodd Crist, o'i gariad rhad,
A gwerthfawr waed ei galon.

4 O gwilia di, y Bugail da,
Dy weision yn dra grasol,
Fel b'o iddynt hwythau ā'u holl fryd,
I ddiwyd wilio'th bobl.

5 Derbynient nerth a dawn o'r nef,
Amynedd gref ddymunol,
Cynnorthwy gwerthfawr yn eu gwaith,
A llwyddiant maith beunyddiol.

6 Bendithia'r praidd a'r bugail byth,
A phob rhyw fendith reidiol,
Ac yn y diwedd dwg nhwy 'gyd
I'r anwyl wynfyd nefol.

## HYMN 193.

1 NID yw'r cyfoeth, nid yw'r cyfan,
A feddiannaf yn y byd,
Ddim i'w gyfri'n addas gyfran,
Ddim ond gwagedd oll i gyd:
A sancteiddrwydd a chyfiawnder
Cyfoethoga f' enaid gwael;
Dyma'r llwyddiant, dyma'r llawnder,
Dyma'r golud goreu i'w gael.

2 Rhag bydoldeb a chybydd-dod,
Arglwydd, gwared fi o hyd;
Boed fy hyder a myfyrdod
Ar drysorau'r nefol fyd:
Gwell nag elw'r holl greadigaeth
Yw dy ras a'th hyfryd hedd;
O am feddu'r etifeddiaeth
Ddidrangc, bur, tu draw i'r bedd!

## HYMN 194.

*Ofni Colledigaeth Dragywyddol.*

1 DYCHRYNU a wna fy enaid noeth,
Wrth feddwl byw yn uffern boeth,
Ym mysg cythreuliaid aflan byth,
Sy'n cablu'r Mawredd ar bob chwyth.

2 Och! pwy dros fyth a ddichon fyw,
Tan gyfiawn dost ddigofaint Duw,
Mewn llynn o dân, lle llosg y dyn
A gynnodd hon o'i fodd ei hun!

3 'Rw'i'n crynu ar lan y danllyd lynn,
Gan edrych fry tu a Salem frynn,
Lle mae diogelwch mwyn i'w gael,
Trugaredd hoff, a bendith hael.

4 'Rwy'n ofni weithiau ar fy nhaith,
Yr af i'r mawr dreuni maith,
Lle na cha'i ganfod wyneb cu
Fy nefol Dad o fewn ei dŷ.

5 Och! cael fy ngyrru bant o blith
Fy hen gyfeillion hoff, dros fyth,
I fysg y cwn uffernol cas,
Lle berwa'n grych y brwmstan glas!

6 O'r Iesu anwyl! moes dy law,
Na ad 'fi droi i uffern draw;
Dwg fi'n dy go'l trwy'm hofnau 'gyd,
I'th wyddfod hardd, i'th foli o hyd.

7 Cymmwysa fi â'th ras i fyw,
Yn berffaith dëg byth gyd ä Duw,
I lawn fwynhau'i wynebpryd ef,
Ymhlith aneirif lu y nef.

## HYMN 195.

*Hunan Ymholiad.*

BARNA'N gyflawn beth yw'th gyflwr,
O fy enaid, a pha nod
Wyt ti'n ddwyn, i'r mwyn Waredwr
Gael dy gariad di erioed:
A ennillodd ef yn hollol
Dy serchiadau goreu i gyd,
Gan d'ogwyddo yn dragywyddol
I'w ei brisio'n fwy ná'r byd?

2 P'un ai llygredd brwnt a rhagrith
Sy'n teyrnasu ynot 'nawr,
Neu anfeidrol gref lywodraeth
Dêg a mwyn, dy Arglwydd mawr?
Beth yw'th ddiben pennaf beunydd,
Yn dy holl grefyddol waith,
Llesu'r cnawd, neu lledu crefydd?
Chwilia i mewn i'th giliau maith.

3 O, na thwylla'th hun ä th'wyllwch,
Yn lle gwir oleuni'r nef!
Cais arweiniad Duw yr heddwch,
I'th hoff dywys atto ef.
Os heb Grist a'i ysbryd grasol
Yn dy buro'r wyt yn byw,
Byth ni weli'r parthau nefol,
Byth ni feddu deyrnas Dduw.

4 O am deimlo undeb nefol
Rhwng fy enaid gwan o hyd,
A'r Gwaredydd cu anfeidrol,
Tr'o'i'n ymboeni yn y byd!
O am gael amlygiad eglur,
Anwyl Dduw, o'th nefol hedd,
Yna deled poen a dolur,
Af o'm bodd i fangre'r bedd.

## HYMN 196.

*Rhybudd i'r Annuwiol.*

1 BECHADURIAID anystyriol,
Ffol droseddwyr cyfraith Dduw,
Gwag a diofal gaethion diafol,
Yn ei garchar brwnt yn byw;
Wedi 'ch dallu
Gan dywyllwch erchyll dü.

2 O mor aflan yw'ch meddyliau,
A'ch bucheddau oll o'ch bodd!
Mor echrydus yw'ch pechodau,
Yn y dirgel ac ar g'oedd!
O'r fath gyfri'
Raid ich' roddi'n nydd y farn!

3 Mor ofnădwy yw eich cyfiwr
Dan lywodraeth pechod cas,
Yn dirmygu'r mwyn Waredwr,
Yn dirmygu Duw a'i ras!
Ac yn brysio
Yn ddi-baid tu ag uffern boeth!

4 Dwys-ystyriwch, bechaduriaid,
P'wedd y diengwch ddigter Duw,
P'wedd y gellwch, 'mysg cythreuliaid,
Yn y tān tragywyddol fyw!
Byth yn syrthio
Ddyfnach, ddyfnach, yn eich gwae!

5 Gwelwch ddydd y farn yn gwawrio,
Gwelwch Grist yn d'od o'r nef:
Parotowch i atteb iddo
O'ch holl ddirmyg arno ef:
Cryned weithian
Eich calonnau caled iawn.

6 O, na chredech mor echrydus
Yw eich cyflwr euog 'nawr!
O, na wyddech pa mor felus
Byth yw hedd y Barnwr mawr!
Ffowch i'r noddfa,
Ffowch dan waedd y llid a fydd!

## HYMN 197.

*Y Mab Afradlon.*

1 O'R llygredd aflan, hyll ei lun,
Sy'n enaid dyn wrth nattur!
O'r balchder chwerw, ffol, a'i chwydd,
A'r brwnt gyndynrwydd budr!

2 Y mab afradlon sydd a'i fryd
Ar wagedd ynfyd anferth:
Ymdrochi a wna mewn pechod 'nawr,
Ar fyr, mewn dirfawr drafferth.

3 Gwrthoda'r dyn bob cyngor doeth,
Ne's cynno poeth euogrwydd,

Ne's bratho clefyd brwd, fel cledd,
Ne's gwridio'i wedd gan w'radwydd.

4 Ofnadyw yw ei gyflwr ef,
I Lywydd nef yn elyn!
Yn rhedeg ffwrdd tu ag uffern ddû,
A'r dieflig lu'n ei erfyn!

5 Ennynna di, O nefol Dad,
Dy werthfawr gariad yntho;
Dwg di 'r afradlon 'nol ar frys,
I'th wiw-lân lys, dan wylo.

6 Addurna'n hardd y truan noeth,
A phortha'r annoeth enaid:
Rhydd fawl i ti ar felus dant
Byth gyd â 'th blant bendigaid.

## HYMN 198.

*Gobaith cryf o weled ein Gelynion dan Draed.*

1 PERERIN wyf tu a Salem bur,
Ddiangodd maes o'r Aiphtaidd dir;
Rho nerth fy Nuw, i deithio 'mla'n,
Ne's d'od i mewn i'r *Canaan* lân.

2 Gelynion taer sydd o bob tu,
Fel Cad am rwystro'm henaid cu;
Wel'd dy wyneb gwych fy Iesu gwiw,
A theimlo o'th nefol hedd, fy Nuw.

3 Mi wn y cyll bob gelyn call!
Caf rwygo dyrys rwydau'r fall;
Caiff pechod drwg ac uffern drist,
I wel'd mai'm Ffrynd yw Iesu Grist.

4 Er maint yw llid fy mhechod llym,
Ei erchyll rwysg, a'i ryfedd rym,
Fy Mhriod mae'n Dywysog mawr,
Fy meiau 'n llu fe 'u mynn i'r llawr.

5 Mewn hyder ffydd, mi af ymla'n,
Trwy rwystrau mawr o ddw'r a thân;
O ddydd i ddydd, trwy rin y gwaed,
Caf sathru pechod dan fy nhraed.

6 Mi ddof yn hy i ben fy nhaith,
Gorphenna 'n wir fy llafur-waith;
Gongcwero wnaf fyn'd at fy Nuw,
Feddiannu 'r wisg a'r goron wiw.

## HYMN 199.

*Yn ymg adarnhau wrth gofio 'r Cyssur on Gynt.*

1 O ARGLWYDD! gwel fi 'n llesg a gwan,
Yn ffaelu dringo o'r byd i'r lan;
Am fyn'd yn lew i'r Ganaan lān,
Heb allu symmud fawr ymla'n.

2 Gynt credais c'ai fy enaid cu,
Fod yn frau 'n gongcwerw fry;
Ond etto heb feddiannu 'r wlad,
Bwrcasodd Iesu im' ä'i wa'd.

3 Fy meiau 'n gryf sydd o bob gradd,
Yn fawr eu llid am gael fy lladd;
Gan ddadleu 'n rhwydd, nad oes dim rhan
Yn Iesu gwiw, gan f' enaid gwan.

4 Yn f' erbyn mae gelynion Gad,
A'm henaid trist bron dan eu traed;
Och! Och! p'le mae fy Mrenin mawr?
I sathru llu o'r rhai'n i'r llawr.

## HYMN 200.

*Myfyrdod or Ddedwyddwch y Nefoedd*

1 O FUGAIL Israel, dwg 'mla'n,
I'r dawel län orphwysfa;
I'th nefol lys, o'm poen a'm pla,
I ganu Haleluia.

2 Myfyrio fod fy hyfryd le,
O fewn i'r ne' yn barod,
Sy'n gwneud i'm henaid cu bob cam,
Hiraethu am ymddattod.

3 Yn angeu caf nefolaidd gôr,
Angylion o'r disgleiria',

I'm dwyn o'm briw at deulu bra',
Sy'n canu Haleluia.

4 Ond myn'd wrth lys Caersalem lon,
Caf gwrdd â'm ffyddlon Frenin,
Yn agor drws y nefoedd draw,
Ac yn ei law fe'm derbyn.

5 Cael cwrdd a wnaf o fewn i'r ne',
A'r sanctaidd bererinion;
Ac yn eu plith caf foli 'm Ner,
A pher ganiadau Seion.

6 Y wisg a'r goron caf i'm rhan,
Sy' 'nghadw gan y Iesu;
A'r hyfryd balmwydd yn fy llaw,
Ca'i 'n Seion draw deyrnasu.

### HYMN 201.

*Pererindod y CRISTION.*

1 TRAFAELWYR y'm i'r *Ganaan* glyd,
Llesg bererinion yn y byd;
Ni glywsom lais y'n gwawdd i'r nef,
I gael teyrnasu gyd ag ef.

2 Yno mae'n Iesu ni a'n Tad,
A'n brodyr gwiw bwrcasodd gwa'd;
Mae'n henwau newydd yno oll,
Ar fynwes Crist, nid awn ar goll.

3 Pa beth all mwyach ddwyn ein bryd,
Na'n denu i aros yn y byd?
Ein hiraeth ni a'n syched yw
Cael myn'd i'r lan at deulu Duw.

4 'Rhyd anial ffordd rhaid myn'd ymlaen,
O'r dywyll *Aipht* i'r *Ganaan* lân;
Er rwystrau mawr, cawn fyn'd yn wir,
Ar fyrr, feddiannu 'r hyfryd dir.

5 Ymdrechu wnawn trwy nerth ein Duw,
Ne's cael y wisg a'r goron wiw;
O law'n gelynion fyn'd yn rhydd,
A chael yr uchel-gamp a'r dydd.

## HYMN 202.

*Dedwyddwch neu Drueni Tragywyddol Gerllaw.*

1 'RWY'I 'nawr bob nos a dydd ar daith,
Tu a'r ce'nfor mawr o wynfyd maith,
Neu ynte'r tân a'r brwmstan brwd,
Sy'n llifo ar ffrwst yn danllyd ffrwd.

2 Pan ddel yr annherfynol ddydd,
Anfeidrol wahaniaethol fydd
Cyflyrau'r call ffyddloniaid cu,
A'r aflan hyll annuwiol lu.

3 Y gwaredigion gwiw i gyd,
A orfoleddant fry o hyd;
Ond yr anufudd enaid noeth
A ochain byth yn uffern boeth.

4 O am gael prawf i'm henaid prudd,
O gariad Duw cyn gwawrio'r dydd,
Y dydd o faith ddisgleirdeb fry,
Neu erchyll dew dywyllwch dü.

5 Pe ennillwn fyd, ni's galla'i fyw
Heb hawl i'r nef, heb wel'd fy Nuw;
Ond os ca'i gryf gyssuron gras,
Gwenaf ar gledd yr angeu glas.

## HYMN 203.

*Dymuniad y Credadyn ofnus, yn agos i angeu.*

1 O ARGLWYDD grasol, erglyw'm cri,
Am fwy o'th dêg dangnefedd di,
A llewyrch goleu'th wyneb glân,
I'm tywys beunydd yn y blaen.

2 Ammherfaith iawn yw'm ffydd a'm hedd,
A'm gobaith byw, wrth fin y bedd:
Fe gryna 'm bron gan lawer braw,
A thragywyddoldeb maith gerllaw.

3 Fy nghyflwr sydd alarus iawn,
Os na cha'i wledd o fendith lawn,
A phrawf o dirion gariad Duw,
I gadw'm hyder fyth yn fyw.

4 O'r Haulwen dêg! disgleiria di,
Trwy'r t'wyllwch tew, ar f' enaid i;
Gwresoga 'nawr fy nghalon oer,
Ar lan yr annherfynol fôr.

5 Pan ballo'm cnawd a'm calon wan,
Bydd di fy rhad anfeidrol Ran;
Dwg f' enaid gwael i'th fynwes gu,
Ac yna deu'd yr angeu dû.

HYMN 204.

*ADDEWIDION.*

1 DAW amser braf, can's gwawrio bron,
Mae haf-ddydd yr efengyl lon;
I'r 'nysoedd pell daw'r trysor drud,
A'i swn ar hyd eithafoedd byd.

2 Ceir gwel'd y blaidd a'r oen ynghyd,
Y myn a'r llewpard o'r un-fryd;
Y llo a'r llew, a'r 'nifail bras,
Mewn heddwch mawr, heb gwympo ma's.

3 Bachgennyn bychan yn ei law,
A'u trin a'u harwain yma a thraw;
Llid yn y rhai'n byth mwy ni bydd,
Yr anian newydd garia'r dydd.

4 Y fuwch ynghyd â'r arth a bawr,
A'u llydnod fydd mewn heddwch mawr;
Anghofia'r llew greulondeb cas,
Fel ych fe bora wellt y ma's.

5 Y plentyn sugno chwery'n ffra'th
Wrth dwll yr asp, heb ofni brath;
'R hwn a ddiddyfnwyd heb ddim braw,
Ar ffau y wiber rhydd ei law.

6 Diniwaid fyddant o bob rhyw,
Ar hyd holl fynydd sanctaidd Duw;
Yn wirion iawn cyfnewid gras,
Y rhai fu gynt yn gyndyn cas.

7 Llamma fel hydd tros fryniau pell,
Cyflawna'r addewidion gwell;
O galw d' etholedig had,
I brofi rhagorfreintiau'th wa'd.

HYMN 205.

*Dymuniad y SAINT.*

1 PE cawn ond teimlo'r awel gref,
Aeth ag *Elias* gynt i'r nef;
Gadewn yn ol fy ngwisg o gnawd,
Ag *Elseus* f' anwylaf frawd.

2 Pe meddwn arch hen *Noa* ddewr,
Nofio a wnawn 'rhyd diluw mawr;
Tu a phen *Ararat*, lle mae'r fraint,
Y mynydd sy'n orphwysfa i'r saint.

3 *Y nos pe cawn golofn dân*,
A niwl i'm harwain dydd ymla'n;
O'r 'nialwch mawr mi ddown i ma's,
Ne's landio trwy'r *Iorddonen* las.

4 Pe cawn fel *Iago* ysgol gref,
Gyrrhaeddai o'r ddaear i entrych nef;
Dringo a wnawn o'r byd i ma's,
Heb orphwys liw ar garreg las.

5 Gwynfyd gaf rodio gyd â Duw;
Fel *Enoc* ffyddlon, tra f' wyf byw;
Ehedeg wnawn o'r byd i ma's,
Heb ofni briw yr angeu glas.

6 Ym *Mhenuel* 'rwyt, fy enaid clyw,
Ymdrecha'n dëg ag angel Duw;
Pwy wyr na's caf cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr.

## HYMN 206.

*Clodforwch yr* ARGLWYDD.

1 CLodforwch bawb ein Harglwydd Dduw,
Doed dynol-ryw i'w ganmol;
Ei hedd fel afon fawr ddidrai,
Gaiff ddwfrhau ei bobol.

2 Ei air a'i ammod cadw wna,
Byth y parha ei ffyddlondeb,
Ne's dwyn ei braidd, o'u poen a'u pla,
I hyfryd drag'wyddoldeb.

3 Ni altra ddim er gweled bai,
O fewn i'w rai anwyla';
Byth cofia waed Tywysog nen,
A'i boen ar ben *Calfaria.*

4 Pan pallo ffafar pawb, a'u hedd,
Duw o'i drugaredd odiaeth,
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

5 Gwaredigion ga'dd eu rhyddhau,
O'u carchar a'u cadwynau;
Dadseiniant gän trwy'r nef a'r llawr,
Am ei fawr ryfeddodau.

## HYMN 207.

*CAERSALEM NEWYDD.*

1 C'OD f' enaid gwan yn fuan gwel
Y wlad sy'n llifo o laeth a mel;
Gorphwsfa 'r rhai a ddaeth trwy ras,
O gystudd mawr y byd i ma's.

2 Caersalem newydd, dinas Ner,
Bar'tow'd i'r saint uwchlaw y ser;
Adeilad pur o aur di-goll,
Fel gwydr gloyw 'n ddisglair oll.

3 Ei thêg rodfeydd, a'i ph'lasau fry,
A'i thyrau sound hyfryd sy';

Pob rhan o honi cyflawn yw,
O sanctaidd bresennolded Duw.

4 Ei huchel furiau wnawd i gyd,
O feini Jaspis hardd a drud;
A deuddeg sylfaen iddi cawn,
A rhai'n o gerrig gwerthfawr iawn.

5 Ei phyrth o berl o ryfedd waith,
Aur yn palmento ei heolydd maith;
Ei llawr hi gwydr gloyw yw,
Yn ddisglair län o hyfryd liw.

6 Haul, lloer, a ser, yma ni's cawn,
Gogoniant Duw sydd ynthi 'n llawn;
Yr Oen fu ā'i waed yn lli' i'r llawr,
Sydd yn disgleirio ddinas fawr.

7 Y gwaredigion oll o'u bron,
Sy'n rhodio yng ngoleuni hon;
Tywysogion a brenhinoedd byd,
Ddwg eu hanrhydedd iddi gyd.

## HYMN 208.

1 YNO mae'r apostolion mawr,
A'u gwisgoedd llaes hyd at y llawr,
Yn canu 'n beraidd i Fab Mair,
Am dorf a gredodd yn eu gair.

2 Myrddiynau o ferthyron hy,
A wnawd trwy dän yn ulw du;
Ysgobion byd ddioddefodd bo'n
Dros air Duw, ac efengyl Ion.

3 Babanod bychain yno sy',
Fu feirw'n ddistaw yn y bru;
A rhai ddifethodd cledde' glas,
Yn newydd dd'ód o'r groth i ma's.

4 O flaen y faingc mae tyrfa faith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth a iaith;
Yn awr yn cael heb boen na briw,
Wyneb yn wyneb weled Duw.

## HYMN 209.

1 WEL dyma hwy 'r gadwedig hil,
A gadwodd ar y llwybyr cul;
Trwy fôr o wae, trwy 'stor'm o wynt,
Y buont hwy yn teithio gynt.

2 Hwynt-hwy ga's heddwch gan y Tad,
Hwynt-hwy a gannwyd yn y gwa'd;
Hwynt-hwy yw'r llu sy' o ddeutu'r faingc,
Yn canu'r waredigol gaingc.

3 Eu dagrau oll a sychwyd ffwrdd,
Galar a thristwch byth ni's cwrdd;
Ni ddaw marwolaeth mwy, na phoen,
I wydd y croeshoeliedig Oen.

4 Coronau ar eu pennau gair,
Ac yn eu dwylaw d'lynau aur,
Yn canu Haleluia 'n hy,
Ne's dadsain yr holl nefoedd fry.

5 Gwynfyd f' ai 'mlith y miloedd myrdd,
Sy'n awr yn gwisgo'u palmwydd gwyrdd,
O Arglwydd da! dywed a ga' i
I fod yn un o'r disglair rai.

## HYMN 210.

### *RHYDD-DID.*

1 DY lwybrau di y'nt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd y'nt lawn hyfrydwch;
Nag amlder yd, neu win fy Nuw,
Melusach yw dy heddwch.

2 I ni oedd gaeth, rho'ist rydd-did bra',
Daeth Jubil gwaredigion;
Rhwygasom len trwy rinwedd gwaed,
Mae'n dwylo a'n traed yn rhyddion.

3 Mae'n traed yn awr ar wddf y ddraig,
Trwy had y wraig sy'n ciriol;
Awn (gan fod Iesu ar ein rhan)
I'r lan, i'r lan yn wrol.

4 Ymlaen heb ffoi trwy gyflawn ffydd,
Tra fyddo 'r dydd yn para;
Pob un ag sydd â sicr sail,
Yn haeddiant yr ail Adda.

## HYMN 211.

*Mi a fyddaf iddo ef yn Dad, &c.*

1 PAROD yw'n Duw i faddeu bai,
Sydd yn ei rai anwyla';
Fel ffyddlon Ffrynd, neu dirion Dad,
Yn wastad fe a'u cara.

2 Canfod y mae ef ym mhob man,
Ein bai, a'n han-noethineb;
Ei feibion y'm, ei ras barha
I eitha trag'wyddoldeb.

3 Fe'n c'rydda am ein beiau ar g'oedd,
Cawn yfed dyfroedd Mara;
Cystuddiau o newydd ddaw bob cam,
I'n cwrddid am y cynta'.

4 Ond sicr yw, y peri byth
Ei ddilyth addewidion;
Nid nef nac uffern newid farn
Creawdwr cadarn cyfion.

5 Nid yw ei gerydd e'n parhau
I ddyddiau trag'wyddoldeb;
Gyd â'i ffonnodiau gwn y ca'
Drugaredd a thiriondeb.

## HYMN 212.

*Y Briodas-ferch yn pwyso ar ei Hanwylyd.*

1 O PWY yw hon sy'n llesg a gwan,
O'r anial fyd yn d'od i'r lan?
Gan faint ei bai blinedig yw,
Yn pwyso ar ei Hanwylyd gwiw.

2 Hon yw priod-ferch Crist ein Duw,
Gwerth gwaed ei galon dyner yw;

Mae'n pledio ag ef, braf yw ei braint,
A'i phle sy'n un ä phawb o'r saint.

3 "'Sgrifenna 'm henw'n ddisglair iawn,
"Rhwng dy ddwy-fron mewn geiriau llawn;
"Er mwyn fy nghadw'n lăn rhag braw,
"'Sgrifenna fe eilwaith ar dy law.

4 "Sel fi ar dy fraich yn nod dilyth,
"Fy mod yn briod i ti byth;
"Gwisg fi yno 'n arwydd iddynt hwy,
"Na's galli fy anghofi i mwy.

5 "Cryfach nag angeu, trech nä'r bedd,
"Yw nerth dy gariad, a dy hedd;
"Digofaint Duw fel afon gref,
"A ffaelodd a'i ddiffoddi ef.

6 "O tyr'd f' Anwylyd! brysia, bydd
"Yn awr fel iwrch, neu lwdwn hydd;
"Nac oeda, ond tyr'd i maes o law,
"Dros fynydd y pêr-lysiau draw."

## HYMN 213.

1 DYRO olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas râd;
Brynwyd imi ac a Seliwyd,
Seliwyd i mi â dy waed:
Rho i mi gyrchu tu ag atti,
Peidio byth a llwfrhau,
Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt,
Ond yn unig dy fwynhau.

2 Ac ni cheisiaf drysor arall,
Ond tydi, mewn anial fydd;
'Rwyt ti'n ddigon byth dy hunan,
Dim ond ti a lanw mryd:
Nid oes gystudd fyth wna niwaid,
Pan bwi 'n pwyso ar dy rym;
Hebot nid oes rhwyd gan Satan,
Na wna 'n rhyw fodd niwaidd im'.

3 Gyd à thi yr ăf trwy 'r fyddin,
Gyd á thi yr âf trwy 'r tān;
Nid ofnaf ymchwydd yr *Iorddonen*,
Ond it' fyned o fy mlaen:
Ti yw'm hamddiffynfa gadarn,
Ti yw Mrenhin a fy Nhad;
Ti dy hunan oll yn unig,
Yw fy iachawdwriaeth răd.

4 Ffynnon wyt o bob tosturi,
Nid oes gwybod faint dy răs,
Dy haelionï sydd yn cynnal,
Pob peth ar y ddaear lās:
Dal fy ysbryd gwan i fynu,
Edrych ar y bryniau mawr,
Sydd yn pwyso ar fy nghalon,
Ac yn ceisio 'm dodi i lawr.

## HYMN 214.

1 MAE rhyw foroedd o drugaredd,
Arglwydd ynot ti dy hun;
Anherfynol a thrag'wyddol,
Yw dy gariad at y dyn!
Mewn cyfyngder buost ffyddlon,
Yno rhoddaist gymorth llawn;
Mewn cyfyngder mawr'rwyf finnau,
Yn llefain am dy nefol ddawn.

2 Codi 'm llygaid rwyf i fynu,
Edrych beunydd tu a'r nef,
Felly'r wyf yn treulio'r oriau,
Dim ond disgwyl wrtho ef;
Dagrau ac och'neidiau trymion,
Yw fy mywyd yn y byd,
Nid oes diben ar riddfannau,
Heb gael gwel'd dy wyneb pryd.

3 Daccw 'r un sydd a thosturi,
Draw yn griddfan ar y groes,
Dan fawr boen a dygn dywyllwch,
Tywyllwch dudew fel y nos:
Mil o boenau wasgodd arno,

Etto darfu iddo ei dwyn,
Aeth i garchar gan yr angeu
Ran o dridiau er fy mwyn.

4 Blinais ar afonydd *Babel*,
Nid oes yno ond wylo i gyd,
Llais telynau hyfryd *Si-on*,
Sydd yn gyson ddenu mryd:
Tyr'd a ni yn dorf gariadus,
O gaethiwed *Babel* fawr,
Ac nes bo'm ar fynydd *Si-on*,
N'ad i'n orphwys funud awr.

5 Os gwaredi fi o'm cyfyngder,
Ac os sefi ar fy rhan;
Os gostegi rym y storom,
Os cynheli di fi i'r lan;
Ti gai nhafod, ti gai nghalon,
Ti gai feddwyf yn y byd,
Ti gai 'r clod, a thi gai 'r moliant,
Ti gai 'r enw i ti i gyd.

## HYMN 215.

1 TYR'D i fynu o'r anialwch,
Wedi aros yno'n hir
Syppiau grawnwin mawrion addfed,
Sy'n dy aros yn y tir:
Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
Cymmer galon dos ymlaen,
Ffordd ni's colli, mae'n dy arwain,
Gwmmwl niwl, a cholofn dān.

2 Cefnu yr ydwyf ar y *Aiphtiaid*,
Ni welais ond eu gwaetha erioed,
Sathru f' Arglwydd a'i ogoniant,
Fel y glas-wellt tan eu troed:
Tan y cwmmwl mi arhosaf,
Yno hefyd bydd fy nyth,
Nes cael trigo mewn llawenydd,
Yn y wlad a bery byth.

3 Nid fy nef yw ar y ddaear,
Pe goreu man tan gwmpas haul;

Fy nef yw tawel bresennoldeb,
Wyneb Siriol *Adda* 'r ail:
Gwena arnai Arglwydd grasol,
Gwaeddai allan digon yw,
Yna ynghanol cyfyngderau,
Byth yn llawen byddai byw.

4 Gwnes y dewis goreu wnaethpwyd,
Dewis Brenhin nefoedd wen,
Yn Dad, yn Brîod, ac yn gyfaill,
Yn Frawd, yn geidwad ac yn ben:
Cyfoeth mawr didrai difesur,
Sydd ynghadw i mi'n stor,
A bendithion oll pe rhifid,
Megis tywod män y môr.

5 Môr sydd ynot o fendithion,
Heb waelodion iddo'n bod,
Y mae'n llanw ymlaen bob munud,
Nid oes diwedd ar dy glôd;
Dy Enw beunydd sy'n ymdaenu,
Fel Goleuni 'r boreu wawr,
Bydd telynau 'n canu iddo,
Fel rhifedi Gwellt y llawr.

HYMN 216.

1 MAE fy nghalon am ehedeg,
Unwaith etto uwch y lli',
I gael profi'r hen gymdeithas,
Gynt fy rhyngwyf ä thydi:
Mi gyrwydrais anial garw,
Heb un gradd o oleu'r dydd;
Un wreichionen o dy gariad,
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

2 O distawa nghalon ynfyd,
Na chais wrthddrych arall mwy;
Digon, mwy na digon ydyw,
A ddîoddefodd farwol glwy:
Ffarwel ddaear a'i theganau,
Nid y'ch ond y twyll i gyd,
Uwch yr wybren mae'r blaguryn,
Dāl rei arno'm serch a mryd.

3 Jesu hawddgar rwi'n dy ddewis,
Nerth i ddilyn ol dy droed,
Yna caiff fy enaid 'hedeg,
I'r happusrwydd penna erioed;
Ni raid teithio 'r ddaear mwyach,
Ymhlith temtasiynau'r llawr,
Ond disgleirio ymysg myrddiynau,
Gylch yr orsedd fel y wawr.

4 Cân fy enaid mwy bydd lawen,
Minnau dd'of er tonnau maith,
Grym afonydd, llid gelynion,
Cyn bo hir i ben fy nhaith;
Mi gaf orphen dyrys anial,
Myn'd i blith y dyrfa fawr,
A chaf fod heb ddim i'm blino,
Yn eu cwm'ni fel y wawr.

## HYMN 217.

1 Y MAE 'r Oriau yn fy ngalw,
'N ddyfal beunydd i barottoi,
Tân sy'n d'od ar ddinas distryw,
Tu a *Soar* i mi ffoi;
Arglwydd 'mafael ynwi'n fuan,
Onidê ni ddeuaf byth;
Tra bo'r tân yn llosgi *Sodom*,
Yn y bryniau gwna fy nyth.

2 Nerth os câf mi frysiaf mwyach,
I fynu tu a'm gwlad fy hun,
Lle mae fy Duw yn gwisgo'n berffaith,
Mewn gogoniant nattur dyn:
Na enwer i mi gartref bellach,
Fangre arall ond y Ne',
Neb yn Dad, na neb yn Brîod,
Neb yn Arglwydd ond efe.

3 Yno bced fy mwyd a nïod,
Tan ganghennau gwych y pren,
Sydd a'i wreiddyn ar y ddaear,
Ei frigau yn y nefoedd wen:
Dyn a'r Duwdod ynddo 'n trigo,

Ffrwythau arno 'n tyfu'n llawn,
Cysgod tano i'r ffyddloniaid,
Sydd o foreu hyd brydnhawn.

4 Yn dy glwyfau di mae bywyd,
Dwyfol haeddiant yw fy nyth,
Ni ofnai fyd, na chnawd, na phechod,
Nac euogrwydd yno byth:
Gwaed fy Mhriod wedi ei golli,
Archoll fawr y wayw ffon,
Yw fy nghraig a'm dinas noddfa,
Sicr ar y ddaear hon.

5 Gwynfyd llawn fo'n berchen arnat,
Dedwydd yfo o dy hedd,
Gallant chwerthin fyth wrth weled,
Cyngrair Satan, angeu, a'r bedd;
Nid oes ofn rwy' yn crechwennu,
Nid yw angeu ddim ond hûn,
I'r aneirif dorf a brynodd,
Yr hwn a wisgodd nattur dyn.

## HYMN 218.

1 CAPTEN mawr ein Iachawdwriaeth,
Welaf yn y frwydr hon;
Holl elynion ei ddyweddi,
Yn gorfod plygu ger ei fron:
Plant afradlon sy'n d'od adre,
A fu 'mhell a dîr eu gwlâd;
A rhai fu'n fudion sy'n clodfori,
DUW, am Iachawdwriaeth râd.

2 Wele'r JESU, pen rhyfelwr,
Yn d'od i'r lan o *Edom* wlâd;
Ei wisg yn gôch, ai fraich yn rymus,
A'r ddraig yn glwyfus, dan ei draed
Am yr hyfryd fuddugoliaeth,
Mi gana 'm telyn fâch yn awr;
Hyd ne's delo'r hyfryd foreu,
Y câf fi ganu'r delyn fawr.

3 Pa bryd caf wel'd y tir dymunol,
Hyfryd Baradwysaidd wlād?
Lle mae brodyr i mi filiwn,
Lle mae Mhrîod a fy Nhād;
Lle cai orphwys o fy llafur,
A gwellau fy nghlwyfau'n rhād,
A chael gwledd drag'wyddol berffaith,
Ar ben fy nhaith yn nhy fy Nhād.

4 Manna nefol sy arnaf eisiau,
Dwfr rhedegog gloyw byw,
Sydd yn tarddu o tan riniog,
Teml sanctaidd bur fy NUW;
Ond i'm henaid deimlo ei rinwedd,
Yn gwneud yr euog brwnt yn lān,
Ti gai'r clôd ryw fyrdd o oesoedd,
'Nol i'r ddaear fyn'd yn dān.

5 Yno y llenwir fy nymuniad,
Er ei faint ac er ei grî,
Fy holl wagter wneir i fynu,
O gyflawnder UN yn DRI;
Mi gaf yfed o ffynnonau,
Pleser ag sy'n dwfrhau,
A datguddiad pur o fywyd,
Anherfynol i barhau.

6 Y mae meddwl am dy haeddiant,
Cofio am dy gariad gwir,
Fel rhyw ffynnon o lawenydd,
Lawn o ddyfroedd gloyw clir;
Efe yw'm iachawdwriaeth werthfawr,
Fy amddiffynfa a fy NUW,
Efe a'i rās gaiff fod yn sylwedd,
Fy nghaniadau tra f'wyf byw.

## HYMN 219.

1 DYMA geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma un sy'n caru maddeu,
I bechaduriaid mawr eu bai:

Diolch iddo, &c.
Fyth am gofio llwch y llawr.

2 Chwilio am danat addfwyn Arglwydd,
Mae fy enaid yma a thraw,
Teimlo möd i'n berffaith ddedwydd,
Pan y byddoch di ger llaw;
Gwëdd dy wyneb, &c.
Yw fy mywyd yn y byd.

3 Grym fy nwydau sy'n fy mhoeni,
Grym euogrwydd a fy mai,
Methu eilwaith beidio a phechu,
Eilwaith methu 'difarhau;
Yn fy'n nhrallod, &c.
O na welwn foreu wawr.

4 Mae fy nwydau wedi mlino,
Ganwaith yn yr ardal hyn,
Lle b'wyf fi, maent hwythau yno,
Boed ar foroedd, boed ar fryn;
O am deimlo, &c.
Rhydddid Paradwysaidd dîr.

5 Y mae hiraeth yn fy nghalon,
Heddyw am gael gwel'd y dydd,
Y caffo fy nghadwyn eu torri,
A fy enaid fyn'd yn rhydd;
Yn lle rhyfel, &c.
Dim ond swn caniadau hêdd.

6 Ti faddeuaist fyrdd o feiau,
I'r pechadur gwaetha ei ryw,
Arglwydd maddeu etto i minnau,
Ar faddeuant 'rwyf yn byw;
Boed dy haeddiant, &c.
I mi 'n ymffrost ac yn rym.

7 Da yw'r groes, a da yw gwasgfa,
Da yw temtasiynau llym,
Oll i'm tynnu o'r creadur,
O fy haeddiant o fy ngrym;
Minnau'r truan, &c.
Ffo'f dan aden Brenhin Nef,

## HYMN 220.

*Canys ein byrr ysgafn Gystudd, &c.*

1 O'S yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd;
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

2 Pwy fwya' gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle'n cystudd byrr a'n crwys
Drag'wyddol bwys gogoniant.

3 Fe orfu in' deithio, nid o'n bodd,
Trwy filoedd o flinderau;
Gan-waith bu'n tyb na ddoi'n uwch nen
Byth byth i ben ein siwrnai.

4 Ni orphwyswn mwy ne's dringo'n llawn
I'r man y cawn breswylio;
I'r lan i ben y tawel frynn,
Mae miloedd yn disgleirio.

5 Aneirif dorf, a chysson gor,
Angylion o'r disgleiria';
Seraphiaid pur, a'r Saint ynghyd,
Sy'n seinio eu cyd *Hosannah.*

6 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd *Mara*;
Pryd hyn y try pob chwerw nant,
Yn win i blant Jehofa.

## HYMN 221.

*Priodas-Ferch y BRENIN.*

1 CLYW hyn, O ferch! a hefyd gwel,
Ac â chlust isel gwrando;
Mae'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlad,
A thŷ dy Dad yn ango'.

2 'Ry's am dy gael dros foroedd pell,
I wlad sydd well i drigo;

Lle mae dy Brynwr gwridog gwyn,
  Adwylaf yn preswylio.

3 Gad yna'r byd, ynghyd ä'i dda,
  Ei wagedd a'i deganau;
Pechod, a phleser o bob math,
  D' eilunod a'th gariadau.

4 Rho'th serch a'th gariad, rho fe'n rhwydd,
  Ar Arglwydd yr arglwyddi;
Y Tywysog brafa' o bob rhai,
  Ar ddeng mil mae'n rhagori.

5 Yna bydd gan y Brenin gwych,
  Gael edrych ar dy burdeb;
Fe'th gar o ddyfnder calon, gwna,
  Hyd eitha' trag'wyddoldeb.

## HYMN 222.

*Y rhai yn myned trwy Ddyffryn Baca*, &c.

1 PE b'ai yn gorfod ar y rhai'n,
  'R hyd glyn wylofain dramwy;
Gosodir ffynnon iddynt hwy,
  A'r gwlaw a'i lleinw fwy-fwy.

2 Mewn dyrys dir, ac anial daith,
  Yng nghanol maith anialwch;
Cant fanna'r nef, cant ddyfroedd pur,
  Sef ffrydiau o wir ddiddanwch.

3 Pan f'o'r annuwiol fyd o'i fron,
  Mewn dyfnion gyfyngderau;
Fe weryd Duw hwynt-hwythau, gwna,
  O'u trallod, a'u cystuddiau.

4 Pa fwyaf b'o'u cyfyngder hwy,
  Bydd fwy-fwy eu cyssuron;
Eu hedd, melusach nä'r dil-mel,
  A lifa fel yr afon.

5 Er gorfod teithio yng ngwers y dydd,
  Tros greigydd o'r diffeitha';

Ni chaiff bod syched ar un gwr,
Cant ganddo ddw'r eu gwala.

## HYMN 223.

*Rhyfeddu rhad Ras.*

1 WRTH feddwl am dy ryfedd waith,
A dyfnder maith dy gariad;
I eigion môr a'm henaid gwan,
Ne's ffaelwy 'r lan a dringad.

2 Pa'm ceraist fi, d'wed, un o fil,
O ganol hil lygredig?
Wrth natur, f' aeth fy ngwell heb lai,
I blith y rhai damnedig.

3 Glyned fy nghalon bellach byth,
Duw, wrth dy ddilyth eiriau;
Fel teithwy 'n hoyw 'mlaen o hyd,
Yn union 'rhyd dy lwybrau.

4 Fy enaid, yn dy glwyfau boed,
Mi'th garaf, doed a ddelo;
Ne's delwy' mewn i'th nefol glyd,
O gwyn ei fyd f' ai yno!

## HYMN 224.

*PERERINDOD.*

1 MAE 'r manna gwedi ei gael,
Mewn dyrys anial dir;
Ymborthi caf ond myn'd ymla'n,
Ar ffrwythau 'r Ganaan bur;
Mae yno syppiau grawn,
Yn llawn o fewn i'r lle;
O frynd troseddwyr! moes dy law,
A thynn fi draw i dre'.

2 Mi fentra' 'mlaen yn hy,
Gan gyrchu at y nod;
Mi gefais, do, im' ffyddlon Dyst.
Fe erchodd Crist im' dd'od;
Fy mhechod ymaith tynn.
Mae'n eiriol yn y ne';
O Ffrynd troseddwyr! &c.

3 Fy hyfrydwch yw dy waith,
A'm pleser yn y byd;
Mae hiraeth llwyr yn f' enaid llaith,
Am wel'd dy wynebpryd;
Cael hefyd roi fy mhwys,
A gorphwys ar dy dde';
O Ffrynd troseddwyr! &c.

4 Wrth feddwl am y wlad
A rag-bar'tow'd i'r plant,
A chyflawn degwch tŷ fy Nhad;
Mae ar fy nghalon chwant
I landio uwch y nen
Tu draw 'r Iorddonen gre';
O Ffrynd troseddwyr! &c.

5 'Rw'i'n gweled trwy fy Nuw,
Congcweraf fyd a chanawd;
Oddi tan ei aden gwnaf fy nyth,
Ni byddaf byth yn dlawd;
Mae'm hetifeddiaeth wych,
O fewn i entrych ne';
O Ffrynd troseddwyr! moes dy law,
A thynn fi draw i dre'.

## HYMN 225.

*Byw i mi yw CRIST, &c.*

1 GOFIDUS ddyddiau'm pererindod,
Sydd ar ddarfod yn ddilai;
Ffarwel yfed dyfroedd Mara,
I ddinas arall 'rw'i'n nesau;
Teimlo f' enaid 'rw'i'n ynadael,
A'r creaduriaid ar y llawr;
Fy hiraeth beunydd s' am fyn'd adre',
I'r dedwydd drag'wyddoldeb mawr.

2 Wyneb siriol fy Anwylyd
Yw fy mywyd yn y byd;
Ffarwel bellach bob eilunod,
Iesu Mhriod aeth â'm bryd;
Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
Ffrynd mewn môr o ofid yw;

Ni chais f' enaid archolledig,
  Neb yn Feddyg, ond fy Nuw.

## HYMN 226.

*Ymdaith o'r Aipht i Ganaan.*

1 I'R Aiphat daeth Iesu'm gwared
  O dir caethiwed du,
Yspeiliodd yr holl Aiphtiaid,
  Rh'odd dlysau têg i mi;
Des ä llaw uchel allan,
  Dihangais rhag y pla,
Yn y cyfyngder mwyaf,
  Mi brofais Dduw yn dda.

2 Pan oedd hen Pharoa greulon
  Ar fy ol yn gyrru 'n hy,
A minnau mewn cyfyngder,
  Heb obaith o un tu;
Fe chwariodd rhagluniaethau
  Yr Hollalluog Dduw,
Fe drefnodd ffordd i'm cadw,
  Er gwaetha' Pharao 'n fyw.

3 Ce's ddw'r o'r graig i yfed
  I dorri'm syched mawr,
Ce's beunydd fara i fwyta,
  O'r nef y daeth i lawr;
Ce's delyn tu yma i angeu
  (Fy holl elynion ffodd)
I ganu I'r Oen fu farw,
  Mae 'n Briod wrth fy modd.

4 Gostegodd d'rannau, Sinai,
  Ni chlywaf mwy 'mo'u 'stwr,
Cyfiawnder ga's ei dalu
  Gan Iesu, canal Wr;
Gwir heddwch wy'n feddiannu
  Ynghlwyfau'r Oen heb fraw,
Daeth Iesu o'r bedd i fynu
  A'm pardwn yn ei law.

5 Trwy waed a chlwyfau Mrenin
Ce's berffaith wir iachad
Fe gludodd Amaleciaid fyrddiynau
Tan fy nhraed;
Hen Og a chewri Basan
Gwympasant oll gan fraw,
Holl frenhiniaethau Canaan
R'odd Iesu dan fy llaw.

6 'Nol treuliwyf yn y bywyd
Flynyddau rif y gwlith,
Ym mhlith y dorf na fedr
Un tafod rifo byth;
Yn gwel'd yr Oen fu farw
I'm cadw cyn fy mod,
Bydd cân mor felus i mi
A'r funud gynta' 'rio'd.

## HYMN 227.

1 MI fedyliais yn y boreu,
Buaswn amser maith cyn hyn,
Wedi maeddu fy mhechodau,
Ac yn canu ar *Si-on* fryn;
Swn y rhyfel, &c.
Ydyw'r man 'rwy etto 'n byw.

2 Llawn o euogrwydd llaw o ddychryn.
Llawn o boen yw'm henaid gwan,
Anghrediniaeth cryf yn haeru,
Byth na ddôf oddi yma i'r lan;
Balm yn *Giliead*, &c.
'N unig all wellau fy nghlwy.

3 Mae dyfnderoedd anghrediniaeth,
Wedi'm rhoddi'n llesg a gwan,
Pechod yn fy ngwneud i ofni,
Ofni yn fy rhwystro i'r lan;
Gwna i mi gredu, &c.
Dyna'm henaid wrth ei fodd.

4 Yr wy'n ofni yn fy nghalon,
Gan mor fychan yw fy ngrym,

Rhag ryw awr i'm temtasiynau,
Creulon i fy ngwneud yn ddim;
Nid oes gryfder, &c.
Trwy fy ysbryd mewn un man.

5 Sefwch bellach fy ngelynion,
Sy'n fy nghuro bron erioed,
Fy nal a wnaethoch yn ymddifad,
Cawsoch f' ysbryd tan eich troed;
'Chydig Oriau, &c.
Dôf o'ch rhwydau oll yn lân.

6 Disgwyl 'rwyf ar hyd yr hirnos,
Hiraethu am y boreu ddydd,
Disgwyl clywed pyrth yn agor,
A chadwynau'n myn'd yn rhydd;
Oh! na wawria, &c.
Boreu hyfryd *Jubili*.

## HYMN 228.

1 DAL fy llygaid, dal heb wyro,
Dal ef ar dy addewid wir,
Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog,
Allan o dy gyfraith bur;
Boed d'orch'mynion, &c.
I mi 'n gysur ac yn hedd.

2 'Cheisiaf Arglwydd ddim ond hynny,
Treulio nyddiau hyd y bedd,
I dy garu a'th ryfeddu,
Ac ymborthi ar dy hedd;
Dyna ddigon, &c.
'Cheisiai 'nabod dim ond hyn.

3 Os agori i'm dy fynwes,
I gael gwel'd y cariad llawn,
Lifodd allan fel y moroedd,
Ar *Galfaria* un prydnhawn;
Ti gai'r cwbl, &c.
Roddaist i mi yn fy rhan.

4 A all y llesgaf nesu attat,
A chael etto dy fwynhau,

Heb un gorchudd ar dy wyneb,
Nac un gwg i'm llwfrhau?
Dyma'r nefoedd, &c.
Wyf am gael tu yma i'r bedd.

5 Mi ddisgwyliaf doed a ddelo,
Deued boreu deued nôs,
Deued corwynt a thymhestloedd,
Nes cael profi gwaed y groes;
Gallu 'r nefoedd, &c.
Tyr'd i wared dyma 'r awr.

HYMN 229.

1 O NA ba'i cystuddiau f' Arglwydd,
Yn fy nghalon i gael lle,
Pob rhyw loes, a phob rhyw archoll,
Pob rhyw fflangell gafodd e';
'Fel ba'i mhechodd, &c.
Gael ei glwyfo a'i wanhau.

2 O na byddai oriau mywyd,
Yn ymboathi ar oriau'th boen,
Fel y gallwyf fi gyd redeg,
A chystuddiau'r addfwyn Oen;
Fe gai mhechod, &c.
Felly'n fuan golli ei rym.

3 Arnat JESU boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghān,
Dyged swn dy ddïoddefiadau,
Fy serchiadau oll yn lân;
Mae dy gariad, &c.
Uwch y clywodd neb erioed.

4 Golchi du gydwybod aflan,
Yn wynach nag yw'r eira mān,
Gwneud y brwnt gan waith ddifwynodd,
Yn y dommen, fel y gwlān;
Pwy all fesur, &c.
Lled a dyfnder maith dy rās.

5 Pechod yma, cariad accw,
Unwaith fu'n y clorian fawr,
Ac er trymed oedd y pechod,
Cariad bwysodd hyd y llawr;
Y gair Gorphenwyd, &c.
Wnaeth i'r clorian pwysfawr droi.

6 JESU nid oes terfyn arnat,
Mae cyflawder mawr dy rās,
Yn fwy helaeth yn fwy dwfn,
Ganwaith nac yw mhechod câs;
Fyth yn anwyl, &c.
Meibion dynion mwy a'th gâr.

HYMN 230.

1 DEUWCH hïl syrthiedig *Adda*,
Daeth y *Jubil* fawr o hëdd,
Galwad llawn sy i bawb o'r enw,
I fwynhau trag'wyddol wlëdd;
Bwrdd yn llawn, yma a gawn,
O foreu-ddydd hyd brydnhawn.

2 Ceisiwch wisgoedd y brîodas,
Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw
Nid oes enw teilwng arnynt,
Ond cyfiawnder pur fy NUW;
Dewch yn awr, dyrfa fawr,
Ac eisteddwch yma i lawr.

3 Mae'r Efengyl wen yn curo,
Ac yn codi baner gräs,
Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,
Ar y mynydd, yn y maes;
Y mae llêf, bur y Nëf,
Yn cyhoeddi ei haeddiant ëf.

4 Da i mi fod yr addewid,
Wedi ei rhoddi gan fy NUW,
A bod gair o enau'r Brenhin,
Uwch gelynion o bob rhyw;
Ei 'ddewid ef, gadarn grêf,
A arwain eiddil gwan i'r Nëf.

5 Minnau'r gwanna o'r pererinion,
Yn y diwedd rhôf fy nhroed,
Ar y graig sydd yn y moroedd,
Y graig gadarna a fu erioed;
Ceidw hon, ar bob ton,
Ofnau drwg o tan fy mron.

## HYMN 231.

1 ARGLWYDD anfon dy leferydd,
Heddyw yn ei rwysg a'i rym,
Dangos fod dy lais yn gryfach,
Nag gall dyn wrthsefyll ddim;
Cerdd ymlaen, nefol dân,
Cymmer yma feddiant glân.

2 Tyred JESU i'r ardaloedd,
Lle teyrnasa 'r dywyll nôs,
N'ad fod rhan o'r byd heb wybod,
Am dy chwerw angeu loes;
Pa'm bydd poen, addfwyn Oen,
Am dano yn eitha'r byd heb sôn.

3 Daccw gariad fel yr afon,
Daccw heddwch fel y llîf,
Wedi cannu fel yr eira,
Frodyr anwyl fwy na rhîf;
Gydä hwy, caiff fod mwy,
F' enaid heb na briw na chlwy.

4 Daccw 'r ffynnon wedi ei hagor,
A ddisgwyliodd llawer oes,
Yn awr yn llifo fel y grisial,
O'i ystlys sanctaidd ar y groes;
Dwfr a gwaed, rydd iachäd,
I'r pechadur mwya gaed.

5 Minnau bellach orfoleddaf,
Mae fy mywyd gwerthfawr iawn,
Wedi ei roddi ynghadw i gadw,
Mewn cyfryngwr perffaith llawn;
Digon yw, mae fe'n DDUW,
Ceidw f' enaid bâch i'n fyw,

6 O gwna imi brofi 'r syppiau,
Hyfryd ffrwythau 'r *Ganaan* wlad,
Blās maddeuant pur a heddwch,
Gwleddoedd hyfryd ty fy Nhād:
Dyma hwy, y perlau mwy,
A gloddiwyd yn ei farwol glwy.

HYMN 232.

1 WEL dyma'r cyfaill goreu ga'd
Mae'n gan-mil gwell na mam na thād,
Ymhob caledi ffyddlon yw;
Mae'n medru maddeu a chuddio bai,
Ac o'i wîr fôdd yn trugarhau,
Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw.

2 Y sawl a'th gaffo gwyn fyd hwy,
Ni allant byth ddymuno mwy,
Ti lenwi eu hesiau oll yn llon;
Mae môr a thîr, a dā a dŷn,
Oll yn dy heddwch di dy hun,
A mwy nac a fêdd y ddaear hon.

3 Anghenus wyf bechadur gwan,
Am hyn'rwi'n tynnu tu a'r lan,
Yn gweled digon gan fy Nuw;
Trysorau pe cawn ei mwynhau,
A laddai ngofid laddai ngwae,
Ac a ngwnai'n llawen tra fawn byw.

4 Mae yn ei glwyfau drysor drûd,
I faddeu beiau penna'r bŷd,
O flaen yr orsedd bura sydd;
Ni all euogrwydd yno ddim,
Fe gŷll y ddeddf ei damniol rŷm,
Troseddwr euog'aiff yn rhŷdd:

5 'Does un aflendid unrhyw fai,
Nad yw ei haeddiant yn glanhau,
Pechodau dua glywŷd sôn,
A foddir yn yr afon fawr,
Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr,
O ystlŷs addfwyn Nefol Oen.

6 Ni welodd llygaid dŷn erioed,
Ni chlywodd clust o dan y rhôd,
Am neb cyffelyb iddo ef;
Rhosyn Saron, Nefol yw,
Pwy ddatgan byth rinweddau'm DUW,
Efe yw bywyd Nêf y Nêf.

7 Wel f' enaid cerdd y ffordd yn hŷ,
Yn union tu a Si-on frŷ,
A chadw'th lygaid at y nöd;
Calfaria fryn lle gweli'r groes,
A'i haberth arni dan ei loes,
Rhyfeddod mwya'r Nêf erioed.

8 Fe welir Si-on fel y wawr,
Er tlotted yw ei gwëdd yn awr,
Yn d'od o'r cystudd mawr i'r lan;
Heb glâf na chlwŷfus yn eu plith,
Yn y cyfiawnder dwyfol bŷth,
Saif yn y diwedd yn ei rhan.

HYMN 233.

1 O F' enaid dös ymlaen
'Dyw'r bryniau sydd ger llaw,
Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
Na hwy a deithiaist draw;
Dy angrediniaeth caeth,
A'th ofnau maith y sŷ,
Yn peri it' feddwl rhwystrau ddaw,
Yn fwy na'r rhwystrau fu.

2 Mi wela fŷrdd dan sël,
Fu'n ofni fel fy hun;
'N awr wedi dringo 'r creigiau serth,
I gyd yn nerth yr un;
Yn canu 'r ochr draw,
Heb arnynt fraw na phoen,
Ganiadau hyfryd Calfari,
Dioddefaint addfwyn Oen.

3 'Does fodd im' fyn'd ymlaen,
Heibio bob gelyn llym;

Oni fyddi di yn niwl a thân,
Yn glëdd a tharian im';
A rhwygo 'r môr yn ddau,
Palmantu 'r tywod män,
Ac yna ei gaead ar fy ôl,
I rwystro Pharao ymlaen.

4 Mi ddianga oddi ar yr Aipht,
Er llesged yw fy llun,
A thi gai 'r clôd a'r mawl dilyth,
Yn gryno byth dy hun:
Ynghyd a'r dyrfa faith,
O'r moroedd ddaeth i'r lan,
Cawn seinio Anthem bur ynghyd,
Yn hyfryd yn y man.

HYMN 234.

1 BLANT ffyddlon Si-on dewch,
A llawenhewch i gyd,
Ymlaen a chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llîd;
O hyfryd ddedwydd awr,
Messia mawr a gaed;
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth,
Yr iachawdwriaeth râd.

2 Drachefn o llawenhewch,
Chwi etholedig ri',
Mae'r oruchafiaeth wedi d'od,
Trwy GRIST ein Prïod ni:
Er cyfeiliorni 'n hîr,
Cawn dd'od i dir ein gwläd;
Henffych i'r dydd, &c.

3 Er ini golli'r hëdd,
Ym Mharadwysaidd wiw,
A bod yn fyr o gadw'r fraint,
Myn'd tan ddigofaint DUW:
Ni gawsom had y wraig,
Yn gadarn graig i'n traed;
Henffych i'r dydd, &c.

4 Addewid gafwyd do,
'Nol ini syrthîo ymhell,
Arfaethol räs, hawl ini roed,
Ga'wd ar gyfammod gwell:
Mae'r sylfaen yn ddigrŷn,
Ni chollir un o'r hâd;
Henffych i'r dydd, &c.

5 Er gwaetha satan sydd,
Yn temtio ddydd a nös;
Mae genym hawl i'r trysor da,
Sy'n para o oes i oes:
Ffordd newydd gafwyd do,
I deithio at y Tad;
Henffych i'r dydd, &c.

HYMN 235.

1 O AGOR fy llygaid i weled,
Dirgelwch dy arfaeth a'th air,
Mae'n well i mi gyfraith dy enau,
Na miloedd o arian ac aur;
Y ddaear ā'n dān a'i thrysorau,
Ond geiriau fy NUW fydd yr un,
Y bywyd trag'wyddol yw 'nabod,
Fy Mhrynwr yn DDUW ac yn Ddyn.

2 Rhyfeddod a beru'n ddiddarfod,
Yw'r ffordd a gymmerodd efe,
I gadw pechadur colledig,
Trwy farw ei hun yn ei le!
Fe safodd fy Mrenhin ei hunan,
Gorchfygodd awdurdod y ddraig,
Ein Samson galluog ni ydyw;
O caned preswylwyr y graig.

3 Daeth blwyddyn y caethion i ganu,
Doed meibion y gaethglud ynghyd,
Ni seiniwn trwy'r Nefoedd a'r ddaear,
Ogoniant i Brynwr y byd:
Mae Brenhin y Nēf yn y fyddin,
Gwae satan a'i filwyr yn awr,
Trugaredd a hēdd sy'n teyrnasu,
Ogoniant trwy'r Nefoedd a'r llawr.

4 Y llew o lwyth Juda, gorchfygodd,
Pa elyn all sefyll o'i flaen?
Mae Si-on yn teithio tu ag adre,
Mewn cerbyd dychrynllyd o dân:
Bydd miloedd o saint ac Angylion,
Yn dorf ogoneddus ynghyd,
Yn canu rhyw Anthem drag'wyddol,
O ogoniant i Brynwr y byd.

## HYMN 236.

1 MAE lluoedd maith ymlaen,
'N awr o'u carcharau 'n rhydd,
A gorfoleddu maen',
Oll wedi cael y dydd:
I'r lan i'r lan diangasant hwy,
Yn ôl eu traed y sengwn mwy.

2 Gadawn y byd yn ôl,
Y byd y cawsom wae,
Y byd ag sydd bob dydd,
Yn ceifio 'n llwfrhau:
Ni welwn wlâd rhwng sêr y Nêf,
Sŷ fil o weithiau 'n well nac ef.

3 Cawn lanio i mewn i fysg,
Y rhai y clywsom sôn;
Cannasant bawb ei wisg,
Yn nwyfol waed yr Oen;
A gwledda 'n llon heb ddiwedd mwy,
Yn bur yn eu cwmpeini hwy.

4 Cawn wel'd yr addfwyn Oen,
Fu farw ar y bryn,
Yn medi o ffrwyth ei boen,
Yn hyfryd y pryd hyn:
Myrddiynau heb rif yn canu ynghyd,
I'r hwn fu farw dros y byd.

5 Fe gân 'tifeddion grâs,
Ar foreu glâs a ddaw;
Wrth weled boddi 'r Aipht,
A hwythau 'r ochr draw:

Fy enaid 'hëd i ben y bryn,
I wel'd y concwest rhyfedd hyn.

6 Caf wel'd Iorddonen faith,
Yn dal ei dyfroedd du,
I'm dwyn i ben fy nhaith,
Yr etifeddiaeth frŷ:
Pa'm r'ofnai lu ? mi äf ymlaen,
I'r Ganaan wiw trwy ddw'r a thân.

## HYMN 237.

*Diogelwch yng NGHRIST.*

1 ARGLWYDD grasol dyro gymmorth,
I gyhoeddi etto i ma's,
Ddyfnder calon dyn truenus,
Ac anfeidrol olud gras.
Fel b'o dyfnder, fel b'o dyfnder,
Fyth am ddyfnder yn cael son.

2 O's trwy filoedd o gystuddiau,
Rhaid im' etto fentro 'mlaen;
Yn dy allu af trwy'r dyfroedd,
Yn dy allu af trwy'r tân;
Noddfa i mi, &c.
Bydd dy hunan, Arglwydd mawr.

3 Tan dy gysgod, Craig yr oesoedd,
Yn gyssurus gallaf fyw;
Fy unig gyssur tan y nefoedd
Yw dy fod i mi yn Dduw,
Digon i mi, &c.
Yw dy wyneb gwridog gwyn.

4 Dal fy yspryd yn y rhyfel,
Dal fy llygaid arnat ti;
Tan dy aden gallaf ganu,
A gorchfygu'r llewaidd lu;
Mi anturia, &c.
Etto i'r frwydyr yn dy law.

5 Noddfa i mi yn y 'storom
Buost Arglwydd, hyd yn hyn;

Amddiffynfa yn y frwydyr,
  Maeddaist droswyf ar y bryn;
Tan dy gysgod, &c.
  Ffoaf rhag y llid a fydd.

HYMN 238.

*Rhedwch fel y caffoch Afael.*

1 I'R ddaear a'i gwagedd,
  Ni ganwyn yn iach,
Awn dros yr Iorddonen,
  Oll 'mhen gronyn bach;
Ni redwn yr yrfa,
  Trwy ddy froedd a thân,
Mae'r goron a'r palmwydd,
  A'n Priod o'n bla'n.

2 Farwel dai a thiroedd,
  Ac arian ac aur,
Trysorau sy'n darfod,
  Ni gawsom Fâb Mair;
Y mae pob awdurdod,
  Trwy'r nefoedd a'r llawr,
Yn llaw ein Hanwylyd,
  Ardderchog yn awr.

3 O ddydd i ddydd yma,
  Mae drain yn ein nyth,
I'n gyrru i'r deyrnas,
  Bar'tow'd i ni byth;
Melusach croes Iesu,
  Nä choron y byd,
Ei wyneb yw'r nefoedd,
  Bereiddlon i gyd.

4 Mae miloedd yn d' rogan,
  Yr ä Seion yn ddim,
Mae hithau'n gorchfygu,
  Yn 'chwaneg ei grym;
Mae'r mor a'r Iorddonen,
  A'r haul yn ddi-bóen
Yn chwarae o ochor,
  Priodas-ferch yr Oen.

5 Ffarwel i anrhydedd,
  I esmwythder y byd,
Pleserau sy'n darfod,
  Ffarwel i chwi gyd;
Gwenhieithwyr a thwyllwyr,
  Trigolion y llwch,
Ni gawsom y Cyfaill,
  A'ch maeddodd o'r trwch.

## HYMN 239.

*Digonolrwyd Aberth Crist.*

1 FY enaid a lewygai,
  Ni allwn godi mhen,
Oni b'ai'r un a dalodd
  Fy nyled ar y pren;
'Does dim a gliria 'ogrwydd
  Pechod dynol-ryw,
Ond gwaed y cyfiawn hwnnw
  Fu farw i ni gael byw.

2 Ei 'nabod ef yw'r bywyd,
  Trag'wyddol fywyd yw,
Gwir iechyd a happusrwydd,
  Gogoniant dynol-ryw;
Yng ngwedd ei wyneb siriol
  Tangnefedd i mi'n awr,
Na allaf ddatgan allan
  I drag'wyddoldeb mawr.

3 Y Cyfaill goreu welodd
  Fy enaid yw e'n wir,
Fe'm prynodd ar Galfaria
  Tan eitha poen a chur;
Fe fethodd dae'r ac uffern,
  A'r nefoedd faith ei hun,
Ddifetha dim o'r cariad
  Yng nghalon Duw at ddyn.

4 Y dafnau gwaed a chwysodd
  Ef drosom ar y llawr,
Sy'n cael eu dadleu'n uchel
  O flaen y faingc yn awr;

O'r groth i ben Calfaria
  Ei ddioddefaint ef
Sy'n cael ei bledio droswyf
  Yng nghanol nef y nef.

5 Er gwaetha'r maen a'r gwilwyr
  Cyfododd Iesu'n fyw,
Daeth yn ei law alluog
  A phardwn dynol-ryw;
Gwnaeth etifeddion uffern;
  Yn etifeddion nef,
Fy enaid byth na thawed
  A chanu iddo ef.

6 Fe'i gwelir ar y cwmmwl
  Yn dyfod cyn b'o hir,
A'i ddedwydd waredigion,
  Ffrwyth ei ddioddefaint pur;
Bydd Gogledd, De' a Dwyrain,
  Gorllewin faith yn un,
Oll yn eu gynau gwynion
  Yn moli Mab y dyn.

## HYMN 240.

*Crist yn Ffrynd i ni pan oedd pob peth yn pallu.*

1 FY Nuw, a'm Tad trugarog,
  Sydd deilwng o bob clod,
Rhyfeddol fu dy ofal,
  Am danaf fi erioed;
Mewn myrdd o gyfyngderau,
  Ti fuost im' yn Ffrynd,
Pan oedd pob peth yn pallu,
  O'm golwg wedi myn'd.

2 'Rwyt ti yn llawn tosturi,
  At bechaduriaid gwael,
Tosturiaist wrth Manasse,
  Tosturiaist ti wrth Saul;
Magdalen falch gythreulig,
  Y bechadures fawr,
Tosturia wrthyf finnau,
  Y gwaetha' o lwch y llawr.

3 'Rwy'n cofio Bartimeus,
Yn llefain ar dy ol,
Yn gwaeddu am ei olwg,
Ynnillodd hwnnw'r gol,
Rhoest iddo ei ddymuniad
A hefyd lawer mwy,
O maddeu! maddeu i minnau,
A chuddia fi 'n dy glwy'.

4 Cyfaddef 'r ydwyf Arglwydd,
Y gosp yn llai nā'm bai,
A'th fod di mewn cyfynder
Yn arfer trugarhau;
Trugaredd rho im' etto,
Bechadur gwael ei lun,
A chymmer y gogoniant
I gyd i ti dy hun.

5 O gwel fi yn fy nghystudd!
Dy wael anufudd was,
Yn griddfan am drugaredd,
Yn brefu am dy ras,
A hollol waredigaeth
O'm holl drueni trist,
A chalon rydd i garu
A chanmol Iesu Grist.

6 Mae hiraeth yn fy nghalon
Am wel'd y saint i gyd,
'Rwy'n profi mwy o hiraeth
Am wel'd fy Mhrynwr drud;
Rho wel'd dy wyneb gwridog
A phrofi'th nefol hedd,
Cyn i mi orwedd obry
Yn nhywyll byrth y bedd.

7 Gwasgara'r tew gymmylau
Oddi yma i dŷ fy Nhad,
Datguddia i mi beunydd
Y iechydwriaeth rad;
O dywed wrth fy enaid,
Mai ti byth yw fy rhan,
Y caf fynediad helaeth,
I'r bywyd yn y man.

3 O Dduw! 'rwyf am gael gwybod
A alwyd fi erio'd,
O's wyf yn un o'th ddefaid,
Datguddia im' dy nod;
O dywed air dy hunan
Wrth f' enaid clwyfus trist,
Dy fod yn maddeu'm beiau
Yng nghlwyfau Iesu Grist.

HYMN 242.

*Ymffrost y PERERINION.*

1 WEL, dyma'r Pererinion dewr,
Achubwyd yn y 'stormydd mawr;
Dan *Sinai* fe'u cynhaliwyd hwy,
Pwy elyn a'u gorchfyga mwy?

2 Dyma'r rhai garodd Duw cyn byd,
Ac yn eu caru mae o hyd;
Yn rhad maddeuodd beiau'r rhai'n,
A'i gwisgodd oll â lliain main.

3 A gwaed yr Oen eu prynu wna'w'd,
Eu henwau ymhlith y saint a ga'w'd;
Hwy a gyfrifwyd yn ddilai,
O rif y bendigedig rai.

4 Iesu yw eu Ffrynd, a'u Prynwr drud,
Eu Twr a'u Trysor yn y byd;
Eu harch fe'u caria maes o law,
Yn ddiogel trwy farwolaeth draw.

5 Pwy fatter yw i rhai'n i gyd,
Gael eu dirmygu gan y byd;
Eu henwau da, a'u parch, a'u bri,
Sy' 'nghadw yn y nefoedd fry.

HYMN 243.

*Syre, ni a ewyllysiem weled yr IESU*

1 IESU, difyrrwch fy enaid drud.
Yw edrych ar dy wedd,
Ac mae llyth'rennau dy enw pur,
Yn fywyd ac yn hedd.

2 O cae fy llygaid rhag im' wel'd
Pleserau gwag y byd,
Ac i mi wyro byth oddiar
Dy lwybrau gwerthfawr drud.

3 'Does gennyf ond dy allu mawr,
I'm nerthu i fyn'd ymla'n ;
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy nghongcwest a fy nghân.

4 Melusach nag yw y diliau mel,
Yw munud o'th fwynhau,
Ac nid oes gynnyf bleser sydd,
Ond hynny yn parhau.

HYMN 244.

*Ymofyn am yr IESU.*

1 RWY 'n edrych dros y bryniau pell,
Am danat bob yr awr ;
Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.

2 Trodd fy nghariadau oll i gyd,
'Nawr yn anffyddlon im' ;
Ond yr wyf finnau'n hyfryd glaf
O gariad mwy ei rym.

3 Cariad na 'nabu plant y llawr,
'Mo'i rinwedd nag o'i ras,
Ac sydd yn sugno'm serch a'm bryd,
O'r creadur oll i ma's.

HYMN 245.

*HAUL CYFIAWNDER yn nesau.*

1 AETH heibio'r gauaf chwerw du,
Y 'storom oer a'r gwlaw ;
Ac fe nesaodd, ac fe nesaodd,
Ac fe nesaodd hyfryd haul
Cyfiawnder pur gerllaw.

2 Fe wnaeth ei babell yn ein plith,
A'i bresennoldeb sy'

R

Yn troi pob cystudd chwerw loes
Yn hyfryd hedd i ni.

3 Fe welwy'd blodau ar y dda'r,
Grasusau pur y nef;
Oll yn aroglu'n beraidd iawn,
Oddi wrth ei wisgoedd ef.

4 Mae durtur yr efengyl fwyn,
Yn llanw bro a bryn;
O dewch a dringwn fynu fry,
'Nawr gyd â'r awel hyn.

## HYMN 246.

*Disgwyliad am y Flwyddyn gymmeradwy.*

1 TAN fy maich yr wyf yn griddfan,
Disgwyl amser i ryddhau;
Disgwyl fy mhechodau i dreulio,
Etto mechod sy'n parhau;
Disgwyl caf gasineb hollol,
Carief fy addunedau i'r dydd;
Etto finnau yn y gadwyn,
Ac yn methu myn'd yn rhydd.

2 O na chlywn yr udgorn arian,
Ryw bryd yn rhoi bloedd i ma's,
Ac yn cyhoeddi i f' enaid llwythog,
Heddwch a maddeuol ras:
O na ddeuai nerth i wared,
Fel llifeiriant mawr ei rym!
Fel na allai'm nwydau pennaf,
Bellach i'w wrth-sefyll ddim.

3 Mi ro'wn fydoedd maith, pe meddwn,
Am gael gweled torri lawr
Bethau ag sy'n myn'd â meddwl
Fil o weithiau yn yr awr:
Trais a gorchest sydd ar fy yspryd,
Cryf yw'm gelyn, minnau'n wan,
Addfwyn Oen, yn fuan brysia,
Help fi o'r pydew hyn i'r lan.

## HYMN 247.

*Addewidion o'r NEFOEDD.*

1 MAE addewidion nef o'm hochor,
  Fod fy Iesu yn Ffrynd i'r gwan;
O'r pydewau dwg ei hunan
  Garcharorion llesg i'r lan:
Torr y bolltau pres yn gandryll,
  Tynn y barrau heiyrn yn ol;
Gad fy enaid o'r dyfnderoedd
  'Hedeg yna i dy gol.

2 Nid wy'n haeddu dim trugaredd,
  Tro'is fy nghefen ar y nef;
A chofleidiais fy eilunod,
  'Nol meddiannu ei gariad ef:
Gwerthais drysor mwy nä'r ddaear
  Am bleserau munud awr,
Ac 'rwyf bron a thorri nghalon,
  Am ei heddwch ef yn awr.

3 Etto un-waith mi ddyrchafaf,
  Un ochenaid tu ä'r nef;
Ac a wylaf ddagrau 'n hidil,
  Am ei bresennoldeb ef:
Pwy a wyr na wrendy clustiau
  Yr hwn a greodd ddaear a nen,
Ac y daw fy nymuniadau
  Trist hiraethlon oll i ben.

## HYMN 248.

*Credu yng NGHRIST.*

1 MAE holl gariadau'r ddaear hon,
  Fy ngado i yn gyttun;
Ond mae fy Anwylyd innau'n well,
  Fyrddiynau maith nag un.

2 Ac er fod mil a lawenha,
  Gael sangi ar fy mhen;
Mae fy ngriddfannau innau'n rhe[illegible],
  Yn dringo tu ä'r nen.

3 Er ofni beiau fy neheulaw,
Ryw awr i dorri ma's;
Etto 'rwy'n credu geiriau'r nef,
Mae trech yw dwyfol ras.

4 Mi gredaf er mor hwyred yw,
Caf gongcwest ar fy mai;
Ac am fod Iesu yn gadarn un,
Mi beidiaf llwfrhau.

5 Tan gredu mi anturia 'mlaen,
Crediniaeth yw fy ngrym;
A than awelon cadarn gred,
N' all fy mhechod ddim.

## HYMN 249.

*Hiraeth am fod tan arweiniad yr YSPRYD*

1 PERERIN wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw;
Ac yr wy'n disgwyl bob yr awr,
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

2 Ac mi dybygaf clywaf swn
Nefolaidd rai o'm blaen,
Wedi congcwero a myn'd trwy
Dymhestloedd dwr a thân.

3 Tyr'd Yspryd sanctaidd ledia'r ffordd,
Bydd i mi'n niwl a thân;
Ni cherddai'n gywir hanner cam,
Ne's elost o fy mlaen.

4 Mi wyra weithiau ar y dde',
Ac ar yr asswy law,
Am hynny arwain (gam a cham)
Fi i'r baradwys draw.

5 Mae hiraeth arnaf am y wlad
Lle mae'r torfeydd di-ri';
Yn canu'r anthem ddyddiau 'u hoes,
Am angeu Calfari.

## HYMN 250.

*Ac y mae'r Yspryd a'r Briodas-ferch yn dywed, Tyred.*

1 TYR'D Arglwydd, â'th addewid rad,
Pur eiriau'r nef i ben;
Dyddiau fy rhydd-did ro'w'd tan sel,
Yn llyfr mawr y nen.

2 Mae dyddiau griddfan i mi'n hir,
Caethiwed Babel fawr;
O na chawn deimlo'r Jubil fwyn,
Yn agor dorau'r wawr!

3 Ac O! na throi y barrau pres,
A'r bolltydd heiyrn yn ol;
Fel cawn ni gadw cariad pur,
A heddwch yn fy nghol.

4 Mi awn tu â Seion ar y wawr,
Lle bues gynt yn byw;
Ac ni chymmerwn gwmp'ni im'
Yn unig ond fy Nuw.

5 Tybygwn pe b'ai'm troed yn rhydd,
Maes o'r caethiwed hyn,
Ni wna'wn ond canu fyth tra f' wyf,
Am ras Calfaria fryn.

## HYMN 251.

*O! deuwch i'r Dyfroedd.*

1 EWN bechaduriaid at y dwfr
A darddodd ar y bryn;
Ac ni gawn drachdio fyth heb drai,
O'r afon loyw hyn.

2 Mae yma drugareddau rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn 'stor,
Sydd fythol yn parhau.

3 'Does yma eisiau fyth yn bod;
Trysorau gras yn llawn,
Er maint yr yfed a'r glanhau
O foreu hyd brydnhawn.

HYMN 252.

*CRIST yw fy MHRYNWR.*

1 FE flinodd f' enaid bach ynghri,
A dwndwr oer y byd;
Ond mae difyrrwch lawer mwy,
Gaiff hollol lanw mryd.

2 Nid yw trysorau'r India bell,
A chyfoeth maith Peru,
Ond rhyw ddisylwedd sorod gwael,
I'w pwyso ä fy Nuw.

3 Mae yn ei heddwch bethau mwy
Na fedd y byd yn un;
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.

HYMN 253.

*Canys BACHGEN a aned i ni, &c.*

1 BACHGEN a aned, Mab ro'w'd in',
Ei enw sy'n Rhyfeddol;
Ar ei ysgwydd ef llywodraeth ga'd,
Duw cadarn, Tad trag'wyddol.

2 Chwilio ei Berson hardd a'i waith
Sy'n orchwyl maith anfeidrol;
Gelwir yma ac yn y nef,
Ei enw ef Rhyfeddol.

3 Dehonglwch hyn ddysgedig rai,
Rhyfeddu mae'r cenhedloedd,
P'odd gall'sai Mair ei gynnwys ef,
Na chynnwys nef y nefoedd.

4 Duw mawr, Creawdwr dw'r a thir,
I gael ei wir genhedlu,

Gan Forwyn wnaethpwyd ganddo ei hun,
Fy enaid sy'n rhyfeddu.

5 Mae holl ddoethineb Duw ynghyd,
Yn cwrddid yn ei Berson ;
Nid rhyfedd bod myrddiynau'r nef
Yn ei foli ef yn gysson.

HYMN 254.

1 NI phery ddim yn hir,
Y ddu dymhestlog nös,
Ni appwyntiwyd oesoedd maith,
I neb i gario'r groes ;
Mae'r hyfryd wawr, sy'n g'leuo draw,
Yn d'weyd fod boreu brâf ger llaw.

2 Mi wela'r cwmmwl du,
Yn awr ymron a ffoi,
A gwynt y gogledd sŷ,
Ychydig bach yn troi ;
'Nol temmestl fawr, daw yn y man,
Ryw hyfryd hîn ar f' enaid gwan.

3 Mi fydda'n llawen iawn,
A ngofid tan fy nhraed,
O foreu hyd brydnhawn,
Tan aden gwïr fwynhād ;
'Does arall ddim, ond nerth dy râd,
A'm tyn i'n lân i dŷ fy Nhād.

4. O na allwn roddi 'mhwys,
Ar dy ardderchog law,
A gado i gystudd dd'od,
Oddi yma ac o draw ;
A byw tan nawdd, y dwyfol waed,
Yngolwg hyfryd dŷ fy Nhâd.

5 Noddfa pechadur trist,
Tan bob drylliedig friw,
A phwys euogrwydd llym,
Yn unig yw fy NUW :
'Does enw i'w gael, o dan y Nëf,
Yn unig ond ei Enw ef.

6 O ffynnon fawr o hêdd,
O anchwiliadwy fôr,
Sy'n cynnwys ynddo ei hun,
Ryw an herfynol stôr:
Bydd miloedd maith, yn canu'n llon,
Drag'wyddol Anthem ger ei fron.

7 Ymgrymed pawb i lawr,
I Enw'r addfwyn Oen,
Yr Enw mwya' mawr,
Erioed a glwyd sôn;
Y clôd y mawl, y parch a'r bri,
Fo byth i Enw'n Harglwydd ni.

HYMN 255.

1 IACHAWDWR dynolryw,
Tydi yn unig yw,
Fy Mugail da:
Mae angeu'r groes yn llawn,
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melŷs iawn,
Rhai'n a'm iachâ.

2 Gwna f' enaid bāch ynglŷn,
DUW wrthyt ti dy hun,
I'th wîr fwynhau;
Ac yna gallaf fyw,
Tan gystudd o bob rhyw,
Mewn llawn dawelwch gwiw,
Byth i barhau.

3 Arhosaf ddydd a nôs,
Byth bellach tan dy groes,
I'th wir fwynhau:
Mi wn mai'r taliad hyn,
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm cannai oll yn wŷn,
Oddiwrth fy mai.

4 O ffynnon werthfawr räd,
Yr afon fawr o waed,
Ar Galfari;

Dylifa i lawr i'r byd,
A chudd fy meiau i gyd,
Yn nyfnder cariad drud,
Dy haeddiant cu.

5 O tyred awdwr hëdd,
A thyn ni mewn i'r wlëdd,
O'r pydew prudd;
Ein henaid griddfan mae,
Am gael ei wîr iachau
O'th räs tyr'd yma'n glau,
A rho ni'n rhydd.

6 Mae torf aneirif fawr,
Yn ddisglaer fel y wawr,
'Nawr yn y Nëf;
Trwy ganol gwawd a llîd,
A gwrth'nebiadau 'r byd,
Ac angeu glas ynghyd,
A'i carodd ef.

7 Yn gwisgo gynau gwyn,
Y gwelir saint am hyn,
Dydd sŷ'n nesau:
Caniadau am ei glwy,
Fydd eu caniadau hwy,
A'r rhei'ny fyddant mwy,
Byth i barhau.

## HYMN 256.

1 O TYRED Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r Nef i lawr,
Gawodydd pur;
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreu-ddydd a phrydnhawn,
I darddu'n beraidd iawn,
O'r anial dir.

2 Ac er nad wyf ond gwan,
Os deli di fi'r lan,
Ni'm maeddir ddim;
Mae nerth dy fraich yn fwy,

Na'u holl fyddinoedd hwy,
Sy'n rhoddi i mi glwy,
Er maint eu grŷm.

3 Fy meiau fâch a mawr,
Sydd raid eu cael i lawr,
Cyn byddo hîr ;
Fe fynn cyfreithiau'r Ne',
I dynnu'r llygad de',
A thorri'r fraich o'i lle,
Ei air sydd wïr.

4 Y geiriau oll i gyd,
Ro'ist i mi o bryd i bryd,
Sydd felys iawn :
Gad i mi glywed llëf,
Perciddiaf sain y Nêf,
Efengyl gadarn grëf,
Ai heffaith llawn.

5 Ni gerddwn tu a'r wläd,
Bwrcasodd dwyfol waed,
Y mae ger llaw :
Cawn oleu'r Golofn dän,
I'n dwyn trwy'r mòr yn lān,
Ac ni gawn seinio cän,
Yr ochr draw.

6 Rho gymmorth i mi fyw,
Tan adèn bur fy NUW,
Mewn lloches wïr ;
Ac yna mi äf yn hŷ,
Trwy luoedd creulon crŷ,
Lle mae fy IESU cu,
Cyn byddo hîr.

7 Mae heddyw yn y Nèf,
Fyrddiynau gyda g ef,
Yn canu ei glôd :
Dowch dringwn tu a'r lan,
Cawn feddu yn y man,
Yr andal ddaeth i'n rhan
Hyfryda erioed.

## HYMN 257.

1 NEWYDDION brâf a ddaeth i'n bro,
Hwy haedden' gael eu dwyn ar go',
Mae'r JESU wedi cael y dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae JESU GRIST o'n hochr ni,
Fe gollodd ef ei waed yn lli;
Trwy rinwedd hwn, fe'n dŵg yn iâch,
I'r ochr draw 'mhen gronyn bâch.

3 Fy JESU garai bellach mwy,
Dïoddefodd drosof farwol glwy;
Fy Mhrïod hynod yw o hyd,
A'm cyfaill goreu yn y byd.

4 Doed fel y dêl, mi a'i cara o hyd,
Dan bob rhyw drallod yn y byd;
Yn angeu du, a'r farn a ddaw,
Mi a'i cara i drag'wyddoldeb draw.

5 Pan syrthio 'r sêr fel ffigys îr,
Pan ferwo 'r môr, pan losgo 'r tîr;
Pan droir yr haul, a'r lloer yn ddu,
Pryd hyn mi gara Mhrynwr cu.

6 Tra caffwyf rodio 'r ddaear hon,
Rho 'th hêdd fel afon dan fy mron;
Ac yn y diwedd moes dy law,
I'm dwyn i mewn i'r Nefoedd draw.

## HYMN 258.

1 NID oes un gwrthddrych yn y byd,
Yn deilwng o fy serch a mryd,
Mae tynfa'm henaid cannaid cu,
At drysor trag'wyddoldeb fry.

2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn;
Ni byddai ond torf o ofidiau'n un,
Heb gaffel heddwch Duw ei hun.

3 Beth dâl i'm ro'i fy serch a mryd,
Ar ddim a welais yn y byd;
Da, daear, dyn, pa gysur yw,
Y dydd y dêl digofaint Duw.

4 Pan byddwi'n wyneb angeu du,
Heb gael ond cefn pob cyfaill cu;
Pryd hyn pwy helpa'm henaid gwan,
O'r hën Iorddonen fawr i'r lan?

5 O'r dywyll wlād pan fyddwi'n myn'd,
Fy JESU bydd fy ffyddlon Ffrind,
Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell,
A'm hebrwng i'r ardaloedd pell?

6 Pa'm carai'r byd a'i wagedd mwy,
Hyd angeu'n brin y deuant hwy;
Gwell i mi garu'r Ffrind a ddaw,
Yn angeu i mafiyd yn fy llaw.

7 O cofia fi pan bwi'n y bëdd,
A chasgl fy llwch i'r lan mewn hëdd;
Ac arddel fi yn y farn a ddaw,
A gosod fi ar dy ddeheu law.

8 Ffarwel deganau gwāg y byd,
A'r holl ofidiau sy ynddo i gyd;
Tu ag adre' r āf er dw'r na thān,
Mae sŵn fy mrodyr o fy mlaen.

HYMN 259.

1 PECHADUR wyf da gŵyr fy Nuw
Llawn o archollion o bob rhyw;
Yn byw mewn eisiau o waed y groes,
Bob munud awr o'r dydd a'r nôs.

2 O Arglwydd cofia'th angeu drud,
A'th boenau mawrion yn y byd;
A dadleu rhai'n âg uchel lëf,
Dros f' enaid tlawd ynghanol Nëf.

3 Llamma fel hŷdd tros frynian pell,
Cyflawna 'r addewidion gwell;

O galw d' etholedig hăd,
I brofi rhagorfreintiau 'th waed.

4 Ti fuost farw (rhyfedd yw,)
Er mwyn dy elynion i gael byw:
Derbyn i'th go'l a rho ryddhăd,
I'r sawl a brynaist ă dy waed.

5 Fe gaiff dy Enw anwyl glöd,
Pan ddarffo i'r Nëf a'r ddaear fôd,
Am achub un mor wael ei lun,
Na allasai ei achub ond dy hun.

6 'Rwi 'n dewis JESU a'i farwol glwy,
Yn Frawd a Phrîod i mi mwy;
Ef yn arweinydd ef yn ben,
I'm dwyn o 'r byd i 'r Nefoedd wen.

7. Ei ganmol bellach wnâf o hyd,
Er maint o boenau sy'n y byd;
Dechreuais gân a beru 'n hwy,
Nac y cair diwedd arni mwy.

HYMN 260.

1 PWY ydyw hon sy'n llesg a gwan,
O'r anial fyd yn d'od i'r lan?
Gan faint ei bai blinedig yw,
Yn pwyso ar ei 'Nwylyd gwiw.

2 Dyma y pererinion hŷ,
A achubwyd o ddyfnderoedd du:
Dan Seinai fe'i cynhaliwyd hwy,
Pa elyn a'u gorchfyga mwy.

3 Er cael eu herlyd yma o hyd,
A'u llwyr ddirmygu gan y byd;
Mae eu henw da eu parch a'i bri,
Ynghadw yn y Nefoedd fry.

4 Galarwyr Si-on sydd yn awr,
Yn griddfan yn y cystudd mawr;
Na wylwch mwy, mae n'wyddion llawn,
A wna'ch calonnau'n llawen iawn.

5 Treuliwn ein dyddiau bellach byth,
Mewn un llawenydd pur dilyth;
Cofiwn d' Enw, a seiniwn glöd,
Tra byddo 'r Nefoedd wen mewn bod.

6 Ymhen rhyw oesoedd rif y gwlith,
Ni flina 'r saint dy garu byth;
A bläs o newydd iddynt hwy,
Fydd canu am dy farwol glwy.

7 Dyma hwy 'r gadwedig hîl,
A gadwyd ar y llwybr cul;
Blaen ffrwyth y dyrfa ddaw trwy rās,
O'r cystudd mawr, a'r anial cās.

## HYMN 261.

1 DYSG fi mhob man, dysg fi pa fôdd,
I dd'weyd a gwneuthur wrth dy fôdd;
Dysg fi ryfela a'r ddraig heb goll,
A dysg fi goncr'o 'mhechod oll.

2 Y gwanna wyf a'r rheittia ei ddwyn,
O'r defaid gwirion ac o'r wyn;
A diau yw y byddai'n ol,
Oni chwyd y Bugail fi'n ei go'l.

3 Pan gwelych di fi'n crymmu 'mhen,
At ryw wrthrychiau îs y Nen:
O dangos im' na thāl yr un,
I'w garu byth ond ti dy hun.

4 O gwna fi'n golofn gadarn gre',
'N y demel lān dod i mi le;
I lynu wrthyt ti yn lān,
Ymhob rhyw drallod fawr a mān.

5 Rho wïn ac olew yn fy mriw,
A gwisg fi'n dēg a delw DUW;
A thyn fi'n llon y blith i llu,
Sy'n ddisglaer yn y Nefoedd fry.

6 Caf lechu 'n dawel yno o hyd,
Anghofio 'r boen sydd yn y byd;
Mae twrf a rhwysg y ddinas fawr,
Yn curo f' enaid gwan i lawr.

7 Cael teimlo ei hëdd a'i fywiol rās,
Yw'r Nefoedd sy ar y ddaear lâs;
A'm Nefoedd byth ŷn Nef y Nêf,
Fydd edrych yn ei wyneb ef.

HYMN 262.

1 WRTH droi fy ngolwg yma' n awr,
I gyrrau 'r greadigaeth fawr;
Gwrthddrych ni wël fy enaid gwan,
Ond JESU i bwyso arno 'n rhan.

2 Pwy wrendu riddfan f' enaid gwan,
Pwy 'm dwg o'm holl ofidiau i'r lan?
Pwy ddwg fy maich fel Brenhin Ne',
Pwy gydymdeimla fel efe?

3 Agorodd ef, pan rwygai'r llen,
Holl auraidd byrth y Nefoedd wen
Ro'i rhydddid i'w gariadau ef,
I mewn i holl drigfannau'r Nëf.

4 Ffordd newydd wnaed gan JESU GRIST,
Rhag syrthio draw i uffern drist;
Wedi ei phalmantu ganddo ef,
O ganol byd i ganol Nëf.

5 Wel, dyma un O dywedwch p'le,
Y gwelir arall fel efe;
A beru'n ffyddlon i mi o hyd,
Ymhob rhyw drallod yn y byd.

6 Rho gymmorth etto i'm henaid gwan,
Ne 's d'od o'r moroedd oll i'r lan;
A chael fy nhraed ar sanctaidd dïr,
O fewn i gaerau'r ddinas glïr.

7 Yn fynych mynych JESU cu,
Datguddia'th fod yn eiddo i ni;

Mewn tonnau mawr yn wastad gäd,
I'm ddysgu llefain Abba Däd.

8 Yn Peniel 'rwyt fy enaid clyw,
Ymdrecha'n dêg âg angel DUW,
Pwy wyr na's cai cyn torri'r wawr,
Wîr etifeddu 'r fendith fawr.

## HYMN 263.

1 DOES arnaf eisiau yn y byd,
Ond golwg ar dy haeddiant drud;
A chael rhyw brawf o'th Nefol rïn,
I ymado'n lān a mi fy hun.

2 Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud,
Yn fwy na'r Nèf, yn fwy na'r byd;
Yn rhyw anfeidrol berffaith iawn,
Rwi'n methu gorphwys arno'n llawn.

3 O flaen y Drugareddfa fawr,
Yn trengu o flaen dy draed i lawr;
Gwēl y pechadur dua gaed,
Yn brefu am rinweddau'th waed.

4 O feiau mawr beth allech fwy,
Na rhoddi i Frenhin Nefoedd glwy;
Lladdasoch ef: fe drôdd y rhôd,
Mae dydd eich dīal chwithau'n d'od.

5 Gwèl ar Galfaria dyma 'r Dyn,
A phwy oedd ef ond Duw ei hun;
Pechodau 'r holl gredin'ol fyd,
A bwysodd ar ei 'sgwyddau ynghyd.

6 Na ād fi ymddiried tra b'wyf byw,
Ond yn dy angeu di fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol glwy,
Gaiff fod yn ymffrost imi mwy.

7 Mae grās yn rhyw anfeidrol [illegible]
A doniau ynot fel y mör;

O gād i'r truenusa 'n awr,
Drwy 'r rhai'n fy llonni ar llawr.

## HYMN 264.

1 DAL fi fy NUW dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi pan bwi'n wan;
Ne's myn'd yn län (dal fi a'th rās,)
O'r byd sy'n llawn o bechod cäs.

2 Gwna fi fel halen trwy dy rās,
Yn wyn yn beraidd iawn ei fläs;
Yn foddion yn dy law o hyd,
I dynnu'r adflas oddiar y byd.

3 O deued dydd yr India i ben,
I wel'd yr hwn fu ar y pren;
A ninnau'n un, yn un a hwy.
Yn canu am ei farwol glwy.

4 Amen, Amen, boed môr a thîr,
Mewn perffaith hedd mewn cariad gwir;
Heb ganddynt bleser o un rhyw,
Ond caru JESU mawr a'n DUW.

5 Mi âf ymlaen er t'wiled yw,
I'r wlād 'rwy am fyn'd iddi fyw;
Fe gwyd y wawr mae addewid Nëf,
Y cäf fyn'd adreu atto ef.

6 Ond boed fy nghlustiau'n gwrando o hyd,
Ddirgelion distaw Nefol fyd;
A'm pleser unig ddydd a nös,
Yn nyfnion wirioneddau 'r groes.

7 Pan gaffwyf wel'd dy Nefol wëdd,
A phrofi bläs dy ddwyfol hêdd;
'Dwi'n gwel'd gogoniant mwya'r byd,
Ond peth anheilwng o fy mrŷd.

8 Doed gogledd, de, a dwyrain bell,
I glywed y newyddion gwell;
A thaened swn Efengyl gras,
Yn gylch o ddeutu 'r ddaear läs.

## HYMN 265.

1 MAE Brenhin Nēf ar fyr yn d'od,
Mewn rhwysg na welodd neb erioed;
Mae angeu ac uffern fawr a'r bedd,
Yn ofni edrych ar ei wedd.

2 Fe lysg y byd yn ulw mān,
Fe drŷ 'r greadigaeth fel o'r blaen;
Cwymp y planedau er eu maint,
Bydd JESU 'n Frenhin ar ei saint.

3 Mi wela'n codi'r seren ddydd,
Mi glywa'r canu yno fydd;
Angylion gyd â'r saint yn un,
Yn cadw cwm'ni Mab y Dyn.

4 Ar Galfari y talodd ef,
Ofynion mwya, trwy ma 'r Nēf;
Yn awr mae'r carcharorion prudd,
Yn llawen hyfryd dd'od yn rhydd.

5 Mae haeddiant fy Iachawdwr mawr,
Yn dioddef poen rhwng Nef a llawr;
Yn fwy ei rin filiwnau mawr,
Na haeddiant seintiau 'r Nēf a'r llawr.

6 Na fydded ardal cyn bo hîr,
O'r dwyrain i'r gorllewin dīr;
Na byddo 'r iachawdwriaeth ddrud,
Yn llanw cyrrau y rhai'n i gyd.

7 O tyr'd i ben happusaf ddydd,
Darfydded sôn am bethau sydd;
Na'r byd, na'i rwysg, na'i wae, na'i boen,
Ond canu byth am waed yr Oen.

## HYMN 266.

1 MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy,
Oes JESU yn dy farwol glwy;
N[illegible] tra bo [illegible] ddo grwyth,
Na seraph [illegible] ei ddyall byth.

2 O holl weithredoedd Nêf yn un,
Y bennaf oll oedd prynnu dyn;
Rhyfeddod mwyaf o bob oes,
Gwel'd JESU 'n gwaedu ar y groes.

3 Dyma drysor mawr a drud,
Gwaed DUW yn llifo dros y byd;
Byth na foed ond ei farwol glwy,
Yn sylfaen pob caniadau mwy.

4 Y mae happusrwydd pawb o'r byd,
Yn gorphwys ar dy angeu drud;
Hyfrydaf waith angylion frŷ,
Yw canu am fynydd Calfari.

5 Dyfnderoedd anrhaethadwy mwy,
Didrai difesur sy'n ei glwy;
Ein hanwireddau darfu eu dwyn,
A ninnau'n rhyddion er ei fwyn.

6 Chwychwi fy mhechod o bob grădd,
Sy'n fwya' cadarn am fy llădd;
Er maint eich grym, er maint eich clwy,
Mae angeu'm JESU 'n llawer mwy.

7 Os daw y gyfraith yn ei grŷm,
A gofyn am berffeithrwydd im';
'Does genni' ond dangos angeu loes,
A gwaed yn llifo ar y groes.

8 Ni cheisia' un lloches ond dy glwy,
Tan donnau mawrion fwy na mwy;
Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae,
Yn abl fy rho'i lawenhau.

HYMN 267.

1 FYTH fyth rhyfeddai'r cariad,
Yn nhrag'wyddoldeb pell,
A drefnodd yn yr arfaeth,
Im' etifeddiaeth well;
Na'r ddaear a'i thrysorau,
A'i brâu bleserau ynghyd,

Fy nghyfoeth mawr ni ddefydd,
Yw JESU Brynwr byd.

2 Ar noswaith oer fe chwisai,
Y gwaed yn ddafnau i lawr,
Ac ef mewn ymdrech meddwl,
Yn talu'n dyled mawr;
Fe yfai o'r cwppan chwerw,
Wrth farw ar y pren,
Palmantodd ffordd i'r bywyd,
O'r ddaear hyd y Nen.

3 Rhyfeddai'r fuddugoliaeth,
Ar ben Calfaria frŷ,
Wrth farw fe goncweriodd,
Fy holl elynol lu;
Caethiwodd bob caethiwed,
Rhoes roddion i'w holl saint,
Na fedr neb tafodau,
Fynegi byth eu maint.

4 Trag'wyddol glôd i'r cyfiawn,
Fu farw dros fy mai,
Fe adgyfododd eilwaith,
O'r bedd i'm cyfiawnhau;
Ar orsedd ei drugaredd,
Mae 'n dadleu yn y Ne',
Ei fywyd a'i farwolaeth,
Anfeidrol yn fy lle.

5 Ergwaetha'r maen a'r gwilwyr,
Fe gododd JESU 'n fyw,
Daeth yn ei law alluog,
A phardwn dynolryw;
Gwnaeth etifeddion Uffern,
Yn etifeddion Nef,
Fy enaid byth na thawed,
A chanu iddo ef.

6 Mae hiraeth yn fy nghalon'
Am wel'd y saint i gyd,
'Rwi'n profi mwy o hiraeth,
Am wel'd fy Mhrynwr drud;

Rho i mi o wëdd dy wyneb,
A phrofi 'th dawel hëdd,
Cyn i mi fyn'd i orwedd,
I dywyll byrth y bēdd.

## HYMN 268.

1 'BLE tro 'fy wyneb Arglwydd eu,
Ond attat ty dy hunan:
Pob peth gweledig 'thäl ef ddim,
Ond gwneuthur i mi riddfan.

2 Os yw 'ngofidiau yn y byd,
I bara hyd y diwedd;
O fewn y Nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

3 Pryd hyn pereiddia DUW ar goedd,
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y trŷ pob chwerw nant,
Yn win i blant Jehofa.

4 Blwyddyn y carcharorion caeth,
O'r diwedd ddaeth i fynu:
Nesau mae gwaredigaeth lawn,
I'r rhai sy'n uniawn gredu.

5 Pa fwya fo'u cyfyngder hwy
Bydd mwy fwy eu cysuron;
Eu hedd melysach na 'r dil mël,
A lifa fel yr afon.

## HYMN 269.

1 GWYN fyd y rhai, dileaist eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd;
Gan ro'i iddynt nerth er cnawd a byd,
I bara' hyd y diwedd.

2 Disgwyl yr wyf a hyn bob cam,
Fel gwiliwr am y borau;
Gael profi grym dy nefol rās,
I'm tynny o'm hatgas feiau.

3 Er bod yn [illegible] mewn anial fan,
Yn 'mofyn am orphwysfa;

O'r diwedd daethym (rhyfedd fraint,)
I'r fan mae'r saint yn gwledda.

4 Y wisg a'r goron gaf i'm rhan,
Sy 'nghadw gan yr JESU ;
A'r hyfryd Balmwydd yn fy llaw,
Heb boen na braw y'm drygu.

5 Ymborthi caf yn drag'wydd-ol,
Ar ffrwythau Nefol hyfryd ;
Ac yfed byth heb boen na chur,
O afon bur y bywyd.

6 Ni all Satan, deddf, na gweddill bai,
Byth ddamnio y rhai crediniol ;
Mae gwaed yr Oen ag uchel lëf,
O fewn y Nef yn eiriol.

7 O Fugail Israel dŵg fi 'mlaen,
I'r dawel län orphwysfa:
I'th Nefol lŷs o'm poen a'm pla,
I ganu HALALUIA.

## HYMN 270.

*DUW a Digon.*

1 O Am nerth i dreulio'm dyddiau,
Yng nghynteddoedd tŷ fy Nhad ;
Byw ynghanol y goleuni,
Tywyllwch obry tan fy nhra'd :
Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmmwl, byw heb boen;
Byw ar gariad anorchfygol
Pur y croeshoeliedig Oen.

2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas rad,
Brynwyd i mi ac a seliwyd,
Seliwyd i mi ä dy wa'd :
Rho im' gyrchu tu ac atti,
Peidio fyth a llwfrhau ;
Ar fy nhaith ni cheisiaf gennyt
Ond yn unig dy fwynhau.

3 Gyd ā thi mi af trwy'r fyddin,
Gyd ā thi mi af trwy'r tān;
Ni ofnaf ymchwydd yr Iorddonen,
Ond i ti fyned o fy mla'n:
Ti yw'm Hamddiffynfa gadarn,
Ti yw Mrenin a fy Nhad;
Ti dy hunan oll yn unig,
Yw fy Iechydwriaeth rad.

## HYMN 271.

*Gweddi am Bresennoldeb* Duw.

1 PA'M y caiff bwystfilod rheipus
Dorri egin mān i lawr?
Pa'm caiff blodau peraidd ieuainge
Fethu gan y sychder mawr?
Dere ā'r cafodydd hyfryd,
Sy'n cynhyddu'r egin grawn;
Cafod hyfryd yn y boreu,
Ac un arall y prydnhawn.

2 Gosod Babell yng ngwlad Gosen,
Dere, Arglwydd, yno'th hun;
Gostwng o'r uchelder goleu,
Gwna dy drygfan gyd â dyn:
Trig yn *Seion*, aros yno,
Lle mae'r llwythau'n d'od ynghyd;
Byth na 'mad oddi wrth dy bobol,
Ne's yn ulw'r elo'r byd.

3 Blinais ar afonydd Babel,
Nid oes yno ond wylo i gyd;
Llais telynau hyfryd Seion,
Sydd yn gysson dynnu 'mryd:
Tyr'd ā ni yn dorf gariadus,
O gaethiwed Babel fawr,
Ac ne's b'om ar fyndd Seion,
Nad ni osod troed i lawr.

## HYMN 272.

*DUW yn Angeu yn unig.*

1 O IACHAWDWR pechaduriaid,
Sydd ā'r gallu yn dy law;
Rho oleuni, hwylia'm henaid,

Tros y ce'n-fôr garw draw:
Gad y wawr fod o fy wyneb,
Rho fy enaid llesg yn rhydd,
Ne's i'r haul-wen ddisglair godi,
Tywys fi wrth y feren ddydd.

2 A oes neb o'm holl gyfeillion,
A ddaw'n ddi-ddig gyd â mi,
Ac a orwedd wrth fy ochor
Obry yn y ddaear ddu?
A ydyw cyfaill ddim ond hynny?
Taflu dagrau, newid gwedd,
Pan b'o'r pridd a'r clai a'r cerrig
Arnai'n cwympo yn y bedd.

3 O ynfydrwydd! O ffolineb!
I mi erioed i roddi mryd
Ar un tegan ar un pleser
Welais etto yn y byd;
Y mae'r byd yn myned heibio
A'i deganau o bob rhyw,
Tan y nef ni thal ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw.

## HYMN 273.

*Golwg ar y WLAD.*

1 DYN dieither ydwyf yma,
Draw mae'm genedigol wlad,
Draw i'r moroedd mawr tymhestlog,
Ac o fewn i'r Ganaan rad:
'Storom fawr a ge's yn Eden,
Honno'm chwythodd i mor bell,
Yn ol yn awr mi droes fy wyneb
At yr hen Baradwys well.

2 Ac er gwaethaf grym y tonnau
Sydd ya curo o bob tu,
Dof trwy'r 'storom, dof trwy'r gwyntoedd
Ryw bryd i'r Baradwys fry:
Gair fy Nuw sy'n drech nâ'r moroedd,
Gair fy Nuw sy'n drech nâ'r don,

Ac mi anturiaf oll a feddwyf
Bythoedd ar addewid hon.

3 Ac ni fyddai'n hir cyn gorphen,
Ddim yn hir cyn landio fry:
Pob gorchymmyn, pob bygythiad,
Pob addewid sydd o'm tu:
Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,
Gwn y deuaf yn y man,
('Nol fy ngolchi gan y tonnau)
Yn ddihangol iawn i'r lan.

4 'Rwyf fi'n dechreu teimlo eisoes,
Ber aroglau'r gwledydd draw,
Gyd â'r awel bur yn 'hedeg,
Diau fod y wlad gerllaw:
Dere'r tir dymunol hyfryd,
Dere'r ardal sydd heb drai,
Dy bleserau o bob rhywiau,
Gad im' bellach eu mwynhau.

## HYMN 274.

*Y Gwahaniaeth rhwng Daear a Nef.*

1 FY ffiol yma sydd yn llawn
O ddyfroedd Mara chwerwon iawn;
Ond gofid yn y nefol dir
A lyngcir gan lawenydd pur.

2 'Diw cariad yma yn uchaf man,
Ond megis rhyw ddymuniad gwan;
Ond y wreichionen leiaf sy'
Yn wen-fflam yn y nefoedd fry.

3 Llawenydd mwyaf yma gawn,
Sydd fel rhyw ddafnau bychain iawn;
Ond yno'n foroedd mawr didrai,
Yn boddi'r etholedig rai.

4 Fy ffydd sy'n ffaelu gweld yn glir,
Ond yno try yn olwg pur;
Fy ngobaith am y nefol wlad
A lyngcir yno mewn mwynhad.

## HYMN 275.

*ERSIT yn Angeu.*

1 COFIA f' enaid, cyn it, dreulio
D'oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,
Pa un a ge'st y trysor drud?
Ym mhwy ardal bydd fy lletty?
Fath pryd hynny fydd fy ngwedd?
P' un ai llawen neu gystuddiol
Fyddaf fi tu draw i'r bedd?

2 Pan b'o'r llygaid yma'n t'wyllu
Yn eu pyllau'n llechu lawr;
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu
A galluoedd angeu mawr:
P'odd dioddefaf y fath gystudd?
Pwy adfera'r colled hyn?
Oni chaf guddio mhen yng nghlwyfau
'R Oen fu ar *Galfaria* fryn?

3 Iesu hawddgar 'rwy'n dy ddewis,
Nerth i ddilyn ol dy dro'd:
Yna caiff f' enaid 'hedeg
I'r happusrwydd uwch y rhod:
Tra f'om pridd yn myn'd i ymgymmysg
A'r hyn y wnaethpwyd ef ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddisgleirio
Rannau f' enaid oll eu gyd.

## HYMN 276.

*CAETHIWED.*

1 RWY'N gorwedd yn y carchar du,
A'm henaid cu'n och'neidio;
A'r gadwyn fawr yn gwasgu'n dynn,
Heb neb a'm tynn o hono.

2 Fy meiau megis gwlith y wawr,
Anfeidrol fawr eu cyfri',
Sy'n pwyso'n galed ar fy mron,
A minnau bron llewygu.

3 Och'neidio 'rwyf am dd'od yn rhydd,
A gweled dydd gollyngdod,
I rodio'r bryniau sanctaidd pur
Nefolaidd dir fy Mhriod.

4 Ti Iesu mawr, y Meddyg pur,
Sy'n torri'r dur caletta';
Torr fy nghadwynau mawr â'th ras,
Fel delwyf ma's oddi yma.

## HYMN 277.

### *GWEDDI.*

1 O IESU mawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell;
Dysg fi i seinio maes dy glod,
Mai di-gyfnewid wyt erio'd.

2 O hoelia meddwl, ddydd a nos,
Crwydredig wrth dy nefol gro's!
A phlanna'm hyspryd yn y tir
Sy'n llifo o lawenydd pur:

3 Fel b'o fy nwydau drwg yn lân,
Yn cael eu difa â'r nefol dân;
A chariad yn melusu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.

4 Ti fuost marw, rhyfedd yw,
Er mwyn d' elynion i gael byw;
Derbyn i'th go'l a rho ryddhad
I'r sawl a brynaist â dy wa'd.

5 Doethineb anfesurol sy'
A gallu anfeidrol ynot ti,
A phob cyflawnder sy'n dy ran,
Sydd eifiau ar fy enaid gwan.

6 Fe gaiff dy enw anwyl glod,
Pan ddarfo i'r ddaear a'r nefoedd fod,
Am achub un mor wael ei lun,
Na all'sai ei achub ond dy hun.

## HYMN 278.

*Coffadwriaeth* CALFARIA.

1 RWY'N morio tu a gatre'm Ner,
Rhwng tonnau maith yn byw,
A dyn heb neges tan y ser
Ond 'mofyn am ei Ddduw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro i 'nol,
A finnau 'dwyf ond gwan;
O cymmer Iesu fi yn dy go'l!
Yn fuan dwg fi'r lan.

3 N'ad fi ar asswy nac ar dde'
I redeg o dy fla'n,
Ond dilyn llwybrau Brenin ne',
Trwy ddyfnder dw'r a thān.

4 A phan b'o yn curo fy enaid gwan
Elynion fel y ser,
Derchafa'm hyspryd llesg i'r lan,
I fynwes bur fy Ner.

5 Boed dioddefiadau pur y groes
I laesu'm cur a'm gwae;
Griddfannau dwfn angeu'r groes
I'm rhoddi i lawenhau.

6 Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr
Yn fywyd pur i mi,
Fel gallwyf roddi'm oll i lawr
Yn gof am Galfari.

## HYMN 279.

*CRIST sydd bob Peth i'r neb a gredo.*

1 IESU a wnaethpwyd gan Dduw'r Tad,
Yn Gyfiawnhad i'r ffyddlon;
Efe yw'n gwir Ddoethineb ni,
Sydd yn hyfforddi 'n raslon.

2 Efe yw'r Awdwr uchel swydd,
O bob sancteiddrwydd calon;

Efe yw'n Prynedigaeth rad
A rydd ryddhad i'r caethion.

3 Efe yw'n Brenin uchel radd,
Sy'n lladd ein holl elynion;
Efe sy'n Brophwyd yn ein mysg,
Yn rhoddi addysg ffyddlon.

4 Efe yw'n Archoffeiriad mawr,
Fe aeth o'r llawr i'r nefoedd:
Eiriol mae ger bron y Tad,
Am gymmod rhad i'w bobloedd.

5 Crist yw'r wir Winwydden ber,
A'i ffrwyth fel mer yn felus:
O Grist mae ffrwyth y saint trwy ffydd,
A'i nod ef sydd rinweddus.

6 Efe yw Ffynnon y dyfroedd byw,
Sy'n puro pob rhyw bechod;
Sylfaen ein gobaith yn ddigel,
Ac Angel y cyfammod.

7 Efe yw'r Bugail cryf ei blaid,
Ei ddefaid ä ymgledda;
Rhoddodd ei fywyd dros ei braidd,
Ni chaiff y blaidd eu difa.

8 Efe yw Pren y Bywyd ir',
Sydd yn y wir baradwys:
Efe yw'r Meddyg sy'n iachau
Holl farwol glwyfau'r clwyfus.

9 Efe yw'r unig Ffordd at Dduw,
Mor dda yw rhodio ynthi!
Efe yw'r pur Wirionedd maith,
Y Gyfraith a'r Pròphwydi.

10 Efe yw'r Drws i'r nefoedd wen,
Efe yw'r Seren-foreu
Sydd yn goleuo tir a môr,
Efe yw'r Trysor goreu.

11 Efe yw'n Tad a'n hanwyl Frawd,
A ddyg ein gwawd a'n cystudd :
Ein Priod yw, a'n hunig Ben,
Ein Cadpen a'n Gwaredydd.

12 Tyred, O Iesu, Frenin cred,
O tyred at dy Anwylyd :
Wele ni'n dyfod ar dy ol,
Dod in' drag'wyddol fywyd.

## HYMN 280.

1 Y FFYNNON loyw hyn,
A darddodd ar y bryn, a darddodd ar y [bryn,
Yn ffrydiau o anfeidrol hedd :
Rhyw fôr o gariad yw, rhyw fôr o gariad yw
Dy heddwch di fy Nuw, dy heddwch di fy [Nuw,
A nef y nef yw gwel'd dy wedd.

2 'Does drysor dan y ne',
Yn anwyl fel efe, &c.
Mae'n llenwi'm ysbryd oll o'r bron :
Mwy'n llawen bydda'i byw, &c.
Ym mynwes bur fy Nuw, &c.
Dan holl gystuddiau'r ddaear hon.

3 Mi dreulia oriau f' oes,
Yn dawel dan y groes, &c.
Dim ond cael edrych ar dy wedd :
Perffeithrwydd pleser pur, &c.
Sydd ynot ti yn wir, &c.
Fy holl ddiddanwch a fy hedd.

## HYMN 281.

1 PA ham y rhed fy meddwl
Ar wag wrthddrychiau'r byd ?
'Does dim mewn eitha' nattur
A dâl roi arno mryd ;
'Dyw'r ddaear fawr gwmpasog,
A'i pherlau mwya' maes,
Ond dim ym mhen y glorian,
I bwyso â dy ras.

2 Mae profi grym dy gariad,
A gwedd dy wyneb llon,
Yn pwyso myrdd o fydoedd,
I'm tyb i, 'r funud hon;
'Does drysor ar y ddaear,
Nac yn y nefol fyd,
A bwysa haeddiant Iesu
A'i iechydwriaeth ddrud.

3 Ac am dy fod di'n maddeu
I wrthgiliedig un,
Mwy gwerthfawr yw maddeuant,
I mi, nà melus win:
Dyfnderoedd maith dy gariad,
A heddwch yn dy waed,
Sy'n congc'ro'm holl elynion
Yn feirwon dan fy nhraed.

HYMN 282.

1 RHAID i mi gael pob grâs pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan;
Ac oni chaf, fy enaid prudd,
A gyll y dydd yn fuan.

2 Dy wisg dy hun cyfiawnder hael,
Raid i mi gael ymlaenaf;
Nid oes ond ofni dan fy nhron,
Nes caffwy hon am danaf.

3 Dy gnawd yw'r bara hyfryd fwyd,
Yn unig gwyd ein henaid:
Pan gwelom ynddo 'r wayw-ffon,
Fe'n dad-ddrŷs o'n caethiwed.

4 Cael gwledda ar dy hêdd o hyd,
Anghofio 'r byd yn gyfan;
A'th Deml lân fo'n trigfa ni,
I'th weled di dy hunan.

5 Nid yw'r dydd etto ond megis gwawr,
Goleuni mawr sy'n dyfod;
Pan ddel myrddiynau gyd ag ef,
I fyn'd i'r Nef a'i briod.

6 A chlôd ar glôd ei rās tra mawr,
Ledana yn awr mor helaeth;
Nes seinio trwy holl entyrch Ne',
Am ddyfais Iechydwriaeth.

7 O cadw fi yn dy fynwes bur,
Nes do'd i'r eglur fywyd;
At fy nghyfeillion sydd mewn hëdd,
Yn gweled gwêdd fy Anwylyd.

HYMN 283.

1 AGORWYD pyrth y Nefoedd wiw,
Mi wela fôr o waed:
Y gallaf fi 'r ffieiddia' yn fyw,
Yn hollol gael iachād.

2 Mae 'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan:
O cyfod bellach f' enaid prudd,
Anadla tu a'r lan.

3 Ac anfon eirchion aml ri',
I mewn i byrth y Nef:
Gwrandewir pob ymddifad gri,
Yn union ganddo ef.

4 'Rwy fel y gwiliwr ar y mur,
Yn disgwyl gwel'd y wawr;
Dydd i gyhoeddi 'r Jubil fwyn,
Fy ngwaredigaeth fawr.

5 Ni fethodd gweddi daer erioed,
A chyraedd hyd y Nef;
Ac mewn cyfyngder f' enaid rhëd,
Yn union atto ef.

6 Mi 'nturiaf at orseddfa grâs,
Dan eithaf tywyll nôs;
Ac mi 'orphwysaf, doed a ddêl,
Ar haeddiant gwaed y Groes.

## HYMN 284.

1 AT wëdd dy wyneb nid yw ddim,
 Drysorau maith y llawr:
Mae gair o'th enau 'n llawer mwy,
 Ei rym nag Uffern fawr.

2 Os edrych 'wnaf i 'r dwyrain draw,
 Os edrych 'wnaf i 'r de':
Ym mhlith a fu, neu ynte 'ddaw,
 'Does debyg iddo efe.

3 Ni feddai ar y ddaear lawr,
 Ni feddai yn y Ne':
Neb ag a berŷ 'n anwyl im',
 Yn unig ond efe.

4 Mae ynddo 'i hunan drysor mwy,
 Nag 'fedd yr India lawn:
Fe brynnodd i mi fwy na 'r byd,
 Ar groes-bren un prydnhawn.

5 'Does gennyf mwy ond DUW yn Däd,
 Yn erbyn pob rhyw w[illegible];
Na dim ond grym ei ga[illegible]l rhäd,
 Yn sylfaen i barhäu.

6 O na allwn rodio er dy glöd,
 Ac i ti bellach fyw;
A threulio 'mywyd, gyd ä blàs,
 I ganmol grâs fy NUW.

## HYMN 285.

1 O EDRYCH arnaf, Arglwydd mawr,
 Mae bellach yn brydnhawn:
O llanw 'r euog tlawd sy heb ddim,
 A'th nefol ddwyfol ddawn.

2 Dyma bechadur truan gwan,
 Yn griddfan dan ei wae;
Can's grym fy mhla sydd wedi 'm rhoi,
 I hollol lwfrhäu.

3 DUW tyr'd yn glau, mae'n gyflawn bryd,
'Rwy 'n griddfan dan fy mhoen;
Yn methu do'd i'r ffynnon rád,
Sancteiddiaf waed yr Oen.

4 O maddeu mai, a chliria 'n llwyr,
Fy euogrwydd oll i gyd:
Ac na'd fi flino d' Ysbryd mwy,
Tra byddwyf yn y byd.

5 Mae temtasiynau 'r ddraig yn grŷ,
A minnau d' wyf ond gwan:
Nid oes ond dwyfol nerth dilyth,
A'm deil i byth i'r lan.

6 Mae llid o'r dwyrain ac o'r de',
Am gael fy mhen i lawr:
Trag'wyddol allu Brenhin Ne',
A'm dŵg i 'r lan ryw awr.

## HYMN 286.

1 NI'S gall Angylion pur eu dawn,
A'u haml ddoniau hwy;
Fyth osod allan haeddiant llawn,
Anfeidrol ddwyfol glwy'.

2 Ni welai wrthddrych mewn un man,
O'r ddaear faith i 'r Ne';
A dàl ei garu tra f'wyf byw,
Yn unig ond efe.

3 Eisteddais dan ei gysgod ef,
A'i ffrwyth oedd felys iawn:
Ac yma 'treuliaf ddyddiau f' oes,
Fyth, fyth yn ddedwydd iawn.

4 Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
Heb fesur, ac heb drai:
A'i drugareddau hyfryd sy,
'N drag'wyddol yn parhàu.

5 Cyflawnder nerth, cyflawnder grâs,
Cyflawnder Nef y Nef:

Uwch deall Seraphin, a Saint,
Sy'n trigo ynddo ef.

6 Mae yn ei haeddiant bethau mwy,
Nag fêdd y byd yn un ;
A phrawf o'i gariad ydyw 'r fraint,
Oruchaf 'gafodd dyn.

HYMN 287.

1 TYR'D Ysbryd sanctaidd, ledia 'r ffordd,
Bydd i mi 'n niwl a thän :
Ni cherdda i' 'n gywir hanner cam,
Oni byddi di o fy mlaen.

2 Mi wyra weithiau ar y dde',
Ac ar yr asswy law ;
Am hynny arwain, gam a cham,
Fi i'r Baradwys draw.

3 'Ddiffygiai ddim, er cyd fy nhaith,
Tra paro gräs y Ne' ;
Ac er lleied ydyw fy ngrym,
Mae digon ynddo efe.

4 Mae' iachawdwriaeth fel y mör,
Yn chwyddo fyth i 'r lan :
Mae yma ddigon, digon byth,
I 'r truan, ac i 'r gwan.

5 'Does yma eisiau byth yn bod,
Trysorau gràs yn llawn :
Er maint yr yfed, a 'r glanhâu,
O foreu hyd brydnhawn.

6 'D'ai 'mofyn haeddiant, fyth na nerth,
Na ffafar neb na'u hëdd ;
Ond hwnnw 'n unig gwyd fy llwch,
Yn fyw i 'r lan o 'r bëdd.

HYMN 288.

1 DARFYDDED dydd, darfydded nôs,
Fel munud bach o 'r awr ;
Tra f' wyf yn caru, a rhoi 'mhwys,
Ar fynwes f' Arglwydd mawr.

2 Dymunwn yma dreulio 'm hoes,
O foreu hyd brydnhawn ;
Lle cawn i wylo cariad pur,
Yn ddagreu melys iawn.

3 Fe ddaeth y Jubil werthfawr lawn,
Ar ol och'neidio 'n hïr ;
Ac mi ge's weled hyfryd ran,
O 'r Baradwysaidd dïr.

4 Mae Turtur yr Efengyl fwyn,
Yn galw bro a bryn :
Doed torf aneirif tu a 'r wlād,
Gyd a 'r awelon hyn.

5 Fe wnaeth ei babell yn ein plïth,
A'i bresennoldeb sy,
Yn troi pob cystudd chwerw loes,
Yn hyfryd hēdd i ni.

6 Boed dïoddefiadau pur y groes,
Fel olew i 'm iachāu :
Griddfannau dyfnion angau loes,
I 'm rhoddi i lawenhāu.

HYMN 289.

1 MAE brodyr i mi 'aeth ym mlaen,
Yn holl-iach, a chyttun :
Deng mîl o filoedd yw eu cān,
Er hyn nid yw ond un.

2 Mae pawb o 'r brodyr yno 'n un,
Heb neb yn tynnu 'n groes ;
Yn moli 'r DUWDOD yn y DYN,
A chofio angeu loes.

3 Ni theimlir yno unrhyw boen,
Na chwyno gan un clwyf ;
Ond pawb mewn hwyl yn moli 'r Oen,
I drag'wyddoldeb mwy.

4 Daw 'r holl dduwiolion yno ynghyd,
O'r gogledd, de', heb ri' ;

A'u holl gadwynau 'n chwilfriw mân
A'u cân am Galfari.

5 Plant ydym etto dan ein hoed,
Yn disgwyl am y stâd:
Mae 'r etifeddiaeth i ni 'n d'od,
Wrth Destament ein Tâd.

6 N'ad fi i foddloni mewn rhyw rith,
O grefydd heb ei grym;
Ond gwir adnabod JESU GRIST;
Yn fywyd anwyl im'.

## HYMN 290.

*Hiraeth am Gongcwest mewn Cyfyngder.*

1 MAE'R 'stormydd mawr a'r dyfroedd maith,
Yn curo'm henaid gwan:
O dal fi, Arglwydd, ar fy nhaith,
A dwg fi'n iach i'r lan.

2 Anfeidrol ddwyfol allu'r nef,
A'm dal uchlaw y dw'r;
Rhaid i mi gael ei haeddiant ef,
Onid ĕ mi sudda'n siwr.

3 Ar ei addewid hyfryd ef
Y mentraf yn y blaen,
Er eitha' grym y 'storom gref,
Trwy ganol dw'r a thân.

4 Pwy ŵyr na's gwel fy enaid gwan
Y tawel frynniau draw?
Can's newydd da sy o dŷ fy Nhad,
Fod tir fy ngwlad gerllaw.

## HYMN 291.

*Arall ar yr un Achos.*

1 'RWY' yma'n griddfan dan y groes,
O Iesu, moes dy law,
A dysg fi i fyw, bob dydd bob nos,
Ar ffrwythau'r Ganaan draw.

2 O Arglwydd, gwel fi'n llesg a gwan,
Yn griddfan ar dy ol,
Dal fi, ym mhwys y dydd a'r gwres,
Yn gynnes yn dy gol.

3 Pa bryd y caf fi brofi grym
Dy anorchfygol ras,
I ddwyn i'r lan fi, lwch y llawr,
O'r cystudd mawr i maes?

4 Gras a thrugaredd i barhau
Wy'i am fwynhau tr'w'i byw,
A gwledda byth trwy, haeddiant gwaed,
Ar gariad rhad fy Nuw.

5 Darfydded pleser i mi mwy,
Tr'w'i yma is y rhod,
Ond gwledda ar dy ddwyfol ras,
A seinio i maes dy glod.

6 Caned angylion nefoedd fry
Yn un ä llwch y llawr,
Am gadarn gongcwest Calfari,
Trwy waed fy Iesu mawr!

## HYMN 292.

*Grym Gelynion, a Chongcwest Gras y Nef.*

1 ANWYL Iesu, tynn fy meichiau
Trymion sy'n fy ngwasgu i lawr,
Y rhai a drodd fy hyfryd foreu
Yn dywyllwch dudew 'nawr.
Pob garw nant, pob llif, pob 'storom,
Sy'n gwneud fy enaid llesg yn fryw;
Nid oes ond un a gyd-ymdeimla,
A hwnnw'n unig yw fy Nuw.

2 Pallodd ffrynd, a phallodd cyfaill,
Pallodd e'r anwylaf frawd;
Nid oes un Lefiad, nac offeiriad,
A wrendy gŵyn fy enaid tlawd:
Oni ddaw nerth o'r nef i wared,
Fe lwyr ddiffygia f' ysbryd gwan,
O moes dy law, fy anwyl Briod,
A thynn fi maes, a dwg fi 'r lan.

3 Nid oes ffordd o waredigaeth,
Ond a agorwyd ar y pren,
Llwybr pob pechadur euog,
Mewn i byrth y nefoedd wen:
Minneu ddeuaf at dy orsedd,

Er mor aflan wyf fi 'nawr,
I olchi'm archolledig enaid,
Yn dy iechydwriaeth fawr.

## HYMN 293.

*Am anfeidrol Rinwedd Congcwest* CRIST *a'i Angeu ef.*

1 MAE ynddo drysor maith didrai dóniau dwyfol,
Fel y moroedd yn parhau yn dragywyddol;
Oll a feddo nef y nef, Haleluia,
A lifodd trwy ei haeddiant ef, ar Galfaria.

2 Fe ddaeth rhinwedd maith ei ras o'r uchelder,
Yn ffrydiau peraidd iawn eu blas, afon ddisglair,
I ni yn lān o'r nen i lawr, ar Galfaria,
A'n dilyn mae fel diluw mawr, Haleluia.

3 Fe ga'r negroes dua eu lliw, yn finteioedd,
Hyfryd wledd yn hedd fy Nuw, nef y nefoedd;
Cenhedloedd ac Iuddewon ddaw yn dra ufudd,
I seinio ei glod yn Sion draw yn dragywydd.

4 Dont a'u telynau fel y dail, yn eu dwylo,
I ganu congcwest Adda'r ail, er ei hoelio;
A nefol swn ei ddwyfol gur ar Galfaria,
I'r ardaloedd pell yn wir, Haleluia.

## HYMN 294.

*Teyrnasiad* CRIST *o Fôr i Fôr.*

1 FE deyrnasa Iesu a'i ras, mewn cyfiawnder,
A gwialen ei frenhiniaeth maes, o'r uchelder;
Ei deyrnas ă o fôr i fôr, dros ei eiddo,
Tra b'o llewyrch haul a lloer; llwyddiant iddo.

2 Eistedd 'nawr ar orsedd nef mae Mab Dafydd,
Mewn cyngor o dragywyddol hedd, yn dragywydd;
Ei enw mawr a 'mdanna i maes yn rhyfeddol!
Ac fe genir am ei ras yn dragywyddol.

3 Pan esgoro'r arfaeth fawr ar ei lluoedd,
Fel y gwlith o groth y wawr, yn fil miloedd;
Yna bydd fy Mhrynwr byw mewn anrhydedd,
Ac fe'i addefir ef yn Dduw yn ddi-ddiwedd.

4 Fe gān angylion nef y nef yn dra ufudd,
Ganiadau am ei gariad ef yn dragwydd;
Ac etifeddion arfaeth rad yn cyd-uno
I'w foli am ei ddwyfol waed en ddi-flino.

## HYMN 295.

*CRIST yn bob Peth.*

1 IESU 'n unig yw fy noddfa,
Ni wela'i arall ond efe,
A däl im' fentro mywyd arno,
Ar y ddae'r nac yn y ne';
Fe yw'r twr a'r graig gadarna',
Amddiffynfa f' enaid gwan,
Tan ei gysgod byddaf ddiogel,
Deithio o'r anial mawr i'r lan.

2 Iesu yw'm Captain yn y rhyfel,
Tan ei aden diogel wyf,
Nid oes gelyn all anturio,
Pan bo'n agos, roi 'mi glwyf:
O na chawn i yn ei fynwes,
Aros mwy a gwneud fy nyth,
Heb un gelyn, heb un cwmmwl,
Guddio ei wyneb anwyl byth.

3 Iesu 'n Brophwyd ac yn Frenin,
Iesu 'n Archofferiad mawr,
O na chawn fy nysgu ganddo,
Tra bwyf ar y ddaear lawr:
Gwnaf fy nghalon i ti'n orsedd,
Lladd y ffiaidd lygredd cas,
'Speilia'r cadarn o'i arfogaeth,
Bwr ei ddodrefn oll i maes.

4 Iesu allor, Iesu 'n aberth,
Iesu 'n iechydwriaeth rad,
O na ch'ai fy enaid heddy'
Brofi mwy o rin ei waed:
Iesu ei hunan yw'r gwirionedd,
Ffordd a bywyd yw'n ddi-ble;
O gan hynny, anwyl Iesu,
Arwain f' enaid tu a thre'.

5 Iesu yw'r unig fara bywiol,
Sy'n rhoi bywyd yn ddi-ble,
Cynnal myrdd o bererinion,
Mae wrth raid wrth fyn'd i dre'
Crist sy'n gwneud y dall i weled,
A'r cloff i gerdded yn ei flaen,

A'r rhai mudion i lefaru,
A melus ganu newydd gân.

6 Iesu yw'r wisg sydd gan yr enaid,
Mae mor lân a hardd ei lliw,
Ni welir ynddi un brycheuyn,
Gan gyfiawnder pur ein Duw:
Dyma wisg na ddichon satan,
Saethu saethau trwyddi'n wir,
Dyma'r wisg lle gwelir Sion
Yn hardd ddigon cyn b'o hir.

## HYMN 296.

*Cân y Gwaredigion.*

1 GROESAW, groesaw'r hyfryd foreu,
Daccw'r haul yn ddisglair iawn,
Heb un cwmmwl redeg drosto,
Byth i guddio'i lewyrch llawn;
Ffarwel bellach bob tywyllwch,
Ffarwel g'ledwch calon gas,
Cawn, er gwaethaf anghrediniaeth,
Ganmol Iesu byth am ras.

2 Ffarwel donnau, ffarwel drallod,
Ffarwel bechod, ffarwel boen,
Ffarwel 'storom, ffarwel ryfel,
Cawn le tawel gyd â'r Oen;
Ffarwel satan, a'i holl saethau,
Meddyliau ofer ffiaidd cas,
Fu fyrdd o weithiau yn ein blino,
'Nawr 'ry'm gwedi cario'r maes.

3 Ffarwel angeu, groesaw fywyd,
Ffarwel adfyd, clod i Dduw;
Ffarwel newyn, ffarwel nychdod,
Ffarwel drallod o bob rhyw:
Ffarwel yfed dyfroedd mara,
Cawn ein gwala yma'n wir,
O lân hyfryd afon bywyd,
Gloyw fel y grisial clir.

4 Ffarwel gorph yr hen farwolaeth,
A'i ddrwg effaith o bob rhyw,
Ffarwel yspryd claiar nychlyd,
Calon oerllyd ganmol Duw;

Ffarwel greulon demtasiynau,
A gofidiau byth im mwy,
Ffarwel drymion fawr amheuon,
A slafaidd ofn gyd ā nhwy.

5 Cof yw gennym, Arglwydd Iesu,
Am dy gariad attom ni,
Pan yr oeddem rhwng y tonnau,
Ac mewn ofnau mwy nā rhi',
Ond ymhoethder mawr y rhyfel,
Ti roest lawer pottel lawn,
I'n diddanu a'n cyssuro,
Mewn rhai oriau cyfyng iawn.

6 Cofio'r y'm ni, Arglwydd Iesu,
Am dy boenau ar y pren
Yno buost yn gweddio drosom,
Cyn i angeu grymmu 'th ben;
Bellach canwn am dy gongcwest,
Cawsom fuddugoliaeth glăn,
Mae'n telynau gwedi 'u hwylio
'Nawr i seinio'r bythol gän.

7 Yn dragywydd cawn dy ganmol,
Gwel'd dy wyneb digon yw,
Nef y nefoedd ydyw gweled,
Gwel'd dy wyneb di, O Dduw;
Cawn dy garu â chalon berffaith,
A rhoi'r goron ar dy ben,
Haleluia fydd trwy 'r nefoedd,
Yn oes oesoedd byth, Amen.

## HYMN 297.

*Hiraeth am fod gyd ā* CRIST.

1 TEBYGWN fod fy nghalon,
Wrth glywed y geiriau hyn,
Mewn hiraeth am ymadael,
A myn'd i Sion fryn,
Gael gwel'd fy anwyl Brynwr,
A'i ganmol gyd ā'r llu,
Sy'n felus yn ei foli
'Nawr yn y nefoedd fry.

2 'Dwy'n gweled 'nawr ond 'chydig,
Ie, 'chydig bach trwy ddrych,

O'r llawnder sy'n y bywyd,
A'r nefol wynfyd gwych:
Nesau mae'r hyfryd foreu,
Nad aiff yr haul i lawr,
Ond byth caf weled Iesu
Yn ei ogoniant mawr.

3 'Dwy'n chwennych cael un nefoedd,
Na gwynfyd i barhau,
Ond siriol wyneb Iesu,
Ei garu a'i fwynhau:
Cael Iesu yw cael digon,
O fywyd ac o hedd;
O'i gael mae'n nefoedd yma,
'Does arall draw i'r bedd.

4 'Rwyf yma'n cael fy mlino,
Gan d'wyllwch lawer awr,
Ac anghrediniaeth creulon
Sydd am fy nghael i lawr;
Mae'r byd, a'r cnawd, a satan,
A phechod, i mi'n boen,
Mi wn nad allaf bechu
Ynghwmp'ni'r addfwyn Oen.

5 Gwynfyd na ddeuai'r amser,
Gael pechod dan fy nhroed,
Ac yspryd rhydd i garu,
A chanu i'r Iesu glod,
Ymhlith y dorf ddigyfri',
Sy'n gweiddi uwch y nen,
Hosanna, haleluia,
Fo'r Iesu byth, Amen.

## HYMN 298.

GRIST *gyd â'i Bobl.*

1 MAE 'r Iesu gyd â'i eiddo,
Fe'u dwg yn iach i'r lan,
Er gwaetha'r byd a satan,
Fe geidw'r llesg a'r gwan;
Rhai gwannaf fe a'u gesid
Yn gynnes yn ei go'l,
Ni ad e'n wir o honyn'
Un ewyn bach ar ol.

2 Ynghanol gwres y rhyfel,

Mae llawer enaid llaith,
Yn ofni mil o weithiau,
Na welant ben y daith;
Mewn ymdrech caled creulon,
A gelynion cedyrn iawn,
Yn ofni yn y boreu,
Rhaid ildio cyn prydnhawn.

3 'Nol darfod gauaf garw,
Melusach fydd yr haf,
'Nol bod yng rym y tonnau,
Bydd hafan yn lle braf;
'Nol dringo creigiau geirwon,
A'r dialydd ar ein hol,
Melusach fydd cael Iesu,
A gorphwys yn ei go'l.

4 'Nol bod yn hir mewn rhyfel,
Ynghanol mwg a thân,
Bydd melus yn y diwedd
Gael buddugoliaeth lân;
'Nol bod mewn temtasiynau,
A th'wyllwch lawer nos,
Bydd melus gael y goron,
'Nol darfod cario 'r groes.

5 'Nol bod yn hir dan lwythau,
Bydd melus ysgafnhau,
'Nol bod yn hir mewn galar,
Bydd melus lawenhau;
'Nol bod mewn hir dymhestloedd,
Bydd melus gwel'd yr haul,
Melusach fyrdd o weithiau,
Fydd gweled Adda 'r ail.

6 Mae'n hyfryd i garcharwr
Gael newydd o ryddhad,
Mae'n felus i'r rhai cleifion,
A'r clwyfus gael iachad;
Melusach fil o weithiau
Fydd gan yr enaid trist,
Gael myn'd yn dawel orphwys
I fynwes Iesu Grist.

7 Mae'n hyfryd gan bererin,
F'o 'mhell o dir ei wlad,

Ei fod wrth deithio adref
  Bron cyrraedd tŷ ei dad;
Melusach fyrdd o weithiau
  Fydd gan yr enaid gwan,
Wrth gredu caiff ef weled
  Ei Briod yn y man.

### HYMN 299.

*Aberth CRIST.*

1 ABERTH Iesu ar y pren, roes foddlonrwydd,
I gyfiawnder nefoedd wen, yn dragywydd;
Y mae myrdd myrddiynau fry, am yr uwcha',
Yn canu clod i'r Iesu cu, haleluia.

2 Mae holl seintiau'r ddaear hon yn moliannu,
O un fryd a chalon lon, enw'r Iesu;
Dymunwn inneu gyd ā nhwy, sef y gwaela',
Ganmol Iesu ganmil mwy, haleluia.

3 Clod a moliant hyd y nen i'r Oen gwerthfawr,
'Rhwn a'n prynodd ar y pren trwy boen dirfawr,
Ar y groes y llifai 'i waed, ar Galfaria,
Rhoddodd i ni bardwn rhad, haleluia.

4 O ystlys Iesu daeth i maes, fel yr afon,
Ffynnon iechydwriaeth gras, ffrydiau cochion;
Dw'r a gwaed o dan ei fron, ar Galfaria,
Canaf am y ffynnon hon, haleluia.

5 Dyma'r ffynnon sy'n glanhau rhai aflana',
Dyma'r ffynnon sy'n iachau'r clwyfau dyfna';
Dyma'r ffynnon loyw lān olch fel eira,
Byth am dani f' enaid cān, haleluia.

### HYMN 280.

*Dioddefaint CRIST.*

1 COF am y cyfion Iesu,
  Y Person mwyaf hardd,
Ar noswaith drom anesmwyth,
  Fu'n chwysu yn yr ardd;
Ei chwys yn ddafnau cochion,
  Yn syrthio ar y llawr,
Bydd canu am ei gariad
  I drag'wyddoldeb mawr.

2 Cof am y llu o filwyr,
A'u gwaywffyn yn d'od,
I ddala un diniwaid,
Na wnaeth ddim drwg erioed;
Gwrandewch y geiriau dd'wedodd,
(Pwy all'sai ond efe!)
"Gadewch i'r rhai'n fyn'd ymaith,
"Cymmerwch fi'n eu lle."

3 Cof am y wyneb siriol
Y poerwyd arno'n wir,
Cof am y cefn gwerthfawr
Lle arddwyd cwysau hir!
O anwyl Arglwydd Iesu!
Boed grym dy gariad pur
Yn torri nghalon galed,
Wrth gofio am dy gur!

4 Cof am y pigau llymion,
Oedd yn y goron ddrain,
Fe yrwyd yn ei gernau,
Do, lymion bigau rhai'n,
Hyd ne's oedd ffrydiau cochion
O waed yn rhedeg lawr
Ar hyd ei siriol ruddiau,
O dyma gariad mawr!

5 Erioed ni bu rhyfeddod
Mor hynod ar y llawr,
Gwel'd un mor ogoneddus
Yn cael fath ddirmyg mawr!
Trag'wyddol Fab Jehofa,
Gogoniant pawb uwch nen,
A phlethiad o ddrain llymion,
'N lle coron ar ei ben!

6 Cof am y cur a'r clwyfau,
A phwysau croesbren fawr,
Ar glwyfus 'sgwyddau'r Iesu,
Ne's bron a'i wasgu lawr!
Yng wres y rhyfel creulon
Ni wan-galonodd ddim,
Gongcwerodd ein gelynion,
Anfeidrol oedd ei rym!

7 Cof am yr oriau hirion,
Pan fu Tywysog nen,

A'i brydferth draed a'i ddwylo,
Dan hoelion ar y pren!
Cof am y bystl chwerw,
A'r finegr yn sur,
A roddwyd iddo yfed,
Pan oedd mewn eithaf cur.

8 Cof am ei drwm riddfannau,
A'i ddagrau, heb ddim rhif,
A'i waed o dyllau'r hoelion
Yn llifo maes yn llif!
O frodyr, gwelwch Geidwad,
Mewn cariad mawr dros ben,
Yn gweddio dros ei eiddo,
Mewn poenau ar y pren!

9 Cof am y milwr gwaedlyd,
Yn brathu'r waywffon,
Yn gymmwys yn ei ystlys,
Yn gymmwys dan ei fron;
A chwedi'n ffrydiodd allan,
Sef ffrydiau o ddw'r a gwaed,
Do, werthfawr waed ei galon!
Cof am ei gariad rhad!

10 Cof am ein Harglwydd Iesu,
Cyn iddo blygu ei ben,
Fe dd'wedodd y gair, Gorphenwyd,
Cyn marw ar y pren;
Ac yna fe 'madawodd,
I'r nef ei enaid aeth;
Bydd canu am ei gongcwest
I drag'wyddoldeb maith.

## HYMN 300.

*Adgyfodiad* CRIST.

1 GWEDI 'r Iesu dalu'r dyled,
Gorphen iechydwriaeth fawr,
Congc'ro angeu, byd, ac uffern,
Rhowd ei gorph mewn daear lawr,
Gwaethaf angeu, gwaethaf uffern,
Yn gongcwerwr daeth yn rhydd,
Yn ddiammeu'n ddigon boreu,
Maes o'u rhwymau'r trydydd dydd

2 Canu wnaf am gariad Iesu,
Pa fodd y gallaf dewi son?
Er bod miloedd gwedi canu
Lawer uwch, a gwell eu tôn;
Etto gwelaf ynddo ddigon,
Nid fel afon ond fel mör;
Ni dd'wedwyd etto ddim o hanner
Y cyflawnder sy ynddo'n 'stor.

3 Dyma gariad, ni cheir geiriau
Draethu'r filfed ran i maes,
O'r dyfnderoedd mawr di-derfyn,
Anchwiliadwy olud gras!
Dyma gariad gariodd filoedd
Trwy'r tymhestloedd mawr i'r lan,
Dyma gariad sydd hyd etto,
Yn cynnorthwyo'r enaid gwan.

4 Dyma 'r cariad mwyaf cadarn
A glywyd son am dano erioed,
Heb un dechreu na diweddiad,
Na chyfnewidiad iddo'n bod:
Dyma'r cariad mae fy enaid
Am gael nofio ynddo mwy,
Grym i garu'r hwn a garodd,
Ac i gofio am ei glwy'.

5 Dyma gariad, ni all angeu
Ddattod rhwymau hwn yn wir,
Fe fyn Iesu ei briod adre',
Rhwng ei freichiau cyn b'o hir:
Dyma gariad siwr i gongc'ro,
Ffordd y cerddo yn y blaen,
Dyma gariad ni's gorchfygir,
Gan afonydd dw'rn a thän.

## HYMN 301.

*Cyfiawnder CRIST sydd ddigon.*

1 CYFIAWNDER pur yr Oen di-nam,
Sydd ddigon am fy enaid,
Er myned heibio uffern boeth,
Fy Arglwydd doeth am gwared.

2 O dyma wisg hiraethu 'r wy',
Am brofi mwy o'i rhinwedd,

Yn hon y byddaf ddigon glân,
I fyn'd o flaen yr orsedd.

3 Trag'wyddol glod i'r addfwyn Oen,
Trwy ddirîawr boen fe'i gweithiodd,
Pwrcasodd hon â'i werthfawr waed,
'Nawr mae yn rhad i filoedd.

## SALM 1.

*Y Gwahaniaeth rhwng y Cyfiawn a'r Drygionus.*

1 GWYN fyd yr hwn nid â ar hŷd,
Ffordd lydan annuwiolion byd;
Ni châr gyfeillach gwŷr di-râs,
Ni siarad fel gwatwarwyr câs.

2 Ond ei ddifyrrwch pen na' fydd
Yng Nghyfraith Duw ar hŷd y dydd:
A'r nos mewn oriau effro cair
Y'n hoff fyfyrio yn y Gair.

3 Bydd hwn fel pren wrth ddyfroedd byw,
Yn las ei ddail yn Eglwys Duw:
A bendith hylwydd fry o'r nef
Fydd ar holl waith ei ddwylaw ef.

4 Ond pechaduriaid drwg eu hynt,
Fel us a chwelir gan y gwynt:
Eu gobaith ffol a'u hyder ffy,
Pan seinio 'r udgorn oddi fry.

5 Ofer fydd cais gelynion cas
Mewn barn gyd sefyll â phlant Gras:
Y barnwr mawr gorchymyn e',
Eu didol i wahanol le.

6 'Can's cul medd Duw yw ffordd fy saint,
'Mae 'n arwain fry i'r nefol fraint:
'Ond llwybrau croes gelynion *Crist*,
'Sy 'n tywys i'r trueni trist.'

## SALM 45.

*Gogoniant* CRIST, *a gallu ei Efengyl.*

1 O AM gael yspryd Duw, yn awr,
I foli 'Mhrynwr Frenhin mawr,
Sef Jesu, f' Arglwydd I a'm Duw,
O Pa mor dêg nefolaidd yw!

2 Ar holl Blant Dynion dan y Rhod,
Mae' oruwch Ras yn dwyn y clod:
Rhed Cariad o'i Wefusau 'n llif,
Bendithion rhyfedd heb ddim rhif.

3 Ymwisg mewn arfau, gadarn Gûn,
Gwregysa 'th Gleddyf ar dy Glun:
A marchog mewn mawrhydi a Bri,
Gwir ag addfwynder gyd a thi.

4 Dy Lid fel Piccell lem, neu saeth,
'A trwy d' Elynion cyndyn caeth;
Neu Eiriau mwyn Trugaredd Rad,
A dawdd y cyfryw wrth dy dra'd.

5 Dy Orsedd erys byth, o Dduw,
Gras yn dy Law 'th Deyrn-wialen yw,
Cyfiawn yw 'th waith a'th ddeddfau i gyd
Gras a Chyfiawnder hoffi o byd.

6 Dy Dduw, tywalltodd lawr o'r Nen
Olew llawenydd ar dy Ben;
Bendithiodd ef a'i Ysptyd byw
Ei Gynfâb uwch holl feibion Duw.

SALM 84—*Y Rhan gyntaf Mesur hir.*

*Hyfrydwch Addoliad cyhoeddus.*

1 OH! pa mor deg a hawddgar yw
Dy Babell ar y ddae'r, O Dduw,
Mae f' enaid i mewn blys a chwant
Am gwrdd a chymmanfaodd dy Blant.

2 Fy nghnawd i'th Dŷ am orphwys yw,
Fy nghalon lesg a waedda am Dduw:
Fy Nuw, fy Mrenhin, pam' bawn i
Mor bell o'th hyfryd Leoedd di!

3 Aderyn to a'r Wennol sy'
'N cael nythu oddi fewn i'th Dŷ;
A ddyru Duw i'r rhai'n y fraint,
Ag sydd ddiffigiol ar ei Saint?

4 O gwyn eu bŷd y Seintiau sy
Yn eiste ynghylch dy Orsedd fry:
Gweld yno maent d' Ogoniant maith,
Dy foli a'th garu yw eu gwaith.

5 Gwyn fyd Eneidiau sy 'n cael lle
Yn Nhemlau 'th Ras sydd is y Nef;

Cant yno wel'd dy hyfryd Wawl,
A cheisio 'th Wyneb, canu 'th fawl.

6 Gwyn fŷd y rhai a'u calon sy'
Yn ceisio 'r ffordd tua Seion fry;
Duw yw eu nerth, trwy 'r daith yn ddwys,
Ar Grist eu Prïod rhont eu Pwys.

7 O Nerth, i Nerth, yr ant o hyd,
Nes cwrddont yn y Nef i gyd;
Yn llon o'th flaen, (rai fu ymhell)
I uno mewn Addoliad gwell.

SALM 84—*Mesur newydd.*
*Hiraethu am Dy Dduw.*

1 ARGLWYDD y Bŷdoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw
Trigfannau 'th Gariad cu,
Daearol Demlau 'm Duw:
Mae tynfa f' enaid tua 'th Dŷ,
Fy Nuw, gael gwel'd dy Wyneb cu
Fy Nuw, fy Nuw, fy Nuw, &c.

2 Hoff gan aderyn to
Gael yno i'w Gywion le,
A'r Wennol ar ei thro
Hiraetha am ei thre;
Mae Zêl fy Enaid i'r un faint,
Am gael preswylio 'mhlith dy Saint,
Am gael, am gael, &c.

3 O happus Ddynion fo
'N gweddio yn y lle
Mae Duw yn gwrando i Blant,
Yn wastad molant e';
A happus ydynt hwy 'r pryd hyn,
Sy'n hoffi 'r ffordd i Seion fryn.

3 O nerth i nerth ä rhain,
Trwy Lynn Wylofain du,
Nes delont bawb gerbron
Eu Duw yn Seion fry:
O hyfryd famn pan ddugo ef
Ei Blant i gyd o'r Byd i r Nef.

SALM 89. *Efengyl fendigedig.*

1 GWYN fyd y rhai adwaenant gais
A hyfryd lais y fengyl:

Yn heddwch a goleuni Duw
Y rhodia 'r cyfryw 'n gynnil.
2 Llawenydd gwyd eu Henaid trist
Trwy Enw Crist sydd benna':
Yn ei Gyfiawnder credant hwy,
Nid satan mwy gondemnia.
3 Yr Arglwydd yw ein noddfa o hyd:
Rhydd nerth a iechyd beynydd:
Israel dy frenhin byth fydd byw,
Teyrnasa 'th Dduw 'n dragywydd.

SALM 92. *Salm ar dydd yr Arglwydd.*

1 GWAITH hyfryd iawn a melus yw
Moliannu d' Enw di, o Dduw;
Son am dy Gariad foreu glas,
A'r nos am Wirioniddau 'th Ras.
2 Y *Sabboth*, hyfryd wyl yw hon
Na fined gofal byd mo 'm bron:
Ond boed fy 'nghalon i mewn hwyl,
Fel Telyn *Ddafydd* ar yr Wyl.
3 Yn Nuw, fy nghalon llawenhair
Bendithia 'i Waith, bendithia 'i Air.
Mor hardd yw Gwaith dy Ras o Dduw!
A'th Gyngor pa mor ddyfned yw!
4 Ynfydion deall nid yw 'r rhai'n,
Fel Sgrybliaid byw, a marw maen'
Tyfent fel llysieuyn teg ei wawr,
Nes chwythech hwy i ddistryw 'lawr,
5 Ond mi gaf Ogoneddus Ran,
Pan buro Gras fy nghalon wan,
Mae gwir Lawenydd uwch y nen
Ac olew pur i lonni mhen.
6 Pechod fy ngelyn gwaetha o'r bla'n,
Ni flina 'm clust na 'm golwg lan;
Fy holl Elynion lleddu hwy;
A'm heddwch ni thyrr Satan mwy.
7 Caf wel'd a chlywed yno 'nghyd,
'R hyn a ddymunais yn y byd
A'm Henaid oll caiff felus waith,
Yn y tragwyddol fywyd maith.

*DIWEDD.*

# TABL

## I GAEL ALLAN UNRHYW HYMN WRTH Y LLINELL GYNTAF O HONI.


| Hymn | | Tudalen |
| --- | --- | --- |
| 46 | AWN ni 'mlaen mewn Pechod cas | 39 |
| 299 | Aberth Iesu ar y pren | 237 |
| 87 | Adenydd Ffydd yn awr pe cawn, | 70 |
| 245 | Aeth heibio'r gauaf chwerw du | 193 |
| 283 | A gorwyd pyrth y Nefoedd wiw | 224 |
| 164 | Anfeidrol ddyrchafedig yw | 123 |
| 122 | Anghrediniaeth gad fi'n llonydd | 94 |
| 134 | Angylion a serephiaid | 106 |
| 154 | Anial dyrus wyf fi ynddo | 118 |
| 292 | Anwyl Iesu, tynn fy meichiau | 230 |
| 133 | Arglwydd, agor dy ffynhonnau | 105 |
| 231 | Arglwydd anfon dy leferydd | [illegible] |
| 103 | Arglwydd, danfon dy leferydd | [illegible] |
| 131 | Arglwydd grasol, dyma odfa | [illegible] |
| 237 | Arglwydd grasol dyro gymmorth | [illegible] |
| 124 | Arglwydd gwrando'r gwan yn griddfan, | [illegible] |
| 58 | Arglwydd, pan fwy'n myfyrio'n syn | [illegible] |
| 128 | Arglwydd, tyred, rhwyga'r cwmmwl | [illegible] |
| 284 | At wêdd dy wyneb nid yw ddim | 225 |
| 253 | Bachgen a aned, Mab ro'w'd in' | [illegible] |
| 195 | Barna'n gyflawn beth yw'th gyflwr | [illegible] |
| 196 | Bechaduriaid anystyriol | [illegible] |
| 234 | Blant ffyddlon Si-on dewch | 182 |
| 268 | 'B'le tro fy wyneb Arglwydd eu | 213 |
| 53 | Boed i ni â n Gwefusau | 44 |
| 2 | Bydd melys gofio y cyfammod | [illegible] |
| 218 | Capten mawr ein Iachawdwriaeth | 169 |
| 175 | Chwi-chwi yr etholedig ryw | 137 |
| 123 | Chwythed y deheu-wynt hyfryd | 95 |
| [illegible] | Clodforaf di, fy Nghre'r doeth | 120 |
| 206 | Clodforwch bawb ein Harglwydd Dduw | 163 |
| 27 | Clywch Lais o'r Nef, cyhoeddi mae | 26 |
| [illegible] | Clyw hyn, O ferch! a hefyd gwel | 172 |

| Hymn | | Tydalen. |
|---|---|---|
| 207 | C'od f' enaid gwan yn fuan gwel | 160 |
| 300 | Cof am y cyfion Iesu | 237 |
| 51 | Coffawn yn llawen gydā Pharch | 42 |
| 4 | Cofia, Arglwydd, dy ddyweddi | 8 |
| 275 | Cofia f' enaid, cyn it, dreulio | 218 |
| 93 | Cofo Farwolaeth Crist ein Duw | 74 |
| 10 | Craig safadwy dan fy nhraed | 13 |
| 95 | Cry, crŷ, yw llygredd llawn | 75 |
| 148 | Cryfach addewid Duw | 114 |
| 184 | Cyd-foliannwn yr Oen anwyl, | 144 |
| 301 | Cyfiawnder pur yr Oen di nam | 240 |
| 100 | Cymmer, Iesu, fi fel ydwyf | 79 |
| 136 | Daccw'r ffynnon wedi ei hagor | 107 |
| 96 | Daeth, daeth, Ceidwad i waredu 'r caeth | 76 |
| 14 | Daeth i mi iechydwriaeth | 16 |
| 264 | Dal fi fy Nuw dal fi i'r lan | 209 |
| 228 | Dal fy llygaid, dal heb wyro | 178 |
| 288 | Darfydded dydd, darfydded nôs | 227 |
| 204 | Daw amser braf, can's gwawrio bron | 158 |
| 172 | Deffro, f' enaid pa'm y cysgu | 134 |
| 29 | Deffrowch Eneidiau llesg, deffrowch | 27 |
| 104 | Dere, Iesu, i'r ardaloedd | 82 |
| 158 | Deuwch bechaduriaid tlodion | 122 |
| 230 | Deuwch hil syrthiedig *Adda* | 180 |
| 35 | Dewch a chydseiniwch hyfryd Gaingc | 30 |
| 52 | Dewch attaf bawb, medd Iesu Grist | 43 |
| 82 | Dewch, codwn fynu i'r Nef uwchben | 67 |
| 166 | Diflasaf ar felusaf ffrwyth | 129 |
| 22 | Dyfyrru'n Hoes mewn ofer hynt | 23 |
| 263 | Does arnaf eisiau yn y byd | 208 |
| 140 | 'Does dim ar wyneb daear lawr | 110 |
| 194 | Dychwynu a wna fy enaid noeth | 150 |
| 102 | Dychwel, Arglwydd, i'th orphwysfa | 81 |
| 210 | Dy lwybrau di y'nt hyfryd iawn | 162 |
| 1 | Dyma babell y cyfarfod | 5 |
| 140 | Dyma gariad o'r fath rym, fyth na chlywir | 113 |
| 2[illegible] | Dyma geidwad i'r colledig | 170 |
| [illegible] | Dyma [illegible] f[illegible]wydd | 17 |
| 2[illegible] | Dan [illegible]dwyf yma | 216 |
| 21[illegible] | [illegible] ar dy haeddiant | 164 |
| 20[illegible] | D[illegible] man, dysg fi pa fodd | 206 |

| Hymn | | Tydalen. |
|---|---|---|
| 48 | Ein Beiau, Arglwydd, llawer y'nt | 40 |
| 67 | Ein Dyddiau, och. sy'n fyrrion iawn | 56 |
| 54 | Eneidau ffol camsyniol sy' | 45 |
| 141 | Er maint fy llygredd o bob rhyw, | 111 |
| 180 | Esgyn, f' enaid, tu ag i fynu | 141 |
| 251 | Ewn bechaduriaid at y dwfr | 197 |
| 151 | Fe dderfydd pob gofidiau maith | 116 |
| 294 | Fe deyrnasa Iesu a'i ras | 231 |
| 252 | Fe flinodd f' enaid bach ynghri | 198 |
| 94 | Fe fydd rhyw ganu peraidd | 75 |
| 109 | Fe gā i 'tifeddion gras | 85 |
| 55 | Fel Chwant Babanod am y Fron | 45 |
| 39 | Fel hyn, medd y goruchel Un | 35 |
| 101 | Fe'm llyngcwyd i fynu mewn syndod i gyd | 80 |
| 110 | Fe rowd arno bwys euogrwydd | 86 |
| 90 | Ffenestri 'th Ras eu caru wnaf | 72 |
| 50 | Ffydd ydyw yr egluraf Brawf | 42 |
| 71 | Ffynnon fy holl Lawenydd yw | 59 |
| 183 | Fy anwyl Grist yw'm Noddfa gref | 143 |
| 239 | Fy enaid a lewgai | 189 |
| 69 | Fy enaid deffro, a'm Tafod cān | 57 |
| 274 | Fy ffiol yma sydd yn llawn | 217 |
| 177 | Fy ngweddi dos i 'r nef, | 139 |
| 240 | Fy Nuw, a'm Tad trugarog | 190 |
| 81 | Fy Nuw, fy Nerth, a'm Bywyd i | 66 |
| 267 | Fyth fyth rhyfeddai'r cariad | 211 |
| 91 | Galarwyr, p'le, medd f' Arglwydd 'cair | 73 |
| 11 | Gelynion creulon sydd yn llu | 14 |
| 225 | Gofidus ddyddiau'm pererindod | 175 |
| 12 | Golch, ni, oddiwrth ein beiau aml ri' | 15 |
| 296 | Groesaw, groesaw'r hyfryd foreu | 233 |
| 300 | Gwedi 'r Iesu dalu'r dyled | 239 |
| 130 | Gwel fi, Arglwydd, dan fy nghlwyfau | 102 |
| 142 | Gwirionedd, dan ei enw | 111 |
| 21 | Gwrandawed Clustiau pob Dyn byw | 22 |
| 192 | Gwrandawed gwilwyr Sion gu | 149 |
| 160 | Gwyn ei fyd y dyn sy'n gwybod | 124 |
| 45 | Gwynfyd Eneidiau difadch sy'n | 38 |
| 97 | Gwynfyd na welwn bechod | 77 |
| 66 | Gwynfyd y Galon bur lle mae | 55 |

| Hymn | | Tudalen. |
|---|---|---|
| 190 | Gwynfyd y gŵr a ddidwyll gâr | 118 |
| 269 | Gwyn fyd y rhai, dileaist eu bai | 213 |
| | | |
| 165 | Hiraethu'r wyf am werthfawr hedd | 120 |
| 92 | Hir ddisgwyl, Arglwydd, y bum i | 73 |
| 116 | Hwn ydw'r dydd a wnaeth ein Duw | 91 |
| 86 | Hwn ydyw'r Gair o Gariad mawr | 70 |
| | | |
| 255 | Iachawdrwr dynolryw | 200 |
| 188 | Iachawdwr hoff! pechadur wyf | 147 |
| 279 | Iesu a wnaethpwyd gan Dduw'r Tad | 220 |
| 147 | Iesu, cymmer fi'n dy gol, rhag diffygio | 113 |
| 243 | Iesu, difyrrwch fy enaid drud | 192 |
| 295 | Iesu 'n unig yw fy noddfa | 232 |
| 226 | I'r Aiphat daeth Iesu'm gwared | 176 |
| 238 | I'r ddaear a'i gwagedd | 188 |
| 63 | I'r Meusydd nefol fry lle rhed | 57 |
| 31 | I'r unig ddoeth afeidrol Dduw | 29 |
| | | |
| 37 | Lliw Nos, pan oedd hi'n dywyll du | 33 |
| 6 | Llwybr cwbl groes i natur | 10 |
| | | |
| 247 | Mae addewidion nef o 'm hochor | 195 |
| 265 | Mae Brenhin Nêf ar fyr yn d'od | 210 |
| 289 | Mae brodyr i mi 'aeth ym mlaen | 228 |
| 112 | Mae dydd at ddydd yn d'od i ben | 88 |
| 171 | Mae f' enaid yn hiraethu | 134 |
| 216 | Mae fy nghalon am ehedeg | 167 |
| 135 | Mae f' Nuw yn fy nghyryddu | 107 |
| 73 | Mae Gwlad o Wynfyd pur heb Haint | 60 |
| 248 | Mae holl gariadau'r ddaear hon | 195 |
| 236 | Mae llwoedd maith ymlaen | 186 |
| 298 | Mae 'r Iesu gyd â 'i eiddio | 235 |
| 265 | Mae rhyw ddirgelwch llawer mwy | 210 |
| 214 | Mae rhyw foroedd o drugaredd | 165 |
| 224 | Mae 'r manna gwedi ei gael | 174 |
| 290 | Mae'r 'stormydd mawr a'r dyfroedd maith | 229 |
| 293 | Mae ynddo drysor maith | 231 |
| 74 | Meddyliau cruddion ymaith ewch | 61 |
| 40 | Mewn Bywyd mae gwas'naethu Duw | 35 |
| 43 | Mewn Tywyllwch 'rwy m, a Chyflwr trist | 37 |
| 227 | Mi feddliais yn y boreu | 177 |

| Hymn | | Tydalen. |
|---|---|---|
| 170 | Mi fum yn fab afradlon | 132 |
| 155 | Mi wela'r Pen-rhyfelwr | 119 |
| 30 | Mor gref yw'th Fraich allnog Dduw! | 28 |
| 179 | Mor hardd, mor dêg, mor hyfryd yw | 140 |
| 23 | Mor hardd yw Traed y rhei'ny sy' | 24 |
| 70 | Mor wag yw pob Peth sy'n y Byd? | 53 |
| 176 | Myfi yw 'r gangen, Crist yw 'r Pren | 138 |
| | | |
| 76 | Nac ofna, f' Enaid, fynu co'd | 62 |
| 137 | Na'd fod genny' ond dy ogoniont | 108 |
| 162 | Newyddion da y'm yn glywed | 125 |
| 257 | Newyddion bräf a ddaeth i'n bro, | 203 |
| 47 | Nid â'r Golygon marwol hyn | 40 |
| 42 | Nid Ffurfiau allanol o un Rhyw | 37 |
| 88 | Nid Gwaed yr holl 'Nifeiliaid gwâr | 71 |
| 145 | Nid oes aberth o unrhyw, ymhlith miloedd | 113 |
| 5 | Nid oes gwrthddrych ar y ddaear | 9 |
| 99 | Nid oes munud bach o'm bywyd | [illegible] |
| 129 | Nid oes, trwy gydol ddyddiau byr fy oes | 101 |
| 258 | Nid oes un gwrthddrych yn y byd | [illegible] |
| 193 | Nid yw'r cyfoeth, nid yw'r cyfan | [illegible] |
| 182 | Nid yw'r greadigaeth helaeth hon | [illegible] |
| 254 | Ni phery ddim yn hîr | [illegible] |
| 83 | Ni's gallaf, Arglwydd, oddef | 68 |
| 113 | Ni's gall angylion nef y nef | 88 |
| 286 | Ni's gall Angylion pur eu dawn | 226 |
| | | |
| 235 | O agor fy llygald i weled | [illegible] |
| 18 | O am ddreiddio i'r adnabyddiaeth | [illegible] |
| 26 | O am gael Ffydd fuddugol fawr | [illegible] |
| 270 | O am nerth i dreulio'm dyddiau, | [illegible] |
| 186 | O Arglwydd, chwilia nghalon wael | 145 |
| 187 | O Arglwydd Dduw, anfeidrol dda | [illegible] |
| 178 | O Arglwydd Dduw, bywha dy waith | [illegible] |
| 118 | O Arglwydd grasol, bydd o'm plaid | [illegible] |
| 203 | O Arglwydd grasol, erglyw'm cri | [illegible] |
| 199 | O Arglwydd! gwel fi'n llesg a gwan | [illegible] |
| 28 | O b'le daw'n gwan Feddyliau prudd? | [illegible] |
| 114 | O cenwn fawl i'r Ceidwad fyth | [illegible] |
| 59 | Och fi! a waedodd f' Arglwydd cu? | [illegible] |
| 77 | O cyfod fynu, f' Enaid b[illegible]w | [illegible] |
| 149 | O deuwn at yr ordinhad | 115 |

| Hymn | | Tydalen. |
|---|---|---|
| 75 | Oddiwrthyt ti fy Nuw, a'm Rhan | 61 |
| 132 | O Dduw, rho ffydd i ddringo i'r nen | 104 |
| 189 | O disgleiria, Arglwrdd, arnaf | 147 |
| 130 | O drag'wyddol Graig yr oesoedd | 1[illegible]2 |
| 285 | O edrych arnaf, Arglwydd mawr | 2[illegible]5 |
| 161 | O enaid athrist, cwyd dy ben! | 125 |
| 185 | O Erglyw'm cwyn, fy Arglwydd cu | 145 |
| 233 | Of' enaid dôs ymlaen | 183 |
| 41 | Ofer yw Gobaith pob rhyw Ddyn | 36 |
| 200 | O fugail Israel, dwg 'mla'n, | 155 |
| 8 | Ofy enaid nac anghofia | 12 |
| 12[illegible] | Ofy enaid paid ac ofni | 99 |
| 125 | O fy enaid, tro dy olwg | 97 |
| 60 | O groesaw Ddydd o Orphwysdra a Hedd | 51 |
| 72 | O happus Eglwys, sanctaidd Le | 59 |
| 174 | Oh! melus yw 'r llawenydd sydd | 136 |
| 2[illegible] | O iachawdwr pechaduriaid | 215 |
| 1[illegible]3 | O Iesu archrist in' | 135 |
| 117 | O Iesu, attat 'rwyf yn d'od | 91 |
| [illegible] | O Iesu, fy Iachawdwr mawr | 112 |
| [illegible] | O Iesu mawr, y meddyg gwell | 219 |
| 61 | O'm Meddwl dos Fyd gwag er dim | 51 |
| [illegible] | O mor werthfawr yw'r gair perffaith | 132 |
| 1[illegible] | Ona bai cystuddiau f' Arglwydd | 87 |
| 2[illegible] | O na bai cystuddiau f' Arglwydd | 179 |
| 159 | Ona mor wynfydedig yw | 123 |
| [illegible] | O pwy yw hon sy'n llesg a gwan | 163 |
| [illegible] | O'r fath Lawenydd sy'n y Ne' | 65 |
| 79 | O'r iechydwriaeth fawr yng Nghrist | 64 |
| [illegible] | O'r [illegible] gredd afian, hyll ei lun | 153 |
| 9 | O'r nefoedd clywch ar fore clir | 13 |
| 15[illegible] | O's gwelir fi bechadur | 115 |
| 157 | O's rhaid bod rhyfel cyn cael hedd | 121 |
| 17 | Os rhaid wynebu 'r afon donog | 18 |
| 220 | O's yw'n gofidiau yn y byd | 172 |
| [illegible] | O trown yn ol i weled lle cad | 29 |
| 2[illegible]6 | O tyred Arglwydd mawr | 2[illegible]1 |
| 1[illegible]1 | O tyred, Arglwydd, saif wrth raid | 94 |
| 78 | Paham mae'ch Gwedd, Plant gweinion Duw | 64 |
| 62 | Paham mae Nghalon i mor bell | 52 |
| 115 | Paham mae yw fy enaid i | 96 |

| Hymn | | Tudalen |
|---|---|---|
| 281 | Pa ham y rhed fy meddwl | 222 |
| 56 | Pa'm bydd i Blant y Brenin mawr | 47 |
| 64 | Pa'm f' Enaid wyt yn ddiofalhau? | 54 |
| 271 | Pa'm y caiff bwystfilod rheipus | 2[illegible]5 |
| 25 | Pan glywy'r Iesu'n dweud, "Y bydd | 25 |
| 211 | Parod yw'n Duw i faddeu bai | 163 |
| 222 | Pe b'ai yn gorfod ar y rhai n | 1[illegible]3 |
| 205 | Pe cawn ond teimlo'r awel gref | 159 |
| 3 | Pechadur aflan yw fy enw | 7 |
| 259 | Pechadur wyf da gwyr fy Nuw | 204 |
| 163 | Pererin wyf yn y byd | 1[illegible]5 |
| 249 | Pererin wyf mewn anial dir | 196 |
| 198 | Pererin wyf tu a Salem bur | 154 |
| 24 | Pwy ddamnia'r Etholedig rai? | 25 |
| 44 | Pwy draetha'r fath Lawenydd sy' | 33 |
| 38 | Pwy ydyw hon sy'n deg ei P[illegible]d | 34 |
| 260 | Pwy ydyw hon sy'n llesg a gwan | [illegible]5 |
| 282 | Rhaid i mi gael pob gras pob dawn | 223 |
| 89 | Rhwng Cnawd ac Ysbryd Rhyfel fydd | 72 |
| 13 | Rhyfeddol byth rhyfeddol | 15 |
| 16 | Rhyfedd, rhyfedd gan angylion | 13 |
| 202 | 'Rwi 'nawr bob dos a dydd ar daith | [illegible] |
| 244 | Rwy 'n edrych dros y bryniau pell | [illegible] |
| 276 | Rwy'n gorwedd yn carchar du | [illegible] |
| 278 | Rwy'n morio tu a gatre'm Ner | [illegible] |
| 291 | 'Rwy' yma'n griddfan dan y groes | [illegible] |
| 107 | Saith o weithiau, ol a gwrthol, | [illegible] |
| 181 | Sancteiddrwydd têg yw harddwch ty | 142 |
| 246 | Tan fy maich yr wyf yn griddfan | 194 |
| 297 | Tebygwn fod fy nghalon | 234 |
| 201 | Trafaelwyr y'm i'r *Canaan* glyd | 156 |
| 191 | Trwy 'th gadarn allu di, ein Duw | 149 |
| 35 | Tyd'r hwn mae fy Enaid drud | 33 |
| 250 | Tyr'd Arglwydd, a'th addewid rad | 197 |
| 108 | Tyred, Arglwydd, i'r anialwch | 85 |
| 153 | Tyred Iesu i'r anialwch | 117 |
| 215 | Tyr'd i fynu o'r anialwch | 166 |
| 63 | Tyr'd nefol G'lommen oddi fry | 53 |
| 65 | Tyr'd Yspryd Glân, Colommen Ne' | 55 |
| 287 | Tyr'd Ysbryd sancteidd, ledia 'r ffordd | 227 |

| Hymn | | Tydalen. |
|---|---|---|
| 209 | Wel dyma hwy 'r gadwedig hil | 162 |
| 232 | Wel dyma'r cyfaill goreu ga'd | 182 |
| 242 | Wel, dyma 'r Pererinion dewr | 192 |
| 120 | Wel, dyma gyfoeth gwerthfawr, llawn | 93 |
| 126 | Wele'r Brawd fu dan yr hoelion | 98 |
| 49 | Wele'r Crochenydd, wele'r Clai | 41 |
| 34 | Wele'r fath Gariad rhy fedd rhâd | 31 |
| 7 | Wele 'n sefyll rhwng y myrtwydd | 11 |
| 20 | Wele'r Gogoniant mawr a fedd | 21 |
| 36 | Wele yma Rosyn Saron mwyn | 32 |
| 106 | Wel, f' enaid, gorfoledda mwy, | 84 |
| 139 | Wel, ferched Sion dewch | 110 |
| 105 | Wel, ymgysura 'nawr | 83 |
| 57 | Wrth Draed y Iesu i addoli dewch | 47 |
| 262 | Wrth droi fy ngolwg yma'n awr | 207 |
| 98 | Wrth dy borth rwy fi yn waitio | 78 |
| 133 | Wrth dy orsedd 'rwyf fi'n gorwedd | 109 |
| [illegible]23 | Wrth feddwl am dy ryfedd waith | 174 |
| 119 | Y cwbl fedda'i oll yn un, | 92 |
| 85 | Yddeddf sy'n erchi, a dweud beth yw | 69 |
| 280 | Y ffynnon loyw hyn | 222 |
| 217 | Y mae 'r Orian yn fy ngalw | 168 |
| [illegible] | Y mae torf o 'lynion creulon | 21 |
| 167 | Ymaith o'm gwydd bob gwrthddrych gwael | 130 |
| [illegible]44 | Ymhlith holl ryfeddodau'r nef | 112 |
| 84 | Yn mhob rhyw Drallod blin y bwyf | 68 |
| 142 | Yn iach, i bawb o'r byd yn awr | 117 |
| 2[illegible]8 | Y[illegible] mae'r apostolion mawr | 161 |
| 168 | Yr Arglwydd yw ngorfoledd i | 131 |


## SALMAU.


| Salm | | Tydalen |
|---|---|---|
| 84 | Arglwydd y Bŷdoedd fry | 243 |
| 92 | Gwaith hyfryd iawn a melus yw | 244 |
| 89 | Gwyn fyd rhai adwaenant gais | 243 |
| 1 | Gwyn fyd yr hwn nid â ar hŷd | 241 |
| 45 | O! am gael yspryd Duw, yn awr | 241 |
| 84 | Oh! pa mor deg a hawddgar yw | 242 |

Thm
Owens

John Owen

1 2 3 4 5 E C

10 9 8 7 6

11 12 13 14 15 Eaenin

Eom ou

J

John Owen.